

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Rhys Goch Eryri

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

Eurig Salisbury, BA, MPHIL

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH RHYS GOCH ERYRI

golygwyd gan

DYLAN FOSTER EVANS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2007

© Prifysgol Cymru ©, 2007.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-0-947531-97-3

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Cyflwynir testunau cyfansawdd o'r cerddi, gan ddangos y darlenniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Nodwyd yr holl amrywiadau ac eithrio'r rheini o lawysgrifau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y gwyddys eu bod yn gopïau o lawysgrifau hysbys. Os yw darlenniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o lawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny trwy roi'r gair neu'r geiriau sy'n eisiau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllenadwy neu wedi eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynwyd y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai bod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai bod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys.

Ceir nodiadau ar enwau personau ac enwau lleoedd ac unrhyw eiriau, ymadroddion neu elfennau eraill y teimlir bod angen ymdriniaeth bellach â hwy. Fel rheol, oni thrafodir gair penodol, gellir cymryd bod yr ystyr a gynigir iddo gan *Y Geiriadur Mawr* (Llandysul, 1993) yn addas. Os oes amwysedd, trafodir hynny yn y nodiadau. Yn y Mynegai ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a'r enwau a drafodir yn y nodiadau.

Y golygiad safonol er 1937 o waith Rhys Goch Eryri yw IGE². Yr oedd llawysgrifau Peniarth a Mostyn ar gael i Ifor Williams wrth baratoi'r golygiad hwnnw, ac yn llawysgrifau'r ddau gasgliad hyn y ceir y testunau pwysicaf o waith Rhys Goch Eryri. Oherwydd hynny, a chan fod Ifor Williams yn ysgolhaig testunol heb ei ail, gwelir bod y testun ar y cyfan yn dilyn IGE² yn bur agos. Os oes gwahaniaeth sylweddol, nodir hynny yn y nodiadau. Bu'n rhaid addasu'r atalnodi yn bur aml, ac yn gyffredinol ni thynnwyd sylw at hynny. Y mae nodiadau IGE² yn gryno iawn, ac ni cheir nodiadau o gwbl ar rai cerddi. O ganlyniad y mae'n anodd gwybod weithiau sut yn union yr oedd Ifor Williams yn dehongli rhai llinellau, ond lle y teimlir bod y golygiad presennol yn anghytuno ag ef, crybwyllir hynny yn y nodiadau. Y mae nodiadau'r golygiad hwn yn llawer llawnach, a gobeithir y byddant o gymorth wrth i ddarllenwyr fynd i'r afael â gwaith bardd a ymorchestai ar brydiau mewn arddull ddigon cymhleth.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; yr Athro Emeritws D.J. Bowen, Mr Daniel Huws, Mr Tomos Roberts a Mrs Elen Simpson. Hoffwn ddiolch hefyd i'm chwaer Manon Foster Evans am ei chymorth hithau. Y mae arnaf ddyled fawr i Gyfarwyddwr a staff y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd am eu cymorth a'u cefnogaeth ac i'r Athro Sioned Davies a staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am bob cymwynas. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Ann Parry Owen am fy nghyflwyno i waith Rhys Goch Eryri ac am ei gwaith trylwyr a manwl wrth bararoi'r gyfrol ar gyfer y wasg, ac i'r Athro Gruffydd Aled Williams, cyfarwyddwr fy nhraethawd PhD ar y bardd, am ei arweiniad parod. Yr wyf yn ddyledus iawn i'm teulu, ac yn arbennig fy rhieni, am eu cefnogaeth. Yn olaf, diolchaf i Anna, fy ngwraig, am ei hir amynedd.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xxii
GWAITH RHYS GOCH ERYRI	
RHAGYMADRODD	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Marwnad Maredudd ap Cynwrig o Borth-aml.....	45
2. I lys Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn.....	49
3. Marwnad Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn.....	55
4. Achau Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn	61
5. Gofyn cylllell hela gan Ddafydd ap Hywel.....	65
6. Marwnad Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw	72
7. Ateb cyntaf Rhys Goch Eryri i Lywelyn ab y Moel	79
8. Ail ateb Rhys Goch Eryri i Lywelyn ab y Moel	86
9. Gyrru'r ddraig goch at Syr Wiliam ap Tomas o Raglan	93
10. Marwnad Llywelyn ab y Moel.....	99
11. Ymryson Rhys Goch Eryri a Siôn Cent.....	104
12. Cywydd yn galw am adfer Gwynedd.....	111
13. Ymddiddan rhwng y bardd a Merddin a Thaliesin	116
14. I Feuno a Hu Gadarn.....	124
15. I'r farf.....	130
16. Awdl ddychan i Fadyn y llwynog am ladd paun y bardd.....	136
ATODIADAU	
i. Ymryson ag Ieuan ap Rhydderch.....	149
ii. Hiraeth am arweinydd (Rhys ap Dafydd ab Iorwerth).....	150
NODIADAU.....	151
GEIRFA.....	257
Enwau lleoedd	281

Enwau personau.....	284
LLAWYSGRIFAU	285
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	295
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU.....	297

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- ArchifMR <<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>>
(Archif Melville Richards)
- Arm P² *Armes Prydain ... from the Book of Taliesin*, ed. and annotated by Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- AWR *Acts of the Welsh Rulers, 1120–1283*, ed. Huw Pryce (Cardiff, 2005)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn), ym Mhrifysgol Bangor
- Bangor (Penrhos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Penrhos), ym Mhrifysgol Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- Beirn *Y Beirniad*, gol. J. Morris Jones (1911–20)

BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
BI BGCC	<i>Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar</i> , gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)
BI B XIV	<i>Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
BMW	<i>Breudwyt Maxen Wledic</i> , ed. Brynley F. Roberts (Dublin, 2005)
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Abersytwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
BY	<i>Y Bibyl Ynghymraec</i> , gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1940)
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CA	<i>Canu Aneirin</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CBPM	G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912)
CC	<i>The Cefn Coch MSS</i> , ed. J. Fisher (Liverpool, 1889)
CCR	<i>Caernarvon Court Rolls, 1361–1402</i> , Caernarvonshire Historical Society Record Series i, ed. G.P. Jones and H. Owen (Caernarvon, 1951)
CH	William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o Ganu'r Beirdd i'r Herbertiaid hyd Ddechrau'r Unfed Ganrif ar Bymtheg' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
CLC ²	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)

- CLIG *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, gol. Owen Jones (Llundain, 1876)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CLILI *Cyfranc Lludd a Llefelys*, ed. Brynley F. Roberts (Dublin, 1975)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- Cy *Y Cymmrodor, the Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CyT *Cyfoeth y Testun*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (Caerdydd, 2003)
- Chirk Llawysgrif yng nghasgliad Castell y Waun, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- ChO *Chwedleu Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam, 1926)
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dat ‘Datguddiad Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- R.R. Davies: LSMW R.R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales* (Oxford, 1978)
- R.R. Davies: ROG R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995)

- DB *Delw y Byd*, gol. Henry Lewis a P. Diverres (Caerdydd, 1928)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DGGD *Detholiad o Ganu Gofyn a Diolch*, gol. Bleddyn Owen Huws (Caernarfon, 1998)
- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- EWSP *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
- FfBO *Ffordd y Brawd Odrig*, gol. Stephen J. Williams (Caerdydd, 1929)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBC *Gorchestion Beirdd Cymru*, gol. Rhys Jones (Amwythig, 1773)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)

- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG² *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (ail arg., Caerdydd, 1963)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GeirB *Geiriadur Beiblaidd*, gol. Thomas Rees, D. Francis Roberts, J.T. Evans, David Williams, Ifor Williams (2 gyf., Wrecsam, 1926)
- Gen 'Genesis' yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)

- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, i: Canu i deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, ii: Cerddi Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii: Cerddi Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)

- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMBr *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GMWL Timothy Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manchester, 1913)
- GO *L'oeuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- G.W. Goetinck: Peredur *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)

- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- R.A. Griffiths: PW i Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSDT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HD *Survey of the Honour of Denbigh, 1334*, ed. Paul Vinogradoff and Frank Morgan (London, 1914)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HM ii *History of Merioneth, Volume II: The Middle Ages*, ed. J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith (Cardiff, 2001)

- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- J. Glyn Davies Llawysgrif yng nghasgliad J. Glyn Davies, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J. Gwenogvryn Evans Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwenogvryn Evans, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- Llawdden, &c.: Gw M.G. Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A. Cymru [Bangor], 1937)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LII *Llyfr Iorwerth*, ed. Aled Rhys Wiliam (Cardiff, 1960)
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: hanes beirniadol llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd ([Caernarfon], 1984).

Math	‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
MCF	< http://maldwyn.llgc.org.uk > (Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; nodir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth)
Merthyr Tudful	Llawysgrif Merthyr Tudful, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MFGLI	<i>Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau</i> (Caerdydd, 1978)
Mont Coll	<i>Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club</i> , 1868–
J. Morris-Jones: CD	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
Mos	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MWM	Daniel Huws, <i>Medieval Welsh Manuscripts</i> (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
NLWCM	J.H. Davies, <i>The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts</i> , i (Aberystwyth, 1921)
OBWV	<i>The Oxford Book of Welsh Verse</i> , ed. Thomas Parry (Oxford, 1976)
OCD ³	<i>The Oxford Classical Dictionary</i> , ed. Simon Hornblower & Antony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
ODCC ³	<i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> , ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
OED ²	<i>The Oxford English Dictionary</i> (second ed., Oxford, 1989)
PACF	J.E. Griffith, <i>Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families</i> (Bangor, 1914)
Pant	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Peniarth 49 *Peniarth 49*, copïwyd a golygwyd gan Thomas Parry (Caerdydd, 1929)
- Peniarth 67 *Peniarth 67*, transcribed and edited by E. Stanton Roberts (Cardiff, 1918)
- Peniarth 76 *Peniarth 76*, copïwyd gan E. Stanton Roberts a golygwyd gan W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1927)
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhÿs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RCAHM (Caernarvonshire) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, 'Caernarvonshire'* (3 vols., London, 1956, 1960, 1964)
- Rec C *Registrum vulgariter nuncupatum 'The Record of Caernarvon'*, ed. H. Ellis (London, 1838)
- RM *The Text of the Mabinogion ... from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhÿs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1887)
- RWH 1285–1286 *Records of the Wardrobe and Household 1285–1286*, ed. Benjamin F. Byerly and Catherine Ridder Byerly (London, 1977)
- RWH 1286–1289 *Records of the Wardrobe and Household 1286–89*, ed. Benjamin F. Byerly and Catherine Ridder Byerly (London, 1986),
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)

- D. Stephenson: GG David Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984)
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- TCHSG *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- P.W. Thomas: GG Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP³ *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- VSb *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A.W. Wade-Evans (Cardiff, 1944)
- WCCR² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (ail arg., Lerpwl, 1962)
- G. Williams: RRR Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c. 1415–1642* (Oxford, 1987)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adargr., Caerdydd, 1973)
- WSur T.J. Morgan and Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Cardiff, 1985)
- WVBD *The Welsh Vocabulary of the Bangor District*, ed. O.H. Fynes-Clinton (Oxford, 1913)

- WWR² H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (second ed., Stroud, 1998)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Gerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YMTh² *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (ail arg., Caerdydd, 1967)
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1897–

Termau a geriau

a.	ansoddair, -eiriol		gan
adf.	adferf	grch.	gorchmynnol
amhff.	amherffaith	grff.	gorffennol
amhrs.	amhersonol	gw.	gweler
ardd.	arddodiad, -iaid	H.	Hen
arg.	argraffiad	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	<i>id.</i>	<i>idem</i>
b.	benywaidd	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
be.	berfenw	ll.	lluosog; llinell
bf. (f.)	berf, -au	Llad.	Lladin
c. (g.)	canrif	llau.	llinellau
<i>c.</i>	<i>circa</i>	llsgr.	llawysgrif
C.	Canol	llsgrau.	llawysgrifau
cf.	cymharer	m.	mewnol; dyddiad
Cym.	Cymraeg		marw
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	n.	nodyn
dib.	dibynnol	neg.	negydd, -ol
dyf.	dyfodol	O.C.	Oed Crist
e.	enw	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
eb.	enw benywaidd	pres.	presennol
ed.	<i>edited by, edition</i>	prff.	perffaith
e.e.	er enghraifft	prs.	person, -ol
eg.	enw gwrywaidd	r	<i>recto</i>
e.p.	enw priod	rh.	rhagenw, -ol
f.	ffolio	S.	Saesneg
ff.	ffolios	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
Ffr.	Ffrangeg	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	volumes
gn.	geiryn		
gol.	golygydd, golygwyd		

Rhagymadrodd

Enw a chartref y bardd

Fel yn achos nifer o'r Cywyddwyr, dengys enw'r bardd o ba ran o Gymru yr hanai.¹ Gŵr o Eryri ydoedd, a cheir ef sawl tro yn ei farddoniaeth yn ymuniaethu â'r ardal fynyddig honno yng Ngwynedd.² Ond er mai 'Rhys Goch Eryri' yw'r ffurf gyffredin ar ei enw ers dwy ganrif bellach, nid dyna'r ffurf a geir yn y llawysgrifau cynharaf sy'n cynnwys ei waith neu sy'n cyfeirio ato. Fel y nododd Ifor Williams, 'Rhys Goch o'r Yri' neu ffurfiau tebyg a geir gan amlaf yn yr hen destunau, a dyna, fel arfer, sut yr adwaenid y bardd cyn i arfer ysgolheigaidd ddiweddar sefydlu 'Rhys Goch Eryri' yn ffurf safonol.³ Ffrwyth rhannu'r enw Eryri yn ddwy elfen yw'r ffurfiau amrywiol, gan dybio mai'r fannod oedd yr elfen gyntaf. O ganlyniad cafwyd ffurfiau fel 'Rhys Goch o'r Yri' neu 'o'r Ryri'. Nid tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg y cafwyd mesur o sicrwydd ynglŷn â ffurf safonol ar enw'r ardal a pharai'r enw gryn ansicrwydd i gopiwyr cerddi Rhys Goch, fel sy'n amlwg o'r llawysgrifau.⁴ Yn wir, prin yw'r dystiolaeth dros y ffurf 'Rhys Goch Eryri' cyn dyddiau Robert Vaughan (c. 1592–1667), ac ni ddaw'n gyffredin tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae rhyw addasrwydd yn perthyn i'r ffurf 'yr Yri' gan na ellir cymathu'r ffurf honno â'r gred mai 'lle'r eryr' oedd ystyr yr enw: cartref dreigiau'r brutiau ac nid eryrod oedd Eryri i Rys Goch.⁵ Eto i gyd, at bwrpas y gwaith hwn cadwyd at y ffurf 'Rhys Goch Eryri', sef y ffurf gyfarwydd bellach; o'i gwrthod byddai'n rhaid dewis rhwng 'o'r Yri', 'o Ryri' ac 'o'r Ryri' a chan nad oes cysondeb yn nhystiolaeth y llawysgrifau, gellir cyfiawnhau defnyddio'r ffurf yr ydym bellach yn gyfarwydd â hi.

Ni chyfeiria Rhys Goch ei hun at union leoliad ei gartref yn Eryri, ond y mae toreth o dystiolaeth—yn achau, yn ddogfennau sy'n ymwneud â'i ddisgynyddion, yn gyfeiriadau llenyddol, yn llawysgrifau o'i farddoniaeth—sy'n profi yn ddiameuol mai Hafodgaregog, Nanmor, oedd y cartref hwnnw.⁶

¹ Ceir trafodaeth helaethach ar y materion yr ymdrinnir â hwy yn y rhagymadrodd hwn yn Dylan Foster Evans, 'Astudiaeth feiriadol a thestunol o waith Rhys Goch Eryri' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 2004).

² Ceir y drafodaeth ddiweddaraf ar gefndir Rhys a'i farddoniaeth yn Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn HM ii, 560–4.

³ IGE xciii.

⁴ Trafodir y gwahanol ffurfiau ar *Eryri* yn I. Williams: ELI 19–20.

⁵ Gw., e.e., 7.28n.

⁶ Ar hanes Nanmor, gw. Colin A. Gresham, 'Nanmor Deudraeth', *Cylchg CHSFeir viii* (1977–8), 97–121, lle y ceir yr astudiaeth fanylaf ar hanes Hafodgaregog i'w chyhoeddi hyd yn hyn; ceir map

Rhan o blwyf Beddgelert oedd Nanmor, ac yn yr Oesoedd Canol yr oedd yn rhan o gwmwd Arudwy. Yr oedd gweddill y plwyf yn perthyn i sir Gaernarfon, ond ystyrir Nanmor yn rhan o sir Feirionnydd hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁷ Ffurfiar Hafodgaregog ran o Wely Gwyn ab Ednywain, gwely a ymestynnai dros ffin y ddwy sir.⁸ Trigai Rhys, felly, ar ffin weinyddol rhwng Arudwy ac Eifionydd a rhwng sir Feirionnydd a sir Gaernarfon.

Dengys elfen gyntaf yr enw Hafodgaregog i gartref Rhys Goch unwaith fod yn rhan o stad ehangach, ond ni wyddys pryd y daeth yn uned annibynnol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o hafodydd sir Feirionnydd, sydd ar uchder o chwe chan troedfedd neu fwy, nid yw Hafodgaregog ar dir uchel.⁹ Saif, fel y dengys ei enw, ar godiad o dir creigiog uwchben pen uchaf y Traeth Mawr.¹⁰ Y mae'n debyg iddo gael ei enw o ganlyniad i'r arfer o fynd â phreiddiau yno ddechrau'r haf i fanteisio ar y tyfiant melys ar y tir creigiog. Fel y nododd R.M. Sayce mewn astudiaeth o hafodydd sir Drefaldwyn, byddai tirlun o'r fath yn debycach o gynnal geifr yn hytrach na gwartheg, awgrym gogleisiol o gofio honiad Siôn Cent fod y Rhys Goch ieuanc wedi gofalu am eifr ei fam.¹¹

Ni oroesodd unrhyw ran o Hafodgaregog y byddai Rhys Goch wedi ei hadnabod.¹² Dyddia'r tŷ presennol o tua 1600, gyda rhai ychwanegiadau diweddarach. Dywedir i'r hen dŷ sefyll rhwng yr adeilad presennol ac Afon Nanmor, ond nid oes bellach ddim olion amlwg i brofi hynny. Er hynny, cadwyd cof am Rys Goch yn yr enwau a roed ar rai o nodweddion daeryddol yr ardal—fe'u trafodir yn llawnach isod wrth sôn am le Rhys Goch yn llên gwerin ei ardal.

o'r ardal ar d. 92. Trafodir y stad a rhai o'r traddodiadau ynglŷn â hi gan Garneddog (Richard Griffith, 1861–1947) yn 'Hafod Garegog', *Cymru*, x (1896), 29–38, ac ar d. 29 cyhoeddir englyn i Hafodgaregog sy'n enwi Rhys Goch gan 'Fred. Buckingham'. Buasai'r Carneddi, cartref Carneddog, yn rhan o stad Hafodgaregog cyn iddo ei phrynu yn 1921, gw. Bleddyn Owen Huws, 'Y ddau Garneddi: golwg ar rai o lythyrau olaf Carneddog', *LICy* xxiv (2001), 153 a Colin A. Gresham, *art.cit.* 119.

⁷ Gw. Hugh J. Owen, 'Alterations of Merioneth county boundaries', *Cylchg CHSFeir* iii (1957–60), 165–6, a'r map yn J. Beverley Smith, 'Parishes and Townships in Medieval Merioneth', yn *HM* ii, 723.

⁸ Ar Wely Gwyn ab Ednywain, gw. Colin A. Gresham, *Eifionydd: A Study in Landownership from the Medieval Period to the Present Day* (Cardiff, 1973), 147. Ar Wyn ab Ednywain, gw. isod.

⁹ Elwyn Davies, 'Hendre and Hafod in Merioneth', *Cylchg HSFeir* vii (1973–6), 24.

¹⁰ Ar yr enw Hafodgaregog, gw. Melville Richards, 'Hafod and hafoty in Welsh place-names', *Mont Coll* lvi (1959–60), 17.

¹¹ Ar hafodydd Maldwyn, gw. R.M. Sayce, 'The old summer pastures', *Mont Coll* liv (1955–6), 123–4. Cf. sylwadau John Leland ar ardal Is Aled: 'The south part is hilly, good for gotes, and hath little wood in respecte', gw. *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536–1539*, ed. Lucy Tolmin Smith (London, 1906), 95. Ar Siôn Cent a'r geifr, gw. 11.4n.

¹² Ceir disgrifiad o Hafodgaregog (SH 606 443) fel y mae heddiw ynghyd â chynllun o'r tŷ presennol yn RCAHM (Caernarvonshire) ii, 19–20. Gw. hefyd Peter Smith, *Houses of the Welsh Countryside* (London, 1975), 441, 492, 533. Yn ôl Elwyn Davies, 'Hendre and hafod in Caernarvonshire', *TCHSG* xl (1979), 30, tŷ beili o'r 17g. yw'r adeilad presennol.

Ei ach

Er mai Rhys Goch Eryri yw'r ffurf gyfarwydd ar enw'r bardd bellach, ceir y ffurfiau Rhys ap Dafydd neu Rys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd mewn rhai llawysgrifau sy'n cynnwys ei waith.¹³ Yn y llyfrau achau cadwyd ei ach yn llawnach. Dyma ach y bardd fel y'i ceir gan P.C. Bartrum:

Rhys Goch Eryri ap Dafydd (ab Iorwerth) ab Ieuan Llwyd ap Rhirid ap Carwed ap Gwyn Ddistain ab Ednywain ab Eiginir ap Gollwyn.¹⁴

Gwelir bod yma ansicrwydd ynglŷn â chenedlaeth taid Rhys Goch gan fod rhai o'r llawysgrifau yn nodi Iorwerth ab Ieuan Llwyd fel enw'r taid yn hytrach nag Ieuan Llwyd. Datrys y broblem hon, felly, yw'r cam cyntaf wrth fynd ati i astudio cefndir Rhys Goch.¹⁵ Seiliwyd yr ach uchod ar dystiolaeth tair llawysgrif sydd i'w cael yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sef Pen 134, 471 (Robert Vaughan o Hengwrt); Pen 136, 203 (Gruffudd Hiraethog); a Pen 139ii, 326 (Wiliam Llŷn). Ceir copi arall o'r ach yn llawysgrif Bangor 5943, sydd, y mae'n debyg, yn llawysgrif a fu'n eiddo i Wiliam Cynwal ac a ddefnyddiwyd ganddo ar gyfer cadw nodiadau bras cyn eu trosglwyddo i lyfrau achau mwy graenus.¹⁶ Y mae copi arall eto ar gael mewn llythyr a anfonwyd gan Robert Vaughan o Hengwrt at Morris Williams o Hafodgaregog, un o ddisgynyddion Rhys Goch.¹⁷ Ni cheir dyddiad wrtho, ond awgryma T.E. Parry iddo gael ei gyfansoddi tua 1665, pan benodwyd Morris Williams yn uchel siryf Meirionnydd.¹⁸ At ei gilydd, y mae'r ffynonellau hyn o blaid y ffurf a geir yn rhai o'r llawysgrifau barddoniaeth, sef Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd. Er hynny, ceir Iorwerth fel enw'r taid mewn ach gan Wiliam Llŷn (Pen 139ii, 326). Dichon fod modd rhoi cyfrif am hynny trwy ragdybio cymysgu rhwng Rhys Goch a bardd arall a chanddo enw tebyg, sef Rhys ap Dafydd (Llwyd) ab Iorwerth.¹⁹ Gallwn fod yn hyderus, felly, mai'r ffurf wreiddiol ar ach y bardd oedd Rhys Goch ap Dafydd ab Ieuan Llwyd ap Rhirid ap Carwed. Ceir prawf pellach o hynny o astudio hanes ei hynafiaid.

¹³ Gw., e.e., BL Add 14866 [= RWM 29], 511 (David Johns); Gwyn 3, 161 (Jaspar Gryffyth); a Pen 112, 815 (John Jones, Gellilyfdy).

¹⁴ P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 3.

¹⁵ Ni ddaeth Ifor Williams i gasgliad pendant ynglŷn â chywirdeb yr ach, gw. IGE² xxxix, nac ychwaith Colin A. Gresham, gw. *art.cit.* 107. Cynnwys Iorwerth a wna PACF 199, ond ni wyddys beth oedd ei ffynhonnell.

¹⁶ Ceir yr ach yn Bangor 5943, 36; ar y llsgr., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor), 42–78. Y mae'n amlwg fod y fersiwn hwn yn bur lwgr.

¹⁷ Ceir trawsysgrifiad ohono yn T.E. Parry, 'Llythyrau Robert Vaughan Hengwrt (1592–1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau' (M.A. Cymru [Bangor], 1960), 450–4. Ceir y copi gwreiddiol o'r llythyr yn BL Harley 1977, 196. Ar Morris Williams, gw. isod.

¹⁸ T.E. Parry, *op.cit.* 520.

¹⁹ Gw. tt. 10–11 a hefyd Atodiad 2.

Ei hynafiaid

Perthynai Rhys Goch i lwyth Gollwyn ap Tangno, sefydlydd un o bymtheg llwyth Gwynedd. Amcangyfrifa Bartrum mai tua 1025 y ganed Gollwyn, ac ef, yn ôl traddodiad, oedd arglwydd Ardudwy, Eifionydd a Llŷn.²⁰ Yr oedd ei fab Eiginir, hynafiad Rhys Goch, yn un o nifer o frodyr a gyfoesai â Gruffudd ap Cynan o Wynedd (c. 1055–1137), a daw'r teulu i'r amlwg am y tro cyntaf o ganlyniad i'w cysylltiad â'r brenin hwnnw. Enwir y brodyr yn 'Vita Griffini Filii Conani' sy'n enghraifft unigryw, hyd y gwyddys, o fuchedd tywysog o Gymro.²¹ Cymysg oedd ffawd Gruffudd ym mlynnyddoedd cynnar ei yrfa, a daw meibion Gollwyn i'r amlwg ar un o'i gyfnodau anhawsaf. Cawsai Gruffudd ei ddal trwy dwyll gan Huw Iarll Caer ac, o ganlyniad, bu'n rhaid iddo dreulio oddeutu un mlynedd ar bymtheg mewn carchar yng Nghaer (cyfnod y cyfeirir ato yng ngherdd 12). Fodd bynnag, trwy gymorth gŵr ifanc o'r enw Cynwrig Hir, llwyddodd i ddianc a dychwelyd i Wynedd. Ond nid oedd croeso iddo yno a bu'n rhaid iddo a rhai o'i gymdeithion grwydro'r wlad yn ddiymgeledd wedi iddynt fethu â chyrraedd Iwerddon oherwydd gwyntoedd anffafriol. Dyna pryd y daw meibion Gollwyn i'r amlwg, gan ofalu amdano a rhoi cyfle iddo ailddechrau ar ei ymdrechion yn erbyn y Ffrancwyr. Y mae'n bosibl mai Rhys Goch yw'r unig fardd i gyfeirio'n benodol at y rhan hon o yrfa Gruffudd ap Cynan, a gall cyswllt ei hynafiaid â'r brenin hwnnw fod yn arwyddocaol.

Nid ymdengys fod dim ar glawr ynglŷn ag Ednywain, mab Eiginir. Ond yr oedd ei fab, Gwyn ab Ednywain, yn ffigur pwysig yng Ngwynedd yn niwedd y ddeuddegfed ganrif a dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg. Gelwir ef yn rhai o'r rhestrau achau yn 'Gwyn Ddistain' gan mai ef oedd distain neu brif swyddog Llywelyn ab Iorwerth. Cyfeirir ato sawl gwaith mewn dogfennau sy'n ymwneud ag arweinwyr Gwynedd rhwng tua 1199 a thua 1210. Ni cheir sôn amdano wedi hynny, ac erbyn oddeutu 1216 yr enwog Ednyfed Fychan oedd distain Llywelyn. Ef oedd sylfaenydd llinach Tuduriaid Penmynydd a theulu Gruffudd y Penrhyn, prif noddwyr Rhys Goch.²²

Y mae'r ffaith fod y gwely a gynhwysai Hafodgaregog wedi ei enwi ar ôl Gwyn ab Ednywain yn awgrym o'r ffafriaeth a enillwyd ganddo. Ond adlewyrchir ei safle yn llys Llywelyn yn fwyaf clir gan ei gysylltiadau teuluol. Ni chofnodir bod brawd ganddo, ond yr oedd ganddo un chwaer, Gwenllïan a briododd ag Owain Cyfeiliog o Bowys (c. 1128–97), un o ffigurau mwyaf deniadol hanes a llenyddiaeth Cymru.²³ Y mae'n bosibl iawn fod Owain yn fardd, ac onid oedd, diau ei fod yn ŵr a chanddo

²⁰ EWGT 157.

²¹ Gw. *Vita Griffini Filii Conani: The Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan*, ed. and trans. Paul Russell (Cardiff, 2005), 74. Am fersiwn Cymraeg y testun, gw. HGK 18–19 (18.20–19.17).

²² Gw. D. Stephenson: GG 215, 14.

²³ P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 29.

ddiddordeb anarferol yn y gyfundrefn farddol.²⁴ Priododd Annes, merch Gwyn ab Ednywain, â Ricart ap Cadwaladr ap Gruffudd, mab i Gadwaladr ap Gruffudd ap Cynan a'i wraig Adles ferch Richard, Iarll Clâr.²⁵ Trwy'r briodas honno cafwyd, ymhen amser, gysylltiad rhwng teuluoedd Gwyn ab Ednywain ac Ednyfed Fychan.²⁶

Y cymeriad mwyaf diddorol yn hanes teulu Rhys Goch yw ei hen daid, Rhirid ap Carwed ap Gwyn. Ni lwyddwyd i ganfod unrhyw gyfeiriad at Garwed ap Gwyn, ond erbyn 1285 yr oedd ei fab wedi gadael ei gynefin yn Eifionydd ac wedi ymuno â llys gorchfygwr Gwynedd, y Brenin Edward I ei hun. Ceir nifer helaeth o gofnodion am Ririd a'i gyd-Gymry a wasanaethai gydag ef yn nogfennau'r llywodraeth Seisnig gan gynnwys rholiau'r sianseri, 'The Book of the Controller', 'The Counter-Roll of Daily Expenses', 'The Book of Treasures' a'r 'Roll of Necessary Expenses'.²⁷ Yr oedd Rhirid a'i frawd Cynwig wedi ymuno â'r llys brenhinol erbyn misoedd cyntaf 1285,²⁸ a chan mai ei enw ef sydd ar ben y rhestr, ymddengys fod Rhirid yn arweinydd ar y fintai hon. Treuliodd y ddau frawd, ynghyd â nifer o Gymry eraill, gryn dipyn o amser yn Lloegr cyn iddynt ymuno â'r osgordd fawreddog a oedd wedi ei chynnull gan Edward I ym mis Mai 1286 er mwyn croesi i Ffrainc i ymweld â'i diroedd yng Ngwasgwyn.²⁹ Y mae'n debyg i Ririd a'i gyd-Gymry dderbyn lifrai ac arfau newydd ar gyfer y daith hir o'u blaenau.³⁰ Croesodd Edward I ar 13 Mai, a cheir syniad o faint ei osgordd o'r ffaith fod mil o geffylau wedi croesi'r môr mewn dwsinau o longau.³¹

Trwy ddilyn Edward I a'i lys, byddai Rhirid wedi ymweld â Pharis ac Orléans. Y mae peth eironi yn hyn, oherwydd nodir yn yr achau fod dau o'i ddisgynyddion, sef meibion Rhys Goch Eryri ei hun, wedi marw yn nhref Orléans.³² Ar ôl ymweld â'r manau hynny, aeth y llys brenhinol yn ei flaen i Fontevrault (Maine-et-Loire), lle o bwys personol i Edward gan mai yno y claddwyd nifer o'i hynafiaid. Ond er gwaethaf y cysylltiadau personol hyn, ni bu ymweliad y llu â'r fan yn un hapus. Trawyd nifer o'r cwmni yn wael a bu'n rhaid gadael nifer ohonynt yno am nad oeddynt yn ddigon iach i barhau â'r daith i'r de.³³ Yn eu plith yr oedd Rhirid—ceir cofnod o'i salwch ar 2

²⁴ Arno, gw. CLC² 548; GLIF 191–277; Gruffydd Aled Williams, 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?', BaTh 180–201.

²⁵ P.C. Bartrum: WG1 'Gruffudd ap Cynan' 2.

²⁶ Gw. 4.14n.

²⁷ Ceir y cyfeiriadau at Ririd yn y manau canlynol: RWH 1285–1286, 67–8, 70, 78, 84, 89, 90, 252; RWH 1286–1289, 6, 23, 73, 75, 76, 89–90, 101, 117, 220, a 222.

²⁸ *Calendar of Chancery Rolls: Various (1277–1326)*, 298.

²⁹ Ceir manylion y daith yn J.P. Trabut-Cussac, 'Itinéraire d'Edouard I^{er} en France, 1286–1289', *Bulletin of the Institute of Historical Research*, xxv (1952), 165–203.

³⁰ RWH 1285–1286, xii–xiii.

³¹ Michael Prestwich, *Edward I* (London, 1990), 323.

³² Gw. isod tt. 12–13.

³³ Michael Prestwich, *op.cit.* 324.

Medi 1286.³⁴

Gwellodd iechyd Rhirid gydag amser, ond yn y cyfamser cawn ambell gipolwg ar ei fywyd tra oedd yn glaf yn Ffrainc o ganlyniad i'r taliadau a wnaed iddo ef o bryd i'w gilydd gan swyddogion y brenin. Ymddengys fod ganddo was i ofalu amdano a'i gyd-Gymry—gelwir ef yn *Gervase* (ai Iorwerth?) mewn un ffynhonnell.³⁵ Yr un gŵr oedd, o bosibl, â'r macwy (*pagus*) y clywir sôn amdano o bryd i'w gilydd, megis pan dalwyd costau Rhirid a'i gymdeithion am fynd ar neges o Uzeste (Gironde) i gyfeiriad Bordeaux,³⁶ a phan oedd Rhirid yn dal i ddiodeff o'i salwch yn St Sever (Landes).³⁷ Yn ddi-ddorol iawn, clywn fwy nag unwaith am gyfieithydd i Ririd a'i gyd-Gymry.³⁸ Diau mai am gyfieithu o'r Ffrangeg yr oedd y galw, ond tybed ym mha iaith y cyfathrebai Rhirid a'i gymdeithion â'r cyfieithydd hwnnw? Diddorol hefyd yw'r cyfeiriad at angen Rhirid a'i gyd-Gymry am esgidiau newydd ar ddechrau'r gaeaf a dechrau'r haf: cofnodir y taliadau a wnaed iddynt am hyn mewn sawl man gwahanol.³⁹

Yn ystod y misoedd hyn nid arhosodd Rhirid a'i gymdeithion yn Fontevrault yn unig ond cawsant gyfle i ymweld â sawl man arall, gan gynnwys porthladd pwysig Bordeaux yng Ngwasgwyn.⁴⁰ Sylwer bod tystiolaeth Rhirid ei hun mewn dogfen a gyfansoddwyd rywdro yn y cyfnod c. 1322–4 yn dweud iddo wasanaethu'r Brenin Edward I yn ffyddlon yn Aragon, yng Ngwasgwyn ac mewn manau a gwledydd eraill.⁴¹ Er mai dyma'r unig gyfeiriad a gafwyd at ymweliad ag Aragon, y mae'n ddigon posibl iddo fynd yno gan i Edward I ymweld â'r lle ei hun yn 1288.

Y mae'n anodd gwybod pa bryd y dychwelodd Rhirid i Gymru. Nis enwir yn y ddogfen a elwir 'The Merioneth Lay Subsidy Roll' a luniwyd yn 1292–3, efallai am iddo gael caniatâd i beidio â thalu'r dreth oherwydd ei gysylltiad â llys y brenin. Serch hynny, erbyn blynyddoedd cynnar y degawd nesaf, y mae'n glir ei fod wedi dychwelyd i'w gynefin ei hun, ac yr edrychai llywodraeth Edward arno'n ffafriol o hyd, fel y dengys gwŷs a gyhoeddwyd yng Nghaer-gaint ar 15 Gorffennaf 1292 a'i hapwyntiodd yn fforestydd Eifionydd.⁴² Elfen bwysig yn y swydd fyddai sicrhau na thorrid cyfraith y fforest, gan gynnwys y cyfyngiadau ar hawliau hela, dyletsywyd arwyddocaol o gofio am ddelweddaueth Rhys Goch Eryri yn ei gywydd i ofyn cylllell hela (cerdd 5).

³⁴ RWH 1285–1286, 67–8.

³⁵ *Ib.* 78–9; RWH 1286–1289, 6.

³⁶ *Ib.* 26.

³⁷ *Ib.* 1085.

³⁸ RWH 1285–1286, 78–9; RWH 1286–1289, 16.

³⁹ RWH 1285–1286, 90, 252; RWH 1286–1289, 75, 76, 220, 222.

⁴⁰ RWH 1286–1289, 26.

⁴¹ *Calendar of Ancient Petitions Relating to Wales*, ed. William Rees (Cardiff, 1975), 130.

⁴² *Calendar of Various Chancery Rolls, Supplementary Close Rolls, Welsh Rolls, Scutage Rolls, A.D. 1277–1326* (London, 1912), 352.

Ni wyddys beth oedd rhan Rhirid yng ngwrthryfel Madog ap Llywelyn,⁴³ ac ni cheir sôn ychwaith amdano yn y dathliadau ar adeg urddo Edward o Gaernarfon (yn ddiweddarach Edward II) yn dywysog Cymru yn 1301. Ond y mae'n amlwg na fu Rhirid yn hir cyn manteisio ar nawdd yr Edward ifanc, ac yng nghofnodion siryf Caernarfon am y flwyddyn 1303–4, nodir mai ef a ddaliai swydd y rhaglaw yng nghymydau Dinllaen, Cymydaen a Chafflogion yng nghantref Llŷn.⁴⁴

Daw Rhirid i'r amlwg unwaith eto yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg mewn cyfnod anodd a chythryblus i Edward II a'i lywodraeth. Ymddengys fod cored bysgota a fuasai gynt ym meddiant ei deulu wedi ei chymryd oddi arno gan Roger Mortimer pan oedd yn ustus Gogledd Cymru. Dichon mai cwmp Roger yn 1321 a arweiniodd at gyflwyno'r gŵyn. Ceir cyfeiriadau at yr achos mewn sawl ffynhonnell gyfoes, er nad yw'n glir a fu ymdrechion cyfreithiol Rhirid yn llwyddiannus.⁴⁵

Os methu fu ei hanes, byddai hynny'n esbonio paham y bu iddo—o bosibl—chwarae rhan yn un o'r digwyddiadau a achosodd y poendod mwyaf i'r awdurdodau yng ngogledd Cymru rhwng cwmp Mortimer a gwrthryfel Glyndŵr, sef llofruddiaeth enwog atwrnai'r tywysog, Henry de Shaldeford, yn 1345.⁴⁶ Enwir un 'Rhirid Goch ap Carwed' mewn dogfen y cyfeirir ati mewn llythyr dyddiedig 12 Mawrth 1345 a ysgrifennwyd gan Richard Stafford at swyddogion y tywysog. Anfonodd Stafford fanylion ynglŷn â'r llofruddiaeth, gan gyfeirio at restr o wŷr a oedd wedi eu cyhuddo o gynllwyn a ffeloniaeth, ond a oedd â'u traed yn rhydd o hyd.⁴⁷ Ymhlith y gwŷr a oedd wedi eu cyhuddo o gynllwyn y mae Rhirid Goch ap Carwed.⁴⁸ Ai'r un gŵr ydoedd hwn, felly, â'r gŵr a dreuliasai fisoedd lawer yng nghwmni Edward I ar y Cyfandir drigain mlynedd ynghynt? Nid oes modd rhoi ateb pendant. Gwyddys bod Rhirid yn fyw o hyd yn 1322–4, ond y mae bwlch o dros ugain mlynedd rhwng hynny a 1345. Os oedd yn fyw o hyd yn y flwyddyn honno, rhaid tybio ei fod oddeutu pedwar ugain oed.

⁴³ Ar y gwrthryfel yn sir Gaernarfon, gw. A.D. Carr, 'Madog ap Llywelyn: the revolt of 1294–5 in Caernarfonshire', TCHSG lviii (1997), 35–46, ac ym Meirionnydd, gw. D. Huw Owen a J. Beverley Smith, 'Government and Society 1283–1536', yn HM ii, 66–71. Enwir un *Ririith ap Guen* (Rhirid ap Gwyn / Gwên) mewn rhestr o wystlon o siroedd Meirionnydd a Chaernarfon a luniwyd ar ddiwedd y gwrthryfel, gw. John Griffiths, 'The revolt of Madog ap Llywelyn, 1294–5', TCHSG xvi (1955), 24. Y mae posibilrwydd bychan mai camgymeriad yw hwn am Ririd ap Carwed ap Gwyn.

⁴⁴ Gw. W.H. Waters, 'Account of the Sheriff of Caernarvon for 1303–4', B vii (1935–7), 149.

⁴⁵ *Calendar of Chancery Warrants preserved in the Public Record Office ... A.D. 1244–1326* (London, 1927–), 556; William Rees, *op.cit.* 54, 130–1. Daeth yr achos llys hwn i'r amlwg eto yn ddiweddar wrth iddo gael ei ddefnyddio yn sail i ddigwyddiad yn nofel Wiliam Owen Roberts, *Y Pla* (ail arg., Bangor, 1987). Yno, cyflwynir yr un achos i'r dirprwy siryf gan gymeriad o'r enw Dafydd Hir sy'n amlwg wedi ei seilio ar Ririd ap Carwed, gw. *ib.* 27–8.

⁴⁶ Ceir yr hanes yn AWH 193–7.

⁴⁷ *Calendar of Ancient Correspondence Concerning Wales*, ed. J. Goronwy Edwards (Cardiff, 1935), 229–30.

⁴⁸ *Ib.* 228.

Y mae hanes Rhirid ap Carwed yn ddidorol ynddo'i hun, ond yng ngoleuni cyfeiriadau Rhys Goch at Edward I ac Edward II (cerddi 2 ac 11; dylid nodi bod cyfeiriadau o'r fath yn ddigon prin yng nghanu'r beirdd), a hefyd, o bosibl, y cysylltiad â Pharis yn fuan wedi cyfnod Thomas Aquinas (gw. 11.96n), y maent yn fwy diddorol fyth. Diau y byddai Rhys Goch yn gwbl gyfarwydd â hanes ei hen daid, ac nad damweiniol yw rhai o'r cyfeiriadau mwyaf diddorol yn ei waith.

Erbyn 1352, dyddiad stent sir Gaernarfon, yr oedd Rhirid wedi marw a'i fab Ieuan wedi cymryd ei le yn benteulu. Yr oedd hefyd wedi etifeddu peth o statws uchel ei dad, gan ei fod ymhlith y deuddeg gŵr rhydd a ddewiswyd i ddod ynghyd yng Nghricieth i gyflwyno a gwarantu'r wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â chwmwd Eifionydd.⁴⁹ Ceir enw Ieuan yn ddiweddarach yn yr un ddogfen lle y cofnodir y manylion am wŷr rhydd Treflys, gan ddangos ei fod wedi etifeddu cyfran o diroedd y teulu yn y drefgordd honno. Rhydd hynny ryw syniad am ei sefyllfa economaidd yn y cyfnod hwn.⁵⁰

Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth bendant am Ddafydd, tad Rhys Goch. Awgrymodd Colin A. Gresham mai ef oedd y cyntaf o'r teulu i ymsefydlu'n barhaol yn Hafodgaregog, ond ni ellir profi hynny.⁵¹ Yn ôl nodyn yng nghyfrol gyntaf y *Cambro-Briton*, 'there is a quillet on Grosor Farm, in Nanmor, called Llys Dafydd Rhys, this Dafydd was father of Rhys Goch Eryri, as it is generally supposed'.⁵² Y mae'n amlwg i ryw faint o ach Rhys Goch aros ar gof a chadw yn yr ardal hon, ond y ffordd arferol o ddeall 'Dafydd Rhys' fyddai fel 'Dafydd fab Rhys', felly dichon y mae'n debyg y dylid gwrthod y traddodiad hwn am dad Rhys Goch. Cyfeiria Colin A. Gresham ymhellach at draddodiad mai fferm Caeddafydd nid nepell o Hafodgaregog oedd cartref Dafydd Nanmor, ac mai Rhys Goch a'i rhoes iddo.⁵³ Eto, y mae'n anodd profi neu wrthbrofi hyn, ond sylwer bod nodyn ar waelod copi LIGC 843B, 56 o gywydd Rhys Goch i Syr Wiliam ap Tomas o Raglan yn nodi mai Rhys Goch oedd *Aer Hafod Garegog a chae Ddafydd yn Nanmor*.⁵⁴

Unig blentyn oedd Dafydd, yn ôl pob golwg, ond y mae achau'r teulu hwn yn foel iawn a dichon nad yw pob un aelod o'r teulu wedi ei gofnodi ynddynt. Yng ngoleuni hynny y mae'n demtasiwn casglu mai brawd i Ddafydd oedd yr Hywel ab Ieuan Llwyd a oedd yn rhingyll Eifionydd yn 1401.⁵⁵ O ran oedran a statws cymdeithasol, y mae'n gweddu i'r hyn a

⁴⁹ Gw. Rec C 39.

⁵⁰ *Ib.* 40. Ceir cyfieithiad o'r ddogfen yn Colin A. Gresham, *Eifionydd: A Study in Landownership from the Medieval Period to the Present Day* (Cardiff, 1973), 147; a hefyd yn *id.*, 'The townships of Gest, Treflys and Ystumllyn', TCHSG xviii (1957), 11.

⁵¹ Colin A. Gresham, 'Nanmor Deudraeth', 107.

⁵² *The Cambro-Briton and General Celtic Repository*, i (1819), 209.

⁵³ Colin A. Gresham, *art.cit.* 118–19.

⁵⁴ Trafodir y cysylltiadau â Dafydd Nanmor yn Nia M.W. Powell, 'Dyfal Dafydd Nanmor', LICy xxvii (2004), 101–12.

⁵⁵ Ralph A. Griffiths, 'The Glyn Dŵr Rebellion through the eyes of an Englishman', B xxii

ddisgwyliid gan un o ewythrod Rhys Goch. Ond dyfalu yn unig yw hynny.

Rhys Goch

Ymdriniwyd hyd yn hyn â hynafiaid Rhys, a chafwyd gwybodaeth sy'n datgelu rhywfaint am ei gefndir cymdeithasol a statws ei gyndeidiau yn ardal Eifionydd. Ond pan eir ati i geisio llunio peth o hanes bywyd Rhys Goch ei hun, y mae'r dystiolaeth yn denau. Gall fod sawl rheswm am hyn. Yn gyntaf, ac yntau'n w'r a dreuliodd ran helaeth o'i oes yn ystod anhrefn gwrthryfel Glyndŵr a'i adladd, y mae'n bosibl mai prin iawn oedd yr hyn a gofnodwyd amdano gan y llywodraeth Seisnig. Nid yw'n anodd dangos sut y gallai effaith y gwrthryfel fod wedi rhwystro unrhyw gofnodion hanesyddol amdano rhag cael eu cadw. Er enghraifft, os gellir credu geiriau'r swyddogion, yr oedd cantref Eifionydd yn gwbl amddifad o unrhyw drigolion rhwng 1409 a 1410!⁵⁶ Y mae'n bosibl hefyd i unrhyw wybodaeth a gofnodwyd am Rys Goch gael ei cholli mewn cyfnod diweddarach yn sgil yr hyn y cyfeiriodd Dr A.D. Carr ato fel 'several centuries of depredation among the archives of the administration at Caernarvon'.⁵⁷

Yr ail broblem wrth geisio dod o hyd i Rys Goch yw ei enw. Er bod yr enw Rhys Goch Eryri (neu 'o'r Yri', &c.) yn unigryw ac yn gofiadwy, nid yw'n sicr mai dyna'r ffurf a ddefnyddid mewn cofnodion a dogfennau swyddogol. Dichon mai Rhys ap Dafydd fyddai'r ffurf arferol at ddibenion felly, ond y mae'r enw hwnnw mor gyffredin fel nad oes diben chwilio amdano. Ond y mae diben chwilio am gyfeiriadau at yr enw 'Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd'—un gŵr yn unig â'r enw hwnnw a geir gan P.C. Bartrum yn ei restr o unigolion a aned yn y cyfnod 1350–1415, a Rhys Goch Eryri ei hun yw hwnnw.⁵⁸

Gan anwybyddu cyfeiriadau nad ydynt yn nodi mwy na 'Rhys ap Dafydd', cafwyd dau gyfeiriad hanesyddol posibl at Rys Goch, a'r ddau yn rholiau llys Caernarfon o nawdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Perthyn y cyfeiriadau i lysoedd y ffair, sef y llysoedd a oedd yn ymwneud ag ymwelwyr â'r dref. Hwy, felly, oedd y llysoedd a oedd yn fwyaf tebygol o ddelio ag unigolion megis Rhys Goch nad oeddynt yn byw yn nhref Caernarfon. Daw'r cyfeiriad perthnasol cyntaf o gofnodion llys y ffair a gynhaliwyd ar 20 Medi 1395:

John Bron' amerced 3d. because he did not sue Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd for debt.⁵⁹

(1966–8), 163.

⁵⁶ *Ib.* 163n2.

⁵⁷ A.D. Carr. 'Some Edeyrnion and Dinmael documents', B xxi (1964–6), 244–5. Nodir prinder ffynonellau swyddogol o Feirionnydd am y cyfnod hwn yn D. Huw Owen a J. Beverley Smith, 'Government and Society 1283–1536', yn HM ii, 64 a 78–84.

⁵⁸ P.C. Bartrum: WG1 'Index'.

⁵⁹ *Caernarvon Court Rolls 1361–1402*, ed. G.P. Jones a H. Owen (Caernarvon, 1951), 132.

Daw'r ail o gofnodion llys y ffair a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 1396:

Goronwy ab Iorwerth ap Heilin amerced 4d. because he did not sue Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd for debt.⁶⁰

Y mae'r ddau achos yn debyg iawn i'w gilydd: cafodd John Bron' (sef 'Brown', y mae'n debyg) a Goronwy ab Iorwerth ap Heilin eu dirwyo am beidio â mynd ymlaen ag achos o ddyled yn erbyn Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd. Yr oedd y math hwn o achos yn gyffredin iawn, ac y mae'n bosibl mai'r rheswm paham nad aethpwyd â'r cwynion ymhellach oedd bod Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd wedi talu ei ddyledion cyn dyddiad yr achos. Ai yr un oedd ef â Rhys Goch Eryri?

O ffynhonnell lenyddol y daw'r cyfeiriad cyfoes tebygol arall at Rys. Daw o gerdd gan gyfoeswr a chydabod iddo, sef 'Cywydd y Cwest' gan Ruffudd Llwyd.⁶¹ Canwyd y gerdd i ofyn i Syr Dafydd Hanmer roi cwest o brydyddion ar Forgan Hael o sir Gaerfyrddin, a oedd wedi ei gyhuddo o lofruddiaeth. Gan fod y bardd yn cyfeirio at y barnwr fel 'Syr Dafydd', y mae'n rhaid ei bod wedi ei chanu rhwng tua 1386, pan urddwyd Dafydd yn farchog, a chanol haf 1387, pan fu farw.⁶² Ynndi, ymddengys fod y bardd yn cyfeirio at Rys Goch:

Nid anos cael, hael hoywlys,
 Barn gywir o rhifir Rhys,
 Un o'r rhai gorau ieuainc
 Y dyry farn, aed i'r fainc;
 Rhifer Rhys, hysbys ei hawl,
 Brydydd y gerdd briodawl,
 Fab Dafydd, ffynidwydd ffawd,
 Gerth fab Ierwerth bybyrwawd ...⁶³

Ymddengys yn ddigon clir fod dau Rys yn cael eu henwi yma. Ni roddir enw llawn i'r cyntaf ohonynt, ond fel y nota Dr Rhiannon Ifans, ceir yng nghopi cynharaf y gerdd hon (Card 2.114 [= RWM 7]) nodyn esboniadol ar y *Rhys* cyntaf sy'n ei alw'n *R. goch or yri*; derbynir hynny gan y copiwr diweddarach.⁶⁴ Fel y nota Dr Ifans ymhellach, erbyn copïo BL Add 14882 [= RWM 31] rywbryd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, 'yr oedd y cywydd wedi codi cwpled ychwanegol i esbonio pa Rys a olygid: *Gwelem ynod galwem ni / gwych ar air goch or yri* ac fe'i copïwyd i lsgrau. BHQ yn ddiweddarach' (sef BL Add 14873 [= RWM 55], BL Add 15034, a LIGC 1982B [= Pant 13]).⁶⁵ Er nad yw'n ymddangos bod y gerdd wedi cynnwys

⁶⁰ *Ib.* 139. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i unrhyw Oronwy ab Iorwerth ap Heilin yn yr achau.

⁶¹ GGLI cerdd 10.

⁶² R.R. Davies: ROG 138; GGLI 240.

⁶³ GGLI 124 (10.31–8).

⁶⁴ *Ib.* 246 (10.32n).

⁶⁵ *L.c.* Cynhwysodd Ifor Williams y cwpled hwn yn ei olygiad ef o'r gerdd, gw. IGE² 117 (llau. 1–12).

enw'r bardd yn llawn yn y lle cyntaf, nid yw Dr Ifans yn amau nad Rhys Goch Eryri yw'r Rhys cyntaf y cyfeirir ato. Y Rhys ap Dafydd ab Iorwerth a enwir wedyn yw'r bardd a gyfansoddodd y cywydd byr a geir yn Atodiad 2 isod, sef yr un gŵr, yn ôl pob tebyg, â'r Rhys ap Dafydd Llwyd ab Iorwerth y cyfeirir ato fel athro barddol Llywelyn ab y Moel.⁶⁶ Ymddengys, felly, fod Rhys Goch Eryri eisoes yn adnabyddus yn 1387.

Ceir y dystiolaeth sicraf ynglŷn â dyddiadau Rhys Goch yn ei gerddi, a gellir dyddio rhai ohonynt i noddwyr neu feirdd eraill yn weddol fanwl:

1	'Marwnad Maredudd ap Cynwrig'	1426–8
2	'I lys Gwilym ap Gruffudd'	c. 1413 x 1431
3	'Marwnad Gwilym ap Gruffudd'	1431
4	'Achau Wiliam Fychan'	?1440
6	'Marwnad Gruffudd Llwyd ...'	?c. 1420
7	'Ateb cyntaf Rhys Goch Eryri ...'	wedi c. 1420
8	'Ail ateb Rhys Goch Eryri ...'	wedi c. 1420
9	'Gyrru'r ddraig goch at Syr Wiliam ...'	?1433 (1426x1445)
10	'Marwnad Llywelyn ab y Moel'	? 1440
11	'Ateb Rhys Goch Eryri i Siôn Cent'	? wedi 1431

Dwy gerdd yn unig y gallwn eu dyddio i sicrwydd, sef 'Marwnad Maredudd ap Cynwrig o Borth-aml' (cerdd 1) a ganwyd 1426–8 a 'Marwnad Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn' (cerdd 3) a ganwyd yn 1431.⁶⁷ Ymddengys fod y rhain ynghyd â'r cerddi eraill a nodwyd uchod yn perthyn i'r cyfnod c. 1420–c. 1440, er nad yw'n amhosibl fod y cyfan wedi eu canu yn y cyfnod 1427–31. Nid oes modd dyddio'r cerddi eraill, megis 'I'r farf' (cerdd 15) a'r 'Awdl ddychan i Fadyn y llwynog am ladd paun y bardd' (cerdd 16).

Gellir cymharu'r dyddiadau c. 1420–40 â'r dyddiad 1420 a roddir i Rys Goch yng ngeiriadur Dr John Davies, Mallwyd.⁶⁸ Fodd bynnag, os cywir yr awgrym mai Rhys Goch a enwir gan Ruffudd Llwyd yn 'Cywydd y Cwest', yna y mae'n rhaid fod Rhys Goch yn barddoni mor gynnar â 1386–7. Ceir nodyn yn llaw Dr John Davies, Mallwyd, sy'n cadarnhau'r cysylltiad rhwng Rhys Goch a Gruffudd Llwyd (er nad oes modd gwybod ai ar 'Cywydd y Cwest' y seiliwyd yr wybodaeth):

Rhys goch o'r Yri oedd ddiscybl i Gruff
Lloyd ap dd ap Einiawn llygliw J Ab 1400
3 vn o'r cwest Beddgelert.⁶⁹

Ceir nodyn i'r un perwyl yn LIGC 872D [= Wrecsam 1], 366. Yno, ar bwys

⁶⁶ GGLI 246 (10.35–8n).

⁶⁷ Trafodir dyddiadau'r cerddi hyn yn y nodiadau cefndir.

⁶⁸ Gw. y rhestr o feirdd a'u cyfnodau a nodir ar ddiwedd D.

⁶⁹ Pen 49, 169^r, gw. hefyd Peniarth 49, 209. Y mae'n siŵr fod testun o 'Cywydd y Cwest' gan Dr Davies, gan fod y copi yn BL Add 14976 [= RWM 22], 89^r a ysgrifennwyd yn y cyfnod 1610–20 yn llaw un o'i gynorthwyr, gw. GGLI 125 a 346.

y llinell sy'n cyfateb i GGLI 10.32, meddir, *Rys goch or yry oedd ddisgibl gr: lloid ap dd: ap Egn.*⁷⁰ Yn ddiweddarach yn yr un llawysgrif ceir nodyn tebyg: *Rys goz o ryri oedd ddysgibl Gr: lloid ap dd: ap Eignon.*⁷¹ Ond go brin fod llawer o fwch rhwng y ddau fardd, gan i Rys Goch ei hun ddweud am Ruffudd: *Agos oeddw, gwn ganllef, / Erioed ogyfoed ag ef* (6.13–14). O ganlyniad i'r ystyriaethau hyn, y mae'n anodd credu i Rys Goch gael ei eni wedi 1370, ac y mae dyddiad o gwmpas 1365 yn debyg o fod yn nes ati.⁷² Os felly, nid oes unrhyw broblem o ran cronoleg wrth ei uniaethu â'r Rhys ap Dafydd ab Ieuan Llwyd a ymddangosodd gerbron llys Caernarfon yn 1395 a 1396.⁷³ Ni chadwyd marwnad i Rys Goch ac nid oes unrhyw gofnod arall y gwyddys amdano a all awgrymu dyddiad ei farwolaeth. Os felly, rhaid bodloni ar gynnig c. 1365–c. 1440 fel cyfnod ei einioes.

Ei wraig a'i blant

Dengys yr achau mai Nest oedd enw gwraig, neu un o wragedd, Rhys Goch. Ni chawn wybod pwy oedd ei thad nac o b'le yr hanai, ond cawn rywfaint o wybodaeth bellach amdani mewn dau nodyn a gadwyd gydag achau'r teulu gan Ruffudd Hiraethog a Robert Vaughan. Y mae'r ddau nodyn yn debyg, ac yn debygol o fod yn tarddu o'r un ffynhonnell wreiddiol (gan yr ymddengys mai o lawysgrifau Gruffudd y cododd Vaughan ei ddeunydd). Dywed Gruffudd Hiraethog: *nest y kawell i gelwid g. Rh goch am vod idd[i] dyniad o leissiaid nev le kawell yn abergleslyn.*⁷⁴ Ac yna dywed Robert Vaughan: *Rhys Goch # Nest y cawell am fod iddi dyniad yn Aberglaslyn wrth i thir.*⁷⁵ Gwelir bod yma unwaith eto sôn am dyniad neu gored bysgod ar Afon Glaslyn, yr union beth yr aeth hen daid Rhys, Rhirid ap Carwed, i gymaint o drafferth i gadarnhau ei hawliau arno.

Dengys yr achau i dri o blant gael eu geni o'r briodas, sef un ferch, Margaret, a dau o feibion na chofnodir eu henwau. Y cwbl a ddywedir am y meibion gan Ruffudd Hiraethog yw iddynt farw yn Orléans—ryw ganrif a hanner ar ôl i hen daid eu tad, Rhirid ap Carwed, ymweld â'r fan—ac y mae'n debygol iddynt farw'n ddi-blant. Y mae'n debygol mai ar un o ymgyrchoedd y Rhyfel Can Mlynedd y bu'r ddau farw, ac y mae'r cyfeiriad at Orléans yn awgrymu mai yn ystod y gwarchae a fu ar y dref honno gan y

⁷⁰ Llawysgrif John Brooke o Fawddwy yw hon, gw. RWM ii, 346–60, ac fe'i hysgrifennwyd yn 1590–1. Y mae'n cynnwys copi o 'Cywydd y Cwest', ond go brin fod y nodyn ar Rys Goch yn annibynnol ar nodyn Dr Davies. Gwelir o GGLI 125–9 fod perthynas bur agos rhwng testunau LIGC 872D [= Wrecsam 1] a BL Add 14976 [= RWM 22], ac ar ben hynny ceir llaw Dr Davies mewn sawl man yn y llawysgrif, gw. RWM ii, 346.

⁷¹ LIGC 872D [= Wrecsam 1], 402 (gw. RWM ii, 358).

⁷² Y mae'n glir fod Rhys gryn dipyn yn hŷn na Llywelyn ab y Moel. Nid yw'n glir pryd yn union y ganwyd Llywelyn, ond tuedda golygydd diweddaraf ei waith, Dr Iestyn Daniel, i gytuno ag Ifor Williams mai rhwng tua 1395 a 1400 yr oedd hynny, gw. GSCyf 77.

⁷³ Gw. tt. 9–10.

⁷⁴ Pen 136, 203.

⁷⁵ Pen 134, 471.

Saeson rhwng mis Hydref 1428 a mis Mai 1429 y bu i hynny ddigwydd. Gan hynny, er nad yw dyddiad ar ddechrau'r ail ddegawd yn amhosibl, y mae'n rhesymol gosod dyddiad geni'r ddau fab rywdro yn negawd cyntaf y bymthegfed ganrif neu cyn hynny. Y mae hynny'n gyson â'r dyddiadau a awgrymwyd uchod ar gyfer eu tad.

Cadwyd mwy o wybodaeth am Fargaret, unig ferch ac etifedd Rhys Goch⁷⁶ y nodir gan Bartrum iddi briodi deirgwaith. Nid yw'r achau yn nodi trefn y priodasau, ond enwau ei gwŷr oedd: Rhys ap Gruffudd ap Mathew ab Adda;⁷⁷ Robert ap Rhys ap Hywel Fychan;⁷⁸ ac Ieuan ap Rhys ap Tudur.⁷⁹ Disgynnai Ieuan ap Rhys ap Tudur o Gynwrig ap Llywarch, penteulu pwysig o ardal Ysbyty Ifan (neu Ddolgynwal fel y'i gelwid gynt). Ymddengys y bu iddo o leiaf dri mab o'i briodas â Margaret, a'r un a etifeddodd Hafodgaregog oedd Morys Gethin. Dengys cyfres o ddogfennau sydd bellach yng nghasgliad Dolfrïog yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac sy'n dyddio o 1508 a 1517 fod tir Margaret wedi ei drosglwyddo i Forys a hithau'n dal yn fyw.⁸⁰ Ni wyddom beth oedd ei hoedran yn 1517; y cwbl y gellir ei ddweud yw bod ei meibion yn ddigon hen i weithredu'n gyfreithlon yn 1508. Y mae'n debyg mai plentyn henaint Rhys Goch oedd Margaret, gan fod y cyfan a wyddom amdano yn awgrymu na fu fyw wedi tua 1440.

Ei ddisgynyddion

Fel y gwelwyd, etifeddwyd Hafodgaregog yn y pen draw gan ŵyr Rhys Goch, mab ei ferch Margaret, sef Morys Gethin ab Ieuan ap Rhys. Yn ogystal ag etifeddu stadau ei daid, yr oedd Morys Gethin yntau'n fardd. Dyma farn Dr A. Cynfael Lake ar nodweddion ei ganu:

Canu 'achlysurol' yw'r pedwar darn a ddiogelwyd; y math o ganu a ddisgwyliad gan fardd yn 'canu ar ei fwyd ei hun'. Y mae'n arwyddocaol na chadwyd yr un gerdd foliant o'i waith. Er hyn, anodd credu na luniodd Morys Gethin, rhwng tua 1505–30, lawer mwy na'r hyn sydd ar glawr, hyd yn oed os na fu'n clera fel y cyfryw. Rhaid ystyried y posibilrwydd iddo ganu i rai o deuluoedd Llŷn ac Eifionydd ac Ardudwy, a deutu'r Fenai (fel Rhys Goch o'i flaen), sef yr ardaloedd y disgwyliad i fardd o gyffiniau Beddgelert ymweled â hwy, ond i'r canu hwn gael ei golli.⁸¹

Ni ddaeth cysylltiad teulu Hafodgaregog â'r gyfundrefn farddol i ben gyda marwolaeth Morys Gethin. Ond gwelwyd un newid sylfaenol yn yr ymwneud hwnnw gan mai teulu o noddwyr ac nid teulu o feirdd fyddent

⁷⁶ Ceir yr hyn sy'n hysbys amdani yn Colin A. Gresham, *art.cit.* 107–8.

⁷⁷ P.C. Bartrum: WG1 'Einudd' 4.

⁷⁸ P.C. Bartrum: WG2 'Gollwyn' 7(B).


⁷⁹ P.C. Bartrum: WG1 'Marchweithan' 4.

⁸⁰ Ar y dogfennau sy'n trafod Margaret, gw. Colin A. Gresham, *art.cit.* 106–7.

⁸¹ A. Cynfael Lake, 'Morys Gethin', *LICy xvii* (1992–3), 110–11.

bellach. Eto i gyd, parhâi'r ymwybyddiaeth am Rys Goch a'i farddoniaeth yn rhan bwysig o'r gynhysgaeth y cyfeiriai'r beirdd ati wrth ganmol ei ddisgynyddion.

O ran disgynyddion Rhys Goch a oedd yn berchen ar Hafodgaregog, gellir llunio'r ach a ganlyn:⁸²



Aeth y stad wedyn i ddwylo wŷr i William Williams, sef Morris Wynn (1700/1–39), ac yna i'w ferch yntau, Jane Wynn (1736–65). Priododd hi â'r Parchedig Zaccheus Hughes, a'u mab hwy oedd John Wynn Hughes (1760–95), yr olaf o ddisgynyddion Rhys Goch i fod yn berchen ar Hafodgaregog.

Dywed Carneddog yn ei ysgrif ar y cartref ei fod wedi cael gwybod, 'trwy gyfrwng cyfaill, fod yn yr Amgueddfa Brydeinig gywydd yn dwyn y pennawd,—“Cywydd i Lewis ab Morys Gethin, Nanmor, Deudraeth,—Thomas Williams, physygrwr, Trefriw, a'i cânt”'.⁸³ Ychwanega, 'Os ydyw popeth megis ag y deonglaf, rhaid ddarfod i'w [*sic*] gŵr hynod o Drefriw nyddu hwn pan yn bur ieuanc, neu ni ellir unioni amseriad y ddau'.⁸⁴ Bu farw Lewys ap Morys Gethin rywdro rhwng 1571 a 1576. Dyddiadau

⁸² Seiliwyd yr ach a'r drafodaeth ami ar wybodaeth a geir yn PACF 199 a Gresham, *art.cit.* 106–11.

⁸³ Carneddog, *art.cit.* 33.

⁸⁴ *Ib.*

Thomas Wiliems yntau oedd 1545/6–1622, felly nid oes problem gyda'r cydamseru oherwydd gallasai fod hyd at ddeg ar hugain oed pan fu farw Lewys. Ond yn anffodus ni ddaethpwyd o hyd i'r cywydd y cyfeiria Carneddog ato.⁸⁵ Yn wir, er bod Thomas Wiliems yn hysbys fel copïydd llawysgrifau (gan gynnwys llawysgrifau Bangor [Mos 5], Pen 77, Pen 94 a Wy 1 sy'n cynnwys peth o waith Rhys Goch), ni wyddys am unrhyw farddoniaeth sydd wedi goroesi yn ei enw.⁸⁶

O blith disgynyddion Rhys Goch gwyddys i'r canlynol fod yn wrthrychau mawl y beirdd: Morris Williams (*ob.* wedi 1667), ei fab Morris a fu farw'n blentyn, William Williams, a John Wynn Hughes. Y beirdd a ganodd iddynt oedd Cadwaladr Cesail (*fl.* c. 1610–25), Gruffudd Phylip (*ob.* 1666), John (neu Siôn) Prichard Prys (1675–1724), a John Williams (Ioan Rhagfyr, 1740–1821). Y mae pob un o'r cerddi hyn yn crybwyll Rhys Goch ac yn brawf fod y teulu yn dal i arddel eu cysylltiad â'r bardd.⁸⁷

Un o'r cymeriadau pwysicaf yn hanes y teulu yw'r Parchedig Zaccheus Hughes o Drefan a briododd Jane Wynn (1736–65) yn 1759. Parhau i fwy yn Nhrefan a wnaeth Zaccheus Hughes a'i wraig gydag ef, ac yn raddol aeth yr hen dŷ yn Hafodgaregog â'i ben iddo hyd nes cael ei ddymchwel cyn diwedd y ddeunawfed ganrif.⁸⁸ Ond gwnaeth Zaccheus gyfraniad annisgwyl braidd i lenyddiaeth y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru. Yn y flwyddyn 1770, llwyddodd i gythruddo Methodist ifanc o'r enw Robert Jones, Rhos-lan, trwy darfu ar un o'i bregethau ac ysgogi'r gŵr ifanc i gyhoeddi ei waith llenyddol cyntaf, sef *Lleferydd yr Asyn*, 'un o'r ymosodiadau mwyaf cywrain a deifiol yn yr iaith', chwedl G.M. Ashton.⁸⁹ Ond yn 1773 bu Zaccheus Hughes yn ymwneud mewn ffordd fwy parchus â'r byd argraffu pan danysgrifiodd i gyfrol Rhys Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru*. Hon oedd y gyfrol gyntaf i gynnwys mwy nag un gerdd gan Rys Goch, ac y mae'r ffaith mai Zaccheus Hughes oedd penteulu Hafodgaregog pan gyhoeddwyd hi yn sicr o fod yn arwyddocaol.⁹⁰

Ond yr oedd cysylltiad nes eto rhwng Zaccheus Hughes a'r modd y diogelwyd ac y lledaenwyd gwaith Rhys Goch Eryri yn y ddeunawfed ganrif. Efallai nad oedd ar delerau da â'r Methodistiaid, ond yr oedd yn naturiol ddigon yn adnabod ei gyd-offeiriaid Anglicanaidd o fewn esgobaeth Bangor yn bur dda. Un ohonynt oedd David Ellis (1736–95), gŵr o Feirionnydd a oedd yn wybodus iawn ynglŷn â barddoniaeth Gymraeg yr

⁸⁵ Ni chafwyd hyd iddo yn MFGLI nac ym MCF.

⁸⁶ Ni chyfeirir at unrhyw gyfansoddiadau ganddo yn J.E. Caerwyn Williams, 'Thomas Wiliems, Y Geiriadurwr', SC xvi/xvii (1981–2), 280–316.

⁸⁷ Trafodir y canu i ddisgynyddion Rhys yn Dylan Foster Evans, 'Astudiaeth feirniadol a thestunol o waith Rhys Goch Eryri' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 2004), lxxii–lxxx.

⁸⁸ Gw. Colin A. Gresham, *art.cit.* 110. Ar Zaccheus Hughes a'i deulu, gw. *id.*, *Teulu'r Trefan* ([Caernarfon], 1982).

⁸⁹ Robert Jones, *Drych yr Amseroedd* gol. G.M. Ashton (Caerdydd, 1958), x.

⁹⁰ Ceir ei enw ymhlith y tanysgrifwyr yn GBC [xxiii].

Oesoedd Canol.⁹¹ Copïodd Ellis gasgliad o gerddi a oedd wedi eu priodoli i Rys Goch Eryri (bellach LIGC 6881B), ac y mae'n amlwg o'i gyflwyniad mai ar gais Zaccheus Hughes y gwnaeth hynny.⁹²

O ganlyniad i achos cyfreithiol a gododd wedi i fab Zaccheus, sef John Wynn Hughes, gymryd gwraig a oedd dan oedran priodi, nid aeth y stad i ddwylo ei etifeddes ifanc Jane Wynn Hughes pan fu John farw.⁹³ Aeth yn hytrach i'w gyfnither Mary Priestley, a oedd yn wraig i'r Sais Samuel Priestley o Leeds.⁹⁴ Gyda hynny aeth Hafodgaregog o ddwylo disgynyddion Rhys Goch am y tro cyntaf. Ond er i deulu'r bardd golli ei afael ar Hafodgaregog, parhaodd rhai o'i ddisgynyddion i ddangos diddordeb byw yn ei farddoniaeth, fel y gwelir isod.

Cyfeiriadau llenyddol at Rys Goch

Nid oes prinder cyfeiriadau at Rys Goch yn y farddoniaeth sy'n ymwneud â'i ddisgynyddion, felly, a hynny yn wyneb y ffaith nad ymddengys i unrhyw fardd cyfoes ag ef gyfeirio ato, ac eithrio Siôn Cent a Llywelyn ab y Moel yn yr ymrysonau, a'r cyfeiriad tebygol yn 'Cywydd y Cwest' gan Ruffudd Llwyd. Y mae'n bosibl y bu iddo gynnal ymryson ag Ieuan ap Rhydderch (gw. Atodiad 1), ond hyd y gwyddys ni chadwyd yr un farwnad iddo. Ond y mae ambell gyfeiriad wedi goroesi sy'n dadlennu peth ar ymwneud gwahanol gyfnodau â Rhys Goch a'i farddoniaeth, a rhoddir crynodeb ohonynt isod.

i. Ychydig yn annisgwyl yw'r cyfeiriad ysgrifenedig cynharaf at Rys Goch. Fe'i ceir yn Llst 199, llawysgrif Ladin sy'n cynnwys 'Buchedd Edmwnd Sant' gan Abbo Floriacensis a gopiwyd tua diwedd y ddeuddegfed ganrif neu ddechrau'r drydedd ar ddeg.⁹⁵ Y mae ynddi rai ychwanegiadau Cymraeg a wnaed o ddechrau'r bymthegfed ganrif ymlaen, ac ar ffolio 56 nodir *Rhys goch o eryri* mewn llaw sy'n dyddio o tua 1500.⁹⁶ Nid oes unrhyw farddoniaeth yn gysylltiedig â'r geiriau hyn, felly anodd gwybod beth oedd eu harwyddocâd. Y mae dyddiad y llaw yn rhy ddiweddar i fod yn llaw y bardd ei hun, ac y mae'n bosibl nad yw'r cofnod yn fwy na phrawf pin.

ii. Yn LIGC 1585D, 133 ceir rhestr o feirdd a cherddorion yn llaw'r bardd a'r copïydd Gutun Owain (*fl.* 1450–1500). Y cynharaf ohonynt y gellir ei adnabod yw 'Rys Goch o Ryri'. Os cywir awgrym Daniel Huws mai gwŷr yr oedd Gutun wedi cwrdd â hwy a geir yn y rhestr, yna gall fod Rhys

⁹¹ Arno, gw. ByCy 193, CLC² 231.

⁹² LIGC 6881B, vi.

⁹³ Am Jane Wynn Hughes dywed Carneddog, *art.cit.* 35–6, y cymerai 'ddyddordeb neilltuol yn ei hâch, ac adroddai hanes hen deuluoedd Hafod Garegog yn un rhigwm rhigil i'r bardd Rhys Goch'. Trist felly yw cofnodi nad etifeddod stad ei theulu.

⁹⁴ Gw. Colin A. Gresham, *art.cit.* 111; PACF 199.

⁹⁵ Gw. RWM ii, 782.

⁹⁶ Hoffwn ddiolch i Mr Daniel Huws am ei gymorth parod wrth ddyddio'r llawysgrifen.

wedi byw hyd at yn agos at ganol y ganrif.⁹⁷ Ond ni ellir profi i'r ddau fardd erioed gyfarfod.

iii. Yng ngwaith y dyneiddiwr enwog o Lansannan, William Salesbury, y ceir un o'r cyfeiriadau llenyddol cynharaf at Rys Goch, a hynny mewn traethawd anghyhoeddedig ar rethreg, gwaith a oedd yn gyfieithiad ac yn addasiad o 'Tabulae de Schematibus et Tropis' gan Petrus Mosellanus. Gwnaed o leiaf naw copi o waith Salesbury, ond ceir y fersiwn cynharaf yn Card 2.39 [= RWM 21] sydd â nodyn yn ei ddyddio i 1552.⁹⁸ Ceir yr hanesyn am Rys Goch yn esboniad Salesbury ar y term *sarcasmus*:

Sarcasmus[:] kellwair du ne air sur, megis y may ateb Rys Goch or Yry wrth vn a ovynnai iddo[,] can welet llawer o gyllyll a[']r wdkneiff oedd ganto, ai gogrydd ydoedd. Syganei ynte, [']le myn Bad Cadvan, a mi glyweis vod cant gan dy vam di['].⁹⁹

Ceir yr un hanesyn, fwy neu lai, gan Henry Perri (1560/1–1617) yn ei lyfr yntau ar rethreg, sef *Eglvryn Phraethineb*, cyfrol a seiliwyd i raddau helaeth ar waith Salesbury.¹⁰⁰ Rhaid cyfaddef nad yw ergyd yr hanesyn yn gwbl glir, ond ymddengys mai sarhau moesoldeb rhywiol mam y bachgen mewn rhyw fodd yw bwriad Rhys Goch.¹⁰¹ Daw'r cyfeiriadau at gyllyll â chywydd Rhys Goch i ofyn cylllell hela i'r cof, ac y mae'r gair *wdkneiff* (benthyciad o'r S. *wood-knife*) y mae Salesbury yn ei ddefnyddio yn arwyddocaol. Er nad yw *wdkneiff* yn ymddangos yng nghorff y cywydd ei hun, fe'i ceir yn deitl mewn sawl llawysgrif.¹⁰² Ni cheir y gair yn fersiwn Perri; yn hytrach ceir y ffurf Gymraeg *cyllhelh-luc* ('cylllellig').¹⁰³ Efallai, felly, fod rhyw gysylltiad rhwng y gerdd a hanesyn Salesbury, a bod cof am erfyniad Rhys Goch am gyllell hela wedi ei ymgorffori mewn chwedl lafar a oedd yn gyfarwydd i Salesbury.

iv. Disgrifiad digon anghyffredin o'r maen ar fedd y bardd yw'r cyfeiriad nesaf at Rys Goch. Ceir hwnnw mewn cyfres o dri englyn gan Wiliam Llŷn a gyfansoddwyd yn 1563 (os dyna arwyddocâd y dyddiad a nodir yn y copi llawysgrif cynharaf o'r gerdd). Cynhwysa'r llawysgrif honno, sef LIGC 3057D [= Mos 161], nifer o gerddi gan Rys Goch ei hun a hefyd beth o

⁹⁷ Cyhoeddir y rhestr a'i thrafod yn Daniel Huws, 'Rhestr Gutun Owain o wŷr wrth gerdd', *Dwned*, x (2004), 79–88.

⁹⁸ Gw. R. Brinley Jones, *William Salesbury* (Cardiff, 1994), 33.

⁹⁹ Card 2.39 [= RWM 21], 516; ymhellach ar y llsgr., gw. RWM ii, 202–4, lle yr awgrymir yn gyfeiliornus mai Syr Thomas Wiliems yw'r copïydd.

¹⁰⁰ Henri Perri, *Eglvryn Phraethineb* (Llundain, 1595, adarg., Caerdydd, 1930), 24. Diffinnir *phroenwawd* ganddo fel a ganlyn: *Am Phroenwawd. Rhith arall ar watworedigaeth y sydd, pan fo vn, nid yn vnig yn cellwair yn ddu, ac yn rhoi gair sur; eithr hefyd yn dangos hynny yn drwyngrych mywn atcaswedd traheu[s]lyt.*

¹⁰¹ Diau mai cael cyfathrach rywiol yw ystyr yr ymadrodd 'bod gan' yn y cyswllt hwn, gw. GPC 1379 d.g. *gan*.

¹⁰² Gw. cerdd 5 isod.

¹⁰³ GPC 752.

waith ei wŷr Morys Gethin.¹⁰⁴ Nodwyd eisoes fod Wiliam Llŷn wedi copïo ach Rhys Goch, a dengys y gerdd hon fod diddordeb pellach ganddo yn Rhys Goch ei hun. Dyma'r testun fel y'i ceir yng ngolygiad Roy Stephens o waith y bardd:

Y maen, ddarn cadarn, lle cedwi'—r dawn oll,
Duw, na allwn dy godi.
Ar fedd gro fal to wyd di
Ar war Rhys Goch o'r Yri.

Carnedd Rhys a'i fedd, fu addien—freuglod,
Dan y friglas ywen,
Côr gwiw nadd, carreg ei nen,
Clawdd du lle claddwyd awen.

Bedd hen lwys awen lyseuwerdd—dan faen
Lle danfonwyd pencerdd,
Bron brig o burion breugerdd,
Brig a bôn coel eigion cerdd.¹⁰⁵

Ni ddywed y gerdd hon lawer wrthym am Rys, ond ei fod yn cael ei ystyried yn bencerdd gan Wiliam Llŷn. Y mae'r cyfeiriad at gladdu o dan ywen yn adlais efallai o gywydd Gruffudd Gryg i'r ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym.¹⁰⁶ Gwelwn hefyd fod Rhys Goch wedi ei gladdu mewn bedd pur drawiadol, ac er bod y maen ei hun wedi ei golli erbyn hyn, y mae disgrifiad Wiliam Llŷn ohono yn cyd-fynd â'r ymwybyddiaeth o fan claddu Rhys Goch a geid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁰⁷ Awgryma'r teitlau a roddir i'r gerdd mai ym Meddgelert, fel y gellid disgwyl, y claddwyd Rhys Goch.¹⁰⁸ Yn absenoldeb unrhyw gerdd amgenach, dyma'r agosaf sydd gennym at farwnad i Rys Goch.

v. Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal. Dyddir yr ymryson hwn i tua 1581–8.¹⁰⁹ Cyfeirir at Rys Goch yng nghyd-destun ei ymrysonau â Siôn Cent a Llywelyn ab y Moel ynglŷn â natur a tharddle'r awen. Prys sy'n cyfeirio ato amlaf, gan ddadlau mai anghywir oedd ei syniadau ef ynglŷn â tharddiad yr awen.¹¹⁰ Unwaith yn unig y cyfeiria Cynwal at Rys, ac unwaith y mae Prys yntau yn cyfeirio at Siôn Cent. Nid yw ymateb Llywelyn ab y Moel yn cael ei grybwyll yn unman.

¹⁰⁴ Arni, gw. td. 291.

¹⁰⁵ Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), 617. Cyhoeddwyd yr englynion ynghyd â thrafodaeth arnynt gan Gameddog, *art.cit.* 32–3.

¹⁰⁶ GDG³ 429–30.

¹⁰⁷ Gw. td. 22.

¹⁰⁸ Dyna hefyd a ddywedir yn y rhestrau o fannau claddu'r beirdd a geir yn BL Add 14883, 177 a BL Add 15021, 6.

¹⁰⁹ YEPWC xc.

¹¹⁰ Am gyfeiriadau llawn, gw *ib.* 340 (y mynegai).

vi. Cyfeirir at awdl ddychan Rhys Goch i'r llwynog mewn cywydd gan Domas Prys o Blas Iolyn (c. 1564–1643), cerdd a gyfansoddwyd ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Y mae'r bardd yn cyfarch yr eryr ac yn gofyn iddo fynd â neges at nifer o feirdd eraill Cymru i ofyn iddynt gyfansoddi cerdd i ladd y gŵr eiddig sy'n cadw cariad y bardd rhagddo. Y mae rhan o'r gerdd yn adleisio'r nodyn a geir wrth nifer o'r copïau o awdl Rhys Goch sy'n honni i'r llwynog, wedi iddo glywed yr awdl, ddod i dŷ'r bardd a chwmpo'n farw wrth ei ddrws.¹¹¹ Dyma eiriau Tomas Prys i'r eryr ar ddiwedd ei gywydd:

Pâr iddynt mewn pereiddwaith
 Ei ladd â cherdd, lwyddwyh iaith,
 Fel y lladdodd, adroddynt,
 Rhys Goch o'r graig ddyrys gynt
 Yn ei wlad, yn anad neb,
 Y llwynog hyll ei wyneb;
 Parodd hwn, nid prudd hynny,
 Ei farw dan furiau'i dŷ:
 Felly unwedd, diwedd dig
 Dilwyddiant, y dël Eiddig!¹¹²

vi. O ganol y ddeunawfed ganrif y daw'r cyfeiriad tebygol nesaf at Rys Goch, sef ym marwnad Robert Burchinsaw gan Siôn (neu John) Powel (1731–67) o Rydyreirin, Llansannan.¹¹³ Ni cheir ond cyfeiriad moel at ryw 'Rhys' yn y gerdd, ond y mae ei leoliad yng nghanol rhestr o feirdd mawr yr Oesoedd Canol yn awgrymu'n gryf mai Rhys Goch ydyw:¹¹⁴

Plethu clymu, canu caid
 Y tyner hen Frutaniaid.
 Canwyd rhes gan Daliesin,
 A'i fawl oedd beraidd o'i fin;
 Dau Fyrddin difai urddas,
 Gwiwdda fron, ac Adda Fras,
 A Gwalchmai a ganai gerdd
 Ddifloesgaidd o felysgerdd,
 A Rhys, ŵr dyfrys difroch,
 Glew ei gerdd, ac Iolo Goch,

¹¹¹ Gw. cerdd 16 a GBC 92.

¹¹² Gw. W. Dyfed Rowlands, 'Cywyddau Tomos Prys o Blas Iolyn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1997), 388–9 (93.101–10); hefyd CC 24 (llau. 5–14).

¹¹³ Arno, gw. ByCy 725. Llawysgrif yn ei law ef yw Bangor 15599, a cheir ynddi (td. 117) gopi o'r cywydd 'Madyn ronwir ry enwir' a briodolir i Rys Goch, gw. tt. 36–7.

¹¹⁴ Dyna yw'r cynnig a geir yn *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif*, gol. A. Cynfael Lake (Llandybie, 1993), 247.

A Thudur, ŵr nithedig,
Aled, ŵr heb eiliw dig...¹¹⁵

viii. O ddiwedd y ddeunawfed ganrif y daw'r cyfeiriad nesaf, sef o gywydd gan Robert William (1744–1815) i amddiffyn yr awen yn erbyn ymosodiad ar *feirddion gwynedd*.¹¹⁶ Fel y dangosodd Dr A. Cynfael Lake, ni wna'r cywydd hwn lawer mwy na mydryddu enwau beirdd a godwyd o gyfrol Rhys Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru* (1773).¹¹⁷ Gyda'r gerdd hon yr ydym wedi cyrraedd oes y cywyddau argraffedig. Er ei fod yn fan cychwyn i oes newydd, y mae'n gystal man ag unrhyw un i ddod â'r arolwg cryno hwn o gyfeiriadau at Rys Goch a'i waith i ben.

Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol diweddar

Nodwyd uchod rai o'r cyfeiriadau at Rys Goch a gafwyd gan feirdd a llenorion y canrifoedd wedi ei farwolaeth. Ceir dosbarth arall o gyfeiriadau ato, sef y rheini sy'n dyst i gof gwlad amdano yn y cyfnod modern. Y ffynhonnell bwysicaf ar gyfer y traddodiadau am Rys Goch yw'r gyfrol a gyhoeddwyd gan D.E. Jenkins dan y teitl *Bedd Gelert: Its Facts Fairies and Folk-lore*.¹¹⁸ Yr oedd honno wedi ei seilio i raddau helaeth ar erthyglau a gyhoeddwyd gan William Jones ('Bleddyn', 1829–1903) yn *Y Brython* (1861), a oedd yn eu tro yn seiliedig ar draethawd yn dwyn y teitl 'The Antiquities and Folk-lore of Bedd Gelert' a ddaeth yn gydradd gyntaf â gwaith Glasynys (Owen Wynne Jones) yn eisteddfod Beddgelert yn 1860.¹¹⁹

Yn yr un cyfnod ag yr oedd yn paratoi ei draethawd ar lên gwerin ar gyfer eisteddfod 1860, y mae'n amlwg fod William Jones yn ymwneud mewn modd mwy llenyddol â Rhys Goch. Yn LIGC 6881B, sef y llawysgrif o waith Rhys Goch a gopiwyd gan David Ellis ar gyfer Zaccheus Hughes, ceir llythyr a anfonwyd gan William Jones yn Rhagfyr 1859 at y Parchedig W. Wynn Williams. Ymddengys o achau J.E. Griffiths mai ef oedd y gŵr a fu farw 2 Mehefin 1883, yn 59 mlwydd oed, pan oedd yn rheithor Llangeinwen.¹²⁰ Yr oedd yn fab i'r Parchedig William Williams (1798–1882), rheithor Llangeinwen a Llangaffo, a briododd yn 1820 â Jane Wynn Hughes (1794–1871), merch John Wynn Hughes, yr olaf o ddisgynyddion Rhys Goch i fod yn berchen ar Hafodgaregog.¹²¹ Yr oedd y Parchedig W.

¹¹⁵ *Ib.* 151 (67.5–16).

¹¹⁶ D.J. Bowen, 'Robert William o'r Pandy Isaf, Rhiwaedog', LICy ii (1952–3), 57. Ymhellach arno, gw. ByCy 960.

¹¹⁷ Gw. A. Cynfael Lake, 'Rhys Jones: y golygydd a'r bardd', YB xxii (1997), 217. Diogelwyd y cywydd yn Llawysgrif Bala 772, 204–8. Yn GBC daw cerddi Rhys Goch rhwng cerddi lolo Goch a cherddi Dafydd ab Edmwnd.

¹¹⁸ D.E. Jenkins, *Bedd Gelert: its Facts Fairies and Folk-lore* (Portmadoc, 1899). Ar Jenkins, gw. ByCy 407.

¹¹⁹ *Ib.* vii. Ar William Jones, gw. ByCy 494–5.

¹²⁰ PACF 163.

¹²¹ *Ib.*

Wynn Williams, felly, yn ddisgynnydd i Rys Goch. Ymddengys fod casgliad David Ellis wedi aros yn nwylo disgynyddion Zaccheus Hughes, a dengys llythyr William Jones fod o leiaf un o'r disgynyddion yn parhau i ddangos diddordeb yng ngwaith ei hynafiad dros bedair canrif ar ôl ei farwolaeth.¹²² Y mae'r llythyr yn cynnwys rhestr o waith Rhys Goch, ynghyd â'r ddau gywydd nad oeddynt ym meddiant W. Wynn Williams. Dyma brawf, felly, fod cryn wybodaeth gan William Jones am Rys Goch—gwybodaeth a oedd yn deillio o'i ymwybyddiaeth o gynnwys y llawysgrifau yn ogystal â'i wybodaeth o lôn gwerin ardal Beddgelert a Nanmor. Gellir tybied, felly, fod cynnwys cyfrol Jenkins yn ei thro yn adlewyrchu'n dra awdurdodol y traddodiadau am Rys Goch a oedd yn fyw yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod arlliw rhamantiaeth yn amlwg arni.

Ymhllith yr olion y mae Jenkins yn eu cysylltu â Rhys Goch y mae dwy gadair garreg. Yr oedd y gyntaf o'r rhain, a safai ger Afon Glaslyn nid nepell o Feddgelert, wedi diflannu erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹²³ Dywed Jenkins mai i'r gadair honno yr âi Rhys Goch i gyfansoddi barddoniaeth, mewn tawelwch perffaith ond am sŵn yr afon islaw: '[s]luggish indeed', meddai, 'would be the muse which would decline to sing amid such environments'.¹²⁴ Darlun rhamantaidd nodweddiadol o'r cyfnod ydyw, wrth gwrs, ond y mae'r cyfeiriad at 'the famous chair of Rhys Goch Eryri' yn awgrym o'r graddau y bu i'r cof am Rys Goch barhau.¹²⁵

Y mae'r cyfeiriadau eraill at Rys Goch yn ymwneud â manau sy'n nes at ei gartref yn Hafodgaregog. Yn eu plith, ar fryn ger yr hen dŷ, yr oedd ail gadair Rhys Goch, safle y mae Jenkins yn awgrymu nad oedd mor bwysig â'r gadair a drafodwyd uchod.¹²⁶ O dan y tŷ y mae Llwybr Rhys Goch, tramwyfa a gafodd ei henw, meddai Jenkins, am mai'r bardd a'i hadeiladodd.¹²⁷ Ond mwy diddorol eto yw'r chwedl a gofnodwyd gan Jenkins sy'n disgrifio'r cymorth a roes Rhys Goch i Owain Glyndŵr, ac sy'n sôn am Rys Goch yn cuddio mewn ogof o'r enw 'Twill Rhys Goch'.¹²⁸ Ceir hanesyn ac

¹²² LIGC 6881B (llythyr rhydd). Yn ôl nodyn yn y llawysgrif, fe'i prynwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol ar 24 Medi 1929 gan y Capten Ifor O. Wynn Williams, Fronwylfa, Llandderfel. Yr oedd yntau yn aelod o'r un teulu ac yn disgyn o Rys Goch.

¹²³ D.E. Jenkins, *op.cit.* 314. Dywed Carneddog mai yn 1838 y dinistriwyd y gadair er mwyn adeiladu llwybr i'r chwarel ger llaw, ond i '[g]lymrawd llangar o Feddgelert' naddu'r llythren C yno ar 15 Chwefror 1887 i gofnodi'r fan. Nodir gan Carneddog hefyd bennill gan Lasynys (Owen Wynne Jones) i gofio am y gadair: *Delweddau yn blith draphlith—/Pob un yn estyn bys, / I ddangos lle bu unwaith, / Garegog Gadair Rhys, Carneddog, art.cit.* 32.

¹²⁴ D.E. Jenkins, *l.c.*

¹²⁵ *L.c.*

¹²⁶ *Ib.* 337–8. Y mae bellach wedi diflannu, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 20n1: 'Cadair Rhys Goch (SH60424413) has been destroyed.' Gwelsai Carneddog ei holion yng nghanol coediach a mwyar duon, *art.cit.* 32.

¹²⁷ D.E. Jenkins, *op.cit.* 335, 356. Gw. hefyd RCAHM (Caernarvonshire) ii, 20.

¹²⁸ D.E. Jenkins, *op.cit.* 131–2. Ceir cyfieithiad o'r hanesyn hwn yn Elisa R. Henken, *National Redeemer: Owain Glyndŵr in Welsh Tradition* (Cardiff, 1996), 100–2. Cyfeirir at fersiynau eraill o'r un hanes *ib.* 215n32, a gw. Carneddog, *art.cit.* 32.

ynddo elfennau tebyg yn llyfr Marie Trevelyan, *From Snowdon to the Sea*.¹²⁹

Ceir hefyd draddodiadau yn cofnodi man claddu Rhys Goch yng nghyfrol Jenkins. Gwelwyd eisoes fod Wiliam Llŷn yn credu i Rys Goch gael ei gladdu o dan ywen ym mynwent Beddgelert. Amheuai Jenkins y traddodiad hwn, a thynnodd sylw at draddodiad arall a goleddid gan hynafgwyr y plwyf fod Rhys Goch wedi ei gladdu ger mur deheuol y fynwent.¹³⁰ Cofnoda hefyd draddodiad i aeres olaf Hafodgaregog, sef Jane Wynn, gwraig Zaccheus Hughes, fynegi dymuniad i gael ei chladdu ym medd ei hynafiad, Rhys Goch.¹³¹ O ganlyniad, pan fu farw, cloddiwyd bedd yn y fan lle y credid bod Rhys Goch wedi ei gladdu, ond wedi cloddio ychydig droedfeddi, cafwyd carreg ac arni'r geiriau 'Yn rhodd gadewch lonydd i hwn'. Parchwyd y dymuniad hwn yn ôl y sôn, a chladdwyd Jane ym medd ei thad. Honnir i Zaccheus Hughes wneud nodyn o'r digwyddiad ar y pryd, a daeth y nodyn yn ddiweddarach i law Mrs Wynn Williams.

Goresodd y cof gwlad yn Nanmor am Rys Goch hyd at droad yr ugeinfed ganrif o leiaf, a cheid amrywiol draddodiadau a'i cysylltai â'r bardd Dafydd Nanmor, er nad oes modd dangos i sicrwydd a fu i'r ddau ymwneud â'i gilydd ar raddfa helaeth. Nid oes modd ychwaith i brofi'r gred ymysg rhai fod Dafydd yn blentyn siawns i Rys. Yr oedd y traddodiadau lleol hyn yn ffynonellau pwysig i Jenkins ac eraill, ac fe'u trafodwyd yn fanwl gan Nia M.W. Powell.¹³²

Gwelwyd uchod fod traddodiadau o fyd llên a rhai poblogaidd yn bodoli am Rys Goch yn ei ardal enedigol, a hynny hyd at o leiaf ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond ceir hefyd ddosbarth arall o ddeunydd amdano a gyhoeddwyd ar gyfer cynulleidfya bur wahanol. Syr John Wynn o Wedir oedd y cyntaf i drafod Rhys Goch mewn print yn Saesneg pan honnodd mai i un o'i hynafiaid ef y canodd Rhys Goch ei gywydd 'Hir y bu Ruffudd ruddbar...',¹³³ ond gan Thomas Pennant, yn ei ddwy gyfrol *A Tour in Wales* a gyhoeddwyd yn 1778–81, y cawn y portread cynharaf o Rys Goch ei hun. Dywed Pennant fod Rhys Goch yn cyfoesi ag Owain Glyndŵr a chyfeiria at ei awdl i'r llwynog ac at ei gadair lle y cyfansoddai ei farddoniaeth. Dywed ymhellach, 'He died about the year 1420, and was intered in the holy ground at Bedd Kelert, after escaping the vengeance of the English, for inspiring our countrymen with love of liberty, and animating them, by his compositions, into a long and gallant resistance to the galling yoke.'¹³⁴

¹²⁹ Marie Trevelyan, *From Snowdon to the Sea* (London, 1894), 220–4.

¹³⁰ D.E. Jenkins, *op.cit.* 124–5.

¹³¹ *Ib.* 125. Gw. hefyd Carneddog, *art.cit.* 33, 35.

¹³² Nia M.W. Powell, *art.cit.* 101–12.

¹³³ Gw. nodyn cefndir cerdd 12. Yn 1770 y cyhoeddwyd hanes teulu Gwedir am y tro cyntaf gan Daines Barrington, gw. Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (London, 1770).

¹³⁴ Thomas Pennant, *A Tour in Wales* (2 vols., London, 1778–81; repr., Wrexham, 1991), ii, 191.

Dilyn ôl traed Pennant mewn sawl ffordd a wnaeth George Borrow yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac y mae ei ddisgrifiad ef o'r bardd yn dangos ei fod yn ddyledus i waith Pennant.¹³⁵ Mwy diddorol yw'r hyn a ddywed am yr awdl i'r llwynog, sef na ellid ei hynganu'n feddw—dengys hynny, yn ôl pob tebyg, ei fod wedi darllen yr awdl a'r hanesyn amdani a gyhoeddwyd gan Rhys Jones yn *Gorchestion Beirdd Cymru*.¹³⁶ Ond yn anffodus, ac er gwaethaf ei ymdrechion, methiant fu ymgais Borrow i ddod o hyd i unigolyn a allai drafod mwy ar hanes a barddoniaeth Rhys Goch.

Yn olaf, dylid nodi bod Rhys Goch wedi dod yn bwnc a apeliat at rai o lenorion diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y noda'r Athro Emeritws R.M. Jones, gosodwyd 'Rhys Goch Eryri' yn destun ar gyfer y ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol 1891.¹³⁷ Tua'r un cyfnod, o bosibl, ac efallai o ganlyniad i restr destunau 1891, cyfansoddodd John Owen ('Ap Glaslyn', 1857–1934) ryw fath o ddrama a oedd yn ymwneud â hanes Rhys Goch, Dafydd Nanmor a Gwen o'r Ddôl.¹³⁸ Cadwyd y testun hwn yn llawysgrif Bangor 37968 (tt. 129–52 a 157–64), ond nid ymddengys iddo erioed gael ei gyhoeddi. Erbyn hynny yr oedd bron i hanner mileniwm wedi mynd heibio ers dyddiau Rhys Goch.

Cynnwys y canu

Gellir rhannu'r un ar bymtheg o gerddi dilys Rhys Goch yn chwe dosbarth. Yn gyntaf, ceir y canu achlysurol, sef y cerddi mawl, marwnad a gofyn a gyfansoddwyd i noddwyr arbennig (cerddi 1, 2, 3, 4 a 5); yn ail, ceir cerddi marwnad i gyd-feirdd (cerddi 6 a 10); yn drydydd ceir y cerddi ymryson neu gerddi i ymateb i waith beirdd eraill (7, 8, 9 ac 11); yn bedwerydd daw'r canu crefyddol (cerdd 14); yn bumed ceir y cywyddau proffwydol neu gywyddau brud (cerddi 12 a 13); ac yn olaf ceir y cerddi ysgafn a dychanol (cerddi 15 a 16). Wrth gwrs, mympwyol i raddau yw'r dosbarthiad hwn—gellid, er enghraifft, gynnwys marwnadau'r beirdd gyda'r marwnadau i noddwyr, neu'n wir gyda'r ymrysonau. Pa fodd bynnag, gwelir bod Rhys Goch yn fardd tra amrywiol ei awen, yn enwedig o ystyried cyn lleied o'i gerddi sydd wedi goroesi. Yr un dosbarth amlwg o farddoniaeth na chynhwyswyd yn ei waith yw cerddi serch, er bod elfennau a gysylltir â'r canu serch i'w cael yn ei gywydd i'r farf (cerdd 15).

Enwau pump yn unig o noddwyr Rhys Goch sydd wedi goroesi, sef

¹³⁵ George Borrow, *Wild Wales* (London, 1862; new ed., Llandysul, 1995), 253–4.

¹³⁶ 'Awdl dduchan o waith Rhys Goch o Eryri i'r Llwynog, am iddo ladd ei Baun ef. Sion Tudur a'i galwodd hi Ystordyn Meddwodod, o herwydd fod ami rinwedd, ni fedr un dyn meddw ddywedyd mo'ni', gw. GBC 92. Aethai Borrow ar ei daith ychydig flynyddoedd cyn cyhoeddi golygiad Cynddelw (Robert Ellis), sef *Gorchestion Beirdd Cymru ... Argraffiad Diwygiedig* (Caernarfon, 1864).

¹³⁷ R.M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm* (Caerdydd, 1998), 329.

¹³⁸ Ar John Owen, gw. ByCy 677. Yr oedd ei dad, Richard Jones Owen ('Glaslyn', 1831–1909) yn gyfaill i Owen Wynne Jones ('Glasynys') a golygodd gyfrol o'i waith.

Maredudd ap Cynwrig o Borth-aml, Gwilym ap Gruffudd ac Wiliam Fychan o'r Penrhyn, Dafydd ap Hywel, a Syr Wiliam ap Tomas o Raglan.¹³⁹ Trafodir hwy yn fanylach yn nodiadau cefndir y cerddi. Ni wyddys fawr ddim am Ddafydd ap Hywel (cerdd 5), heblaw mai gof ydoedd a'i fod, yn ôl pob tebyg, yn hanu o Bowys. Yn achos Wiliam Fychan (cerdd 4), ni cheir fawr o bortread o'r noddwr gan mai rhestr o'i achau yw'r gerdd yn hytrach na cherdd fawl draddodiadol.

Yr hyn sy'n drawiadol am y cerddi i'r gweddill yw'r ddelwedd estynedig sy'n ganolog i bob un ohonynt. Ym marwnad Maredudd ap Cynwrig (cerdd 1) y mae'r llong; yn y cywydd i lys Gwilym ap Gruffudd (cerdd 2) ceir castell Caernarfon; ym marwnad Gwilym (cerdd 3) y mae'r fainc; yn y gerdd i Syr Wiliam ap Tomas (cerdd 9) ceir y gwregys a'r ddraig goch. Y mae pob un o'r rhain yn ddelweddau cofiadwy sy'n ymwneud â grym y noddwr, a hefyd, gellid dadlau, â'i berthynas â grymoedd gwleidyddol ac economaidd ehangach y wlad.

Y mae barddoniaeth Rhys Goch yn llawn tensiwn, ac y mae ei ddewis o ddelweddau yn codi cwestiynau diddorol ynglŷn â hunaniaeth genedlaethol a grymoedd cymdeithasol ac economaidd. Wrth ddadansoddi gwaith Iolo Goch, dadleuodd Dafydd Johnston mai 'trefn sefydlog y gymdeithas yw'r thema bwysicaf yn ei waith'.¹⁴⁰ Gellid dadlau y byddai dadansoddiad o waith Rhys Goch yn dangos mai tensiynau cymdeithas yw un o elfennau pwysicaf ei waith ef. Er nad yw'n sylwebu'n uniongyrchol ar sefyllfa'r wlad yn ei gerddi mawl a marwnad, y mae ei ddewis o ddelweddau estynedig yn mynd at galon rhai o'r problemau gwleidyddol ac economaidd a wynebai ei noddwyr. Amwysedd yw'r gair sy'n cyfleu orau'r ymdeimlad a geir o astudio delweddau estynedig Rhys Goch.

Cafwyd gan Rys Goch ddwy farwnad i gyd-feirdd, sef Gruffudd Llwyd a Llywelyn ab y Moel (cerddi 6 a 10). Y mae'r ail farwnad yn nodedig am ei hagoriad sy'n crybwyll y tywyllwch a ddaeth dros y wlad yn sgil marwolaeth Llywelyn. Rhoddir Llywelyn hefyd mewn olyniaeth o feirdd o'r gorffennol, gan gynnwys Gruffudd Llwyd ei hun. Y mae'r farwnad i Ruffudd yn hwy, a phwysleisir ynddi grefft Gruffudd gan ei gymharu â Chynddelw Brydydd Mawr, y pwysicaf o Feirdd y Tywysogion. Ond y pwynt pwysicaf yn y gerdd yw'r ffaith fod Rhys Goch yn honni nad oedd neb ym Mhowys yn gwerthfawrogi Gruffudd i'r un graddau ag ef. Dyna, wrth gwrs, sy'n ysgogi'r ymryson â Llywelyn ab y Moel, y cerddi enwocaf, ond odid, a ganwyd gan Rys Goch.

Am ei ymrysonau â Llywelyn ab y Moel a Siôn Cent (cerddi 7, 8 a 11) y mae Rhys Goch yn enwog yn anad dim. Cafwyd dau ymryson gwahanol, ond cysylltiedig, â Llywelyn ab y Moel, y naill yn dilyn dadl ynglŷn â

¹³⁹ Efallai y dylid ychwanegu enw Robert ap Maredudd, gw. cerdd 12. Trafodir gwrthrych y cywydd yn y nodyn cefndir.

¹⁴⁰ D. Johnston, *Iolo Goch* (Caernarfon, 1989), 60.

marwnad Rhys Goch i Ruffudd Llwyd a'r llall yn deillio o gerdd Rhys Goch i ofyn am wregys aur gan Syr Wiliam ap Tomas o Raglan. Un gerdd yr un a ganodd Siôn Cent a Rhys Goch, er efallai nad ymryson yw'r cerddi hyn fel y cyfryw gan nad ymddengys fod cerdd Siôn Cent wedi ei hanelu'n benodol at Rys Goch. Yn sicr, ymatebodd yntau iddi, ond y mae rhyw gyd-destun coll y tu cefn i'w ymateb, ac awgrym y llawysgrifau yw nad ystyriwyd y ddwy gerdd yn uned fel a wnaed yn achos yr ymrysonau â Llywelyn ab y Moel.

Y mae'r cerddi i Lywelyn ab y Moel ac i Siôn Cent yn ymwneud i raddau helaeth â tharddiad yr awen. Y mae barn y beirdd am darddiad eu hawen wedi ei thrafod sawl gwaith yn ddiweddar,¹⁴¹ a syniad llywodraethol Rhys Goch yn ei ymrysonau yw bod yr awen yn ei chyfanrwydd yn deillio o'r Ysbryd Glân. Cred Siôn Cent, ar y llaw arall, fod dwy awen, y naill o'r nef-oedd (a roddai fod i ganu crefyddol) a'r llall o uffern (a roddai fod i'r canu mawl gwenieithus, y canu serch, a'r canu dychan). Dangosodd Ann Matonis fod y syniad o darddiad yr awen o'r Ysbryd Glân yn un cyffredin yn yr Ewrop ganoloesol¹⁴² ac awgrymodd Bobi Jones a Barry J. Lewis ei fod yn syniad y bu iddo hanes hirhoedlog yng Nghymru.¹⁴³ Dangosodd Ann Matonis ymhellach fod modd gosod ymrysonau Rhys Goch o fewn cyd-destun Ewropeaidd, a gellir gweld tebygrwydd rhwng ei rethreg a'i ddull o ddadlau a dulliau beirdd Ffrangeg a Lladin y Cyfandir.¹⁴⁴

Dadl Bobi Jones yw nad oes llawer o anghydweld rhwng Rhys Goch a Llywelyn ab y Moel ar fater tarddiad yr awen, er bod Rhys Goch yn honni bod yr awen yn bodoli ymhlith yr angylion cyn i Dduw greu'r byd.¹⁴⁵ Fodd bynnag, y mae'r anghytuno rhwng Siôn Cent a Rhys Goch yn gwbl sylfaenol. 'Taeru, yn hytrach na phrofi'i achos' a wna Rhys Goch ym marn Jones, er y cydnebydd y gall fod pwynt o bwys gan Rys Goch pan eilw Siôn Cent yn *fresych adlam*.¹⁴⁶ Fel yr awgrymwyd hefyd gan Ifor Williams, gall mai ergyd y trosiad yw bod canu Siôn ar y naill law yn gynhyrchiol a defnyddiol fel gardd fresych, ond ar y llaw arall yn amddifad o harddwch a phrydferthwch. Yn hynny o beth, yr oedd ateb Rhys Goch yn debyg i ateb Guto'r Glyn yn ei ymryson diweddarach ef a Hywel Dafï.¹⁴⁷

Y mae Barry J. Lewis yntau wedi dangos bod y gred yn nharddiad nefol

¹⁴¹ Ceir crynodeb o'r syniadau mwyaf perthnasol a chyfeiriadau defnyddiol yn GSCyf 174–5.

¹⁴² A.T.E. Matonis, 'The concept of poetry in the Middle Ages: the Welsh evidence from the Bardic Grammars', B xxxvi (1989), 6; *id.*, 'Literary taxonomies and genre in the Welsh Bardic Grammars', ZCP xlvii (1995), 222.

¹⁴³ Bobi Jones, 'Pwnc mawr beirniadaeth lenyddol Gymraeg', YB iii (1967), 253–88; Barry James Lewis, 'Trafod barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: y traddodiad mawl a chrefydd', *Dwned*, viii (2002), 9–34.

¹⁴⁴ Ann Matonis, 'Barddoneg a rhai ymrysonau barddol Cymraeg', YB xii (1982), 157–200, yn arbennig tt. 177–200.

¹⁴⁵ Bobi Jones, *art.cit.* 268.

¹⁴⁶ *Ib.* 269, a gw. 11.3n.

¹⁴⁷ *L.c.*; IGE cxliii.

yr awen yn amlwg yn athronyddu'r beirdd ynglŷn â'u galwedigaeth eu hunain ers canrifoedd. Er hynny, yr oedd y beirdd wedi eu dal rhwng dau begwn. Yn gyntaf, ceid y gred mai canu moliant i Dduw oedd yr unig fath canmoladwy o farddoniaeth. Yn ail, yr oedd y syniad fod canmol noddwyr yn ganmoliaeth anuniongyrchol i Dduw, y Creawdwr, ac felly yn gwbl dderbyniol o fewn fframwaith Cristnogol. Pan fo Rhys Goch yn dweud bod yr awen wedi dod o'r Ysbryd Glân *I foli Duw o fawl da* (11.91) y mae'n sôn, ar yr wyneb o leiaf, am y canu crefyddol. Ond fel y nodir yn graff gan Lewis, gan fod Rhys Goch yn credu ym modolaeth un awen yn unig, '[d]efnyddir y canu i Dduw fel ceffyl Troenaidd y gall mathau eraill o farddoniaeth lechu'n ddiogel yn ei berfedd'.¹⁴⁸ Yr oedd Rhys Goch yn sicr, fel y dengys ei waith, yn arddel barddoniaeth yn ei holl gyfoeth amrywiol.

At hynny, yr oedd safbwynt Rhys Goch yn un pwerus, gan y rhoddaid iddo ef a'i gyd-feirdd awdurdod Cristnogol nad oedd o dan reolaeth uniongyrchol yr Eglwys. Rhai o eiriau mwyaf trawiadol Rhys, yn ôl Lewis, yw'r llinellau:

Nid camp llythyr eursiamp llên
 Na bywyd Crist heb awen.
 Taliesin, hydr ar fydr fu,
 Gobaith proffwyd, a'i gwybu. (8.95–8)

Yma y mae'r bardd yn cysylltu'r awen â gwybodaeth am fywyd Crist, ac fel y dywed Lewis, '[d]aw hyn yn agos at gyfosod awdurdod y beirdd â'r Ysgrhythur'.¹⁴⁹ Nid oes amheuaeth, felly, am hyder Rhys Goch yn urddas a phwysigrwydd urdd y beirdd.

Yn ogystal â'r dadleuon deallusol, gwedd arall ar yr ymrysonau yw'r ymosodiadau personol sydd ynddynt. Yn hyn o beth, y mae gwahaniaeth amlwg rhwng ieithwedd ymosodol ateb Rhys Goch i Siôn Cent a'r drafodaeth fwy cwrtais, ar y cyfan, a geir gan Rys Goch a Llywelyn ab y Moel. Fel y dangosodd Jerry Hunter, nid yw hyn yn golygu mewn gwirionedd fod perthynas agosach rhwng Rhys Goch a Llywelyn ab y Moel na rhwng Rhys Goch a Siôn Cent. I'r gwrthwyneb, dadleua Hunter fod yr ymosodiadau ar Siôn Cent yn awgrym fod yr hyn a elwir yn 'berthynas jocio' yn bodoli rhwng y ddau.¹⁵⁰ Y pwynt sylfaenol yw mai dim ond rhwng dau a chanddynt berthynas agos y ceid y fath iaith ymosodol.¹⁵¹ Yn achos Rhys Goch a Llywelyn ab y Moel, y mae'r modd y mae'r ddau yn cyfarch ei gilydd yn awgrymu nad oes perthynas mor agos yn bodoli. Yn wir, y maent yn ofalus i beidio â dweud dim enllibus: *Mefl a ddêl ym ... / O bydd gair hagr ... / Y*

¹⁴⁸ B.J. Lewis, *art.cit.* 25.

¹⁴⁹ *Ib.* 33.

¹⁵⁰ Jerry Hunter, 'Professional poets and personal insults: *ad hominem* attacks in Late Medieval Welsh *ymrysonau*', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, xiii (1993), 55–61. Gw. hefyd *id.* 'Cyd-destunoli ymrysonau'r Cywyddwyr: golwg ar "yr ysbaddiad barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52.

¹⁵¹ Gw. yn arbennig *id.* 'Professional poets', 61.

rhom yw geiriau gochelgar Rhys Goch (8.29–32).¹⁵² Fel y dywed Hunter, '[p]erhaps this should be taken as an indication that the poets were not personally close'.¹⁵³ Y mae'n amlwg fod gwahaniaeth oedran a phrofiad rhwng y ddau fardd, a gall mai hynny sydd i gyfrif am eu triniaeth ofalus o'i gilydd.

Dosbarth arall o ganu o eiddo Rhys Goch yw'r canu proffwydol. Ystyrir ail hanner y bymthegfed ganrif yn oes aur y cywydd brud, pan welwyd y Cymry yn breuddwydio am ailennill y deyrnas yn sgil anhrefn Rhyfel y Rhosynau. Ond tra gwahanol yw awyrgylch dwy gerdd broffwydoliaethol Rhys Goch (cerddi 12 a 13), ac y mae'n hawdd credu eu bod yn gynnyrch uniongyrchol sefyllfa'r wlad ar ôl methiant Glyndŵr. Ynddynt ceir mynegiant o obaith am y dyfodol yn wyneb diflastod y presennol. Ni wneir ynddynt ddefnydd helaeth o symbolau, boed yn enwau anifeiliaid neu'n llythrennau i gynrychioli gwahanol arwyr. Y mae cerdd 12 mewn gwirionedd yn gyfuniad o gerdd fawl gydag elfen o broffwydoliaeth am y dyfodol. Y mae cerdd 13 yn amlwg yn fwy brudiol, gyda Merddin, Taliesin a Brut y Brenhinedd yn chwarae rhan bwysig ynddi. Ond eto, y mae natur storiol y gerdd hon yn wahanol iawn i gerddi beirdd mawr y cywydd brud megis Dafydd Llwyd a Robin Ddu.

Un gerdd o waith Rhys Goch y gellir ei galw'n gerdd grefyddol, sef y cywydd i Feuno a Hu Gadarn (cerdd 14). Syniad syml sydd y tu ôl iddi, sef y bydd holl gyfoeth y byd yn darfod, ac mai cyfoeth y nef yn unig a fydd yn para. Dengys y bardd wybodaeth fanwl o stori Hu ac o fuchedd Beuno, a thrwyddynt y mae'n cynnig moeswers i'w gynulleidfa. Ni chadwyd unrhyw bregethau o Gymru'r Oesoedd Canol, ond diau y gallai'r gerdd hon fod wedi cyflawni swyddogaeth debyg.

Ni cheir cerddi serch gan Rys Goch, ond y mae elfennau o'r math hwnnw o ganu yn ei gywydd i'r farf (cerdd 14). Perthyn y gerdd yn agos i gerddi tebyg ar yr un thema gan Iolo Goch a Llywelyn ab y Moel, sy'n dangos bod y beirdd yn ymateb i weithiau ei gilydd wrth gyfansoddi.¹⁵⁴ Dylid nodi mai nodwedd arbennig cerdd Rhys Goch yw'r modd dychmygus y mae'n rhoi llais i'r farf, fel bod modd iddi ateb ei gyhuddiadau. Wrth ateb, chwery'r farf ar ystyron y gair *llwyd*, gan fachu ar yr ystyr 'sanctaidd' er mwyn ei chymharu ei hun â nifer o ffigurau Beiblaidd, gan gynnwys yr Iesu ei hun. Ni all persona'r bardd yn y gerdd hon ond ymateb trwy fygwth difa'r farf. Ond er gwaethaf y bygythiad, nid persona'r bardd sy'n ennill y ddadl mewn gwirionedd. Fel yn achos rhai o gerddi Dafydd ap Gwilym, megis 'Cyngor y Biogen', y mae'r diweddglo, er mor ymosodol, yn dangos gwendid y siaradwr, a geiriau'r farf sy'n aros yn y cof.¹⁵⁵

¹⁵² *L.c.*

¹⁵³ *Ib.* 62

¹⁵⁴ Gw. Dylan Foster Evans, 'Y bardd a'i farf: y traddodiad barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

¹⁵⁵ GDG³ 167–9 (cerdd 63).

Un gerdd ddychan go iawn sydd wedi ei chadw o waith Rhys Goch, sef yr awdl i'r llwynog a laddodd baun y bardd (cerdd 16). Hon, yn sicr, o blith holl gerddi Rhys Goch a fu'r fwyaf poblogaidd ar hyd y canrifoedd, fel y gwelir o'r nifer fawr o gopiâu llawysgrif ohoni yn ogystal â'r cyfeiriadau ati gan feirdd a llenorion diweddarach. Gellir cynnig sawl rheswm am hyn. Y cyntaf yw natur y testun. Yr oedd dychanu llwynog, creadur yr oedd ei weithredoedd yn ddigon hysbys i bob cenhedlaeth yng Nghymru o ddyddiau Rhys Goch ymlaen, yn bwnc perthnasol i bob oes. Nid oedd hynny cyn wired am yr uchelwyr yr oedd Rhys Goch yn eu canmol. Eto i gyd, ymddengys mai rheswm pwysicach am ei phoblogrwydd yw'r hyn a ddywed y sylwebyddion cynnar am grefft arbennig y gerdd.¹⁵⁶ Nid cerdd ddychan ddiurddas yw hon, ond cerdd sy'n arddangos meistrolaeth lwyr y bardd ar ei grefft a'i gyfrwng. Yng ngeiriau Cynddelw (Robert Ellis), a ysgrifennai mewn cyfnod pan nad oedd bri y math hwn o gerdd ar ei uchaf:

Y mae'r awdl hon yn un o'r rhai hynotaf yn ein iaith am nerth cynghaneddol, cadr glogymwch ei chorfanau, a'i chellweirgno barddonol. Y mae awdl D. ap Gwilym i Rys Meigen, awdlau Madawg Dwygraig i'r butain a dorodd ei berllan, awdl L. Glyn Cothi i Saeson Caer, ac awdl Rhys Jones i Ddeicyn yr adarwr, yn gyffelyb iddi am ddonioldeb tafodrydd.¹⁵⁷

Nid yw'n anodd gweld effaith arddull fyrlymus Rhys Goch ar eiriau Cynddelw ei hun yma. Y mae'n ddiidorol nodi na chynhwysodd Cynddelw unrhyw un o'r gweithiau y cyfeiria atynt yma yn ei ddiwygiad ef o *Gorchestion Beirdd Cymru*, er iddo ychwanegu nifer o gerddi newydd at gasgliad Rhys Jones. Go brin yr ystyriai fod gwaith Madog Dwygraig a'r awdlau eraill yn addas ar gyfer cynulleidfa canol Oes Victoria. Fodd bynnag, nid oedd Cynddelw am ymyrryd â detholiad gwreiddiol Rhys Jones ac y mae'n glir ei fod yn ddigon hapus i dderbyn dewis y gŵr o'r Blaenau parthed cerdd Rhys Goch.

Arddull, cynghanedd ac iaith

Gellir dweud bod Rhys Goch yn fardd a ganai rhwng dau gyfnod—rhwng beirdd mawr y bedwaredd ganrif ar ddeg a beirdd enwog y 'Ganrif Fawr'. Y mae natur ei gynganeddion felly o gryn ddiidordeb. Dengys y tabl isod ganrannau (i'r ganran agosaf) y cynganeddion yn y pymtheg cywydd a ganwyd gan Rys Goch (ni chynhwysir yr awdl yn y drafodaeth hon gan na ellir ei chymharu'n uniongyrchol â'r cywyddau).

¹⁵⁶ Dyna a bwysleisir yn yr olnodau niferus i'r gerdd.

¹⁵⁷ Rhys Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru: neu Flodau Godidogrwydd Awen*, golygiad diweddar-edig gan Gynddelw (Caernarfon, 1864), 127n5.

Cerdd	llusg (%)	sain (%)	traws (%)	croes (%)
1	9	46	33	13
2	10	28	34	28
3	8	41	31	19
4	5	55	17	24
5	9	45	24	23
6	7	41	33	19
7	5	37	27	31
8	6	32	36	26
9	9	40	30	22
10	8	47	31	14
11	7	38	28	28
12	10	36	31	23
13	7	39	32	22
14	6	35	36	23
15	9	48	32	11

Y mae rhai llinellau sy'n cynnwys mwy nag un gynghanedd, megis *Waywlym Wilym ei weled* (3.80), lle y ceir cynghanedd sain a chynghanedd draws: nid yw'r rhain yn ddigon niferus i effeithio'n arwyddocaol ar y canrannau.

Wrth drafod cynganeddion Dafydd ap Gwilym, tynnodd Peredur Lynch sylw at bum pwynt yr oedd Thomas Parry wedi eu nodi fel rhai sy'n nodweddu barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁵⁸ Wrth gymhwyso'r pum pwynt hyn at farddoniaeth Rhys Goch, cesglir bod ei gynganeddu, ar y cyfan, yn fwy nodweddiadol o gynganeddu beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg nag ydyw o gynganeddu beirdd y bymthegfed ganrif, er y dylid nodi nad yw cynganeddion pengoll a braidd gyffwrdd yn nodweddiadol o'i waith o gwbl er bod cynganeddion trychben yn gyffredin. Un o bwyntiau pwysicaf Parry oedd bod y gynghanedd sain yn llawer mwy cyffredin yng nghywyddau'r bedwaredd ganrif ar ddeg nag yn rhai'r bymthegfed ganrif¹⁵⁹ a gwelir o'r tabl uchod fod Rhys Goch yn gwneud defnydd helaeth o'r gynghanedd honno, er mai hanner cyntaf y bymthegfed ganrif oedd ei gyfnod ef. Yn wir, gwelir mai'r gynghanedd sain yw ei hoff gynghanedd, ac nid oes ond tair cerdd (cerddi 2, 6 a 14) lle nad hi yw'r gynghanedd unigol fwyaf niferus. Y cyfanswm isaf o gynganeddion sain yw 28% (cerdd 2) a'r uchaf yw 55% (cerdd 4, lle y gall fod cynnwys y gerdd, sef rhestr o achau, wedi dylanwadu'n gryf ar y dewis o gynghanedd). Dylid nodi hefyd fod nifer sylweddol o gynganeddion sain gadwynog ganddo a dwy enghraifft o gynghanedd sain ddwbl (7.13 a 11.95). Nid oes arwydd fod Rhys Goch yn

¹⁵⁸ Peredur I. Lynch, 'Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym: tystiolaeth y llawysgrifau cynnar', CyT 122.

¹⁵⁹ Cf. sylwadau Thomas Parry yn GDG xcvi–xcviii: 'A siarad yn gyffredinol gellir dweud, os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25 y cant, yna nid i'r 14g. y mae'n perthyn'. Ond ni ddylid deall hyn yn rheol haearnad.

defnyddio llai ar y gynghanedd sain wrth iddo fynd yn hŷn: er enghraifft, y mae'n bur sicr iddo ganu cerddi 1, 3 a 4 (46%, 41% a 55% o gynganeddion sain) ar ôl iddo ganu cerdd 2 (28% o gynghanedd sain). Y mae hynny'n ffactor pwysig wrth ystyried dilysrwydd ei gerddi.¹⁶⁰

O ran iaith, fel y gellid disgwyl, y mae gan Rys Goch gyfuniad o ffurfiau y byddem yn eu hystyried yn nodweddiadol o Gymraeg Canol a ffurfiau sy'n fwy nodweddiadol o Gymraeg Diweddar. Trafodir y ffurfiau mwyaf diddorol yn y nodiadau i'r cerddi. O ran geirfa hefyd y mae Rhys Goch yn cyfuno'r hen a'r newydd, fel y gwna'r Cywyddwyr yn gyffredinol. Gan mor brin yw'r dystiolaeth am ei gyfoeswyr o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif, y mae'n anodd dweud a yw ei eirfa yn wahanol iawn i'w heiddo hwy. Yn sicr, nid yw Rhys Goch yn hwyrfydig i ddefnyddio geiriau benthyg Saesneg yn ei waith: er enghraifft daw'r geiriau canlynol o'i awdl i'r llwynog, ac y maent oll yn enghreifftiau cynharaf yn *Geiriadur Prifysgol Cymru: crofa, cwter, piliwr, plicio, plwca, pwding, tripa, trop, twca*.

Un o nodweddion amlycaf barddoniaeth Rhys Goch yw ei harddull dorymadroddus,¹⁶¹ a gall, ar brydiau, fod yn bur anodd ei dilyn. Wrth gwrs, gan mai cerddi i'w perfformio oedd y rhain yn wreiddiol, byddai llais ac osgo'r bardd neu'r datgeiniad yn helpu i'r gynulleidfa ddilyn trywydd y brawddeg. Diau y byddai hynny wedi bod o gymorth mewn darn fel hwn, lle y mae tri ymadrodd wedi eu gwau i'w gilydd:

Merddin, bu dewin bob dydd,

A fu'n cadw o fewn coedydd

Rhawd o westfiledd yn rhydd,

Frodiau gwynddull, **frawd Gwenddydd**,

Fardd, a wnaaf ar gerdd dafawd,

Fab Morfryn Frych, wych ei wawd. (11.13–18)

Yma, y mae enw'r bardd yn ei ffurf lawnaaf mewn print trwm; y mae'r brif frawddeg mewn print italig; y mae'r ail frawddeg wedi ei thanlinellu; ac y mae sangiadau sy'n disgrifio Myrddin ei hun mewn print Rhufeinig plaen. Mewn gwirionedd, ni all atalnodi'r iaith fodern wneud cyfiawnder ag arddull gymhleth o'r fath.

Nid yw'r arddull mor gymhleth â hyn bob tro. Ceir rhai adrannau sy'n symud fesul hanner llinell (e.e. 2.39–44); fesul llinell (e.e. 15.49–56); a fesul cwpled (e.e. 15.59–62). Ond mater goddrychol iawn yw dehongli cystrawen Rhys Goch, ac y mae'n rhaid cydnabod y gall fod yn anodd dilyn trywydd ei frawddegau a phenderfynu a yw brawddeg benodol wedi dod i ben, neu a yw'r llinellau sy'n ei dilyn i'w deall yn sangiadau sy'n perthyn iddi. Byddai'n rhaid i unrhyw astudiaeth fanwl o arddull bardd fel Rhys Goch ystyried yn ofalus oblygiadau'r holl atalnodi golygyddol.

¹⁶⁰ Gw. y trafodaethau ar 'Madyn ronwyn ry enwir' a 'Dafydd gŵr rhydd i gael rhodd' isod.

¹⁶¹ Cf. y drafodaeth ar arddull lolo Goch yn Dafydd Johnston, *Lolo Goch* (Caernarfon, 1989), 31–6.

Y bardd-achyddwr

Fel bardd yn unig y meddylir am Rys Goch bellach, ond y mae digon o dystiolaeth iddo hefyd ymddiddori'n sylweddol mewn achyddiaeth. Y prawf amlycaf o hynny yw ei gywydd i achau Wiliam Fychan o'r Penrhyn (cerdd 4). Hon, yn sicr, yw'r gerdd gynharaf a ddiogelwyd sy'n cyflwyno achau noddwr mewn modd mor fanwl drefnus. Y mae'n wir fod Iolo Goch wedi canu i achau Owain Glyndŵr, ond nid rhestr fanwl o bob hynafiad yw'r cywydd hwnnw ond yn hytrach gerdd sy'n tynnu sylw at y pwysicaf o'r hynafiaid hynny.¹⁶² Y gerdd debycaf i gywydd Rhys Goch o blith gwaith y Cywyddwyr cynnar yw 'Achau Hiraeth' gan Ddafydd ap Gwilym, sy'n ymdebygu i barodi ar gywyddau achau megis eiddo Rhys Goch, wrth i achau hiraeth gael eu holrhain hyd at Adda.¹⁶³ Os parodi ydyw, y mae'n amlwg fod y cywydd achau yn ffurf ddigon hysbys ymhell cyn dyddiau Rhys Goch.

Daw'r dystiolaeth bwysig arall am waith Rhys Goch o un o lyfrau achau Gruffudd Hiraethog, sef Pen 176.¹⁶⁴ Yn y llawysgrif honno, mewn perthynas ag ach teulu o Eifionydd, ceir gan Ruffudd y nodyn canlynol: *kais mwy llyfr R. goch o ryri*.¹⁶⁵ Y mae'r 'llyfr' hwnnw bellach wedi ei golli, ond y mae'n amlwg mai llawysgrif ydoedd a gynhwysai achau ac y credid iddi fod gynt ym meddiant Rhys Goch. Nid oes modd gwybod ai ef a'i hysgrifennodd, er mai hynny sydd debycaf. Bid a fo am hynny, y mae'r cyfeiriad yn profi, os oes angen gwneud hynny, fod Rhys yn llythrennog ac felly ei fod o bosibl wedi derbyn addysg o ryw fath ar wahân i'w addysg farddol. Y mae'r cyfeiriad at ei lyfr yn fwy arwyddocaol byth pan sylwir mai dyma'r enghraifft gynharaf o lyfr achau bardd penodol. Ys dywed E.I. Rowlands, 'there is plenty of evidence that fifteenth-century bards wrote manuscripts of pedigrees, for many sixteenth-century books of pedigrees are extant and these contain many references to the genealogical books of the fifteenth-century bards, the earliest mentioned being Rhys Goch Eryri who lived in the first part of the fifteenth century'.¹⁶⁶ Daw Peter C. Bartrum yntau i'r un casgliad ynglŷn â phwysigrwydd y cyfeiriad, er ei fod yntau'n nodi llyfr arall a allai berthyn i'r un cyfnod: '[t]he two earliest dateable sources used by Gruffudd Hiraethog seem to be *Llyfr Rs. Goch o Ryri* (Pen. 176 p.267) and *L[lyfr] Gruffudd Leia* (Pen. 135 p. 420), both manuscripts by, or belonging to, early fifteenth century poets'.¹⁶⁷

Cynrychiola Rhys Goch, felly, fan cychwyn traddodiad o feirdd-achydd-

¹⁶² GIG 36–42 (cerdd VIII).

¹⁶³ GDG³ 252–3 (cerdd 92), yn enwedig llau. 21–30.

¹⁶⁴ Arni, gw. RWM i, 971–82.

¹⁶⁵ Pen 176, 267; RWM i, 978. Gw. hefyd Peter. C. Bartrum, 'Genealogical sources quoted by Gruffudd Hiraethog', *Cylchgr LIGC* xxvi (1989–90), 7.

¹⁶⁶ E. Rowlands, 'Bardic lore and education', B xxxii (1985), 150.

¹⁶⁷ Peter C. Bartrum, 'Notes on the Welsh genealogical manuscripts (Part 3)', THSC, 1988, 40. Ar Ruffudd Leiaf, gw. ByCy 296. Nid oes modd dyddio unrhyw un o'i gerddi, ond yr oedd ei fab Ieuan yntau yn fardd a rannodd ymryson â Guto'r Glyn ac a noddwyd gan deulu Gruffudd y Penrhyn; gellir dyddio ei ganu i ail hanner y 15g., gw. ByCy 386.

wyr a barhawyd gan wŷr megis Gutun Owain, Gruffudd Hiraethog, Wiliam Llŷn ac eraill yn y cenedlaethau a'i dilynodd. Ond nid man cychwyn mo Rys mewn gwirionedd. Ymdebygai'n agos i ffigwr y bardd-achyddwr a ddisgrifiwyd gan Giraldus Cambrensis (c. 1146–1223) yn ei *Descriptio Kambriae* ryw ddwy ganrif a hanner ynghynt.¹⁶⁸ Drwgdybus, os nad dirmygus, yw agwedd Giraldus tuag at y beirdd-achyddwyr, a digon tebyg oedd ymateb Ifor Williams yntau i gywydd achau Wiliam Fychan: '... olrhain ach i'r dechreuad. Am ffolineb tebyg, gw. Dwnn I. 295, 310, lle ceir gwell ffurfiau ar rai o'r enwau isod, petasai'n werth trafferthu gyda hwy'.¹⁶⁹ Ond dengys astudiaeth o'r gerdd achau na fyddai cynulleidfa Rhys wedi ei hystyried yn ffolineb o gwbl.

Yn olaf, yr oedd traddodiad fod gan Rys Goch ei arfbais ei hun, sef 'tri phen gŵr'.¹⁷⁰ Er nad yw hynny'n amhosibl, nid oes tystiolaeth gynnar o blaid hynny, ac mewn gwirionedd y mae'n annhebygol y byddai gan deulu megis un Hafodgaregog arfbais mor gynnar â'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Cerddi a gambriodolwyd

Y mae nifer o gerddi y gellir bod yn eithaf hyderus eu bod wedi eu priodoli ar gam i Rys Goch ac ymrannant yn ddwy brif garfan, sef y cerddi sy'n ymwneud â Dafydd Nanmor a'r cerddi brud.

Nid yw'n syndod fod cysylltiad rhwng Rhys Goch a Dafydd Nanmor i'w weld yn y llawysgrifau, gan fod y ddau fardd yn hanu o'r un man. Yn ddamcaniaethol, y mae'n ddigon posibl fod Rhys Goch wedi bod yn athro barddol ar Ddafydd,¹⁷¹ ond y mae profi cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau yn anodd. Y mae'r cywyddau sy'n eu cysylltu â'i gilydd ('Madyn ronwyn ry enwir' a 'Dafydd gŵr rhydd i gael rhodd', gw. isod) bron yn sicr yn dod o gyfnodau diweddarach. At hynny, y mae'r cerddi ynglŷn â chrogenna (sef casglu cregin) yn bur amheus eu tarddiad. Y mae'r cerddi hyn yn profi bod diddordeb brwd yn y ddau fardd mewn cyfnod diweddarach. Serch hynny, ni ellir dweud dim i sicrwydd am eu gwir berthynas.¹⁷²

O ran y cywyddau brud, y mae nifer helaeth wedi eu priodoli i Rys Goch sy'n cynnwys nodweddion amlwg o ganu ail hanner y bymthegfed ganrif, sef 'Am ryfel mae'r ymofyn' ('Arbennig erw a bonedd'), 'Ebrwydd y daeth a braidd dâl', 'Medd un im mae ddwyn iach', 'Pa sawl blwyddyn yn pwysaw', 'Profer wrth yn ore pryfieu', 'Rho Duw gymr, rhydew garnedd', 'Y gwanwyn, llwyn a'r llynnoedd', 'Yr henfrud lledfryd llwydfrych', ac 'Y

¹⁶⁸ Giraldus Cambrensis, *Hanes y Daith trwy Gymru a'r Disgrifiad o Gymru*, cyf. Thomas Jones (Caerdydd, 1938), 170. Ceir y gwreiddiol yn *Giraldus Cambrensis Opera*, vi, *Itinerarium Kambriae et Descriptio Kambriae*, ed. James F. Dimock (London, 1868), 167–8.

¹⁶⁹ IGE² 390.

¹⁷⁰ Nodir hynny gan Garneddogg, *art.cit.* 30. Ni chyfeirir at yr arfbais hon yn DWH.

¹⁷¹ Gw. Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', HM ii, 568.

¹⁷² Gw. ymhellach Nia M.W. Powell, *art.cit.* 101–12.

Wyddfa noddfa nawddfawr'. Y mae hyn yn fwy na chyd-ddigwyddiad, yn enwedig o sylwi mor brin yw'r cywyddau mawl a gambriodolwyd i Rys Goch. Diau mai'r hyn a welir yma yw ymgais i roi pwys ychwanegol i frudiau o gyfnod Rhyfel y Rhosynnau trwy eu priodoli i fardd cynharach.¹⁷³ Yr oedd Rhys yn ffigur amlwg ar gyfer priodoli cerddi brud iddo am ddau brif reswm. Y cyntaf yw bod ganddo eisoes ddwy gerdd (cerddi 12 a 13) y gellid eu galw'n gerddi brud, er eu bod, fel y gwelwyd eisoes, yn dra gwahanol i'r cerddi uchod o ran cynnwys ac arddull. Yr ail reswm yw bod Eryri a'r Wyddfa yn aml yn cael eu crybwyll yn y cerddi hyn, ac oherwydd hynny hawdd fyddai eu priodoli i Rys Goch Eryri.

I gwblhau'r darlun, ceir isod drafodaeth ar bob un o'r cerddi a briodolir i Rys Goch ond y barnwyd nad ydynt yn ddilys. Codwyd manylion y priodoliadau o MFGLI a MCF.

Amlwg y deliais wg ar dal y sarn

Awdl yw hon i leidr a ddug farch y bardd. Fe'i ceir mewn pedair llawysgrif, sef BL Add 14902, 20^r; BL Add 14880 [= RWM 36], 75^r; BL Add 31080, 58^r; a CM 200, 123. Y mae testun BL Add 31080 yn gopi o BL Add 14880 [= RWM 36]. O ran thema, y maent yn debyg i awdl Rhys Goch i'r llwynog (cerdd 16), oherwydd gwelir y bardd yn dymuno dial ar y lleidr yn y ddwy. At hynny, y mae rhai rhannau o'r ddwy heb fod yn gwbl annhebyg, e.e.:

Lleider wyn ne ddefaid / lleidyr iawn i ddeifio

Lleidyr y beichie llin / lleider buwch a llo (BL Add 14880 [= RWM 36], 75^r)

Ond y mae arddull yr awdl 'Amlwg y deliais' yn gwbl wahanol, a phrin y ceir ynddi unrhyw eiriau cyfansawdd, sy'n nodwedd amlwg iawn o waith Rhys Goch yn gyffredinol ac o'i awdl i'r llwynog yn benodol. Er bod 'Amlwg y deliais' yn debyg o ddeillio o'r cyfnod cyn y Diwygiad Protestannaidd (ceir sawl cyfeiriad sy'n awgrymu hynny, yn arbennig y cyfeiriad sydd ynddi at y Grog o Gaer), nid yw'n debyg o gwbl i waith bardd o ddechrau'r bymthegfed ganrif. Y mae'n fwy tebygol o fod yn perthyn i ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, a hawdd gweld pahan y byddid wedi ei phriodoli i Rys Goch yn sgil enwogrwydd ei awdl ddychan i'r llwynog.

Am ryfel mae'r ymofyn (Arbennig erw a bonedd)

Ceir dau fersiwn o'r gerdd hon sy'n dechrau â'r naill neu'r llall o'r llinellau uchod. O edrych yn MGFLI, ceir priodoliadau i Rys Goch Eryri, ond hefyd (fel y nodir yn IGE cxix) i Forus ap Llywelyn. Y mae cynnwys y gerdd yn nodweddiadol o ganu brud ail hanner y bymthegfed ganrif (sy'n rhy ddiweddar ar gyfer Rhys Goch Eryri), a chyfeiriadau megis *nai'r ych* yn

¹⁷³ E.e., gall mai Rhys Goch a wneir yn y cwpled canlynol o gerdd ddiennw: *Coronog faban medd Rhys o'r Yri / A ddenfyn lynges i Aberteidi*, GLIBH td. 97.

awgrymu mai Harri Tudur a gyferchir mewn manau. Tybed ai'r llinell *nod yryrod or yri* (Llst 120, 102) sy'n esbonio'r cambriodoliad i Rys Goch Eryri?

Blin ydyw gan blanedau

Fel y dengys MFGLI, priodolir y gerdd hon i Rys Goch Eryri (un copi, sef Llst 135, 19), Robin Ddu o Fôn (dau gopi), a Rhys Goch Glyndyfrdwy (rhyw 25 o gopïau). Y mae nifer y copïau, a hefyd destun y gerdd (marwnad i Siôn Pilstwn o Emral yn sir y Fflint) o blaid awduraeth Rhys Goch Glyndyfrdwy. Afraid dweud mai hawdd fyddai cymysgu rhwng y ddau Rys Goch hyn (gw. isod ar 'Rhwydda' gŵr hawdd ei garu' am enghraifft debygol arall).

Dafydd gŵr rhydd i gael rhodd

Cywydd maswedus i ferch yw hwn sy'n agor â chyfeiriad at Ddafydd Nanmor. Fe'i ceir yn y llawysgrifau canlynol: BL Add 14970, 10^r; BL Add 31080, 61^r; BL Add 31083, 66^r (Ieuan Gethin ab Ieuan Lleision); CM 12, 261 (dienw); CM 200, 200; LIGC 566B, 61^r; LIGC 5931A, 78^r; LIGC 7191B, 75^v; LIGC 13127A [= Llanover C40], 119 (Ieuan Gethin ab Ieuan Lleision); LIGC 14964A [= Llangibby A3], 119^r; LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans II.1], 77^r; Llst 55, 42 (deryn); a Pen 239, 383. Diau y gellir anwybyddu'r priodoliadau i Ieuan Gethin a geir yn unig yn llawysgrifau Iolo Morganwg.¹⁷⁴ Diweddar iawn yw'r llawysgrifau ar y cyfan (diwedd yr 17g. neu'n ddiweddarach), er bod LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans II.1], yn llaw Robert Vaughan, yn bur bwysig. Yn y copi hwnnw nododd Vaughan wrth enw Rhys Goch *nag ef medd d' dds*. Ymddengys, felly, fod Robert Vaughan yn credu bod Dr John Davies, Mallwyd, yn gwrthod awduraeth Rhys Goch. Yn wir, y mae arddull y gerdd yn llafar ac yn ddiweddar ei naws o'i gymharu â chanu Rhys Goch. Yn benodol, y mae cynganeddu'r gerdd yn gwbl wahanol i waith Rhys Goch. Y mae canran y gynghanedd lusk (15%) yn uchel braidd (10% yw'r uchaf a geir gan Rys Goch) ac y mae canran y gynghanedd sain (9%) yn isel iawn (28% yw'r isaf a geir gan Rys). Yn olaf, y mae canran y gynghanedd draws (65%) yn uchel tu hwnt (36% yw'r uchaf a geir gan Rys Goch). Gellid awgrymu felly mai bardd digon anghelfydd o gyfnod heb fod yn gynt nag ail hanner y bymthegfed ganrif (os nad gryn dipyn yn ddiweddarach) a gyfansoddodd y gerdd hon. Fel y noda rhai o'r llawysgrifau, y mae ei chynnwys yn dra choch, a dyna reswm posibl paham y tadogwyd y gerdd ar fardd o'r gorffennol. Ymddengys ei bod yn rhan o draddodiad diweddarach

¹⁷⁴ Trafodir y gerdd yn Nest Scourfield, 'Gwaith Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw, Ieuan Du'r Bilwg, Ieuan Rudd a Llywelyn Goch y Dant' (M.Phil. Cymru [Abertawe], 1993), xx. Ni dderbynnir y gerdd yn waith Ieuan Gethin, a chymerir yno mai Rhys Goch Eryri yw'r awdur. Cytuna Gilbert Ruddock mai bardd diweddarach na chyfnod Rhys Goch a'i canodd, er y dywed y gall mai Ieuan oedd hwnnw, gw. Gilbert Ruddock, *Dafydd Nanmor* (Caernarfon, 1992), 18.

ynglŷn â Rhys Goch, Dafydd Nanmor a Gwen o'r Ddôl (gw. isod ar 'Madyn ronwyn ry enwir'). Cyhoeddwyd testun o'r gerdd yn LIU 339–40.

Dau gaethied, dau flaeniaid diflinion gyde

Ceir copïau o'r englyn hwn mewn pedair llawysgrif, sef Bangor 5945, 186; BL Add 14974, 84; BL Add 31058, 67; a Chirk A.3, 33. Nodir yn MFGLI ei fod yn ddiennw yn BL Add 14974 a BL Add 31058 (felly y mae hefyd yn Bangor 5945) a'i fod wedi ei briodoli i Rys Goch yn Chirk A.3. Ond o edrych yn ofalus ar y copi hwnnw, gwelir mai *Rich[ard] Eyton* yw'r enw ar waelod y gerdd (sy'n gopi holograff), ac nid Rhys Goch Eryri. Ar gam felly y priodolwyd y gerdd hon i Rys Goch.

Deillion yw dynion mewn dysg

Ceir y gyfres hon o bedwar englyn ar dudalen (182^d) a rwymwyd gyda chopi o eiriadur Dr John Davies, Mallwyd (sef D). Bu'r gyfrol ym meddiant Moses Williams a dichon mai ef a gopiodd yr englynion. Y mae'r gyfrol bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth (rhif silff W.s. 182).¹⁷⁵ Englynion sy'n ymwneud â dyddio'r Pasg ydynt. Dyma'r unig gopi sy'n eu priodoli i Rys Goch Eryri, ond mewn llawysgrifau eraill y mae rhai neu'r cyfan o'r englynion yn cael eu priodoli i Ddafydd Nanmor (BL Add 14986, 9^v a Pen 313, 265) neu fe'u gadewir yn ddiennw (LIGC 16B, 247; LIGC 872D [= Wrecsam 1], 262; a Llŷst 145, 108). Gwan iawn yw'r dystiolaeth o blaid Rhys Goch felly, ac y mae'n annhebygol iawn mai ef a'u canodd.

Ebrwydd y daeth a braidd dâl

Ceir y cywydd brud hwn mewn dros ddeg llawysgrif ar hugain, a'i briodoli i Ddafydd Nanmor, Edwart ap Rhys, Maredudd ap Rhys, Morys ap Rhys, Rhys Goch Eryri, a Siôn Cent. Fel y noda Enid Roberts, un llawysgrif yn unig o'r cyfnod cyn tua 1700 sy'n ei briodoli i Rys Goch (pump yn unig a nodir yn MFGLI)¹⁷⁶ ac y mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn ei briodoli i Faredudd ap Rhys. Fe'i golygwyd felly dan ei enw yn GMRh cerdd 17.

Er malais, er cais, er cam

Un copi yn unig sydd o'r englyn hwn, sef CM 128, 488:

Er malais er cais er cam er brodur
 Er brwydyr o dryglam
 Ein tâd ni gyd fu adam
 Efa ûn modd a fû/n/ mam

Rees Gôch ai cant

¹⁷⁵ Hoffwn ddiolch i Dr Huw Walters a Mr Charles Parry am eu cymorth wrth olrhain y gyfrol hon.

¹⁷⁶ GMRh 11.

Er y rhestrir y gerdd hon yn MFGLI dan enw Rhys Goch Eryri, gwelir mai i 'Rees Gôch' yn unig y'i priodolir yn y llawysgrif. Gan fod y cyfuniad 'Rhys Goch' yn un digon cyffredin, nid yw'n debygol mai Rhys Goch Eryri yw hwn. At hynny, y ffurf *Adda(f)* a ddefnyddir gan Rys Goch Eryri (gw. isod 4.4, 84, 8.55 a 16.86) yn hytrach nag *Adam*, er y gallai'r bardd wrth gwrs fod wedi manteisio ar y ddwy ffurf. Gall mai ôl hen orgraff sydd i'w weld yn y ffurf *dryglam* (am *ddryglam*), ond y mae'n fwy tebygol mai gwall copio ydyw. Rhwng popeth, y mae'n dra annhebygol mai Rhys Goch Eryri a ganodd yr englyn hwn.

Llyma y byd, cyd cadarn

Priodolir y gerdd hon i sawl bardd: Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd (un copi), Maredudd ap Rhys (un copi), Owain ap Dafydd Ifan (un copi), Rhys Goch Eryri (un copi), a Siôn Cent (dros hanner cant o gopïau).¹⁷⁷ Y mae'n bur debyg felly mai gwaith Siôn Cent yw'r gerdd hon, ac fe'i golygir dan ei enw yn IGE² (cerdd LXXXV); gw. hefyd ASC 3.

Madyn ronwyn ry enwir

Ceir nifer helaeth o gopïau o'r gerdd hon yn MFGLI a cheir testun yn IGE² 330–1 (cerdd CIX).¹⁷⁸ Cywydd ydyw i erchi i'r llwynog ladd paun Dafydd Nanmor am ei fod yntau a'r bardd ill dau yn caru Gwen o'r Ddôl. Y mae'r rhan fwyaf o bell ffordd o'r copïau o blaid awduraeth Rhys Goch, ond nodir mewn un copi, sef LIGC 3047C [= Mos 144], 513, *Gruffyth ap kynwrig ne Rees goch o Ryri ai kant*.¹⁷⁹ Fel y noda Ifor Williams, y mae'r cywydd yn enwi Dafydd Nanmor a Llawdden, beirdd a oedd gryn dipyn yn iau na Rhys Goch, ac y mae arddull y cywydd yn gweddu llawer iawn yn well i'r genhedlaeth honno na chenhedlaeth Rhys Goch.¹⁸⁰ Hawdd hefyd yw gweld sut y gellid bod wedi cambriodoli'r gerdd i Rys Goch, o ganlyniad i'w gysylltiadau â Nanmor a hefyd o ganlyniad i'r cyfeiriad ynddi at *Gŵr arall gwag o 'Ryri* (IGE² 330 [ll. 16]). Ar ben hynny, y mae'n amlwg fod cymysgu rhwng awdl Rhys Goch i'r llwynog (cerdd 16) a'r gerdd hon.¹⁸¹ Yng ngeiriau'r Athro Gruffydd Aled Williams, '[t]he fame of Rhys's awdl caused another poem to a fox, urging him to kill Dafydd Nanmor's peacock, to be attributed to him'.¹⁸² Gellir profi i hynny ddiwydd yn gynnar, gan y nodir ar ben copi o'r awdl a ddaw o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg y

¹⁷⁷ Ni thrafodir y gerdd yn GIRh a GMRh.

¹⁷⁸ Fe'i derbyniwyd hefyd gan Gilbert Ruddock, *op.cit.* 16.

¹⁷⁹ Ar LIGC 3047C [= Mos 144], llawysgrif sy'n cynnwys llaw William Phylip ac sy'n dyddio o ail chwarter yr 17g., gw. RWM i, 131–51. Ceir nodyn tebyg yn BL Add 14966, 344', ond y mae'n debyg ei fod yn deillio o nodyn LIGC 3047C.

¹⁸⁰ IGE² xlviii.

¹⁸¹ Awgrymir hynny yn IGE² xlviii.

¹⁸² Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', HM ii, 562n368.

teitl ‘Llyma owdl y llwynog Madyn Ronwyn’.¹⁸³ Fel y nododd Thomas Parry wrth olygu gwaith Dafydd ap Gwilym, nid yw’n debyg y byddai bardd yn canu dwy gerdd ar yr un testun, ac ymddengys fod yr egwyddor honno yn gywir yn yr achos hwn hefyd.¹⁸⁴ Fel y dywedwyd eisoes, y mae arddull y gerdd hon yn dra gwahanol i arddull Rhys Goch, a nododd yr Athro Williams: ‘on both chronological and stylistic grounds it is unlikely that the poem was composed by Rhys Goch’.¹⁸⁵ Ategir hynny gan ddadansoddiad o’r cynganeddion. Tua 15% yw canran y gynghanedd sain, sy’n llai na hanner yr hyn y gellid ei ddisgwyl gan Rys Goch (28% yw canran isaf y gynghanedd sain mewn cerdd gan Rys Goch, sef cerdd 2). Yn fwy trawiadol byth, 65% yw canran y gynghanedd groes, sydd dros ddwywaith uchafswm y cynganeddion croes mewn unrhyw gerdd gan Rys Goch (sef 31%, cerdd 7). Y mae’n anodd iawn credu y byddai dull Rhys Goch o gyfansoddi wedi newid mor gyfan gwbl ar ddiwedd ei oes. Y mae testun y gerdd a’i chynganeddu yn awgrymu’n gryf iawn mai bardd iau na Rhys a’i canodd.

Medd un im mae ddwyn iach

Priodolir y cywydd brud hwn i dri bardd: Rhys Goch Eryri (tri chopi, ond y mae priodoliadau i Robin Ddu hefyd yn y copiâu hyn), Dafydd Llwyd o Fathafarn (tri chopi) a Robin Ddu o Fôn (bron i ugain copi). Y mae’n debyg felly mai gwaith Robin Ddu yw’r gerdd hon, ac y mae ei chynnwys yn gweddu i’w gyfnod ef. Enwir rhyw Rys yn y gerdd: ‘Duw mae’n rhaid dymuno Rhys’, ac efallai mai hynny sydd i gyfrif am y cambriodoliad. Cyhoeddwyd testun o’r gerdd dan enw Robin Ddu yn CLIG i, 215.

Oer genna’i grogenna y gaea’

Englyn yw hwn y dywedir i’w baladr gael ei gyfansoddi gan Rys Goch a’i esgyll gan y Dafydd Nanmor ieuanc. Dyma un ffurf arno (ceir eraill hefyd):

Rhys:	Oer genna’i grogenna—y gaea’ A gwynned yr Wyddfa.
Dafydd:	Byd aruthr a bod eira A’r haul cyn deced a’r ha’.

Ceir traddodiad bod Rhys wedi ynganu ei eiriau ef wrth weld bachgen yn hel cregyn, ac iddo adnabod dawn bardd pan glywodd ateb y bachgen hwnnw, sef Dafydd Nanmor. Ond prin bod disgwyl i stori o’r fath fod yn ffeithiol gywir, ac felly perthyn yr englyn i’r dosbarth hwnnw o ganu diweddarach sy’n trafod perthynas Rhys Goch a Dafydd Nanmor. Fe’i trafodwyd yn fanwl gan Nia M.W. Powell.¹⁸⁶

¹⁸³ Sef llawysgrif M yn y golygiad presennol, h.y. Card 2.4 [= RWM 11].

¹⁸⁴ Gw. GDG xcix–ci.

¹⁸⁵ G. Aled Williams, *art.cit.* 562n368.

¹⁸⁶ Nia M.W. Powell, *art.cit.* 101–112.

Pa sawl blwyddyn yn pwysaw

Cywydd brud arall yw hwn, ac fe'i priodolir i Rys Goch mewn un copi yn unig, sef LIGC 3077B, 248. Fodd bynnag, dengys MCF fod nifer helaeth o gopïau o'r gerdd hon yn ei phriodoli i feirdd eraill, gan gynnwys Iolo Goch, Ieuan Dyfi, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Dafydd Nanmor a Rhys Nanmor. O ran cynnwys, y mae'n gweddu i ail hanner y bymthegfed ganrif. Ni chynhwyswyd y gerdd yn y golygiadau safonol o waith Iolo Goch, Dafydd Llwyd o Fathafarn na Dafydd Nanmor.¹⁸⁷ Ond fe'i golygwyd gan M.G. Headley dan enw Rhys Nanmor, ac y mae'n debyg mai ef a'i piau.¹⁸⁸

Profer wrth yn ore pryfiu

Mewn un llawysgrif yn unig yn y Llyfrgell Genedlaethol, sef Penrice & Margam 6596, y ceir y gerdd hon.¹⁸⁹ Rhyw lun ar gywydd brud sydd yma, er bod nifer o'r llinellau yn ddigynghanedd ac arddull y gerdd yn awgrymu dyddiad diweddarach na'r priodoliad: *Rees goch or Eiri ay Cant*. Y mae'r cyfeiriadau ar y cyfan yn rhai cyffredinol (e.e. *pan fo sychion afonydd, a ffob gradd yn lladd y llall*, ac ati). Ond y mae yma gyfeiriad clir at Siasbar Tudur (*Siasbar yw darbar y dawns*) sydd eto'n dangos nad yw'r gerdd yn debyg o fod yn gynharach nag ail hanner y bymthegfed ganrif, ac efallai heb fod yn gynharach na chwarter olaf y ganrif honno. O graffu ar rai o gywyddau brud y cyfnod, gwelwyd bod y gerdd hon mewn gwirionedd yn ddarn o gywydd arall, sef yr un a nodir yn MFGLI dan y llinell gyntaf 'Byd yn gall pes deallwn / Byd anghall pes (pei, os) deallwn / Dyd yn gall pes dallwn'. Y mae'r cywydd hwn yn ddiennw mewn rhai llawysgrifau, ac mewn eraill fe'i priodolir i Robin Ddu o Fôn, Dafydd Gorlech, Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd, a 'Cyfarwyddyn'. Fel y nodir gan Erwain H. Rheinallt, y mae tri chwarter y copïau yn ei briodoli i Robin Ddu, ac ef felly yw'r awdur mwyaf tebygol.¹⁹⁰ Cyhoeddwyd testun o'r gerdd dan enw Robin Ddu yn CLIG i, 215–6, er bod cryn wahaniaeth rhwng y testun hwn a'r fersiwn yn Penrice & Margam 6596 (e.e., ni cheir y cyfeiriad at Siasbar yn nhestun CLIG i). Tybed ai'r llinell *kiw yr Eryr ako yr yry* a achosodd y cambriodoli?

Rho Duw gyrrn, rhydedw garnedd

Cadwyd y cywydd brud hwn, sydd ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn, mewn nifer helaeth o gopïau. Fel y dengys MFGLI, fe'i priodolir i Robin Ddu mewn dwy lawysgrif, i Ddafydd Llwyd o Fathafarn ac Ieuan ap Gruffudd Leiaf mewn tua deg copi yr un, ac i Rys Goch Eryri mewn bron i ddeg copi ar hugain. Y mae'n bur sicr y gellir diystyru Dafydd

¹⁸⁷ GIG; GDLI a DN.

¹⁸⁸ Llawdden, &c.: Gw 154–7 (cerdd 49).

¹⁸⁹ Dyddir y llawysgrif i ddechrau'r ddeunawfed ganrif, gw. Walter de Gray Birch, *A Descriptive Catalogue of the Penrice and Margam Abbey Manuscripts in the possession of Miss Talbot of Margam* (London, 1903), 58.

¹⁹⁰ GDGor 8.

Llwyd a Robin Ddu, gan fod tuedd amlwg i gambriodoli cerddi brud iddynt. Yn erbyn awduraeth Rhys Goch Eryri y mae'r ffaith fod yn y gerdd gyfeiriad tebygol at Harri Tudur, fel y nodwyd gan Eurys Rolant a chan W.J. Gruffydd.¹⁹¹ Os felly, y mae'n rhy ddiweddar i fod yn waith Rhys Goch. Ymhellach, fel y noda Rolant, 'hawdd gweld paham y buasid wedi cambriodoli'r gerdd iddo' (cerdd ymddiddan rhwng bardd ac un o fynyddoedd Eryri ydyw),¹⁹² a dadleua ymhellach fod sawl ystyriaeth bwysig o blaid awduraeth Ieuan ap Gruffudd Leiaf, gan gynnwys:

priodoldeb ei gyfnod, y ffaith ei fod yn fardd cymharol anenwog ac anodd felly ddeall pam y buasid wedi priodoli cerdd awdur arall iddo, a'r ffaith fod ganddo gerdd a ganodd i Afon Llugwy (sy'n llifo o Ffynnon Llugwy o dan Garnedd Llywelyn) a oedd yn rhwystr iddo ar daith clera i'r Penrhyn.¹⁹³

Er bod y cyfeiriad at Harri Tudur yn dibynnu ar ddiwygio rhywfaint ar ddarlleniadau'r llawysgrifau, y mae dadleuon Eurys Rolant o blaid Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn argyhoeddi. Cyhoeddwyd rhan o'r gerdd gan Eurys Rolant,¹⁹⁴ a fersiwn llawn ohoni yn CLIG i, 214–5 dan enw Robin Ddu, er bod golygydd y gwaith hwnnw yn tueddu i ffafrio awduraeth Rhys Goch Eryri. Rhan o'r gerdd hon yw'r demyn sy'n dechrau 'Cynnal goreugwal grugwellt' yn LIGC 669D, 199.

Rhwydda' gŵr hawdd ei garu

Ymddengys mai cywydd moliant i Siôn ap Rhosier Pilstwn o Emral yw hwn; bu ef farw yn eithaf ifanc yn 1468.¹⁹⁵ Fe'i ceir mewn un llawysgrif yn unig, sef LIGC 6471B, 187. Perthynai Siôn ap Rhosier i ail hanner y bymthegfed ganrif, ac y mae, felly, yn debygol o fod yn rhy ddiweddar: yn wir, y mae geiriau'r bardd wrth Siôn, *megaist fi*, yn brawf pendant nad Rhys Goch a'i canodd. At hynny, y mae arddull y gerdd yn annodweddiadol o'i waith, ac y mae'n debygol mai gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy ydyw. Fel y gwelwyd eisoes (gw. uchod ar 'Blin ydyw gan blanedau'), priodolwyd i Rys Goch Eryri gerdd arall hefyd gan Rys Goch Glyndyfrdwy i Siôn ap Rhosier Pilstwn o Emral.¹⁹⁶

Y gwanwyn, llwyn a'r llynnoedd

Cywydd brud yw hwn, ac y mae'n amlwg o'i linell olaf (*Am ros mwy i ymryson*) ei fod yn perthyn i gyfnod Rhyfel y Rhosynnau. Y mae'n amlwg,

¹⁹¹ Gw. Eurys Rolant yn LlyB, 127 a 128.

¹⁹² *Ib.* 127. Gw. hefyd IGE cxx.

¹⁹³ Eurys Rolant, *art.cit.* 127.

¹⁹⁴ *Ib.* 110–11 (cerdd XIII).

¹⁹⁵ Trafodir y canu i Bilstyniaid Emral yn R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', LICy xii (1972–3), 22–6, ac i Siôn ei hun *ib.* 23.

¹⁹⁶ Sylwer mai Rhys Goch Glyndyfrdwy ac nid Rhys Goch Eryri a ganodd y gerdd i anfon yr haul yn gennad i Forgannwg a drafordir yn GGL1 236.

felly, nad Rhys Goch a'i canodd. Fe'i priodolir unwaith i Faredudd ap Rhys (ond gwrthodir y priodoliad gan ei olygydd diweddaraf, gw. GMRh 13), bum gwaith i Rys Goch, a rhyw saith o weithiau i Ddafydd Llwyd o Fathafarn (priodolir y gerdd i fwy nag un bardd mewn rhai llawysgrifau). Teg tybio mai Dafydd Llwyd yw'r awdur ac fe'i golygwyd gyda'i waith yn GDL 95–6 (cerdd 40). Rhan ohoni yw'r dernyn sy'n agor 'Chware yn vylin a byddinoedd' (Llst 167, 133^r) a nodir yn MGFLI.

Y Gŵr a roes Ei wryd

Ceir copïau o'r gerdd hon mewn deg llawysgrif ar hugain a phriodoliadau i wyth o feirdd gwahanol, gan gynnwys pedwar priodoliad i Rys Goch. Fe'i golygwyd dan enw Huw Cae Llwyd (HCLI 106 [XLIV]) ac yn fwyaf diweddar gan M.P. Bryant-Quinn (GIBH cerdd 12), sy'n dadlau yn gryf o blaid awduraeth Ieuan Brydydd Hir.¹⁹⁷

Y marchog blodeuog blaid

Cynhwyswyd y cywydd hwn, sef mawl Syr Gruffudd Fychan (*ob.* 1447) yn IGE² 318–19 (cerdd CV).¹⁹⁸ Ond yr oedd Ifor Williams yn bur amheus ynglŷn â'i awduraeth am sawl rheswm.¹⁹⁹ Yn gyntaf, ceir priodoliadau yn y llawysgrifau i dri bardd, sef Llywelyn ab y Moel a Hywel Cilan yn ogystal â Rhys Goch, a hefyd rai copïau dienw. Yn ail, pan sonia'r bardd am '[ei]n gwlad' ymddengys mai Powys sydd ganddo mewn golwg (IGE² 318 [ll. 23]). Y dehongliad hawsaf (er nad anorfod) yw mai gŵr o Bowys, ac felly nid Rhys Goch Eryri, oedd yr awdur. At hynny, y mae Ifor Williams yn nodi bod y llawysgrifau sydd o blaid Rhys Goch yn tueddu i fod yn ddiweddarach na'r lleill. Ymhellach, yn ei olygiad ef o waith Hywel Cilan, cytunodd Islwyn Jones mai'r bardd hwnnw oedd yr awdur,²⁰⁰ ac nid yw golygydd diweddaraf gwaith Llywelyn ab y Moel yn anghytuno â hynny.²⁰¹ Er nad yw'n amhosibl yn amseryddol i Rys Goch fod wedi ei chanu, y mae arddull y gerdd yn debycach i waith bardd o genhedlaeth iau na Rhys, ac y mae'r llawysgrifau ar y cyfan yn gryfach o blaid Hywel Cilan. Dylid nodi hefyd fod cyfartaledd y cynganeddion croes yn uchel iawn, sef 50% (31% yw canran uchaf y gynghanedd groes yng nghywyddau Rhys Goch). Golygwyd y gerdd dan enw Hywel Cilan yn GHC 47–9 (cerdd XXVII).

Yr henfrud lledfryd llwydfrych

Ceir copi o'r gerdd hon, sef cywydd yn cyfarch llyfr brud, mewn nifer da o lawysgrifau: Bangor 1267, 60^r; BL Add 31057, 94^r; CM 242, 234; LIGC

¹⁹⁷ Trafodir yr awduraeth a'r golygiadau eraill o'r gerdd hon yn GIBH 158–9.

¹⁹⁸ Ar Syr Gruffudd, gw. bellach Glanmor Williams, 'Sir Gruffydd Fychan (?–1447)', *Mont Coll* lxxxvi (1998), 17–28.

¹⁹⁹ IGE cvi.

²⁰⁰ GHC xxii–xxiii.

²⁰¹ GSCyf 88.

3077B, 169; LIGC 4710B, 458; LIGC 6499B, 277; LIGC 13069B, 40^v; LIGC 13167B, 298; Llst 41, 165; Llst 55, 102 (drylliau); Llst 133, 1196; Llst 136, 85; Llst 173, 20. At hynny, rhannau o'r gerdd hon yw'r darnau canlynol a nodir dan enw Rhys Goch Eryri yn MFGL: 'Deall pan ddêl Gwyddel gwyllt' (BL Add 14892, 103^v; BL Add 14994, 55^v; BL Add 31080, 83^v; a LIGC 3077B, 216) ac 'Edrych yr hagrddrych hen' (Gwyn 7, 117). Y mae'r llawysgrifau hyn yn gyson yn priodoli'r gerdd i Rys Goch. Ond fel yn achos y rhan fwyaf o'r cerddi brud a briodolwyd iddo (ac eithrio cerddi 12 a 13) y mae ei chynnwys yn dangos ei bod yn perthyn i gyfnod Rhyfel y Rhosynnau yn ail hanner y bymthegfed ganrif. Yn y lle cyntaf, y mae ei defnydd o arwyddion brudiol (e.e. *lladd y fflamwadd a'i phlaid*, a *pan ddêl Gwyddel gwyllt*) yn nodweddiadol o ganu'r cyfnod hwnnw. Ymddengys fod cyfeiriadau eraill yn fwy penodol eto. Er enghraifft, y mae *llythyren yr ochenaid*' (sef 'H') yn gyfeiriad tebygol at Harri (Harri VI neu Harri Tudur, gw. ymhellach IGE cxix), ac y mae y *gŵr llwyd o gaer Llydaw* yn debyg o fod yn gyfeiriad at Siasbar Tudur neu efallai ei nai Harri Tudur, gan i'r ddau dreulio amser yn alltud yn Llydaw cyn dychwelyd i gipio'r deyrnas yn 1485. Yn olaf, y mae'r gerdd yn hynod debyg i rai o gywyddau brud eraill ail hanner y bymthegfed ganrif, er enghraifft 'Cywydd i hen lyfr brud' gan Faredudd ap Rhys (GMRh cerdd 25). Felly, er gwaethaf y ffaith fod y llawysgrifau o blaid awduraeth Rhys, y mae'n debygol iawn mai cerdd ddiweddarach ydyw. Paham felly y priodolwyd y gerdd hon i Rys Goch? Yn gyntaf, fel y nodwyd eisoes, y mae'n amlwg fod tuedd i briodoli cerddi brud iddo. Yn achos y gerdd hon, gellir nodi o ran rhai o'i themâu fod cryn debygrwydd rhyngddi a cherddi 12 a 13, yn arbennig yn llinellau 5–8:

Nag yngan chwedl amdanaw,
Nid aeth i fedd etifedd, taw!
Ni bu farw'r hen garw rhyngost,
Ni dderfydd, beunydd y mae'r bost...

Wrth gwrs, y mae cadw'n dawel ynglŷn ag enw'r arwr yn ddigon cyffredin, ond gallai hyn fod wedi peri i'r gerdd gael ei phriodoli i Rys Goch. Gwelwyd yn gyffredinol fod tuedd i'r gerdd hon gan ei throsglwyddo mewn darnau o wahanol hyd, fel sy'n digwydd yn aml yn achos cywyddau brud. Gall fod rhannau eraill ohoni ar wasgar yn y llawysgrifau, o bosibl dan enwau beirdd eraill, ond ni welwyd rhagor o gopïau na'r rhai a nodir uchod.

Y Wyddfa noddfa nawddfawr

Ceir y gerdd hon, sef cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa, mewn o leiaf deg llawysgrif ar hugain. Yn LIGC 672D fe'i priodolir naill ai i Rys Goch neu i Ddafydd Gorlech, ac yn LIGC 19222B fe'i priodolir i Rys Goch neu Rys Goch ap Dafydd.²⁰² Ceir priodoliadau

²⁰² Trafodir awduraeth y gerdd yn GDGor 12.

hefyd i Robin Ddu a Richard Hughes, Cefn Llanfair, ond y mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau o blaid awduraeth Dafydd Gorlech ac fe'i golygwyd dan ei enw yn GDGor cerdd 6. Unwaith eto, y mae'r cyfeiriad sydd yn y gerdd hon at Eryri (GDGor 6.50) yn debyg o fod yn rhannol gyfrifol am y cambriodoli.²⁰³

Trosglwyddiad y cerddi

Y peth cyntaf i'w nodi am waith Rhys Goch yw na chadwyd ef mewn llawysgrifau cynnar.²⁰⁴ Yn wir, nid tan yr unfed ganrif ar bymtheg y ceir llawysgrifau yn cynnwys ei waith, ac y mae'n debyg mai BL Add 14997 [= RWM 24] (llaw anh., c. 1510–40) yw'r gynharaf o'r rheini. Nid tan ail hanner y ganrif honno y cawn nifer da o lawysgrifau, ac nid oes prinder ohonynt o'r ganrif ddilynol. Ond y mae'r sefyllfa hon yn gwbl gyson â'r hyn a ddisgwyliid yn achos bardd gogleddol o'i gyfnod ef.²⁰⁵ Fodd bynnag, yr oedd gwaith y Cywyddwyr yn dechrau ymddangos mewn llawysgrifau mewn rhai rhannau o Gymru yn fuan iawn wedi oes Rhys Goch. Un o'r ardaloedd hynny oedd y de-ddwyrain, lle yr oedd rhai cerddi a genid i berthnasau i Syr Wiliam ap Tomos (gwrthrych cerdd 9) yn cael eu copïo yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif.²⁰⁶ Nid oes, fodd bynnag, unrhyw dystiolaeth fod gwaith Rhys Goch wedi ei gopïo y pryd hynny, er bod llawysgrifau Llywelyn Siôn yn dangos bod ei waith yn cylchredeg yn ne Cymru erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Ceir un darn o dystiolaeth sy'n dangos bod cryn fri ar farddoniaeth Rhys Goch yn ei ffurf ysgrifenedig erbyn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn LIGC 3049D [= Mos 146] ceir copïau o ddwy o'i gerddi, sef cerdd 9 ('Gyrru'r ddraig goch at Syr Wiliam ap Tomas o Raglan') a cherdd 12 ('Cywydd yn galw am adfer Gwynedd'). Y copi o'r ail gerdd sydd o ddiddordeb arbennig. Er bod y llaw yn perthyn i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, y mae'r testun wedi ei gopïo ar ddalen o femrwn.²⁰⁷ Papur yw gweddill y llawysgrif, ac ymddengys fod y gerdd hon wedi ei thorri o lawysgrif arall a'i rhwymo mewn llawysgrif newydd, efallai er mwyn ei chynnwys gyda cherddi i deulu Wynn o Wedir.²⁰⁸ Erbyn yr unfed ganrif ar

²⁰³ Cyhoeddwyd testun o'r cywydd yn CLIG i, 214–15 dan enw Robin Ddu, er bod y golygydd yn ffafrio awduraeth Rhys Goch ('yr ydym yn barnu ei fod yn dwyn nodau mewnol o'i awduriaeth', 214).

²⁰⁴ Trafodir yr holl lawysgrifau y cyfeirir atynt yma tt. 285–94.

²⁰⁵ MWM 98–9.

²⁰⁶ *Ib.* 96.

²⁰⁷ RWM i, 168, 175. Hoffwn ddiolch i Mr Daniel Huws am drafod y llawysgrif hon â mi.

²⁰⁸ Fe'i dilynir yn y llawysgrif gan gywydd moliant Lewys Môn i Faredudd ab Ifan (neu Ieuan) ap Robert, gw. GLM 171–4 (cerdd XLVIII) (cyfeirir at 'mab Cynan' yn ail l. y gerdd hon) ac wedyn gan gywydd moliant Ieuan ap Tudur Penllyn i Ieuan ap Robert ap Maredudd, gw. GTP 69–70 (cerdd 37). Yr oedd y ddau hyn yn wŷr ac yn fab i Robert ap Maredudd. Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 12 isod.

bymtheg, yr oedd memrwn yn ddrutach na phapur,²⁰⁹ a gellir awgrymu, felly, fod gwaith Rhys Goch wedi ei gopïo ar gyfer noddwr tra chyfoethog a oedd yn awyddus i gael peth o'i waith ar glawr mewn llawysgrif ddrudfawr.

Beth a ddigwyddodd, felly, yn y ganrif honno rhwng marw Rhys Goch a chyfnod y llawysgrifau cynharaf o'i waith? Nid oes unrhyw reswm dros gredu na threuliodd gwaith Rhys gyfnod ar lafar nac i amau nad ar gyfer perfformiadau llafar y cyfansoddwyd y cerddi yn y lle cyntaf. Ond y mae'r dystiolaeth o blaid trosglwyddiad llafar yn amrywio'n sylweddol. Yn achos cerddi 1–4, ac efallai hefyd gerdd 12, y mae'r tebygrwydd rhwng y copïau yn awgrymu eu bod yn tarddu o'r un ffynhonnell. Y mae mwy o amrywio i'w weld yn achos cerddi 6–11 a 13–15, yn arbennig felly yn achos cerdd 15 sy'n dangos amrywio sylweddol yn nhrefn y llinellau. Gan hynny, teg tybio bod fersiynau ychydig yn wahanol i'w gilydd o'r cerddi hyn yn cylchredeg ar lafar. Ond y mae ôl trosglwyddo llafar yn fwyaf trwm ar yr awdl i'r llwynog (cerdd 16). Yn ogystal â threfn amrywiol y llinellau, y mae'r darlleniadau eu hunain yn amrywio cymaint nes profi'n bendant mai trosglwyddo llafar a oedd yn gyfrifol. Y mae hyn ychydig yn annisgwyl o gofio'r duedd i ystyried bod y cywydd yn ffurf fwy 'llafar' na'r awdl. Ond yn yr achos hwn y mae tystiolaeth allanol sy'n profi yr adroddid yr awdl ar lafar, ac yn wir mai natur y perfformiad llafar hwnnw oedd un o'i nodweddion pwysicaf.²¹⁰

Rhwng popeth, rhaid bod y cerddi hyn wedi treulio cyfnod ar lafar, ond yn achos nifer ohonynt y mae'n debyg nad oeddynt yn cylchredeg yn eang iawn. Er hynny, yr oedd y cerddi hynny a oroesodd i'r unfed ganrif ar bymtheg yn hysbys i nifer o gopïwyr, ac nid oes unrhyw un o gerddi Rhys wedi goroesi mewn un neu ddwy o lawysgrifau yn unig. Y gerdd fwyaf poblogaidd ohonynt oll oedd yr un na chynhwyswyd yn IGE, sef yr awdl ddychan i'r llwynog (cerdd 16).

²⁰⁹ MWM 98.

²¹⁰ Gw. yr olnodau i'r gerdd isod.

1

Marwnad Maredudd ap Cynwrig o Borth-aml

- Doe yngod rhwng dau angor,
 Da dŷ dderw, marianferw môr,
 Gŵyl coel a wna golwg cain,
 4 Gwelais i ar fôr gwylain
 Gwynnoedd, ddewisoedd ddeisyf,
 Gwinllong â phatrwn crwn cryf
 Yn hwylio, gŵyl addo gwledd,
 8 Pyrth y gwin, parth â Gwynedd.
 Rhybuddiau draw ar y drum,
 Murn noeth y môr, a wneuthum,
 Gwennol rhwng wybr a gweunoedd,
 12 Y gŵr a'i long, blong ei bloedd.
 Arch y sawdd, erchais iddaw,
 A'i glochdy pyglwyd, glwyd glaw,
 Fyned, ofered fawrgainc,
 16 Â ffrîw ei long tua Ffrainc,
 Canys marw, nid gwiw arwain
 Gwin o bell, topcastell cain,
 M'redudd, rhieiddudd rhydda,
 20 Ap Cynwrig, bendefig da,
 A brynai, eurai eryr,
 Y gwin yn seithwell no gwŷr.
 Nid elw i long rhwng dwylyw
 24 Anfon o'r Ysbaen, raen ryw,
 Na main mawrwyrthiog, na medd,
 Na gwin i defyrn Gwynedd,
 Canys rhodded ar F'redudd
 28 Tyfod, marmor côr a'i cudd.
 Gwir oedd na rodded gweryd,
 Gwawr bwyll o farn gwŷr y byd,
 Bruddloer, bu oer na bai iach
 32 Ffelaig Môn, ar gorff haelach.

 Pwy o fewn Gwynedd heddyw,
 Hyddawn farn, a'r sydd yn fyw
 A ddengys, cadlys pob ced,
 36 Un cun hylithr cyn haeled?

- Os mawr gan dalm, gloywsalm glau,
 Eu gair am eu gŵr gorau,
 Dangosen' law a phraw ffraeth
 40 Haelach oedd am rodd helaeth,
 Lluniaeth nêr, llawenwaith Nudd,
 Llai ei frwydr, no llaw F'redudd.
- Da fu Dduw, Lorf y torfoedd,
 44 Wrth F'redudd, a Nudd ynn oedd:
 Cael pob parch yn ddigarchar
 A cherdd gan estron a châr;
 Cael doe ddeigr, cael da ddigawn,
 48 Cael dysg oedd garu, cael dawn;
 Cael clod ymhlith rhydrith rai,
 Eryrod Lloegr oreurai;
 Cael Tomas gloywlas ei gledd
 52 Y tyf hwn yn etifedd,
 Teg nai erfai (bo hirfyw!),
 Tâl morcau sâl, Marcus yw;
 Cael gorwedd mewn bedd maen balch,
 56 Gwengaer o lathrfur gwyngalch.
 Cael hiraeth, llafuriaeth llwyr,
 A wneuthum innau neithiwyr,
 Ac wylo yn cwyno câr
 60 Â golwg deigr a galar.
- Cafas, heb Sudas, adwyth,
 Y llong o'r Ysbaen ei llwyth,
 Heb brynu, delffu Dolffin,
 64 Na dwyn un galwyn o'r gwin.
 Gwag tefyrn, y meddgyrn mau,
 Gwynedd am y gŵr gwinau.
 Gwÿs fy ngholled am F'redudd,
 68 Gwn gael, w'r hael, ei aur rhudd.
 Gwin dug, feirdd gwenedigion,
 Gwae ni marw haelioni Môn!

Ffynonellau

A—Bangor 5945, 37 B—Bangor (Penrhos) 1573, 137 C—BL Add 14970, 105^v D—BL Add 14978, 245^r E—BL Add 31056, 179^r F—BL Add 31080, 67^r G—CM 325, 252 H—LIGC 3051D [= Mos 148], 428 I—LIGC 3057D [= Mos 161], 375 J—LIGC 6881B, 23 K—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 44 L—Llst 123, 272 M—Pen 63, 153

Y mae A yn gopi o E, ac y mae CF yn tarddu o un o llawysgrifau Rhys Jones o'r Blaenau y mae ei thestun i'w weld yng nghopiâu JK gan David Ellis, Cricieth (o K, yr hynaf o'r ddwy, y daw CF y mae'n debyg). Ymddengys fod y rhain oll yn tarddu o M yn y pen draw. Ymddengys hefyd fod L yn ddibynnol ar I, ac y mae perthynas agos rhwng BDE, ac yn arbennig rhwng D ac E. Y llawysgrifau HILM a ddefnyddiwyd yn IGE, felly y grŵp BDE yw'r unig grŵp pwysig na ddefnyddiwyd yno, er bod darlleniadau cyffredin rhwng BDE a H. Seiliwyd y testun yn bennaf ar M, yr hynaf.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 285–94.

Amrywiadau

1 *BCFJKM* dwy. 2 *AE* dad yderw mariandderw, *BD* da dy derw marian dderw, *IL* da dy ddeyryw. 3 *AE* gwyl gael. 4 *ABEHIL* i gwelais ar, *D* a gwelais ar. 5 *ADE* gwinoedd, *B* gwnoedd, *CFJK* Gwyn oedd, *H* gwnnoydd; *AE* ddewi oedd ddysyf, *B* dewisoedd ddysyf, *CFJKM* ddywyoedd ddysyf, *D* ddewisoedd ddyssyf, *H* ddywsoedd ddisyf; *IL* ddywyssoedd ddysy. 6 *F* Gwngllong; *AE* ffatrwm trwm, *D* ffatrwm crwm; *IL* kry. 7 *ADE* gwedd. 8 *F* a gwin; *A* parth y Gwynedd, *J* parthau Gwynedd. 10 *IL* mvrn; *AE* noeth yno, *BD* noeth ymro. 11 *B* mor; *A* gwinoedd, *BDE* gwnoedd, *H* gwynedd. 12 *BH* winllong flong floedd. 13 *AE* arch y sawd, *B* archus hawdd, *H* arch os hawdd; *DH* erchis. 14 *F* A glochdy; *HIJL* glwyd y glaw. 15 *F* Tyned; *AE* or ged, *D* o farged; *A* fôr gainc, *CF* fyrgainc. 16 *A* Ai friw, *DE* ai ffrw; *B* ffrangk. 17 *BCIL* kans, *M* gans; *ADE* am farw; *CFKM* gwiw yw arwain. 18 *H* ton; *I* kastel. 19 *AE* reiddrodd, *CFJK* rieddydd, *IL* riedydrydd, rodd evrddydd; *AE* rodd ra, *B* irdda, *D* rrodd dda, *H* raddaf, *IL* rodde. 20 *CF* pendefig. 22 *AE* [yn]. 23 *AFJK* ei long; *B* devlyw. 24 *ACEHJKM* o sbayn; *CFH* riain ryw, *IL* rianryw, *JK* riain fyw, *M* rianfyw. 25 *ABHF* mawr werthiawc, *E* mawr wrthiog, *I* mawr weithrioc, *L* mawr weirthriog. 26 *CFJKM* derfyn, *H* devrn. 27 *ABCEFJKL* Cans, *H* kanys i; *K* rhoddwyd; *AEFJK* ar Fyredydd, *D* a Fyredydd. 28 *CFJKM* dyvod; *A* môr mor cor, *DEIJKM* mormor cor, *F* marwor cor, *H* monmor kor. 29 *B* gwir yw, *H* gwiroydd; *CFJK* ni; *AE* gwryd. 30 *ADE* bell; *J* y bur. 33 *ABDEHIL* yngwynedd kyn heddiw. 34 *CFJK* Hydd iawn faen, *IL* hyddawn faran, *H* hoywddawn farn; *A* a haedda fyw, *BDH* a haedday/n/ fyw, *E* a haeddai fyw, *IL* na hayddai yn fyw. 35 *CFJK* cad bys, *E* cad lus; *H* bob. 36 *ABDEHIL* y kyn; *B* llythyr, *CFK* hyllyrch. 37 *BH* marw, *J* hir; *D* gloywffalm. 38 *B* i gair gwir ai gwr gorav. 39 *CFKM* dangosan, *J* Dangoswn; *B* law ffraw a ffraeth; *H* law ar ffraw ffraeth. 40 *ADE* am law; *B* hulaeth. 41 *A* Llu'n iaith nêr a llaw nydd, *B* llwniwyd na ner llawen Nvdd, *D* llu yn iaith ner a llaw nudd, *E* llu i iaith ner a llaw nydd, *F* lluniaeth ner llaweniaith Nudd, *H* llinniwyd im ner llywenydd [Nudd], *IL* lluniaeth ner llywenydd [Nudd]. 42 *DEHIL* [ei];

DI frwydyr; *H* Faredudd. 43 *D* fo. 44 *AE* Waeth fredydd nydd; *D* [a] nvdd ynny. 45 *BH* koyl. 46 *BH* cherth; *H* ni char. 47 *ABDE* ddoe; *H* koyl; *ABDE* dda. 48 *AE* oedd carv, *B* yw garu, *H* oi garv. 49 *E* cael cla; *A* rydryth rai, *BCFH* rhydrith rhai, *D* rrydrith rrai, *E* rydrith rai. 50 *AE* Eryra; *CFJK* a eurai, *E* eryrai, *HIL* a orevrai. 51 *ADE* golevlas gledd, *F* gloywas ei gledd, *IL* gloewlas gledd. 52 *B* vt hefyd, *IL* y ty hwn. 53 *A* Teg nae hwyfai lo hirfyw, *BHIL* tec nai hwyr bai bo hir byw, *D* tynnai hwyrfai bo hirfyw, *E* teg mai hwyfa i lo hirfyw. 54 *D* fal y mor cav; *B* tal morkai, *CEGI-M* tal mor kav, *F* tal mor can; *AE* fal maccus yw, *D* fal y marc yw, *H* Markws hoywlyw. 55 *IL* gorfedd, *M* gorsedd; *B* mae/r, *E* mawr, *H* mayr. 56 *B* gann gaer; *B* o lathrdir; *H* o llathrdir; *BDEHI* gwngalch. 59 *D* mynn beuno bar. 61 *B* i hevdas, *D* Sodas, *H* ehvdwas. 62 *AE* o spayn; *ADEIL* ai llwyth, *H* ar llwyth. 63 *M* eb; *AE* deffyn; *AE* dowlffyn, *D* dwlffin, *G* dollfin, *L* Donffin. 64 *F* na gwinn. 65 *ADE* defyrn a, *B* defyrn yw, *HIL* devyrn y. 66 *ACFGK* ei gwr, *DEILM* i gwr. 67 *B* gwinn; *HILM* yngholled. 69 *A* Gwinn dug in feirdd gwinn digon, *BD* gwinn dug i feirdd gwinn digon, *EH* gwinn dvg yn feirdd gwinn digon. 70 *AE* haelion.

Teitl neu raglith

A Marwnad Meredydd ap Cynfrig. *B* marwnad mredydd ap kynfric o borth aml. *CL* Cywydd Marwnad Maredydd ap Cynfrig o Fon. *D* cowydd i long (*mewn llaw ddiweddarach*). *E* Marwnad Mredydd ap Cynwrig. *F* Marnad Mredydd ap Cynfrig o Fon. *I* k marwnad fredydd ap kynfric (*mewn llaw ddiweddarach*). *JK* Cywydd Marwnad Mredydd ap Cynfrig o Fôn RGE. *M* k. marwnad mred ap kyn o von.

Olnod

A Rys Goch o'r Yrru. *BD* Rys goch or yri. *CH* Rys goz or yri ai kant. *E* Rs goch or yri. *F* Rys Goch. *IL* Rys goch ai kant. *J* Rhys Gôch o Eryri a'i Cant. *K* Rhys goch or Yri a'i cant one of the most celebrated bards of Wales who flour. from 1330 to 1420, aged 120 years. *M* Rys Goch oryri.

I lys Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn

- Tŵr dan faner yr eryr,
 Tros laif a saif hyd y sŷr.
 Trosedd Caer, myn y trisaint,
 4 Sallog, trŵn gorseddog saint,
 Twrnement tarian ymwrdd,
 Tŵr dewr gwncwerwr, gŵr gwrdd;
 Trefn rhaidd osgl, trafyn rhudd ysgwyd,
 8 Traul Edwart y llewpart llwyd;
 Trom sarn rhyw amgarn rhwymgalch,
 Trum ysgythraig fylchgraig falch.
- Ai tebyg tŷ gwedy gwin,
 12 Dâr Brynaich, i dŵr brenin?
 Budd yn ôl, pei beiddiwn i,
 Hwyr fy neigr, hir fynegi,
 Y mae gyferbyn â Môn
 16 Gaer dderw a byrth gerddorion,
 A thŷ o waith, penrhaith parch,
 Golau, unlliw ag alarch,
 Sydd well ei ran o ganwaith,
 20 Y gwŷdd a champau y gwaith,
 Ni thyr ei gred, no Thŵr graen
 Llidfainc yr Eryr llwydfaen.
- Pwy pôr y gaer fynor fawr
 24 A'i neuaddlys newyddlawr?
 Gwilym, Lawnslod ni 'mgilia,
 Glewlwyth aer, ail Galath dda,
 Piau, penaig fro'r ddraig fry,
 28 Tecáu, Emrys, tai Cymry.
 Deler o hyder hedeg
 Ar nawdd Duw i'r neuadd deg;
 Yno yr uchel welir
 32 Nifer doeth, a nef ar dir,
 Y llys iesin frenhinawl
 Yn llwythog win, lleithig wawl.

- 36 Pob bwrdd gwiw o'r oliwydd,
 Parth i'n rhaid, pob porth yn rhydd;
 Pob rhyw anrheg o gegin,
 Pob gwaith ar fyrddau, pob gwin,
 40 Pob gwir anrhydedd, pob gwawd,
 Pob gwarae dawn, pob gwirawd,
 Pob gwledd, pob cyfanheddrwydd,
 Pob cyfryw gost, pob rhost rhywydd,
 44 Pob llwyr hoedl, pob lliw rhadlawn,
 Pob hwyl llys, pob bual llawn,
 Pob gras, pawb a gâr Iesu,
 Yn y llys yna a'i llu.
 Och wŕ! Er Mab Duw na chêl
 48 Ei chwprdd propr a'i chapel.
 Mygau sens yn ei magwyr,
 Tus teg mawr chweg, myrr a chwyr,
 A glyw dieithriaid neu glêr,
 52 O'i phaement drwy bob ffumer.
 'E geir balsameus a gwin
 Yn trabludd y bwrdd tryblwin.
 Y mae arnes Taliesin
 56 A'i fawl penceirddiaidd o'i fin
 Yn cymwyll, heb hirdwyll hawl,
 Taer yw, y tŷ eiriawl,
 Treisiad rod, tref nod lle trig,
 60 Treth hwyl yng nglan Traeth Helig.
 Gofid i'r anfod rodol
 A gân ffug â genau ffôl.
 Ni thawdd glân ddaroganau,
 64 Ni thwng anudon, ni thau.
 Llwyd y mae gwell o bell byd
 Llys wenfalch, lliaws winfyd,
 Gwilym, nid balch gwalch y gwŷr,
 68 Euraid, no Thŵr yr Eryr.
 Y tŵr celffaint cyn teirawr,
 Ochrog murdew corniog mawr,
 A luniwyd dan ei linyd,
 72 Gyrch dig, i gael gwarchae dyn,
 Ac i ostwng ag ystyr
 Calonnau a gwarrau gwŷr.
 A mawrddy talm, a murdew,
 76 Mab Gruffudd, iôn gleifrudd glew,

A bair llawenydd bob awr
Ac urddas pob rhyw gerddawr.

80 Rhwng Menai a'i hertrai hi,
Goreuraid, ac yr Yri
Y mae, myn delw, heb gelwydd,
Gwir Dduw, fal unlliw gwawr ddydd,
84 Cylch lys dan liw calch lasar
Un coeth, pencenedl a'n câr,
Llydan ffrwyn, lleuad un ffriw,
Llys lewychlwybr, llaes luwchliw;
88 Llafn ewyngant, llefn wengaer,
Llwyth rad clod, llythr euraid claer.
Llwyddid annerch i'w pherchen,
Llywiad ffawd, lliw ôd ei phen;
92 Lluosog wareddog wrid,
Llawr, fawr wawr, lloer fererid.
Llawr iraidd lleuer araf,
Llethrydd haul boreddydd haf.
96 Llen dan ddwyn, Llundain un ddysg,
Lliw gwawr ugeinllawr genllysg.
Llyna'r mawl, llawn yw o'r medd,
Llety gwin, llew tai Gwynedd.
100 Nid llys ewyngrys wengron,
Nid tŷ, nid neuadd ond hon.
'E rydd Mair dan ddisglair do
I Sioned einioes yno,
104 Gwaywlym fraich, a Gwilym fry,
Wych waladr, ei chywely.
Ac yno, tra fynno fedd,
Tyfid gras i'w hetifedd.

108 Pe llyfesid, rhag llid llu,
Caiff loywbwynt, cyffelybu
Llys Duw fry (llyna hy hawl!)
Dwyrain i lys daearawl,
112 Tebygach draw, canllaw cant,
Teg ras yn dwyn to grisiant,
Goel geinllun fal gwawl gynllaith,
Yw gwedd llys Wilym a'i gwaith,
Geilw dorfoedd, golau derfyn,
116 I glos Duw nog i lys dyn!

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 5, 110^r B—BL Add 15003, 154^v C¹—BL Add 31080, 70^r C²—BL Add 31080, 90^v D—CM 11, 347 E—CM 312, 103 F—Gwyn 14, 60 G—LIGC 3051D [= Mos 148], 473 H¹—LIGC 3057D [= Mos 161], 222 H²—LIGC 3057D [= Mos 161], 274 (*llau. 1–2*) I—LIGC 6881B, 26 J—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 50 K—Llst 123, 235 L—Pen 63, 176

Y mae DIJ oll yn llaw David Ellis, Cricieth. Y mae IJ yn ddibynnol ar destun L, ac y mae D yn ddibynnol ar E. O destun David Ellis fel y gwelir yn IJ y daw testunau BC¹. Ymddengys fod C² a K yn tarddu o destun tebyg iawn i H¹, os nad y llawysgrif honno ei hun. Y llawysgrifau pwysig felly yw AEGH¹L. Lluniwyd y testun yn bennaf ar sail L.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 285–94.

Amrywiadau

1 C²H¹K y twr; BJ tan. 2 DF saif, H² lai; DEF sai; A yd y syr. 3 C¹ Trosodd. 4 [C²]; A twr, DEI trwm, G trwm; DEF orseddawg. 5 AF twrneiment, BC¹ Twr nemwnt, C² Twrnenment, DE twrn eiment, H¹KL twr nemment (K Twr nevment), I Twr Nennost, J Twr Nemwst. 6 C¹ Twr dewra gwr durwayw gwrdd. 7 BC¹IJ rhudd ysglwyd. 8 AD–G yn llewpart. 9 AG trwm sarn, C²–FH¹K trwmm sarn. 10 A trwm ysgithr draic, DF Trwm yscithraig, E trwm yscithrddraic, G trwm ysgythr draig, H¹ trym yssgythraic. 12 B–DIJ Da'r; C¹ bryniach, C² byniach, D brynneirch; C¹–F i dy r, C² i dyr (i du'r). 13 DEF bei beiddiwn, KL be beiddiwn. 14 C² Gwyr; H¹ veneigyr; A vanegi, L venegi. 15 F cyferbyn. 16 D–G caer; L byth; C²K gyrdorion, D–G cerddorion, H¹ kyrddorion. 19 AG y sydd well Ran, C² y sydd well o ran, DEF y sy well ran, H¹ y sydd well i ran. 20 AC²DEGH¹K i gwydd ai champav ai gwaith, F Ei gwydd ei champau a'i gwaith. 22 BC¹ Ennyn. 23 BC¹IJ bor. 24 ADE ar nevaddlys; C²EH¹K newddlawr. 25 A lawnslod gywaela, C²H¹K lawnslod gwela, DF lawn glod gywala, E lawnslod gywalaf, G lawnslod gywala. 26 DEF glewddoeth; DEF galaeth. 27 AG biav; G benaig; C² frorddraig, DEF forddraig. 28 A teg caer emrys, E tecau emrays, G teg cae emrys, H¹ tegav emrys; A ty kymry. 29 A ar hyder rhedeg, D–G ar hyder hedeg. 30 C²K or nawdd; C² neuad. 31 A ynor vwchel, C² yno ir uchel, D–G yno orvchel; A a welir. 32 E ni fet (nifer); C² daeth. 33 AD–G a llys. 34 DEF a llwythawg, H¹ llwyddawc; C²H¹K lleithec vawl. 35 C²GH¹ a ffob; A a gwiw o liwydd, C²GH¹K gwiw o liwydd, DF gwiw o loyw liwydd, E gwiw loyw o liwydd. 36 A parth an rhaid, DEF wrth yn rraid; A [pob] porth yw yn rhydd. 37 A pob gwiw anrheg, BC¹IJ Pob cywain tég. 38 DF o fyrddau. 40 I [dawns]. 46 AEG yno. 47 C²DFJ ni chel. 50 BC¹C²IJK thys. 51 DF deithraid, G dieithriad. 52 A phaemant, DF ffaumant, E ffav mant. 53 AC²–H¹K gida balsamvs; DF a gwm. 54 C²K yn trafludd, DE vn

teblwedd, *F* Un treblwedd; *AD–G* val bwrdd; *BC¹IJL* trablin, *C²K* tryfylwin, *DF* trablwm, *E* trablwin. 55 *C²* [Y] Mae; *A* ar mews daliesin, *C²* ar y mes Tal=iesin, *D–G* armes daliesin. 56 *DEF* a fawl; *D* penceirddiaid, *G* benceirddiaidd; *DF* a'i fin, *L* o win. 57 *DF* cynnwyl; *A* eb; *G* hirbwyll. 58 *C¹* yn y ty, *DF* ym ytty, *E* yw ytty; *C¹* reiawl, *DEF* i eiriawl, *H¹JL* yrreiawl, *I* yrëawl. 59 *A* treseifiad trefnad, *C¹* Treio adrawd trefnawd, *C²* Treisiad tre nod, *DEF* tresseifiad trofad, *G* tresefiad trefniad, *H¹K* treissiad tre nod. 60 *DEF* tryth hwyl. 61 *AD–G* anffod. 62 *BC¹* a gen; *G* ar genav. 63 *ADFG* nithiodd, *E* nithiawdd; *A* lan, *C²H¹K* gylan, *DEF* alan; *C²* dyrgonau, *DEF* ddroganav, *H¹K* dyrygonav, *J* ddarogau (*cywiriad* ddaroganaeu). 64 *ADEF* ni thyng; *K* yn vdon. 66 *C¹* Llywenfalch; *AC¹DEFI* wynvyd, *B* wynfyd/winfyd. 69 *DEF* ty twr. 72 *AC²D–H¹K* i garchary dyn, *C¹* i gwarchai dyn. 73 *G* ag ir ostwng; *DEF* o ystyr, *G* ar ystyr. 75 *BC¹IJL* mordwy, *C²H¹K* mowrdwy; *AD–G* taly mvr dew, *BC¹* telm a mur dew, *C²* tal a mur dew. 76 *C²H¹K* glei verydd glew. 77 *BC¹IJ* lawenydd. 78 *A* geirddoeth i bob, *D–G* a geirddoeth pob, *K* ac vrddas i bob. 79 *C¹* hirtra. 80 *B* Goreurad, *C¹* Gor eurad. 81 *L* eb. 83 *AD–G* kylch llys dan liw kalch llasar. 84 *AD–G* yn koeth ben kenedl, *BC¹C²IJ* Un coeth pen cenedl, *L* vn koeth penedl; *C¹* ai car. 85 *DF* llwyd un ffrw. 86 *A* llys llewychlwybr llwchliw, *C²H¹K* llys o lvchlwybyr llaes llwchliw, *DEF* llys lywchwybr llawes lywchliw, *G* llys o lvchlwybyr llewychliw. 88 *BC¹IJL* llwythraid, *C²–FK* llwythrad, *H¹* llwythrad; *C²GK* llythyr. 89 *D* llwyddiad, *F* llwythaid; *AG* i pherchen. 90 *A* llywia ffawd, *G* llowiawdr ffawd; *G* llever i phen, *K* lliw od oi ffen. 91 *A–H¹IJK* waredog; *L* wareddawc. 92 *AEG* llwyr vawr, *C¹* llawr wawr; *A* ail lloer orevid, *C¹* fawr lliw'r fererid, *C²H¹K* ail lloer veririd, *DEF* air lloer forerid, *G* ail lloer foririd, *J* wawr lloer feririd. 93 *A* llawr vrain, *C²GH¹K* llawr wraidd, *DEF* llawr wrain; *E* llever arf (araf), *L* llver araf. 94 *AD–H¹I–L* borevddydd. 95 *B* Llen den; *BC¹IJL* i ddysg, *C²K* yn dyst, *H¹* vn ddyst. 96 *C²H¹K* genllyst. 97 *K* llyma'r mawl, *L* llyna emawl; *C²H¹K* ar medd. 98 *BC¹* lliw tai. 99 *C²* awengrys; *A* wingroen. 100 *C¹* nid hon. 101 *BC¹* Rhydd, *C²H¹K* e a rydd, *D–G* fo rydd; *ADEF* disglair, *BC¹* y disglair. 104 *ADEF* iach waladr ai, *C²* wych waladr a, *G* iach waladr i. 106 *BC¹* i'r etifedd. 107 *A* pe llavesid rhac, *BC¹IJ* Pen llesid ran, *DEF* tra llyfessid rrag, *L* peu llesid ran. 108 *H¹* lowbybyn; *C²H¹K* i chyfflybu, *DF* i'w cyfflybu, *EG* i chyfflybu. 109 *C¹–GIK* dyna. 110 *BC¹DFIJ* ei lÿs. 111 *BC¹DFIJ* Tebycach. 113 *ADEF* gwelw geinllvn; *ADEF* gwawl ganllaith, *BC²* gwawl Gynllaith, *C¹* gwan gynllaith, *G* gwal gynllaith, *K* gwawn gynllaith. 114 *C²* y gwedd; *BC¹C²H¹IJL* llys gwilym. 115 *AEGH¹* galw dervyn (*E* galwai dervyn, *H¹* golav dervyn), *DF* galwai derfyn. 116 *DF* glas; *H¹* llys.

Teitl neu raglith

B Cywydd i Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn R.G. ap D. al R.G.E. ai cant. *C¹* Iolo No: 3 Mawl i Wiliam Gruffydd or Penrhyn. *C²* Moli i Lys Gwilym

ap Gruffydd a Sioned ei wraig MW.E.81. *D* Cywydd i Wilym Fychan ab Gruffudd o'r Penrhyn (*mewn llaw ddiweddarach*: tad y Siambrlain cyntaf o'r enw). *E* Cowydd i wiliam fychan. *F* Cywydd i Wilym Fychan; Mab Gruffudd o'r Penrhyn; tâd y Siambrlain cyntaf o'r enw; yr hwn a briododd Sioned merch Syr W^m Stanley. *H*¹ (k. moliant) i lys gwilim (ap Gruff o'r Penrhyn) ag i sioned (i wraig). *J* Cywydd i Wilym ap Gruffydd o'r Penrhyn RGE. *K* Cyw mol. i Lÿs Gwilim ap Griffith a Sioned ei wraig. *L* k. i wilym ap grûff.

Olnod

B Rhys goch o Eryri ai cant medd eraill Rhys Goch ap Dafydd. *C*¹ Rhys Goch ap Dafydd Alias Rhys Goch Eryri, os nid mor goegorchestol ar llail or un testyn; etto ganwaith yn fwy synhwyrol ag awenyddol, Iolo Morganwg. *D* Rhys Gôch ap Ddafydd ai Cant. *E* Rys goch ap dd ai cant (*mewn llaw ddiweddarach* neu o Eryri). *F* Rhys Goch ap Dafydd a'i cant ynghylch 1430 neu 1440. *G* Rhys goch orryri. *H*¹*K* Rys Goch or yri ai kant. *IJ* Rhys Goch o eryri ai cant. *L* Rys goch or yri.

Trefn y llinellau

ABD-H¹I-L 1-116.

*C*¹ 1-60, + Treis adrod gorfod a gawn, / Trwy ddadlau gwalch trwyddedlawn, 61-116.

*C*² 1-3, [4], 5-116.

*H*² 1-2, [3-116].

Marwnad Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn

Rhad elfydd, rho Duw, dalfainc,
 Rhwysg uchel, ffrïw mangnel Ffrainc,
 Aur leithig lwyth, dylwyth dwng:
 4 Eustus Gwynedd a ostwng.
 Bu boen gwag gennyf bob awr
 Dy weled uwch dy wiwlawr
 Heb Wilym, reiddlym ruddlaif,
 8 Ei hirglod fyth syth a saif,
 Goroff fab, mawr a gerym,
 Gruffudd, llafn canolrudd llym,
 Yn eistedd drwy fawredd farn
 12 Gyda'r eustus yn gadarn.
 Yn hawdd a fynawdd efô
 A wnaid ar amnaid yno.
 Dydd iawnbwynt, nid oedd unbarch,
 16 Prudd gŵyn, cyn rhwym pridd ac arch,
 Gwn yn ei ôl fod dolef,
 Gŵr yn y teirsir ag ef
 Er pan fu, gorfu gaerfwrdd,
 20 Ei daid o gyfraith, gwaith gwrdd,
 Y gŵr a aeth, gwirfaeth gwŷr,
 O flaen pawb fal iôn pybyr;
 Er pan aeth o'r penaethiaid,
 24 Llwy'r yw'r nych, i'r llawr ar naid.
 O ddig, gwae feirddion, ydd aeth
 Rhyw gur herw rhag oer hiraeth.
 Gwn ddigloes Gwynedd eglur,
 28 A'i phen wawr mawr yn y mur.
 Na ddeliwch drwy feddyliaw
 Na drwg na chenfigen draw
 Wrth lwydfardd draig, bellaig ball:
 32 Caf roddged cyfarwyddgall
 Er plethu, hardd deulu hir,
 Gwawd, i Wilym y'i gedir,
 Och hwrdd herw, a cherdd hiroed
 36 A drig wrth fesur ei droed.

Gwn na welwn yn wiwlon,
 Iawn ras hardd, yn yr oes hon

40 Ŵr unfaeth, ryddoniaeth rym,
 Na gwaladr a wnâi Gwilym,
 Nac ar fainc, ogainc agwrdd,
 Neur garai farn, nac ar fwrdd,
 44 Nac ar droed, blodeuoed blaid,
 Nac ar orwydd goreuraid.
 Dyngwn nad oes a'i dengys,
 Nac un man, na llan na llys.
 Mawr oedd ei ddinag ragor
 48 Rhag neb o'n gwlad na mad môr.
 Bonheddig oedd gyhoeddiad
 A theg o du mam a thad;
 A phennaeth wedy'r ffynnu,
 52 A chadarn drwy'r farn a fu;
 A doeth ŵr disalwgoeth sôn
 Ar deithiau lle bu'r doethion;
 A grasol gun bob unawr
 56 Ymysg yr arglwyddi mawr;
 A dwyfol ym mhob dyfyn,
 A difalch amlwg, gwalch gwyn;
 A durfing rhwng dwy aerfa,
 60 A doeth, ac ymwanwr da.
 Trosid Duw, cun tair aesawr,
 I'w blant, o hil Gwrgant gawr,
 Gynnal llysoedd drwy gennad
 64 Duw, lle bu Wilym eu tad.
 Trosid Mab Mair, aur grair grym,
 Naf Waladr, nef i Wilym.
 Mwy yw trugaredd, meddir,
 68 Duw hollgyfoethog o dir,
 Iawn lety, ynial ateb
 Yn ôl, no chadernid neb.

72 Pwy a dddwg ceirw, eirw eurael,
 Gotarmur hen Iarddur hael?
 Pan aeth ef, mawr fu'r llefain,
 I gôr dan fedd mynor main,
 Llys Duw ym Môn, llesty mawl,
 76 Llawnfoes da Llan-faes dwyfawl.
 Pei lladdai, pwyll a wyddiad,
 Fwya' llid dyn, fy llwyd dad,
 Llawen gennyf, cryf a'm cred,
 80 Waywlym Wilym, ei weled

- 84 O flaen plant, erbyniant boen,
Y ddraig lewychgraig luwchgroen.
Cwpl groes, ras foes, a roes fedd,
A llew gwinau llu Gwynedd.
Teg hwylbren gwynt, bellynt byllt,
Trysor cenedl tir Eryllt.
- 88 Tithau arial fainc dâl deg
Tŷ'r eustus, taer ei osteg,
Gwae fi na welwn i neb,
Nawnerth Ector, un wyneb
Â Gwilym, nen derwen da
- 92 Cenedl, ar y fainc yna,
Er pan welais, drais dremynt,
Cyn no'u meirw yr hen geirw gynt,
Llathr lendyd mebyd meibion,
- 96 Llawr Alecsander mawr Môn.
Dawn grym, nid oes dyn o Gred
Gryno, er ei gywreiniad,
A wnâi Wilym, dreiddlym drafn,
- 100 Dwrch Drwyd, â ffleimlwyd fflamlafn,
O ŵr yng Ngwynedd heddiw;
Nid gwaith penadur, nid gwiw
Deigr irloes, dig yw'r erlyn,
- 104 Onis gwna Duw nis gwna dyn.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 5, 107^v B—BL Add 14866 [= RWM 29], 259^v C—BL Add 14970, 107^v D—BL Add 31080, 14^r E—CM 11, 343 F—CM 312, 98 G—CM 325, 255 H—Gwyn 3, 161^r I—J 140 [= RWM 15], 508 J—LIGC 3051D [= Mos 148], 489 K—LIGC 3057D [= Mos 161], 274 L—LIGC 6881B, 19 M—LIGC 8330B, 171 N—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 49 O—Llst 122, 487 P—Llst 123, 274 Q—Pen 63, 171 R—Pen 112, 815

Y mae D, sy'n gopi o B, yn cynnwys amrywiadau o lawysgrifau eraill y Llyfrgell Brydeinig. Ni nodir hynny yn yr amrywiadau. Y mae I yn anodd ei darllen mewn manau, ac R, gan fod yr inc wedi bwyta trwy'r llawysgrif. Y mae rhan o lawysgrif Q wedi ei cholli. Y mae'n debyg fod y llawysgrifau oll yn tarddu o'r un gynsail ysgrifenedig.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 285–94.

Amrywiadau

1 *M* Rhaidd; *C* Wiliam ar y, *NQ* elfydd ar y; *EF* eilfaingc, *KP* daylfaink. 2 *HM* rhwyg; *AB* vwchel; *C* magnel, *EFIJL* mangddel. 3 *L* Aer; *M* gwng. 4 *CEGI-LN* ustus, *OP* ivstvs. 5 *IJ* ben; *FKP* genny, *O* gennym. 6 *J* ar dy; *CN* elawr. 7 *A* dreiddlym, *CDN* wreiddlym, *KP* irieiddlym, *O* areiddlym. 8 *C* Hirglod fydd y dydd, *D* ei hirglod fyth, *J* ai hirgledd fyth, *KP* i hirglod fydd ysydd, *NQ* hir glod fydd y sydd. 9 *AEFKLOP* fal; *BDRLM* mawl. 10 *NQP* llawn; *AEFKQL* kanawdrydd, *BDR* kynowdrydd, *CN* canhowdrydd, *HM* cynawdrydd, *O* llanowdrydd, *P* can owdrydd. 11 *M* fawred; *K* faran. 12 *CEGIJKLN* ustus, *OP* ivstvs; *K* gadaran. 14 *AEFIJKO* a deunaid (*cywirwyd yn ar amnaid mewn llaw ddiweddarach*), *CN* iawn amnaid, *L* o deunaid. 16 *B* dwyn rwym, *CFNQ* cyn rhwyn, *DHMR* cyn dwyn, *EIL* cyn rhoi. 17 *KP* gwn yn ol, *M* gwn ei ol; *CKPQ* fo ddolef, *D* vod ddolef. 18 *BDMR* un gwr. 20 *A* i dad. 21 *ACKN-Q* [a] aeth; *CNQ* gwirfaeth y gwyr, *O* giwfaeth gwyr. 23 *A* er penaethy wr penaethiaid, *CNQ* er penaethu'r penaethiaid, *F* er penn fu o'r penaethiaid, *K* er pan aethyr y penaythiaid, *O* er penaeth ywr penaethiaid. 24 *D* Llwy'r gwr nych. 25 *ABDFIJKMO* y ddaeth, *CELNP* a ddaeth, *Q* yddaeth. 26 *CIJ* rhagor. 27 *D* digloes; *O* Gwnedd. 28 *EHM* a phen; *J* gwawr. 29 *CNQ* Na ymddeliwch na meddyliaw. 32 *EL* rwyddged. 33 *EFL* o hardd. 34 *A* o gwelir, *BDLR* o gedir, *CN* ei gedir, *E* a gedir, *FO* yw gedir, *HM* a gedwir. 35–74 [*CNQ*]. 35 *ABDEFH-MOP* wrdd. 39 *OP* un faeth; *A* vrddoniaeth, *O* ryw ddoniaeth. 40 *AO* no gwaladr angel gwilym, *E* na gwaladr a wnel fal gwilym, *F* na gwaladr a nel fal gwilym, *IJ* gweled angel fal gwilym, *K* na gwladr angel fal gwilym, *L* na gwaladr un ai Gwilym, *P* na gwaladr anel fal Gwilym. 41 *BD* nac ar y fainc (*y wedi ei ddileu gan law ddiweddarach yn B*), *EL* ac ar fainc, *F* ag or faingc. 42 *AGHM* a garai farn, *BR* neu a gar farn (*wedi ei newid i a roi farn gan law ddiweddarach yn B*; *wedi ei newid i a ga roi farn gan yr un llaw yn R*), *D* Ga roi varn, *EFIJKLOP* ni garai fost. 43 *H* blodeu oed. 44 *IL* arwydd. 45 *I* na doed a dengüs. 46 *AEKLOP* nac un fan, *BDHMR* mewn un man. 47 *KP* agor. 48 *BDEHLMR* un on gwlad a mad mor; *FJKOP* a mad. 49 *P* bu heddig; *A* oedd goheddiad, *BDHR* y gweddiad, *EFL* oedd gweddiad, *K* oedd gweheddiad, *M* oed y gweddiad, *O* oedd gweheddiad. 51 *EIL* wedi ffynnu, *HRM* wedi ei ffynnu. 52 *K* a chadarn drwy'r faran. 53 *M* di salw gaeth. 55 *B* a grassawl (*wedi ei newid i ar goressaw gan law ddiweddarach*), *DHM* Ai groessaw. 58 *EL* walch. 59 *A* a dyfal; *BDH* dau arfaf, *LO* dwy oerfa, *M* [dwy] arfaf, *R* dwy aerfaf. 60 *BRM* daf, *D* dav. 61 *FIJ* trossid tuw; *DEFH* cyn; *BDHKMOP* assawr. 63 *KP* kynnal. 64 *A* ty, *EHFIJ* tuw. 65 *LO* ar grair. 68 *FO* [o] dir, *IJ* i dir, *L* ei dir. 69 *ABDHKM* lettyb; *I* innial. 70 *D* no gadernid, *J* na thrugaredd. 71 *IJ* berw erw. 72 *A* kodarmvr, *EFL* cottormvr, *I* kot armür, *J* cotarmur, *KP* kadaran mvr, *O* codau mur; *KP* hen i arddvr. 75 *CN* Llys Da Duw Môn Llesdud, *D* llys duw ym Mon lledyd, *J* llys duw ym mon llaesdy; *K* lles dod mawl. 76 *AEF* llon voes da, *CN* Llawn faes dwf, *IJ*

llawnfoes daf, *O* llonn faes da, *P* llawn foes da. 77 *C* Pe lladdai pwyllai, *K* pe i lladdai pwylla. 78 *CN* Fwyalliad tyn fy llwyd iad, *I* fwy fwy llid fyn llwyd tad, *J* fwyfwy llid tyn fy wyd tad. 80 *L* i'w. 81 *K* plan. 82 *I* y wraig (*cywirwyd yn ddraig mewn llaw ddiweddarach*); *AO* lwhchraic, *B* lywrchgraig, *F* lewchraig, *K* lywychgrig; *F* lywchgroen, *I* lüwgroen. 83 *CIJKNOP* kwplw kroes, *D* Cwplw groes, *EFL* cwbl groes; *F* rassfoes a roess fedd, *O* ras f'oes a roes fedd. 85 *FL* teb; *L* hwybren; *C* bellynt (*cywirwyd yn bell-hynt*). 86 *O* esyd. 87 *K* arail. 88 *BDHM* ty'r eustus tai ar osteg, *CN* Ti a'r Ustus taer osteg, *EIJLO* tyr ustus taer i osteg, *K* ti ar ustus taer i osteg, *P* ti ar iustus taer ei osteg, *R* ty ar evstvs tai ar ostec. 89 *BDFJKNO* welwn i. 90 *BDMR* nownedd, *EFL* nownoeth, *H* Wynedd; *E* Nector, *FL* necdar, *H* HECTOR, *P* edgor. 91 *CN* dderwen dda. 92 *KP* hyna. 93 *CN* drawsynt, *O* tremynt. 94 *B* cyn noi marw'r, *CELN* cyn eu meirw yr, *I* kyn meirw o'r, *JKP* cynn meirw yr, *O* cyn mai meirw'r. 95 *CEFKNOP* febyd feibion. 96 *F* alycsandr fawr fon (*cywirwyd yn mawr*) mon. 98 *EL* grynio; *F* er i gowrieried. 99 *CN* [A] wna i Wilym, *D* A wna i Wilym, *F* a nai wilym, *I* a wna Wilym, *O* a nai i wilym; *BR* dreithlym, *KP* dirieddlym; *KP* drafan. 100 *BDFMR* dwrch drwyth a ffleimlwyth fflamlafn, *CN* dwrch ffleimlwyd wr awch fflamlafn, *EFL* dwrch drwydd a fflymlwydd fflamlafn, *IJ* dwrch dryd a fflymdrud fflamlafn, *O* dwrch dwyd or ffymlwyd fflamlafn; *KP* fflamlafan. 103 *I* deigr ywr loes; *H* erlym. 104 *K* gwnel; *I* [Duw].

Teitl neu raglith

B Marw Gwilym ap gruff un o hynaif y penrhyn. *C* Cywydd Marwnad Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn. *D* Marwnad Gwilym ap Gruffydd vn o hynaif y Penrhyn [*Wedyn ceir olnod C*]. *E* Cywydd i Wilym ap Gruffydd R.G. Marwnad (*mewn llaw ddiweddarach* o'r Penrhyn). *F* i wilym ap gruffydd. *H* Marwnad Gwilym ap Gryffydd vn o hynaif y Penrhyn yn Sir Gaernarfon. *I* kowüdd moliant y ryffydd ap gwilym. *K* kowydd marwnad wilim ap gr. *L* Cywydd Marwnad Wiliam ap Gruffydd o'r Penrhyn. *M* Marwnad Gwilim ap Gryffith vn o hynaif y Penrhyn yn Sir Gaernarfon. *N* Cywydd Mar. Gwilym ap Gruffydd o'r Penrhyn R.G.E. *O* Cyw: mar. Gwilym Gruffydd. *P* Cyw: mar: Gwilym ap Gruffydd (o Lanfaes ym Mon *mewn llaw ddiweddarach*). *Q* y PenRyn. k. marwnad gwilym ap gr. *R* kowyd marunad Gwilym ap Gruffydd ap.

Olnod

A Rhes goz ap dd. *B* Rhys goch or Ryri (*mewn llaw ddiweddarach* ap dd ap Ieuan llwyd). *C* Rhys Goch o Eryri ai cant. Gwilym ap Gruffudd a fu farw yn y flwyddyn 1420. pan oedd y bardd yn llwyd ei iad fal y gwelir e'n dywedyd yn y cywydd yma yn y flwyddyn 1325 neu o gylch hynny, fal y dywaid ef mewn cywydd arall y cafodd y label aur (dyna ei air ef am y gadair aur mae'n debyg) gan Edward yr ail ynghastell Caernarfon, yr oedd y

bardd wrth hynny ynghylch ugain mlwydd oed pan gant y cywydd hwn. *D* Rhys Goch o'r Ryri ap Dd ap Ieuan Llwyd. *EI* Rhys goch or yri ai kant. *F* Rhys goch goch yr yri ai c. *H* Rhys goch o'r Ryri ap Dafydd ap Ieuan Llwyd. *KP* Rhys goch ai kant. *LN* Rhys Goch o Eryri a'i Cant. *M* Rhys goch or Ryri ap dd ap Ieuan Lloyd. *O* Rys Goch ap dd. *R* Rys Goc Or Ryri ap Dafyd Ap Ieuan luyd ai k.

Trefn y llinellau

CNQ 1–34, [35–74], 75–104.

Achau Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn

- Dwyn bonedd, dan ei benwn,
 Wiliam iôr waywlym a wn,
 Hwyl uniawn o'i ddawn a'i dda,
 4 Hyder oedd, hyd ar Adda.
 Ac fal hyn, myn Duw gwyn gwir,
 Da iach ryw, y dechreuir:
 Wiliam yw, barddlyw beirddlawr,
 8 Fab Gwilym, didawl mawl mawr,
 Fab Gruffudd, llew gwaywrudd llym,
 Gwaladr Gwyndyd, fab Gwilym,
 Fab Gruffudd, tŵr cythrudd caith,
 12 Dewrgyrch, fab Gwilym deirgwaith,
 Fab Heilin, roddwin rwyddwalch,
 Fab Tudur benadur balch,
 Fab Ednyfed, lwyddged law,
 16 Fychan, gwnaeth i Eingl feichiaw,
 Fab Cynwrig yn lle trigawdd,
 Fab Iorwerth (Duw, nerth dy nawdd!),
 Fab Hwfa, benna' o'r byd,
 20 Hoywfaeth, fab Gwgan hefyd,
 Fab Uchdryd, glew edryd glân,
 Fab iawn uthr, fab Eneithian,
 Fab Cadrod, mae'r rhod yn rhydd,
 24 Cylch ei faner, Calchfynydd,
 Fab Lleuddad bragad briwgaer,
 Fab Marchudd, cledd awchrud clær,
 Fab doeth, fab caredig dâl,
 28 Fab diofnog, fab Dyfnwal,
 Fab Ednyfed, ddawnged dda,
 Fab cain oedd, fab Cunedda,
 Fab Edyrn, fab Padarn fyw
 32 Peisrudd, eryr hapusryw,
 Fab difrad, gariad Geirioel,
 Diau fab Cenau fab Coel,
 Fab Tegfan, frwydr Gamlan gynt,
 36 Fab da hy, fab Deheuwynt,

- Fab greddf aeth, iarllaeth orlludd,
 Fab Mael, un afael â Nudd,
 Fab Brân, fab Tegyd, bryd bro,
 40 Fab ugain cyrch, fab Iago,
 Fab câr, caredig fab cur,
 Fab Cain, fab Gwrgain garwgur,
 Fab Doli, ail Ddewi ddis,
 44 Fab Gwrddoli, gerdd ddilis,
 Fab Dwfn, fab Gorddwfn gerddawr,
 Fab Awryd am wryd mawr,
 Fab Afallach iach uchel,
 48 Fab Afled, nawc ced nis cêl,
 Llwm ei grwst, fab llym ei graidd,
 Fab hafog brwydr, fab Hyfaidd,
 Fab Grwst, rhyd greulyd ei rôn,
 52 Fab Cur aeth, fab Careithion,
 Fab Aedd Mawr hyd yn awr nawn,
 Fab Antonus hynt uniawn,
 Fab Rhiwallawn dawn dymyr,
 56 Fab Rhagaw ferch loywserch Lÿr,
 Fab Bleiddud, un sud â Sieb,
 Fab Brutus a'n pair ateb,
 Ar briffordd, orau briffwnt,
 60 Ysgwyd Hir, ei esgid hwnt,
 Fab Brutus, fab Silfus hen,
 Fab Eneas yn nien,
 Ysgithr lwybrsaig draig a drig,
 64 Ysgwydwyn, is y goedwig,
 Fab Anceises a'n llesai,
 Fab Capis, tegwch mis Mai,
 Fab Asaracus a fu,
 68 Fab Troes, fyntumiwr Iesu,
 Fab Ericonus a farn,
 Bôr ceidwad, bu w'r cadarn,
 Fab Dardanus credusair,
 72 Fab Siwbiter, cryfder crair,
 Fab Satwrn croyw ymswrn cryf,
 Fab Solas beirdd, fab Selyf,
 Fab Sebreinus, gweddus gân,
 76 Fab syw ieithydd, fab Sythan,
 Fab Siaffeth, difeth dyfiad,
 Fab Noe hen, deg lawen dad,

- 80 Fab Lameth, bu bregethwr,
Fab Mathusalem, gem gŵr,
Murmur drum uwch marmor draidd,
Fab Enog, bu fabanaidd,
Fab Seth, difeth diofer,
- 84 Fab Addaf, Duw Naf fy Nêr!

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 13, 3^v B—BL Add 14881 [= RWM 50], 59^v C—BL Add 14901, 13^v D—BL Add 14970, 1^r E—BL Add 31080, 31^r F—Bodewryd 1, 326 G—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 478^v H—CM 325, 217 I—J 101 [= RWM 17], 638 J—LIGC 1553A, 420 K—LIGC 3051D [=Mos 148], 550 L—LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans II.1], 73^r M—Llst 133, 34^r N—Pen 100, 377

Ymranna'r llawysgrifau'n ddau ddoesbarth, sef BE–K (sy'n cynnwys llau. 9–10) a ACDLMN. Cymharol ychydig yw'r gwahaniaeth rhyngddynt, ac y mae'n bosibl eu bod i gyd yn tarddu o'r un ffynhonnell ysgrifenedig.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 285–94.

Amrywiadau

1 *BE* wr waewlym. 3 *J* hael; *GI* ynian; *ACDFGIJLMN* i ddawn. 4 *ACDLMN* i hyder, *F* hyder (cywirad: *ei* hyder). 6 *BE* iach rys. 8 *D* ddidawl. 9 [*ACDLMN*]; *FGI* llew lliwrydd, *J* llew llowrydd. 10 [*ACDLMN*]; *B* gwndid, *E* gwyndid, *FGI* geidwad. 11 *A* cethryd, *B* cuthryr, *DGFIKMN* cethrydd; *E* ruthyr saith (cywiriad: cethrydd caith). 12 *B* dewrgorff. 16 *F* vychan i ddengmil feichiaw; *AC* gwnai /i/ ddengmil feichiaw, *B* gwnaeth Eingl i feichiaw, *E* gwnaeth Eingl (cywiriad: ddengmil) i feichiaw, *GI* gwnaeth i ddengmil feichiaw, *J* gwnaeth egl i feichiaw, *L* gwai ddengmil feichiaw, *MN* gwnai ddengmil feichiaw. 18 *CDGILMN* idnerth; *J* da nawdd. 20 *B* hoewfath, *CDFGILMN* hoewfodd, *J* hoewfudd; *ACDFLMN* fab gwion. 21 *I* owchdrud gloew uchdrud glan; *A* Ithdryd, *BK* owchdrud; *ACDFGILMN* gloyw edryd. 25 *C* frawgawd friwgaer (cywiriad: bragawd briwgaer). 26 *B* cler, *E* cler (cywiriad: glew); *A* glew gwchddydd glaer, *CJ* gledd awchdydd glaer, *DFGILMN* glew awchdydd glaer. 27 *D* fab doeth Caredig fab Dal. 29 *CFMN* Edn. 31 *BEGIKL* byw. 36 *I* fab da hy fab deheu fab deheuwynt. 37 *F* greddf o (cywiriad: aeth), *GI* greddf a; *BK* gredd iarlleth a orlludd, *E* Greddv iarllaeth a orlludd (cywiriad: Greddv aeth iarllaeth orlludd), *J* greddf o Iarllwef erlludd. 40 *E* rhych (cywiriad: cyrch). 41 *ABDFGILMN* fab car fab caredig; *E* car caredig (cywiriad: car fab caredig). 42 *GF* gargur, *I* gorgvr. 43 *I* vab ddewi, *J* o ddewi. 46 *BK* a weryd am wyd mawr, *E* a weryd am wyd mawr (cywiriad: awyd a mwryd), *J* a weryd am yd mawr. 48 *E* Alfed

(*cywiriad*: avled). 49 *CDFGILMN* y gwraidd, *E* i graidd (*cywiriad*: gwraidd). 50 *J* havod brwyd; *LMN* fab hafaid. 51 *ACLMN* Gowst; *B* rvdd greusyd, *K* rudd greulud, *GI* rydd greulydd, *J* rudd greuludd; *E* greusyd a (*cywiriad*: uab greulid). 53 *BK* aeth, *E* Aeth (*cywiriad*: Aedd); *BE* ymawr mawn. 54 *E* Antonws (*cywiriad*: Antigonws), *LMN* antiganys. 55 *AFI* dynyr, *M* dywyr. 57 *A* Lleiddud. 58 *E* a bair, *J* fab brau ateb. 60 *BEGJKL* ysgwd hir. 61 *CDFGIJLMN* sulys. 62 *C* fab Eneien; *AFGIJLMN* eneien, *BEK* y nien, *D* enien. 63 *ACDGIJLMN* frwydr saig, *E* lwybrsaig (*cywiriad*: vrwydrsaig). 64 *E* ysgwdwynn, *J* ysgwyddwyn. 66 *ACDFGILMN* ag awch, *E* tegwch (*cywiriad*: ag awch), *J* pygus; *B* fis (*cywiriad*: mis). 67 *A* Asagius, *J* saraffakus. 68 *ACDLMN* fentiwr; *E* tras fantumiwir (*cywiriad*: Troes ventiwr). 69 *B* erickhonius, *E* Erithonius (*cywiriad*: Erithonius), *K* periconus; *AC-GLMN* ai farn. 70 *D* Fab cedwad fab Hu Gadarn (*cywiriad*: Bor ceidwad bu wr cadarn); *GI* vab keidwad, *I* Bor cedwad (*cywiriad*: fab cedwad fab Hu Gadarn); *E* bu wr cadarn (*cywiriad*: uab Hu Gadarn). 72 *J* y krair. 73 *ACDFGILMN* cryw, *E* croyw (*cywiriad*: cryw). 74 *D* Fal Solas Bardd fal selyf. 76 *A* siw eithydd, *J* syw ieithoedd. 78 *E* di lawen (*cywiriad*: deg lawen). 80 *J* gem y gwr. 81 *DEJ* drwm. 82 *C* enwod; *E* fibionaidd (*cywiriad*: vabonaid), *GIK* fabonaidd, *J* beibionaidd. 83 *J* fab i seth difeth feth-fer. 84 *ACDFGILMN* fab duw naf ner, *E* duw Naf fy ner (*cywiriad*: vab Duw Naf ner); *J* fab Duw.

Teitl

A Iachau William Vaughan hên. *B* iache/r/ penrhyn. *C* Achau W^m Vaⁿ Siambrlen hen. *D* Cywydd yr Achau a gant Rhys Goch Eryri i Wiliam Fychan Siambrlain Gwynedd. *E* Cywyð yr axau i W^m Vyxan Siamb^r Gwyneð. *F* Jachav Wiliam vychan Siambrlen hen. *J* Cowydd iachau y siambrlen hen. *L* *C* yr Achau i Wiliam Fychan Siambrlen Gwynedd. *M* Iachau Wiliam Fychan Siambrlen Hen. *N* (*mewn llaw ddiweddarach* Iachau William fychan Siamberlen hen).

Olnod

A Rhus goch y Ryri ai cant. *B* Rys goz or yri. *C* Rees Goch yryri ai cant. *D* Rhys Goch Eryri ai cant. *E* Rhys Goch Eryri. *F* Rys goch yryri ai cant. *GI* Rys goch o ryri ai kant i ddangos iachau Willm vychan siamberlen hen. *J* Rys goz or yri ai kant. *K* Rhys goch orr ryri. *L* Rys Goch Eryri. *MN* Rhys Goch yryri a'i kant.

Trefn y llinellau

ACDLMN 1–8, [9–10], 11–84.

Gofyn cyllell gan Ddafydd ap Hywel

Lle cyfing, durfing derfysg,
 Y bydd, Duw a ddyrydd ddysg,
 Drud heliwr craff (praff a'i pryn)
 4 Dwyffrith, fforest a dyffryn
 Oni bydd abl, digabl daith,
 Ei offer, orau affaith,
 I gynnal, brwydr arial bryd,
 8 Golau fodd, ei gelfyddyd.
 Cyd bwyf yn arwain, glain glân,
 Bwa a milgi buan,
 Pei lladdwn, eurwn araith,
 12 Ag wynt, ardderchog yw'r gwaith,
 Dinewyn lwdn deunawosgl
 Disglair ar drum esgair drosgl,
 Anodd, daliodd adolwyn,
 16 I ddyn yn unbaich ei ddwyn
 Oni chair arf, geindarf gu,
 Chwarae taer, i'w chwarteru.
 Bu bruddfab, byw ebrwyddfaich,
 20 O brudd rhwng ysgwydd a braich.
 A wŷr neb diarhebawl
 Pa le y cair am air mawl
 Cyllell un awch cu ellyn
 24 O'r gwaith hwn, fenswn a fyn?

Gan Ddafydd gain ei ddefawd,
 Carwr gwych, y'i cair er gwawd,
 Pencerdffab arab wryd
 28 Hywel, bensaer metel byd,
 Ufyddlawch, carw llymawch coeth
 O Bebylldda, bu bwyllddoeth;
 Gorau perchen, diben dawn
 32 Gynnil, gefail ac einiawn.
 Edwin ffawd, edwyn ei ffydd,
 Da a dwfn ydyw Dafydd.
 Nid oes gwaith, nawtaith natur,
 36 Na dim ar fetel na dur

- (Ys huawdl ar ias haearn)
 Nas gwypo efō a'i farn.
 Gŵyr, feistr ystlyswaith, iaith iach,
 40 Felly Ynys Afallach.
 Gŵyr gelfyddyd, seithbryd sâl,
 Hynod obaith, hen Dubal.
- Pôr dewrddrud, parod erddrym,
 44 Pair am fy sôn anfon ym
 Gyllell, yn gyntaf gallo,
 Glaer o blith marwor a glo,
 Las a chyweithas awchwedn,
 48 Lem flaenfain fal adain edn,
 Ac ar ei chefn, dodrefn da,
 Cofiwadr ddur, dorllwyth cyfa;
 Traensiwr, bwytgyn tirionsweh,
 52 Tanllif, nod rhif rhag naid trweh;
 Traensiwr rhag sor i dorri,
 Traul hawdd, cwbl o'n ansawdd ni;
 Bwytgyn hardd i befrfardd bun,
 56 Munudlathr mynawydlyn,
 I gweirio, chwedl a garwn,
 Cyrrau, cynllyfanau cŵn.
 Tanllif gallestr gur, dur dôn,
 60 Ufel wrych efail wreichion,
 I dynnu'n wir gywirschwaen
 I mi yr engyl o'r maen
 I lestair, cywir y'i caf,
 64 Ornest ewinhew arnaf;
 Ymhell cwplach oedd felly,
 Troell llafn, trafn yn lle try.
 Rhyfalch fyddaf os Dafydd,
 68 Rhugl ddifrys, i Rys a rydd
 Baslart hardd gan Bowyslu,
 Beisleidr ddliif, ganol-llif gu.
 Nith, brwydr ddifreg a'i hegyr,
 72 (Trwyadl yw clod) Rhawd y Clŷr.
 Modryb lem i hylltrem hwn
 Cwrsews i darfu carsiwn.
 Balch o lawrodd fu roddi
 76 (Chwaer hen Galedfwlch yw hi,
 Chwech o'i gelynion ni chwardd)
 Chwaer ddewr undaer Ddurendardd;

- 80 Ysgithrlas awchlas wychliw
Ysgytiai frath, Ysgot friw.
Ysgythrwaig fyrdd ffyrdd a'i phâr,
Asgell gwayw isgell gwyar;
Ysgipddwrn angddwrn ingddellt,
- 84 Ysgorn maes, ysgyren mellt;
Ysgon drud, asgen y drin,
Asau gleifiawdr, ys glewfin.
Ysgipiai farf, arf araul,
- 88 Ysgydwydr hwyl belydr haul.
Ysgafn fydd ei llafn i'm llaw,
Esgud oll ys gad eilliw.
Esgyrnfriw ddur, gur gerydd,
- 92 Ys gŵyr hon ysgoriaw hydd.

Ffynonellau

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 197^v B—BL Add 14875 [= RWM 30], 133^r C—BL Add 14969, 237^r D—BL Add 14970, 17^r E—BL Add 14971 [= RWM 21], 141^v F—BL Add 14978, 56^r G—BL Add 31080, 7^r H—Bodley Welsh e 7, 2^r I—Card 1.550, 130 J—CM 325, 243 K—J 140 [= RWM 15], 469 L—LIGC 3048D [= Mos 145], 704 M—LIGC 3051D [= Mos 148], 90 N—LIGC 3057D [= Mos 161], 352 O—LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans II.1], 70^r P—Pen 94, 225 Q—Pen 112, 74

Y mae DJ yn deillio o O. Y mae L yn gopi o N (gan gynnwys y newidiadau diweddarach a nodwyd yn N ei hun). Copi o A yw G, gyda darlenniadau amrywiol (nas nodir isod) wedi eu codi o B a D. Copi o H yw I. O hepgor y rheini, gellir rhannu'r gweddill i'r grwpiau canlynol: ANP, BCEOQ, F, HIKM. Y mae perthynas agos rhwng A, N a P, er nad yw'r un yn tarddu'n uniongyrchol o'r lleill. Y mae F yn rhannu nodweddion â BCEOQ ac â HIKM.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 285–94.

Amrywiadau

1 *HIKM* Rhag kyfing. 2 *HIKM* O büdd, *L* y sy i; *I* Dduw; *B–EO* a rydd y dysc, *FGI* a ddyrydd ddysg, *HPQ* a ddyrydd y dysg, *LN* a ddyry ddysc. 3 *AGP* yw'r pryn, *HKM* i pryn, *ILN* y pryn. 4 *CEK* dwyffrith; *C* y dyffryn. 5 *HI* on i bydd di gabal daith, *K* on i bydd digabwydd daith, *L* oni bydd abyl digabyldaith, *M* oni bydd digablydd daith, *N* oni bydd abyl ddigabyldaith. 6 *P* o ran affaith. 7–8 [*AG*]. 7 *K* brwyd; *F* laral bryd, *I* agel bryd, *LN* arail brud. 8 *Q* fod. 9 *ACG* kyd bwy'n arwain fal glain, *F* kyd bwy yn arwain glain, *HIKQ* Kyd bwyf yn arwain ual glain, *P* cyd bwy yn arwin val glain.

12 *AKM* y gwynt (*llaw ddiweddarach yn A* ag wynt), *B* a gwynt, *CDEO* a gwnn, *ILN* ag hwynt; *C* y gwaith, *F* fur gwaith. 13 *F* llwdn; *C* deunawosc. 14 *H* disglir; *K* ar drom; *I* osgair; *AC* drosg. 15–6 [*P*]. 15 *K* anod; *AG* diolwyn, *BFHLN* y dolwyn. 17 *HQ* gaindorf. 18 *HIM* oi chwarteru, *L* iw charteru. 19 *AGP* bu briddfawl, *FH* bu bruddvawl, *I* bu cruddfawl, *K* o brüddfawl, *LN* bu bereiddvab, *M* bu o bruddfawl, *Q* bu brudfab; *H* ebrwyddfalch, *I* ebrwyddfaielch, *K* erbrwydd fayth, *LN* heb rwyddvraith. 20 *K* o brüd. 21 *D* diharebaw, *N* ddiarebawl. 22 *N* pa lle; *B* am air y mawl, *HIK* maü aür er mawl, *L* air mawl, *M* mai air er mawl, *Q* am air a mawl. 23 *ANP* yn awch cu ellyn, *BFHIKM* ar fodd ku ellyn, *CEQ* i waith cu ellyn, *D* o waith cuellyn, *O* o waith cu ellyn. 24 *DO* ar gwaith. 25 *K* gain addefawd, *LN* gain o ddevawd. 26 *AG* garw, *K* kariwr, *P* garwr; *AP* fo geir er gwawd. 27 *FHI* penceirfab; *F* aras; *Q* wyd. 28 *LN* o howel; *AFKMP* pensaer bettel, *G* penvaer bettel, *H* pennsaer bewel, *I* bennsaer bewel. 29 *AGLNQ* yvyddwalch karw llymwalch koeth, *DO* Ufydd cawch carw llymawch coeth, *F* efyddllawch karw llymawch koeth, *K* ufüddllawch karw llymach koeth. 30 *CDEO* [O]; *F* bebyll dda, *HIKM* bebyllddo, *L* bybylldo, *N* bybylldda, *P* bebylldo; *B* bwy bwyllddoeth, *C* byw bwyllddoeth, *DO* bwy bwyallddoeth, *E* bwy bwy alldoeth, *F* bebyll ddoeth, *Q* bu bwll doeth. 31–2 [*AGLNP*]. 32 *Q* ar einiawn. 33 *AG* owdwin, *HIK* odwin, *P* o wedwin; *AG* adain y, *DEO* adwyn y, *LN* adwen y, *P* edwaen ei. 34 *AP* o do dwfn, *BC* a da a dwfn, *F* adaw dwfn, *G* O da dwvn, *HIK* adaw dwf, *LN* adaw dyfn, *M* a da o dwf. 37 *AGLP* os huawdyl ar ias, *F* ys hayadl eirias, *Q* Ys huawdlair ias. 38 *HI* nis; *F* gwyp; *AGLNP* y vo a varn, *F* y foi i farn, *HIKMO* y fo i farn, *Q* y fro ai farn. 39 *AG* feistrolwaith iaith iach, *B–FMOQ* gwyr feistr ystlysiaith iaith iach, *H* feisty ystlysiaith iach, *I* yselyfiaith iaith iach, *K* feistir ystlyswaith iach, *L* fystroliaith ar waith iach, *N* vystroliaith iaith iach (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn ar waith iach*), *P* veistroliaith iaith iach. 40 *HI* velly kwys. 41 *L* gylfydydr; *AGP* seithfyd nid sal, *L* seithfydr sal, *N* seithvyd. 43 *C–FOQ* pwyr dewrddrud, *HIM* pur ddewrddrud, *K* pür dewr ddrüd, *LN* por durddryd; *AG* parod eurddrym, *F* parod eurddyrym, *HIM* pared erddrym. 44 *AGP* pared om son, *I* pair am fy som. 46 *P* aglaer; *DK* marwar, *FHI* marfor, *M* mafor. 47 *AG* loywias awchwaith lwys awchwedn, *F* lloywias achoweith awchwedyn, *H* loewias a chweithas awchwedn, *I* loywias a chweithas awch wydn, *K* loywlas achyweith awch ddyn, *LN* loyw ias awchwaith lwys awchweden, *M* loy las a chowethdas awchdynn, *O* las a chyweith awchwedn, *P* lewias owch vaith lwys awchedn. 48 *F* lle flaenfain fal adain edyn, *HKM* lem fain fal adain edyn, *I* lem fain fel adain edn, *LN* lem vlaenvain val aden eden. 49 *HI* dodrefn daf, *K–N* ddodrefn dda. 50 *F* kofiadr o dorllwyth, *LN* gofiawdur ddrur dorllwydd, *M* cofiawr ddrur dorllwyth; *CP* gyfa, *HI* kyfaf. 51–2 [*DO*]. 51 *A* tairn ar bwytcyn tri unswch, *C* traensiwch bwytgyn turionswch, *HIKM* trainsiwr bwytgyn tarianswch, *G* trains ar bwytcyn tri unswch, *LN* trainssiwr bwytcyn trayansswch, *P* traensiwr

bwytcyn triphenswch. 52 *AG* tanllud nod drud, *K-N* tanlli nod tri; *LN* rac trwch. 53 *A* transiwr, *G* Transior, *H* tarnsiwr; *N* rac sutt (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn sorr*); *HI* oi dorri. 54 *B* trabl gwbl, *CDEOQ* tabl hawdd gwbl, *F* trabl hawdd kwbl, *P* traid hawdh cwbl. 55 *F* pwytkyn; *FKM* brifardd, *LN* burfardd; *AP* ben, *F* bryn. 56 *AG* main waedlath, *B* mynydlath, *C* munudlath, *DOQ* munydlath, *L* mainwaydlath, *N* mynwydlath (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn mainwydlath*), *P* main wydlath; *AGP* manawydlen, *L* mynawdlyn, *N* mani wydlym (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn mynawdlyn*). 57 *N* gweiri; *H* chwedd, *L* chwedl; *K* tra garwn, *M* tra garw. 58 *BCL* kreiau, *DEO* careiau, *K* küraü, *Q* kreiriau; *C* kynllyfanu; *B* kwyn. 59–60 [*B-EOQ*]. 59 *AG* tanlli gallestr dur restr don, *F* tanlli kallestr llyr dur don, *K* tanlli galldr gür dür don, *LN* tanlli Kallestr dor ddurdon, *P* tanlli callestr dhür dôn. 60 *AG* ufyl wrych efail, *H* uchel euail, *K* uch ail wych evail, *LN* fuel wych euel, *M* uchael wrych efail. 61 *A* i dynnu i cair ddiwarchwaen, *C* i dynnu'n wir drwy wirwaen, *DEOQ* i dynnu'n wir drwy wirchwaen, *G* *I* dynnu i cair ddiwairchwaen, *LN* i dynny yn wir ddiwenichwaen, *M* i dynnu yn wir gowirchwen, *P* y dynnu [] jir dhiwenachwaen. 62 *AFGHKLN* yr engil, *B* yr engl, *C* yr angel, *M* yr eingil. 63 *LN* ca. 64 *AG* ar warnais, *H* or nest, *P* ar varneis; *AGP* wen friw, *H* owinrrew, *KLN* y winrrew; *LN* arna. 65 *L* yw felly, *N* oedd felly (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn yw*). 66 *AGP* troell hafn, *G* troell lafn, *M* troellafn; *B* trefn; *FI* yn lle try, *K* yn i lle trü. 67 *AGP* tra balch. 68 *AGLN* [*Rhug*] ddiddyrys i, *P* [*Rhug*] ddiidyrys y; *HI* am diffrys, *KM* am ddiffrys. 69 *G* Baslawd; *BCFHKM* gan bowysludd (*cywiriad yn K*: gan bowyslü), *I* gam bowysludd. 70 *AG* dili gynholli gu, *B* ddylif ganowllif gudd, *C* ddylif gynoddlif kudd, *D* ddylif gywlif gu, *F* []y[]ysec ganllif gudd, *HI* ddulif ganhowllif gudd, *K* ddülif gan howllif güdd, *L* ddull gannwllgyll gu, *M* ddulif ganhowllif gudd, *N* ddu ff gannwllgyll gu, *P* dyli gynholli gü, *Q* ddylif gynowllif gu. 71–2 [*F*]. 71 *AG* i modrub, *C* nith bwydr, *LNP* nith modryb; *AGNP* ddivrec eglur, *HI* ddifreg eugyr, *K* ddifreg egyr, *L* ddifeg eglur, *M* ddifreg eigr. 72 *AG* e roed clod fu Rawd y clur, *D* Trwyaid yw clod 'r hawd y clyr, *H* a bydd kud i dawdd y klyr, *I* a bydd clod i dawdd y clyr, *K* awdydd klod adawdd i klyr, *L* o hyd clod i hawdd y clûr, *M* o budd clo a dawdd y cludr, *N* o bydd klod i bardd klur (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn o hyd klod i hawd y klur*), *O* Trwyadl yw clod 'r hawt y clyr, *P* e coed clod y rawt y clÿr. 73–4 [*AGLNP*]. 73 *K* huldrem. 74 *C* kursawl, *FKM* gysys; *F* dafu garssiwn, *HI* darfyr grassiwn, *K* darfü i garsiwn, *M* darfu r garsiwn. 75 *I* lowredd; *A* i rhoddi. 76 *HIK-N* chwaer i hen, *P* chwaer y [hen]. 78 *AG* ddewr andaer ddurendardd, *B* dewr andaer dureindardd, *C* dewr am daer direindardd, *D* dewr ymdaer duramdardd, *E* dewr amdaer dureindardd, *F* ddewr andaer ddirendardd, *H* ddewryndaer er ddureindardd, *I* dewr yn daer ddureindardd, *K* ddewr yn daer ddüreindardd, *L* ddewra /n/ daer ddureindardd, *M* ddewrundaer ddurundardd, *N* ddewran-

daer ddureindardd, *O* dewr amdaer durendardd, *P* dhewr amdaer dhurendardd, *Q* ddewr am daer Dduriendardd. 79–80 [K]. 79 *AGP* ysgythrias, *FN* ysgythlas, *M* ysgytlas, *N* yscithrlas; *ACEGLOPQ* awchlas owchliw, *BF* achlas owchliw, *M* awchlas wechliw. 80 *AG* ysgyttiair vrath. 81 *A* ysgythrwaig myrch, *B* ysgythr myrdd, *C* ysgytiai fyrdd, *DEOQ* ysgythrui vyrdd, *FKMP* ysgythrwaig myrdd, *G* Ysgythrui wraig myrdd, *HI* ysgythrwaig myr, *LN* ysgydwriag myrdd; *H* fyrdd oi phar, *I* furd oi phar, *P* phyrdd oi phar. 82 *BFN* ysgell, *O* isgel, *Q* i gell. 83 *AGP* ysgip dwrn yngddwrn angddellt. 84 *AGP* ysgarn maes, *H* ysgswrn mae, *IKM* yscwrn maes, *L* ysgorn mae/r/, *Q* ysgorn mae; *J* ysgreu mellt. 85 *ACFHGIK-NP* ysgorn; *AGLP* asgwrn, *KN* yscyren, *N* assgen (*cywirwyd mewn llaw ddiweddarach yn asgwrn*); *F* orn drin. 86 *AG* is y gleifiau, *F* assai gleuiadr, *I* asau gleifiadr, *K* assau gleifin, *LN* is i gleifiau, *M* assau gleifiad, *P* is y gleifion; *AGLNP* ias gloywfin. 87 *AGLNP* ysgythrui; *BDEL* ar arfau, *C* ar aefael, *F* arf arau, *K* ar araith arf ael, *Q* arf arfau. 88 *AGHI* esgydwydr, *B-EOQ* ysgrwydr, *F* ysgydwyd, *LN* yssdrud wydyr; *D* hwyl hydr belydr, *F* yr hwyl belydr. 89 *D* bydd, *LN* [fydd]. 90 *B* esgod, *DEFOQ* ysgod; *AGP* ysgawd, *FLN* os gad, *K* ysgat. 91 *AG* ysgrin friwddur, *F* esgyn ffrw ddyr. 92 *F* osgwir, *LN* os gwyr; *AGP* hi; *ADGOPQ* ysgwario, *LN* ysgario.

Teitl neu raglith

A i ofyn wtneiff ne gyllell kynydd. *B* ir uaslart. *C* k. i ofyn baslart. *E* Ir faslart. *FK* kowüdd i ofyn baslart. *G* Ir Gyllell Hely. *Cy*: i ovyn wtneiff neu gyllell kynnyd. *H* (*mewn llaw ddiweddarach*) ir ffaslard. *L* Cw. i ofyn cyllell i Ddafydd ap Hywel, cyllell Forestwr i dorri carw, Baslart. *M* cowydd i ofun basslart o waith Rys goch or yri. *N* (*mewn llaw ddiweddarach*) *K*. i ofyn kylllyll i dd ap hoell o waith *R* goz. *O* *C*. ir Faslart. *P* Cywydh yr wdneiff neu gylhel hely. *Q* kowydd i Ddafydd ap howel / gof / i erchi Baslart (ne gyllell kynydd .i. wdkneiff) i Rys Goch yr yri.

aOlnod

A Rhys goch or Ryri ai cant. *BEIKM* Rys goch or yri ai kant. *CF* Rys goch or yri. *DQ* Rhys Goch Eryri ai cant. *G* Rhys Goch. *HR* R goch or yri ai kant. *L* Rys Goch ai cant. *N* Res Goch ai kant. *O* Rhys Goch Eryri. *P* Rhes Goch or yri.

Trefn y llinellau

AG 1–6, [7–8], 9–30, [31–2], 33–8, 41–2, 39–40, 43–72, [73–4], 77–8, 75–6, 79–92.

BCEQ 1–58, [59–60], 61–92.

DO 1–50, [51–2], 53–8, [59–60], 61–92.

F 1–56, 59–60, 57–8, 61–70, [71–2], 73–92.

HIM 1–92.

K 1–78, [79–80]. 81–92.

LN 1–30, [31–2], 33–38, 41–2, 39–40, 43–72, [73–4], 75–92.

P 1–6, [7–8], 9–14, [15–16], 17–30, [31–2], 33–8, 41–2, 39–40, 43–72, [73–4], 77–8, 75–6, 79–92.

Marwnad Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw

- Uchel ydd wyf yn ochain
 A chroch fal ariangloch fain;
 On'd eres y daearwyd
 4 Gruffudd llawn awenydd Llwyd?
 Y dydd ym ochain y daw
 A dwyn galar amdanaw.
 Arf ytoedd, erfai ateb,
 8 Aflawen wyf o flaen neb
 Am nad adwaeniad, rad Rên,
 O Bowys neb ei awen,
 Fardd neitio, Ferddin natur,
 12 Fal y'i hadwaenwn, gwn gur.
- Agos oeddwn, gwn ganllef,
 Erioed ogyfoed ag ef.
 Gofal am ei ogyfoed
 16 I Rys a hiraeth a roed
 I arwain, hardd o rawn himp,
 Oruchwawd gerdd oreuchwimp.
 Pe profid gwaith, gobaith gwŷr,
 20 Gwawd pawb, gwadau pybyr,
 Ni chaid yn fyw, deuryw dâl,
 Eithr ei gost, athro gystal
 I drwsio mydr aur draserch,
 24 A medru canmawl mawl merch,
 A lluniaw draw wrth ei droed
 Llais organ bedw llys irgoed,
 A mynnu cerdd, mwyn a'i câr,
 28 Mynudiaiu trebl mân adar,
 A hoffi gwaith yn iaith nos
 Canuau berw cain eos,
 A lleisiaw gwawd, fangaw falch,
 32 Fuan i'r gog a'r fwyalch,
 A channmol gwaith, traith lle trig,
 Bronfraith rhwng coed a bronfrig.
 Pynciau cof o lyfr Ofydd,
 36 Paun coeth (och pan ddoeth ei ddydd!)

40 A wyddiad, nid gwad y gwaith,
Gruffudd serchog orgraffiaith
Mal nas gŵyr, ddeulwyr ddolef,
Gwŷdd dim fal y gwyddiad ef.

44 Gwynfyd mawr gan ŵr gwenfun
A hardd gan Eiddig ei hun
Rhoi Gruffudd Llwyd (gyrwyd gawr),
Deg rylew, dan do grolawr.
Llawenach draw lle daw dig,
Fwg neddair, fu gan Eiddig
48 Llwyrfarw anrhydedd lloerferch,
Llawrodd sâl llariaidd ei serch,
Uchel glod, lliw nod llaw nyf,
A chaniad mydr, no chennyf.

52 Llathraidd fy neigr yn llithraw,
Llef glòs, mwy no llif y glaw
O'm trem las, alarlas lyrf,
I'm grudd am Ruffudd ryffyrf.
Nid hawdd, hyn a barawdd bâr,
56 Celu deigr rhag galar.
Diryfedd uwch graenfedd gro
Ym feithrin deigr am f'athro.
Hyn a gant, mi a'i gwrantaf,
60 Am Ruffudd fy Nudd a'm naf:
Y gwyddiad gerdd, angerdd ir,
Ac awen, Ruffudd gywir.
Ni welir mwy ôl bwyall
64 Gwlyddien Saer ar gerdd gaer gall.
Meddaf, ni feidr fy nhafawd
Blethu marneisiaith gwaith gwawd
Gwedy Gruffudd, nis gwadwn,
68 Nid hawdd ynn ateb heb hwn.

72 Treigladd pob glân gynghanedd,
Trysorser serch merch a medd;
Taliesin roddwin rwyddwyrth,
Taer anian aer Einion Yrth;
Blodeuyn y blaidd eofn,
Fflŵr d'lis awen ddewis ddofn;
Un o Adar, iawn ydoedd,
76 Prydai serch, Paradwys oedd.

- Bardd cyfraith, talaith teulu,
 Iesin ar gerdd Ferddin fu.
 Ffelaig pob awdl diffaeloed,
 80 Ffyniant cerddau moliant coed,
 Cywir angerdd cywreingoeth,
 Cannwyr englyn diŵyr doeth,
 Llawrodd rym, llawrudd ei raidd,
 84 Lluniawdr ar bob cwpl lluniaidd,
 Perllan reiwl y moliant,
 Pwyll ddelw, mal Cynddelw y cant,
 Ceidwad allt lwyswallt laswerdd,
 88 Cywrain gyrch, coron y gerdd.

- Cedwid Mair, fy eurgrair fydd,
 Ffriwdeg enaid ei phrydydd
 92 Yn llaw hoff Ddafydd Broffwyd,
 Yn y lle rhoir Gruffudd Llwyd
 I'w ddwyn dan adolwyn dwys,
 Brydydd Mair, i baradwys:
 Buan ydd êl, heb ohir,
 96 Pardwn hardd heb burdan hir,
 Yng nglân fraint engylion fro
 Enaid Gruffudd Llwyd yno.

Ffynonellau

A—Bangor 704, 123 B—Bangor (Mos) 5, 126^v C—Bangor (Penrhos) 1574, 9 (*llau*. 33–4) D—BL Add 14978, 43^r E—BL Add 14986, 95^v F—BL Add 31080, 35^r G—Bodley Welsh f 4, 33 H—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 557^v I—Card 2.114 [= RWM 7], 520 J—Card 5.44, 146^v K—CM 27, 244 L—Gwyn 4, 124 M—Gwyn 9, 49 N—J 101 [= RWM 17], 752 O—J 139 [= RWM 14], 436 P—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 272 Q—LIGC 3046D [= Mos 143], 207 R—LIGC 3057D [= Mos 161], 356 S—LIGC 6881B, 1 T—LIGC 13062B, 453^v U—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 80^v V—Llst 48, 89 W—Llst 123, 363 X—Llst 133, 58 Y—Llst 134, 154^r Z—Pen 100, 191 a—Pen 151, 9^v

Ceir cryn amrywio rhwng y llawysgrifau ar gyfer y gerdd hon, fel y gwelir o drefn y llinellau. Lluniwyd y testun yn bennaf ar sail B, HZ ac R.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 285–94.

Amrywiadau

1–32 [C]. 1 *ADEFH–SV–a* yr wyf, *G* ydwyf. 2 *AHIMNOQRSXZ* ar och. 3

DFJPTUVY nid eres kyn dayarwyd. 4 *DFJPUV* llonn, *E* [llawn]; *E* llowydd, *IOQ* o wenydd; *H* [llwyd]. 5 *ABDGHILNO* yn ochain; *JPTUY* o daw. 6 *IO* a dunos; *Qa* alar. 7 *Q* arfy; *A* eurfan, *E* er afai, *FJPQUV* arfai, *HRW* evrfai (*W cywiriad* erfai), *O* orfai. 9 *L A* nad; *B n* adwaeniad, *JPVY* nad adwaenad, *a* nad 'dwaeniad; *IO* had hen, *BQa* rhad y rhen. 10 *Y* ai awen. 11 *AH* fardd yn neitio, *B* vardd yn ytoedd, *D* fardd neitiodd, *EL* fardd yttoedd, *F* fardd neittiai, *G* fardd nowtasc, *P* vardd naitai, *R* vardd yn neittio (yn *wedi ei ddileu'n ddiweddarach*), *N* fardd y neitio, *TUVY* vardd naitiav, *W* fardd 'n neittio. 12 *ABDEGHK-NQRSWXZa* fal yr adwaenwn, *LJOPTUVY* fal i hadwaenwn; *O* gwn i gür. 13 *BGLa* achos; *D* geinllef, *FJPTUVY* gwynllef, *G* gannef. 14 *E* gogyfoed, *I* gyfoed, *FJKPTUVYa* i gyfoed, *G* gyfoedi, *O* yn gyfoed, *Q* ag un oed. 15 *A* Gofid, *HINO* galar, *L* Gafar, *R* galar (gofal *wedi ei ychwanegu uwchben y ll.*); *E* gyfoed. 16 *L* a galar. 17 *B EGL* ar awen, *FJKPTUYa* [I] arwain; *AHNR* hardd o iawn, *BE* hardd oroen, *D* haidd o ran, *FJKPUV* hawdd or awen, *IO* haidd o rawn, *MSXZ* hardd ar iawn, *TY* hardd ar awen, *a* hiraeth; *G* orhoen chwimp, *L* oroen himp, *a* oroenchwimp. 18 *AHN* orevchwawd, *BDGTUVa* or achos hwn, *G* or achos honn, *IO* or awchwawd, *JPY* or achos hynn, *K* ar owchwawd, *MSXZ* evrychwawd. 19 *D* pan brofer, *E* proffid; *DFJPTUVY* gwibiaith. 21 *Q* ni chay; *E* fwy; *F* dan ryw. 22 *AN* eithr o gost, *B* neithr cost, *EL* eithyr kost, *G* uthr cost, *a* Er rhoi gost; *BG* vn athro cystal, *L* am athro kystal. 23 *IO* [I] trwssio mydr avr traserch, *L* [I] mydr o avr draserch; *BEFa* avr, *G* awr, *M* ar. 24 *I I* medrai ganmawl, *L* medru canmawl a mawl merch, *O* i medrai girmawl. 25 *AHINOQRW* a gwneuthyr (*W cywirwyd yn lliniaw*), *K* a chwafriaw, *MXZ* i wneuthur; *E* evraw erioed. 26 *ABGHLN* fedw, *E* [bedw]; *E* llysse irgoed. 27 *DIOQ* kerdd mwy; *O* nyn kar, *a* i car. 28 *E* myn diav, *G* muniadau, *JVY* manvdav; *E* trybl, *M* cerdd; *D* mwyn. 29 *E* yn os. 30 *JPUV* kaniav, *K* ganeüau; *AHMSXZ* bedw, *E* bwrw; *LP* kan. 31 *J* a lleisiaü gwawd fangawd, *MSXZa* a lleisio gwawd fangawd; *B* vangnawd valch, *E* kan gwfalch, *G* fangaw falch, *I* fargawd falch, *Q* vagiawd valch. 32 *IO* y gog; *D* ner fwyalch. 33 *Q* [A] kanmol gewniaith; *AHN* lle traith trig, *BDFGJLPT-WY* llais trais lle trig, *E* llais trais i tric. 34 *E* Rwn goed; *BDGOa* brynfrig, *FJPTUVY* brwynfrig, *K* brenfrig. 35–98 [C]. 35 *BD-GJFLPTUVY* o gof llyvr; *KR* ar lyfr; *E* ofddydd. 36 *Y* pan; *ADHNRW* [och] pan, *K* oni. 37 *AHINO* e wyddiad, *Q* ar wythiad, *a* gwir wyddiad. 38 *AHN* serchowgrwydd graffwaith; *BGVa* orgraffwaith, *FJPU* o graffwaith, *LMSXZ* argraffwaith, *TY* graffwaith. 39 *E* malais y gwyr; *AHN* eiddylwr ddolef, *F* deilwyr dolef, *IR* daulwyr dolef, *K* da lwyr, *X* daulwyn dolef. 40 *E* o gywydd dim mal i gwiddiad ef; *DFJPTUVY* gwedd, *MSX* Gwyr; *SXZ* yn gystal ag ef, *M* gystal ag ef. 41–50 [*AHN*]. 41 *E* gawr gwenfvn, *G* wr gwenfwyn, *a* garwr gwenfvn. 42 *BEG* hardd a chan eiddig i hvn, *DQ* hardd a chan eiddig i hyn, *MSXZ* hardd a chan eiddig yw hyn. 43 *B* vy nvdd am naw, *G* gwyrwyd gwawr. 44 *K* dan y, *G* dan clo, *MSXZ* dan dy. 45 *E* llawena, *KRW* llywenydd. 46 *a* y cynyddai cân eiddig; *D* vigen aidd; *E* neddwr, *G* meddair,

nadredd, *F* ith lipra nadredd, *G* fethr leipra madredd, *HY* foth lapri nadroedd, *I* oth lewpra nadredd, *Jg* eth leipra madredd, *KPce* feth leipra madredd, *M* eth lipra madredd, *QRd* ith leipra nadredd, *Tk* fo'th leippra madredd, *U* ethlipra nadroedd, *V* foth leipra nadradd, *a* eth lipra nadredd, *b* ith lipra nadredd, *j* foth lepra madredd. 106 *HY* kvnwg, *QRd* Cunog; *C* goppor, *HIY* gopr, *f* ceipr; *I* keisneth, *QRd* peisnedd, *U* beiswedd; *QRd* perfedd porfa. 107 *I* maib rraib, *U* rhwystry resia/. 108 *QR* Cin wyth cawn ith failio cwn ith fwyta, *d* kyn wyth kawn kwn ith fwyta; *Fa* kael kanwaith, *M* kael kymwyth; *U* kael kimwth; *B* vattael; *AEILNVil* y kwn. 109–22 [I]. 109 *AENOVYgil* a bwyta or, *QRd* a bwytta'r ci; *BTK* rhocka, *b* rrwngca. 110 *AFJMUag* ar brain ar ci rhvddlwyd, *CLb* ar brain y ki rrvddlwyd, *El* y brain ar ci rhwyddlwyd, *GKXff* a brain a chi rhuddlwyd, *H* ar brain yn y bol ruddlwyd, *NOVi* y brain ar ki rhyddlwyd, *Pe* a brain a chi rvdlyd, *QRYd* ar brain y bol ryddlwyd, *c* a brain y bo rhuddlwyd; *HY* brith. 111 *E* bridd blaswer crin amser crach, *H* pridd vlas wer kriw amsser krach, *NOVil* pridd blaswer krin amser crach, *Q* bowlyd wer Crin amser crach, *R* bowlyd wer cin amser crach, *Y* Per ddulas Wêr Crin amser Crach, *d* bawlvd wer brin amser krach; *CL* bryddlas, *e* breiddblas, *j* briddlys; *C* goren feder; *j* gras. 112 *j* blaenbar; *CELMNVbil* bodr, *U* bodr; *HY* var, *NVil* farwar; *Ma* keimwch. 113 *C* davargiw, *HY* dayar grach, *L* daiargi, *Q* daergyrych, *a* daiar grych, *g* ddavargyrych, *i* daeragyrych; *QV* Cymer. 114 *BT* llan, *HY* vn, *QRd* llawn, *g* llym; *gi* a gwedd, *j* agwdd; *M* varwor. 115 *QR* cymraist ffwth ffath heb watwar, *d* kymraisd ffwt fat heb watwar; *CLb* dvg etto diwag; *A* wyd gat, *EHO* wsd gatt, *J* wystûgat, *NYl* wysd gat, *Pe* wystyn at, *U* wiskiadi, *V* wysdl gat, *i* witsgatt; *F* heb watwar. 116 *AENVil* i graig ffyrdd ymhaen gwyrdd gwar, *HY* ir greigffyrdd vym haun gwyrddgwar; *OQRd* i greigffyrdd; *BFO* y mhavn; *Fa* gwisgwyrdd, *LOQRd* gwyrdd. 117 *ANVI* Diwar grych leidr grych ledryn, *E* di war ar grych leidr grych ledryn, *O* Di war groch leidyrych grych ledryn, *i* Diwar gwyrych leidr grych ledryn; *J* Dy war; *HY* gochyl lwyd, *Rd* gochlwyd, *UZ* koch llwyd. 118 *O* divud, *j* uwyd; *AEHNQRVdil* mynu defaid, *CLY* mynn y defaid; *B* defam. 119 [C]; *A* filld; *AENOQRVdil* [liw] diog o, *GPX* cef lliw diwyg, *HY* liw diog, *Jabg* lliw diwg, *UZ* lliw drwg, *j* liw diwyc; *HY* follten. 120 *BFMXaef* rhwydd afel rhin, *CL* rrwydd awel rin, *EOQRVYdil* ryw vchel rîn, *GKk* rhwyd afel rhin, *H* rywychel rin, *J* rhwydd awel rhûn, *N* rhyw suchel Rin, *P* rhwydd afael rhin, *UZ* a fel rhin, *j* ryw ryfel rin. 121 *HY* di elw y gwaith, *QRd* di elwi y gwaith; *CFHJLNVbdgi* dal o gwn, *UZ* dal y gwan, *Y* dal y Gwn. 122 *ACEOijl* a feidr, *L* o feidr a, *N* feid; *Z* [a] fedr; *CL* diwedd.

Teitl neu raglith

AOg Owdl y llwynog. *B* owdyl ddychan ir llwynog am ladd paun Rys goz or Ryri ac medd rhai e fu'r llwynog farw o achos y gerdd hon, coelied ai mynno. *C* Owdwl Rys Goz y Ryri ir llwynog a llyddase i bavn. *E* Owdl y llwynog a laddai bavn y bardd (*mewn llaw ddiweddarach*). *F* owdl y llwynoc. *G* Owdl ddychan ir llwynoc am ladd paun Rhys Goz or yri. *H* [ja

owdwl []naeth Rys []h i'r llwynog. *J* Awdl ir llwynog am ladd paûn Rhys goch o Eryri. *K* owdl ddychan ir llwynog am ladd pavn. *L* Owdl Rys goch or Ryri ir llwynog am ladd ei Baun. *M* Llyma owdl y llwynog Madyn Ronwyn. *N* llyma owdl y llwynog yr hon a wnaeth Rhees goch yr yri, ag i mae arni rinwedd ni chân vnn dyn meddw moni byth ag i dywedwyd ddowyd or llwynog i farw i ddrws i dy. *P* Dychan ir llwynog am ladd pavn. *QR* Owdl y llwynog am ladd paun. *T* odl ddychan i'r llwynog am ladd paun Rys goch o'r Ryri ac medd rhai e fu 'r llwynog farw o achos y gerdd hon, coelied y neb a fynno. *U* Owdl dychan /i/ fadyn lwynog am ladd /i/ baun. *V* Owdl ir llwynog o waith Rees Goch o. *W* Y Llwynog Madyn Rhonwyn. *X* düchan ir llwynog. *Y* Llyma awdl a wnaeth Rhÿs Goch ir llwynog am ladd ei Baun. *Z* Owdl dychan i fadyn lwynog am ladd i baun nid oes dim ond ei diwedd yma canys roedd hi yn rhu hir yw scrifenu medd Angharad. *a* Owdl ir llwynog. *b* Awdl ir llwynog. *c* Owdl ddychan ir Llwynoc am ladd paun Rhys Goz or Yri. *d* owdwl y llwynog. *e* kowydd dychan ir llwynog am lladd pavn. *f* dychan ir llwynog. *h* Rhys goch o ryri. *i* Owdl y Llwynog a ddygsai Baun. *j* Awdl ir llwynoc a wnaeth Rys goch or yri am ladd i baun. *k* Awdl dduchan ir llwynog am ladd Paun Rhys Goch or Yryri. *l* [] owdl y llwynog yr hon a wnaeth [] goch or yri ag i mae arni rinwedd ni chan vn dyn meddw moni byth ag i dwedpwyd ddowad or llwynog i farw i ddrws i Dy.

Olnod

A Rhes Goch yr yri ai cant. *B* Rhys goch or Ryri ai cant. *C* Rhys Goz or yri ai kant. *Fb* Rys goch or yri. *E* Rhys Goch or yryri ai Cant. *G* Rhys Goch or yri ai kant 1420 (*mewn llaw ddiweddarach*). *H* Rys goch or yri ai kant ir llwynoc am lladd i baun. *I* Rys koch or rryi ai kant. *J* Rhys goch ai kant. *K* Rh: goch or yri ai kant i fadyn am ladd i bavn. *L* Rys Goch or Ryri. *M* Rys goz or yri ai kant. *NP* Rhvs goch or yri ai kant. *O* llyma ddiwedd owdwl y llwynog o waith Rys goch o ryri. *QR* Rhys Goch o Eryri ai Cant. *T* Rys Goch o'r Ryri ai cant. *U* Rees Goch or yri ai kant ag yn ôl hyn /y/ gair oedd ddyfod /y/ llwynog /i/ farw wrth ddrws ty /y/ prydydd. *V* Rees Goch or yri ai cant a gwaith gorchesdol yw ni chân dyn meddw mono byth. *X* Rhys Goch or yri ai kant. *Y* Rhÿs Goch o Eryri ai cant i'r llwynoc am ladd ei Baun 1420. *Z* Rees Goch or yri ai cant ag yn ôl hyn y gair oedd ddyfod y llwynog i farw wrth ddrws y prydydd. *ag* Rys goch or yri ai kant. *c* Rhys Goch or Yri ai kant. *d* Rys goch or yri. *e* Rys Goch or yry. *f* Rys goch o Eryri. *j* Rys goch or yri. *k* Rys Goch or Yri ai Cant. *l* Rees Goch or yri Cant.

Trefn y llinellau

A 1–5, 7, 6, 8–44, [45–68], [71–90], 91–100, 103–4, 101–2, 105–8, 69–70, 109–22.

CL 1–82, 85–6, 83–4, 87–118, [119], 120–2.

D 1–52, [53–4], 55–72, [72–122].

- E* 1-5, 7, 6, 8-68, 79-80, 77-8, 71-6, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-8, 69-70, 109-22.
- F* 1-34, [35], 36-82, 85-6, 83-4, 87-122.
- GJKPXabcgk* 1-82, 85-6, 83-4, 87-122.
- H* 1-15, 17, 16, 18-68, [69-70], 79-80, 77-8, 71-6, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-22.
- I* 1-16, 18, 17, 19-62, 77-8, 63-4, [65-74], 75-6, + yngod anorvod yn aerfa riddrid / mud gwarthussyd myn gwyth assa, [79-80], 81-2, 85-6, 83-4, 87-92, [93-6], 97-100, 103-6, 101-2, 107-8, [109-122].
- M* 1-82, 85-6, 83-4, 87-95, [96], 97-122.
- NOi* 1-5, 7, 6, 8-15, 17, 16, 18-68, 79-80, 77-8, 71-6, + Yngod angorfod yngyrfa rhyddryd / myd y gwerthysyd myn gwyth asa, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-8, 69-70, 109-22.
- QRd* 1-68, [69-70], 79-80, 77-8, 71-6, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-22.
- U* 1-82, [83-6], 87-122.
- V* 1-5, 7, 6, 8-68, 79-80, 77-8, 71-6, + yngod angorfod yngyrfa rhyddryd / myd y gwerthysyd myn gwyth asa, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-8, 69-70, 109-22.
- H* 1-15, 17, 16, 18-59, [60-3], 64-8, [69-70], 79-80, 77-8, 71-6, 81-2, 85-6, 83-4, 87-100, 103-4, 101-2, 105-22.
- Z* [1-116], 117-22.
- e* 1-77, [78-9], 80-2, 85-6, 83-4, 87-113, [114], 115-22.
- j* 1-82, [83-4], 85-122.
- l* 1-5, 7, 6, 8-15, 17, 16, 18-34, [35-48], 49-68, 79-80, 77-8, 71-6, 83-4, 81-2, 85-100, 103-4, 101-2, 105-8, 69-70, 109-22.

Atodiad i

Ymryson Rhys Goch Eryri ac Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd

Aed f'ychenaïd, ysbaid osb,
Hwrdd Deau, herwydd diasb.

Gorchest Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd at Rys Goch o'r Yri ac yntau a'i gorffennai fal hyn:

4 Pan êl Nanhwynen yn hesb
Neu hen Lyn Tegid yn hysb.

Ac a anfonodd iddo yntau, hyd y dywedir, yr englyn chweban hwn:

8 Meinwen ynnill di'r menig,
Cadw'r wŷn rhag y llwynog;
Belin, cais dithau'r bilwg,
Dal geffyl glas neu gaseg,
A rhed yn ôl y pwn rhyg—
Mae'r hopran weithian yn wag.

Rhys Goch a'i cant o'r Yri.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 9, 671^r B—BL Add 14892, 28^v C—BL Add 31055 [= RWM 32], 88^v D—CM 25, 79 E—CM 449, 1^r F—LIGC 253A, 455 G—LIGC 3039B [= Mos 131], 247 H—Pen 122, 126

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 285–94.

Amrywiadau (barddoniaeth)

1–4 [F]. 1–2 [E]. 2 AB o herwydd. 3 E Fynd blaen; D minhwynen. 4 ABD na hen, E ar hen. 5–10 [ABDE]. 8 C dal, G cyrch. 9 G i nol.

Amrywiadau (rhyddiaith)

ABDE Ni cheir y rhyddiaith ynddynt ac y mae'r gerdd (sef llau. 1–4 yn unig yn ABD a llau. 3–4 yn unig yn E) yn ddiennw. C [fal hyn]. G Englynion a fu rhwng Rhydderch ap Iefan Llwyd a Rhys Goch or Yri [wedyllau. 1–2]. Rhydd ap Ien llw ai cant / ateb ir ban uchod [wedyllau. 3–4]. Rys Goch or yri ai cant. /Englyn 6 ban at Rydderch ap Ieuan Llwyd yr roi ateb iddo [wedyllau. 5–10]. Rhys Goch or Yri ai cant ateb ir uchod. H [hyd y dywedir].

Atodiad ii
Cywydd hiraeth am arweinydd

4 Nid hiraeth, etgyllaeth gŵyn,
Am aur na chariad morwyn;
Hudol gwrol a'm goryw,
Hiraeth am eurbennaeth byw.
8 Gwladaidd oedd ei friglwydaw,
Glegyr du, gwaе Loegr o daw.
Gwawr gain, cafas gwŷr Gwynedd
Gan Dduw ŵr yn fyw o fedd.

Llawysgrifau

A—Pen 50, 132 B—Pen 113, ii, 65^v C—Pen 270, 352

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 285–94.

Amrywiadau

1 B ergyлаet.

Olnod

A Rys ap dd ap Ier; B Rys ap Dafyd ap Ierwert; C Rys ap dd ap Ier allan o hên lyfr.

Nodiadau

I

Maredudd ap Cynwrig ap Maredudd Ddu oedd un o uchelwyr mwyaf blaenllaw Môn yn y blynyddoedd cyn gwrthryfel Glyndŵr ac ar ei ôl.¹ Er mai hon yw'r unig gerdd y gwyddys iddi gael ei chanu iddo, awgrymir yn ei chwpled olaf y byddai croeso arbennig i'r beirdd yn ei lys ym Mhorth-aml.

Cafodd Maredudd yrfa lewyrchus iawn yng ngwasanaeth y Goron gan ddal nifer mawr o swyddi ym Môn dros gyfnod o bron i hanner canrif. Clywir amdano yn gyntaf yn 1378–9 yn ffermio tollau Llannerch-y-medd a phorthoriaeth Rhosyr, a daliodd nifer o swyddi pwysig yn y blynyddoedd cyn gwrthryfel Glyndŵr.² Bu'n deyrngar i'r Goron yn ystod cyfnod cyntaf y gwrthryfel, ond yn 1404 cipiwyd ef gan wŷr Owain ac ymunodd, dan orfodaeth efallai, â'u hymgyrch cyn ailymuno â phlaid y Goron.³ Bu'n rhaid iddo dalu dirwy drom am ei ran yn y gwrthryfel, ond erbyn 1408–9 yr oedd eto'n amlwg yn llywodraeth Môn, a dengys y nifer mawr o swyddi a ddaeth i'w ran yn y ddegawd nesaf nad amharodd ei ran yn y gwrthryfel yn ormodol ar ei yrfa.⁴ Bu ddwywaith yn aldermon Niwbwrch (1418 a 1426), daliodd swydd bwysig dirprwy siryf Môn yn 1408–9, ac fe'i penodwyd yn sarsiant wrth arfau'r brenin yn 1417.⁵ Ceir y cyfeiriad olaf ato yn 1426; erbyn 1428 ei fab Tomas oedd y penteulu ym Mhorth-aml.⁶ Gellir dyddio ei farwolaeth, felly, a dyddiad cyfansoddi'r gerdd hon, i 1426–8. Ar ddechrau'r haf y deuai llongau gwin i Gymru gan amlaf, ac efallai mai dyna pryd y bu farw Maredudd.⁷

Fodd bynnag, ceir awgrym yn llinellau 37–42 nad oedd Maredudd mor uchel ei barch gan bawb ag yr oedd gan Rys Goch. Wrth gwrs, gall mai

¹ Ceir testun o'r gerdd yn IGE² 304–6 (cerdd CI). Ar Faredudd, gw. A.D. Carr, 'Maredudd ap Cynwrig: a medieval public person', AAST, 1998, 13–21. Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 'Llywarch ap Bran' 3.

² A.D. Carr, *art.cit.* 14.

³ *Ib.* 16.

⁴ *Ib.* 17–18.

⁵ *Ib.* 18–19. O ystyried delweddadaeth forwrol y gerdd hon, y mae'n ddiddorol nodi y ceid llun o long ar sêl tref Niwbwrch yn y cyfnod hwn, gw. K. Lloyd Gruffydd, 'Y llong yn y Canol Oesoedd', *Cymru a'r Môr*, 13 (1990), 48 (ffig. 5).

⁶ A.D. Carr, *art.cit.* 19.

⁷ Cf. GLGC 529. Ar longau'r oesoedd canol, gw. Ian Friel, *The Good Ship: ships, shipbuilding and technology in England 1200–1520* (London, 1995); K. Lloyd Gruffydd, *art.cit.* 44–60. Ar y fasnach win yng Nghymru, gw. *id.*, 'Wales's maritime trade in wine during the Later Middle Ages', *Cymru a'r Môr*, 15 (1992), 7–42.

cysêt barddol yw'r her hon i'r gynulleidfa enwi gŵr gwell na Maerdudd. Eto, dichon i Faredudd ennill gelynyon rywdro yn ei yrfa liwgar. Gallai'n hawdd fod wedi digio rhai o'i gymdogion ym Môn wrth gyflawni ei ddyletswyddau neu ennyn eu heiddigedd oherwydd ei lwyddiant. Ar y llaw arall, efallai mai ei ran yn y gwrthryfel sy'n sail i'r llinellau hyn.⁸ Os gellir ymddiried yn yr achau, yr oedd aelodau o'i deulu yn flaengar iawn dros achos y ddwy blaid yn ystod y gwrthryfel. Yr oedd ei wraig Annes yn nith i Glyndŵr, a bu ei thad hithau, Robert Pilstwn, brawd yng nghyfraith Owain, yn gefnogwr brwd i'r gwrthryfel o'r cychwyn cyntaf.⁹ Ymunodd brodyr Maredudd yn y gwrthryfel, a pharhaodd un ohonynt, Cynwrig Fychan, yn deyrngar i Owain wedi i Faredudd ildio i'r Goron. Ar yr ochr arall yr oedd brawd yng nghyfraith Maredudd, Hwlcyn Llwyd, hynafiad teulu Glynne Glynllifon, yn gadarn o blaid y Goron a bu farw yn 1404 yn amddiffyn castell Caernarfon rhag lluoedd Glyndŵr.¹⁰ Hawdd gweld pahan nad oedd Maredudd ymysg cefnogwyr mwyaf brwd y gwrthryfel, a thybed a yw ôl ei gyfyng-gyngor i'w weld yn ei farwnad? Os felly, diddorol yw cymharu'r gerdd hon â marwnad Gwilym ap Gruffudd, gŵr arall llwyddiannus ond amwys ei deyrngarwch yn ystod y gwrthryfel. Yn wir, bu cryn dipyn o ymwneud rhwng Maredudd a Gwilym, fel y profir gan y ffaith fod Maredudd mewn dyled i Wilym oherwydd benthyciad a roddwyd iddo ym Machynlleth, digwyddiad y mae A.D. Carr yn awgrymu y gallai ei fod a wnelo ag un o seneddau Owain Glyndŵr.¹¹ Ar ôl marwolaeth Maredudd, dywed yr achau i'w wraig, Annes, briodi Tudur Fychan, mab Gwilym ap Gruffudd a brawd Gwilym Fychan, y mab a gafodd y rhan helaethaf o bell ffordd o etifeddiaeth deuluol y Penrhyn.¹²

Y mae'r disgrifiad o'r llong a geir yn y gerdd hon yn ddyfais ddramatig hynod effeithiol a gellir ei gymharu â'r disgrifiadau a geir yn 'Englynion Gwynedd' Gruffudd ap Maredudd, cywydd Iolo Goch i'r llong, cywydd Lewys Glyn Cothi i Ruffudd ap Rhys o Franas pan aeth ar bererindod, a chywydd Deio ab Ieuan Du pan garcharwyd Siancyn ap Maredudd ar long.¹³

1–8 Prif frawddeg y llinellau agoriadol hyn yw *Doe ... / ... / Gwelais ... / ... / Gwinllong â phatrwn crwn cryf / Yn hwylio ... / ... parth â Gwynedd.*

⁸ Ymddengys iddo gydweithio ag un o swyddogion Tywysog Cymru er mwyn ymelwa'n ariannol ar y gwrthryfel, a hynny cyn iddo dderbyn pardwn y llywodraeth, gw. R.A. Griffiths, *Conquerors and Conquered in Medieval Wales* (Stroud, 1994), 129, 130.

⁹ R.R. Davies: ROG 139, 140.

¹⁰ J.E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dŵr* (Oxford, 1931), 77.

¹¹ A.D. Carr, *art.cit.* 16–17; *id.* 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', *Cylchg HC xv* (1990–1), 7.

¹² P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6.

¹³ GGMD ii (cerdd 8); GIG 147–52 (cerdd XXXIII); GLGC 500–1 (cerdd 231); GDID 12–13 (cerdd 5).

- 1 **dau angor** Yn ôl G 19, eg. yw *angor*, ond yn ôl GPC 68 gall fod yn eb. hefyd. Y darlleniad *dau* a geir gan bob llsg. hŷn na'r 18g. ac eithrio BM. Fel y dengys K. Lloyd Gruffydd, 'Y llong yn y Canol Oesoedd', *Cymru a'r Môr*, 13 (1990), 54, yr oedd gan longau o'r 15g. yn aml fwy nag un angor; cf. GLGC 500 (231.36) *a'i dengwart a'i dau angor*.
- 2 **dŷ dderw** Darlleniad IGE² 304 (ll. 2) yw *dy dderw*, ond os felly, dyma'r unig ffurf yn yr ail berson yn y gerdd. Gwell yw cymryd bod yma dreigladd meddal ar ôl yr e. *tŷ*; er ei fod yn eg. yn 2.19 gallai hefyd fod yn eb. mewn Cym.C., gw. D.J. Bowen, 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, v (1999), 83. Y mae Lewys Glyn Cothi a Deio ab Ieuan Du yn cymharu llong â *thŷ*, gw. GLGC 501 (231.47); GDID 12 (5.28). Defnyddir *derw* a *derwdy* gan y Cywyddwyr yn aml i olygu 'arch', gw. GPC 932–3. Gall fod yma, ynghyd â'r cyfeiriad at *arch* isod ll. 13, awgrym cynnil o farwolaeth y noddwr.
- marianferw môr** Ar *marian* (y) *môr*, sef 'sea-strand', gw. GPC 2361. Cyfeirir yma at yr ewyn (*berw*) yn gymysg â'r gro ar fin traeth.
- 3 **gŵyl coel** Gall *gŵyl* olygu 'gwyllfa, gwyliadwriaeth, gwarchodaeth' neu 'dydd gŵyl', gw. G 736; GPC 1758–9 d.g. *gwyll*¹. Gall *coel* olygu 'coel, argoel, cred, sicrwydd, gwarant' neu 'cofl, baich', gw. G 157–8. Gellid darlleniad synhwyrol o amryw o'r rhain, ac efallai fod yma amwysedd bwriadol.
- 4 **gwelais i ar** Gellir dehongli'r *i* yma'n rh. ategol—er mai'n gymharol anaml y'i defnyddid gan y Cywyddwyr mewn ymadrodd fel hwn (ond cf. 3.89)—neu gall fod yn rhan o'r ardd.cfns. *i ar*, gw. GMW 199–200 lle y nodir yr ystyron '*on, upon*', '*besides, in addition to*', '*from upon*'; byddai'r ystyr olaf yn addas yma. Defnyddir yr ardd.cfns. *i ar* gan Iolo Goch, gw. GIG 3 (I.40). Posibilrwydd arall fyddai darllen *Y gwelais ar* gyda llsgrau. ABEHIL.
- gwylain** Ffurf l. *gwylan* (gw. G 737; GPC 1760) a ddeallir yma'n ddibynnol ar *môr* yn hytrach nag yn wrth. y f. *gwelais*.
- 5 **dewisoedd ddeisyf** Ffurfiâu megis *ddywysoedd ddyisyf* a geir yn y llsgrau. gorau, ond nid yw'r rhain ond amrywiadau ar *dewisoedd a deisyf*. Gw. GPC 942 d.g. *dewisol* ac *ib*. 925 d.g. *deisyf* am sillafiadau tebyg o'r 16g., cyfnod llsgrau. cynharaf y gerdd hon. Gellid aralleirio 'deisyfiad pethau dewisol', er bod sawl posibilrwydd arall.
- 6 **patrwn** Benthyciad o'r S.C. *patro(u)n*, gw. EEW 84, 247 a GPC 2701 d.g. *patron*¹, *patrwn*¹, lle y nodir hon fel enghraifft gynharaf. Y *patrwn* oedd y gŵr a hwyliai'r llong; dyletswydd y capten (yn wreiddiol) oedd gofalu am y milwyr ar fwrdd llong ryfel. Gallai 'patrwn' hefyd olygu perchennog y llong, gw. K. Lloyd Gruffydd, *art.cit.* 57.

- 8 **pyrth** Ffurf l. *porth* ‘mynedfa..., drws, dôr’, gw. GPC 2855 d.g. *porth*², y mae’n debyg, yn hytrach na ffurf 3 un.pres.myn. y f. *porthi* ‘cludo’. Ni restrir *pyrth* yn ffurf l. *porth*³ ‘porthladd, harbwr’ yn GPC 2855.
- 12 Cf. DGG² 138 (LXXXV.32) *Rhoes hwrdd i’m llong, rhoes flong floedd* (Gruffudd Gryg).
- 13 **arch y sawdd** Tebyg mai ‘cist’ neu ‘llong’ yw *arch* yma, ond gellid ei ddeall hefyd yn e. o’r f. *erchi*, gw. GPC 179. Ar *sawdd* ‘soddiad, boddiad...; rhyferthwy’ gw. GPC 3185 d.g. *sawdd*¹. Ai cyfeiriad at symudiad y llong gyda’r llanw a’r tonnau sydd yma?
- 14 **clochdy** Yn drosiadol am yr hwylbren a’r topcastell (gw. ll. 18n), neu’n llythrennol os oedd gan y llong ei chloch ei hun.
pyglwyd Cyfuniad o *pyg* a *llwyd*. Peintid llongau â phyg er mwyn eu gwneud yn ddyfrglos, gw. K. Lloyd Gruffydd, *art.cit.* 50.
- 16 **ffriw** Sef trwyn y llong, gw. K. Lloyd Gruffydd, *l.c.*
- 18 **topcastell** Cyfaddasiad o’r S. *top-castle* (gw. OED² d.g.) sef rhan ddyrchafedig y llong, ar ben yr hwylbren, gw. GLGC 562. Y term S. bellach yw ‘*crow’s nest*’, gw. CBPM 257n1: ‘In fifteenth century pictures of ships the masts have very large “tops”, in which the spears were kept out of the way when not in use. During an engagement they placed archers there’. Ceir darlun o long o c. 1400 sy’n dangos natur y topcastell yn K. Lloyd Gruffydd, *art.cit.* 51 (ffig. 6).
- 19 **M’redudd** Ar ffurf ddeusill yr e. hwn, cf. y sylwadau canlynol o lyfr gramadeg Tomas Prys o Blas Iolyn: *Ag i mae llawer o eiriav i gellwch i rhoi yn ddavsiillafog nev yn dri fal hynny, Margared nev Farged, Myredydd nev Freddydd*, gw. GP lxii.
rhieiddudd Nis ceir yn GPC 3068. Ymddengys mai cyfuniad ydyw o *rhiaidd* ‘brenhinol, uchel ei dras, pendefigaidd, urddasol’ (GPC 3065) ac *udd* ‘arglwydd’. Awgrymir yn IGE² 389 y gall mai *dydd* yw’r ail elfen, ond anodd gweld paham y byddai Rhys am ganmol y dydd y bu farw ei noddwr.
- 22 **no gwŷr** Yr ergyd yma yw ‘nag arwyr / nag unrhyw wŷr eraill’. Ar y defnydd hwn o *gwŷr* cf. GLGC 233 (23–4) *ef a elwid yn filwr, / ef a wnâi gynt fwy na gwŷr*, a gw. GPC 1693–4.
- 23 **dwylw** Dadleua K. Lloyd Gruffydd, *art.cit.* 50, fod y cyfeiriad hwn at ddau lyw yn awgrymu mai o Fôr y Canoldir y deuai’r llong a ddarlunnir gan Rys. Ond nodir yn GPC 2287 mai eg. yn unig yw *llyw*. Ceir y ffurf *dwylw* ‘y ddwy blaid, y naill blaid a’r llall’ yn *ib.* 1110, ond y mae’r enghreifftiau a nodir yno yn awgrymu y dylai’r fannod ei rhagflaenu. Yr esboniad hawsaf yw *llyw* yn eb. i Rys Goch yma.
- 25 **main mawrwrthiog** Credid bod ynni iachaol mewn cerrig gwerth-

fawr, gw. GPC 2387 am enghreifftiau pellach a cf. 11.45 isod.

- 28 **Tyfod, marmor côr a'i cudd** Cyffredin yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr o'r 14g. ymlaen oedd manylu am y bedd yn cuddio'r noddwr: gw. GSRh 6.1–4n (Rhisierdyn); GLIG 12.89–104; a cheir trawiad cyffelyb yn GGMD iii, 5.48 *Lle bu borffor, côr a'i cudd* ('Marwnad Gwenhwyfar'). Ffurf amrywiol ar *tywod* yw *tyfod*, gw. GPC 3685–6. Y mae'n amlwg fod Maredudd wedi ei gladdu mewn cangell eglwys; cf. 3.74n.
- 31 **pruddloer** Ceir rhai enghreifftiau o ddefnyddio *lloer* yn ffigurol am arglwydd yn GPC 2198, ond y mae'n llawer mwy cyffredin am ferch. Gwell derbyn mai cyfeiriad llythrennol at y lleuad sydd yma. Gall *prudd* olygu 'doeth' yn y cyfnod hwn, ond diau mai 'difrifol, poenus' ydyw yma, cf. GIG 188. Ceir yma fynegiant o'r gred fod cysylltiad rhwng y planedau a ffawd dynion. Cf. IGE² 324 (llau. 7–8), defnydd Iolo Goch o'r gair *caledloer* yn GIG 70 (XV.62), a chofier hefyd am y gair *lloerig*.
- 31–2 Cymerir *ffelaig Môn* yn oddr. *na bai*, ond gall hefyd sefyll mewn cyfosodiad i'r f. a gellid rhoi coma ar ddiwedd ll. 31, cf. IGE² 305 (ll. 6).
- 34 **a'r sydd** Cywasgiad o *o ar sydd*, lle y mae'r *ar* yn rh. dangosol, gw. GMW 70–1; GPC² 406 d.g. *a²*. Yr ystyr yma yw 'o'r rheini sy'n fyw'.
- 37–42 Y mae llif y frawddeg dros y llau. hyn yn gymhleth, ond cynigir yr aralleiriad a ganlyn: 'Os yw nifer yn fawr eu clod (cân wych glir) i'w gŵr gorau [h.y. y gŵr gorau yn eu tyb hwy], bydded iddynt ddangos llaw (a phrawf parod) a fyddai'n haelach ynglŷn â rhodd helaeth (lluniaeth arglwydd, gwaith llawen Nudd) na llaw Maredudd (llai [fyddai] brwydr [y fath ŵr])'. Ar y defnydd o *oedd* mewn Cym.C. lle y defnyddid *byddai* heddiw, gw. GMW 110–11. Y mae'r dehongliad hwn yn dibynnu ar gymryd mai *haelach* ... *no llaw F'redudd* yw'r gystrawen. Posibilrwydd arall yw dod â'r brif frawddeg i ben ar ddiwedd ll. 40 ac atalnodi ll. 42 fel a ganlyn: *Llai ei frwydr no llaw F'redudd*.
- 37 **talm** Am yr ystyr 'nifer, llawer, lliaws, torf', gw. GPC 3432. Yr ystyr yma yw 'nifer (o bobl)', cf. GDG³ 358 (135.16) *Talm mawr megis teulu moch*; GDID 12 (5.5) *Mae talm mewn tranc am Siancyn* (Deio ab Ieuan Du).
- 41 **Nudd** Sef Nudd Hael ap Senyllt, un o'r Tri Hael y cyfeirir atynt yn gyffredin gan y beirdd fel safon haelioni; gw. TYP³ 5–6, 464–6. Fe'i crybwyllir eto yn ll. 44.
- 48 **oedd garu** Prin yw'r dystiolaeth o blaid darlleniad IGE² 305 (ll. 22), sef *o'i garu*. Ar dreigladd y goddr. ar ôl *oedd*, gw. Treigladau 305–6.
- 49 **rhyddrith** Nis ceir yn GPC 3131. Amwys braidd yw'r cyfuniad gan

nad yw'n glir pa ystyr yn union sydd i *rhith*, gw. GPC 3080 ('ffurf', 'llun', 'cuddwisg').

- 51 **Tomas** Mab Maredudd. Etifeddasai diroedd ei dad erbyn 1428, gw. y nodyn cefndir. Ni chadwyd unrhyw gerddi iddo, ond yr oedd ei fab Maredudd yn noddwr hael i'r beirdd, gw. *Y Canu Mawl i Deulu Porthamal*, gol. Dafydd Wyn Wiliam (Llangefni, 1993), 11–20. Credir i Domas farw c. 1460, gw. *ib.* 61.

gloywlas ei gledd Sylwer bod nifer o'r llsgrau. da o blaid hepgor *ei*. Os felly, rhaid cymryd bod *gloywlas* yn deirsill.

- 53–4 **nai ... / ... Marcus** Ni ddylid cysylltu'r Marcus hwn â Brutus fel y gwneir yn IGE² 389. At yr Efengyllydd Marc y cyfeirir yma, ac y mae'r cyfeiriad ato yn gyfuniad o'r parch naturiol ato fel apostol a'r ffaith mai ei arwydd yw y llew. Gw. ymhellach GLM 432. Ergyd *nai* yma yw 'un tebyg i'.

- 61 **Sudas** Cymreigiad o'r S. *Judas* (ond sylwer ar ddarlleniad gwahanol H). Yr ergyd, y mae'n debyg, yw bod adwyth neu anffawd wedi dod i'r llong heb fod angen i Sudas ymyrryd.

- 63 **delffu Dolffin** Sef 'mwydro' neu 'siomi'r Dolffin'. *Dolffin* oedd y teitl a roddwyd i etifedd brenin Ffrainc, gw. GPC 1074, ac yn y cyfnod hwn cyfeiriai at Siarl, mab Siarl VI (*ob.* 1422), a gwrthwynebydd Harri VI am goron Ffrainc; arno gw. M.G.A. Vale, *Charles VII* (London, 1974). Y mae'r cyfeiriad yn addas iawn fel disgrifiad o daith ofer llong win o'r Cyfandir, a chan mai delwedd forwrol a geir yma, dichon fod yma chwarae ar ystyr arall y gair *dolffin* hefyd. Cf. GSRh 6.78 *Hawdd y glud delffawdd gwladodd Ddolffin* (Rhisieryd) a GGMD iii, 1.1n.

- 66 **gwinau** Lliw rhuddgoch yw *gwinau*; dichon ei fod yn tarddu'n wreiddiol o'r e. *gwin*, gw. GPC 1662. Amlwg fod yma chwarae ar eiriau.

- 69 **gwin dug** Disgwylir fel rheol i gytsain gyntaf y f. dreiglo'n feddal pan fo'n dilyn y gwrth., ond ceir enghreifftiau mewn testunau cynnar o gadw'r gysefin, gw. Treigladau 368. Posibilrwydd arall yw mai *dug* 'duke' sydd yma.

gwenedigion Cf. IGE² 306 (ll. 10) *Gwin, dug in feirdd, gwyn, digon*, darllenriad cloff braidd a thrwsgl o ran aceniad. Nis ceir (neu amrywiadau arno) ond yn ABDEH, llsgrau. nad ydynt ar y cyfan yn cadw darlenniadau anodd. Gwell yw dilyn CFI–M a darllen *gwenedigion*. Ni cheir hwnnw yn G 659 na GPC 1635, ond cymerir ei fod yn ffurf l. a. o'r f. *gwenaf*. Gallai olygu 'yn gwenu' neu 'hapus', cf. *crwydredig* 'yn crwydro'. Posibilrwydd arall, o dderbyn diffiniad D o *gwenu*, sef 'arridere' h.y. 'gwenu ar; plesio, bodloni', yw mai 'bodlonedig' yw'r

ystyr. Os felly, byddai'n cyfeirio at y cyfnod cyn marwolaeth Maredudd. Gellid hefyd ystyried y posibilrwydd fod yma ffurf l. ar yr a. *gwynedig* 'wedi ei wyngalchu; pur, glân', er na cheir enghraifft ohono tan 1567, gw. GPC 1773. Ar ben hynny, y mae'n bosibl mai ffurf sy'n seiliedig ar *gwŷn* 'poen, gofid' sydd yma, gw. GPC 1770, neu ffurf sy'n seiliedig ar y f. *gwanu* (er y disgwylid affeithiad). (Hoffwn ddiolch i Dr A. Cynfael Lake a'r Athro Peredur Lynch am yr awgrym hwn.)

2

Un o nodweddion amlycaf canu mawl y bymthegfed ganrif yw'r cerddi niferus a ganwyd i gartrefi noddwyr, ac y mae'r gerdd hon yn enghraifft gynnar o'r dosbarth hwn o ganu.¹ Prin yw'r tai yng Nghymru sy'n dyddio o'r cyfnod cyn gwrthryfel Glyndŵr, ond y mae'n amlwg fod neuadd y Penrhyn yn un ohonynt. Er mai yn 1413 y ceir y cyfeiriad hysbys cynharaf at y Penrhyn, y mae seler a rhannau eraill o dŷ sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg i'w gweld o hyd yng nghornel dde-orllewinol y castell presennol.² Y mae'r rhan fwyaf o'r hen adeilad wedi diflannu bellach, ond ceir darlun gan Moses Griffith sy'n dyddio o tua 1790 sy'n dangos nifer o nodweddion a berthyn i adeilad o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn eu plith y mae ffenestri sy'n bur debyg i ffenestri a geir yng nghastell Caernarfon.³ Dyma un rheswm amlwg, felly, paham y ceir yma gymhariaeth estynedig rhwng neuadd y Penrhyn a chastell Caernarfon. Yng ngeiriau Douglas B. Hague, '[a]lthough a number of poets in describing the house make derogatory comments on Caernarvon Castle, their reasons in doing so may be more than simple patriotism; the actual resemblance of features such as the windows must have impressed their minds'.⁴

Perchennog neuadd y Penrhyn oedd Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym. Er bod y neuadd yn gynharach na chyfnod Gwilym ei hun, y mae'n bur debyg ei fod ef wedi ei hadnewyddu yn helaeth ac efallai mai dyna yw ergyd y cyfeiriad at *neuaddlys newyddlawr* (ll. 24). Ceir nodyn diddorol i'r perwyl hwnnw mewn dogfen a luniwyd yn 1431 sy'n ymwneud â thiroedd Gwilym a neuadd y Penrhyn. Y mae'n debyg fod y nodyn yn llaw Wiliam Fychan, mab Gwilym a gwrthrych cerdd 4, ac y mae'n cyfeirio at gyfraniad ei dad at godi'r neuadd enwog:

¹ Ceir testun o'r gerdd yn IGE² 310–13 (cerdd CIII). Ar y canu i dai'r uchelwyr, gw. D.J. Bowen, 'Beirdd a noddwyr y bymthegfed ganrif (Rhan II)', LICy xviii (1994–5), 221–57; *id.* 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, v (1999), 71–88. Ceir trafodaeth ar y gerdd hon yn A.T.E. Matonis, 'Some rhetorical topics in the early Cywyddwyr', B xxviii (1978–80), 64–72.

² Ar hanes adeilad y Penrhyn ar hyd y canrifoedd, gw. RCAHM (Caernarvonshire) iii, 123–6.

³ Gw. *ib.* (plât 62), a 124.

⁴ Douglas B. Hague, 'Penrhyn Castle', TCHSG xx (1959), 31–2; cf. hefyd y disgrifiad o'r gaer yng Nghaernarfon yn BMW 2.

have in mynde that Ieuan ap Gruff' ap Mortyn tolde to me William Gruffith that the manor of the Penryn that my Fader has bylde stondes vpon the lande of Mad' ap Gron' Vichan Fader to my graunt dame Generes vch Mad' ap Gron' Vichan.⁵

Yr oedd Gwilym yn un o uchelwyr pwysicaf gogledd Cymru yn negawd-au cyntaf y bymthegfed ganrif.⁶ Deuai ei deulu o sir y Fflint yn wreiddiol, ond trwy briodasau daeth tiroedd helaeth yn siroedd Môn a Chaernarfon i'w feddiant. Daliai Gwilym rai swyddi lleol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, a'r bwysicaf ohonynt oedd siryfiaeth Môn yn y cyfnod 1396–7. Fel Maredudd ap Cynwrig, ymunodd Gwilym â gwrthryfel Owain Glyndŵr, ond gan iddo ildio i'r awdurdodau yn bur gynnar llwyddodd i adennill ei safle yn y gymdeithas. Yn wir, llwyddodd i'w wella drwy gael gafael ar diroedd fforfed cymaint â saith ar hugain o wrthryfelwyr, gan gynnwys tiroedd teulu ei wraig gyntaf, sef Tuduriaid Penmynydd. Buasai Morfudd ferch Goronwy ap Tudur farw yn gynnar yn y ganrif newydd, ac ailbriododd Gwilym tua 1413 â Sioned (neu Joan) Stanley, ferch Syr William Stanley o Hooton, swydd Gaer. Dietifeddwyd Tudur, mab Gwilym a Morfudd, i raddau helaeth, a mab Gwilym a Sioned, sef Wiliam (neu Wilym) Fychan a etifeddodd y rhan helaethaf o stad ei dad. Dengys gyrfu wleidyddol Gwilym ap Gruffudd, yn ogystal â'r modd yr ymdriniodd â'i deulu ei hun, ei fod yn gymeriad unplyg a chadarn, a hawdd credu na fyddai'n boblogaidd gan bawb yng ngogledd Cymru. Ond rhoes fod i un o deuluoedd mwyaf llwyddiannus y gogledd, teulu a fyddai'n gynheiliaid y traddodiad nawdd am genedlaethau i ddod.⁷

Y mae'r gerdd hon yn dyst i gyfuniad diddorol o agweddau. Y mae'r portread o'r Penrhyn yn gwbl ffafriol, fel y gellid disgwyl ac nid yw'r darlun o'r castell yn un cwbl negyddol. Wrth ei ddisgrifio ceir cyfuniad o edmygedd, cenfigen ac ofn, a hynny sy'n peri bod y gerdd hon mor gofiadwy.

- 1 **Tŵr dan faner yr eryr** Daethai'r eryr i fod yn arwyddlun Caernarfon yn fuan wedi'r goresgyniad Edwardaidd, ond ni wyddys ei lawn arwyddocâd, gw. C.R. Peers, 'Carnarvon Castle', THSC, 1915–16, 41. Ymddengys mai cyfeiriad at Dŵr yr Eryr a geir yma, sef y tŵr mwyaf o ran maint ac enwogrwydd o dyrau castell Caernarfon, gw. llau. 21–2n. Fe'i codwyd yn wreiddiol, y mae'n debyg, ar gyfer y Gwasgwyniad Syr Otto de Grandson, ustus cyntaf gogledd Cymru, gw. Arnold Taylor, *Caernarfon Castle and Town Walls* (second ed.,

⁵ Gw. A.D. Carr, 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', Cylchg HC xv (1990–1), 5n20.

⁶ Y mae'r paragraff hwn wedi ei seilio ar A.D. Carr, *art.cit.* 1–20.

⁷ Ar y canu i Wilym a'i fab Wiliam Fychan, gw. D.J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, viii (2002), 60–7.

Cardiff, 1997), 30. Ond sylwer mai *Tour de Baner*, neu ffurfiau cyfatebol, oedd yr enw ar Dŵr y Frenhines yn y 14g., gw. C.R. Peers, *art.cit.* 15, 21.

- 2 **tros laif a saif** Math o waywffon, picell neu gledlyf oedd *glaiif*, benthyciad o'r S.C. neu'r H.Ffr. *glaive*, gw. GPC 1399. Ond o ddarllen *tros laif y saif* gellid deall *glaiif* yn gyfeiriad ffigurol at yr afon a redai heibio i waelod muriau'r castell, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 125: 'its S. edge was washed by the Seiont until the present quay was built early in the 19th century', a cf. *Cleddau* fel enw afon. Os felly, y castell ei hun fyddai'n sefyll 'hyd y sêr', ystyr dderbyniol. Ond er bod tuedd yn aml gan gopiŵyr i gymysgu rhwng y gn. *a ac y*, y mae'r llsgrau. o blaid *a* yn yr achos hwn.

sŷr Hen ffurf l. *seren*, gw. GMW 31. Y ffurf ddiweddar a geir mewn cywydd gan Guto'r Glyn i Wiliam Fychan, mab Gwilym, GGI² 52 (XIX.10) *a saif uwch no sêr*.

- 3-4 **trosedd Caer ... / Sallog** Gall *trosedd* fod ag ystyr gadarnhaol neu neg., gw. DGG² 226 a GPC 3617 lle y nodir yr enghraifft hon dan yr ystyr 'rhinwedd, rhagoriaeth'. Tebyg nad Salisbury yn Lloegr, fel yr awgrymir yn IGE² 391, yw Caersallog, ond yn hytrach un o'r enwau ar Gaernarfon, gw. GST ii, 216. Dyfynnir yno nodyn gan John Jones Gellilyfdy allan o Pen 215, 188: *k. Salloch. kaer Evdaf. kaer yn Arfon. Evdaf ai gwnaeth*. Cf. hefyd gofnod John Leland: 'Cair Sallog alias Cair saint', gw. *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536-1539*, ed. Lucy Toulmin Smith (London, 1906), 79. Diau hefyd mai at Gaernarfon y cyfeirir pan enwir Caersallog yn GLM 254 (LXXI.59); TA 174 (XLI.26); GMBr 6.6. Ond y mae'n anodd anwybyddu'r ffaith mai *Caersallog* oedd y ffurf Gym. ar Salisbury; fe'i defnyddid hefyd i gyfeirio at Gôr y Cewri gerllaw, gw. GGI² 357. Yng ngoleuni hynny, y mae amwysedd cyfoethog yn y geiriau. Gellid eu deall yn gyfeiriad at 'rinwedd' neu 'ragoriaeth' Caernarfon (sef y castell), neu at 'drosedd' neu 'greulondeb' Caersallog, sef Brad y Cyllyll Hirion, pan laddwyd penaethiaid y Brythoniaid yng Nghôr y Cewri wedi iddynt dderbyn gwahoddiad i fynychu gwledd yno er mwyn heddychu gyda'r Saeson, gw. CLC² 58-9. Cytunwyd i beidio â mynd ag arfau i'r wledd, ond twyllwyd y Brythoniaid a'u lladd i gyd, cf. GGI² 150 (LVI.5) *Os brad yn Salsbri ydoedd* a GSH 7.31n. Y mae'r amwysedd rhwng edmygedd o'r castell a chasineb tuag ato yn nodweddiadol o'r cywydd hwn.

- 3 **myn y trisaint** Am ddefnyddio ffurf l. gyda'r rhifolyn, gw. GMW 47, a cf. GLM 24 (VII.13) *Y Trisaint wyn troesant wyl*, sy'n cyfeirio at Lantrisant yng nghwmwd Llifon ym Môn. Yr oedd gan Wilym ap Gruffudd yntau gysylltiadau â'r ardal, gw. A.D. Carr, 'Gwilym ap

Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', *Cylchg HC xv* (1990–1), 12–15. Felly ai at y tri sant Sannan, Afan ac Ieuan (GLM 386) y cyfeirir yma?

4 **saint** Y mae'n bosibl mai cyfeiriad at Afon Saint sydd yma, cf. ll. 2n. Byddai hynny'n osgoi odli'r e.c. *saint* ('gwŷr duwiol') ddwywaith, er nad oedd gwaharddiad ar y beirdd rhag llunio odlau o'r fath. Gallai'r *saint* yma gyfeirio at seintiau sy'n gysylltiedig â Chaernarfon, megis Peblig a Chustennin. Posibilrwydd arall, yn wyneb y cyfeiriad posibl at ddinas Salisbury, yw mai cyfeirio a wneir at y penaethiaid Brythonaidd a laddwyd yno, gan synio amdanynt fel merthyron Cristnogol a laddwyd gan baganiaid.

5 **twrnement** Ceir nifer o amrywiadau ar yr e. hwn yn y llawysgrifau (gw. yr amrywiadau), a cf. EEW 90, 105, 162 a GPC 3662 am wahanol ffurfiau ar y benthyciad hwn.

ymwrdd Yr un gair a ddefnyddir gan Iolo Goch wrth ddisgrifio Syr Rhosier Mortimer yn ymladd mewn twrnement, gw. GIG 84 (XX.32).

6 **cwncwerwr** Yn y 14g. a'r 15g. synnid am Edward I fel 'Edward y cwncwerwr' ar gyfrif ei fuddugoliaethau yng Nghymru, gw. R.R. Davies: ROG 207 a cf. ll. 8n.

8 **traul Edwart** Sef 'ar gost Edwart', gw. IGE² 391, sef cyfeiriad at Edward I, y mae'n siŵr. Dechreuwyd adeiladu'r castell yn fuan wedi cwmp terfynol Gwynedd yn 1283, ond y mae'n debygol i'r gwaith barhau tan oddeutu 1330, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 125 a 128; A.J. Taylor, *Caernarfon Castle and Town Walls* (Cardiff, 2001), 9–17. Bu'n rhaid, felly, i Edward II ac Edward III gyfrannu'n sylweddol at yr adeiladu. Gosodwyd cerflun o Edward II ar Borth y Brenin yn 1320/1 sydd i'w weld o hyd, gw. *ib.* 141 a C.R. Peers, *art.cit.* 33 a'r plât yn wynebu td. 33. Cf. GSDT 16.17–18 *P'le mae Edward, plwm ydych, / Y gŵr a wnâi'r gaer yn wych?*

llewpart llwyd Cf. GIG 2 (I.4) *Edwart Trydydd llewpart llwyd*. Yr oedd y llewpart yn un o arwyddion teulu brenhinol Lloegr, ac fe'i defnyddid yn aml fel arwydd gan fyddinoedd Edward I, gw. Caroline Shenton, 'Edward III and the symbol of the leopard', yn *Heraldry, Pageantry and Social Display in Medieval England*, ed. Peter Coss and Maurice Keen (Woodbridge, 2002), 70.

9 **sarn** Ar yr ystyr 'llwybr neu ffordd ddyrchafedig', gw. GPC 3181. Yma, ymddengys ei fod yn cyfeirio at y rhodfeydd sy'n rhedeg ar hyd muriau'r castell.

rhwymgalch A. 'wedi ei rwymo â chalch' a all gyfeirio'n ffigurol at y meini golau a ddefnyddid ynghyd â meini tywyllach i adeiladu mur allanol y castell ac sydd felly yn ei 'rwymo'. Ond y mae'n fwy

tebygol mai cyfeiriad sydd yma at y ffaith mai calch oedd un o brif elfennau'r cymrwd neu fortar a ddefnyddid i rwymo'r meini ynghyd.

ysgythraig Fe'i deellir yn ffurf ar *ysgythrwraig*, sef bôn y f. *ysgythru* 'crafu' + *gwraig*, cyfeiriad at y ddraig a all grafu creigiau â'i dannedd a'i hewinedd. Darlleniad arall posibl fyddai *ysgithrwraig*, sef cyfuniad o *ysgithr* 'dant hir, *tusk*' a *gwraig*. Digon tebyg yw ergyd y ddwy ffurf. Eto, y mae dehongliad IGE² 391, sef 'ysgithr-ddraig', yn bosibl. Y mae'n llai tebygol mai *aig* 'mintai, torf', gw. GPC 69, yw'r ail elfen.

bylchgraig Fe'i deellir yn a. 'â chraig fylchog'. Ar *bwllch* 'un o'r gyfres agoriadau amddiffynnol ar frig mur caer neu gastell, tŵr, twred', gw. GPC 353.

- 11 **gwedy gwin** Awgrym mai ar ddiwedd y wledd y byddid yn mynd ati i ganu cywyddau, cf. GGI² 87 (XXXII.13–14) *A fu gywir gwedi'r gwin, / Guto lwys, gwawd Taliesin?*
- 12 **dâr Brynaich** Sef 'derw o Loegr', gw. IGE² 391. Hen deyrnas yn yr hyn sydd heddiw yn ogledd-ddwyrain Lloegr a de'r Alban oedd Brynaich, a ddaeth yn ddiweddarach yn rhan o Northumbria. Ystryid ei thrigolion yn elynion traddodiadol i'r Cymry, gw. G 80 am enghreifftiau pellach. Gellid deall *dâr Brynaich* gyda *gwin* yn gyfeiriad at y casgenni derw y cludid y gwin ynddynt, neu gellid ei gymryd yn gyfeiriad at wneuthuriad y tŷ ei hun. Ystryid bod derw Seisnig yn well ei safon na derw Cymreig, cf. GLM 266 (LXXIV.19–20) *neuadd braff newydd ei brig: / a drws Osnai, derw Seisnig*. Sylwer hefyd fod pren o Loegr wedi ei ddefnyddio yng ngwneuthuriad castell Caernarfon, gw. C.R. Peers, *art.cit.* 21, ac yn bwysicach, mewnforiwyd coed o fforestydd Delamere a Shotwick ar gyfer adnewyddu rhannau o'r castell yn nawdegau'r 14g., union gyfnod Rhys Goch, gw. R.R. Davies: ROG 10. Posibiliadau llai tebygol yw mai 'blaenor mewn brwydr, &c.' yw *dâr* yma (gw. GPC 890) a bod hyn yn cyfeirio at oruchafiaeth Gwilym dros y Saeson, neu mai *da'r Brynaich* yw'r darlleniad, a'i fod i'w gydio wrth *gwin* ll. 11.
- 15 **gyferbyn â Môn** Saif y Penrhyn nid nepell o lan y Fenai; cf. ll. 79.
- 18 **unlliw ag alarch** Cyfeiriad at yr arfer cyffredin o wyngalchu llysoedd y cyfnod hwn, gw. Iorwerth C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 29; cf. GSRh 1.29n.
- 20 **campau** Gall y gair hwn gynrychioli un o ddau e. sy'n deillio yn y pen draw o'r Llad. *campus* 'maes brwydr'. Daw'r cyntaf yn uniongyrchol o'r Llad. ac iddo'r ystyr 'rhinwedd, ansawdd', gw. GPC 404 d.g. *camp*¹. Daw'r llall trwy'r S. *camp* yn yr ystyr 'mur, rhagfur', gw. *ib.* d.g. *camp*², lle y ceir enghraifft o'r 15g. Yr ystyr gyntaf yw'r fwyaf tebygol.

- 21 **ni thyr ei gred** Ystyr *cred* yma yw 'llw, addewid', gw. GPC 585. Ai cyfeiriad at eirwiredd Gwilym ap Gruffudd yw hwn, mewn gwrthgyferbyniad â dichell y Saeson yng Nghaersallog?
- graen** Sef 'aruthr, ofnadwy, hyll, erchyll', gw. GPC 1521 d.g. *graen*¹. Defnyddir y ffurf gan Iolo Goch i ddirgrifio castell Cricieth, gw. GIG 6 (II.10). Rhy ddiweddar ar gyfer y gerdd hon yw'r enghreifftiau a restrir d.g. *graen*², sef ffurf amrywiol ar *graeon* 'gro, cerrig mân' a *graen*³ 'cyflwr, gwedd'.
- 21–2 **Tŵr ... /... yr Eryr llwydfaen** Y tŵr mwyaf trawiadol o dyrau castell Caernarfon, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 132–3. Y mae'r cerflun o'r eryr a osodwyd yno yn 1317 i'w weld hyd heddiw, cf. ll. 1n a gw. *ib.* 125; C.R. Peers, *art.cit.* 41.
- 23 **pwyl** Gall ddigwydd mewn brawddegau enwol pur â'r ystyr 'pwyl yw?' neu 'beth yw?', gw. GMW 74–5 a cf. 9.25. Yma, felly, 'pwyl yw arglwydd ...?'.
y gaer fyny Disgrifiad ffigurol o'r Penrhyn fel caer farmor, cf. ll. 18n.
- 25–8 Y mae llif y frawddeg hon ychydig yn gymhleth: y brif frawddeg yw, *Gwilym... / ... / Piau ... / Tecáu ... tai Cymry* 'Gwilym sydd â'r pŵer i harddu tai Cymru'. (Cyfetyb y ffurf *Cymry* yma i'r ffurf ddiweddar *Cymru*, gw. GPC 770 d.g. *Cymro*.) Cymerir felly fod *Emrys* (ll. 28) yn sangiad, ac yn cael ei ddefnyddio fel *Lawnslod* (ll. 25) i nodi arwr chwedlonol y gellir cymharu Gwilym ag ef.
- 25 **Lawnslod** Arwr Arthuraidd, gw. TYP³ 406–8. Ni wyddai'r Gogynfeirdd amdano, ond ceir sawl cyfeiriad ato gan Gywyddwyr y 15g. ar sail ei ran yn 'Y Seint Greal'. Y mae'n debygol mai hwn yw'r cyfeiriad cynharaf. Ef hefyd oedd tad Galahad, gw. ll. 26n.
- 26 **Galath** Sef Galahad, arwr 'Y Seint Greal', gw. TYP³ 355 ac am gyfeiriadau pellach, G 610 d.g. *Gwalhaued* (er mai arwr brodol na ddylid ei gysylltu â Galahad yw'r olaf). Ceir sawl ffurf ar yr e., ond dengys hyd y ll. hon mai deusill ydyw yma, cf. GIG 300.
 Cynghanedd draws gytbwys acennog gydag un *l* yn ateb dwy, i.e. *gl l* = *gl*, gw. J. Morris-Jones: CD 221, neu dwyll gynghanedd.
bro'r ddraig fry Eryri, yn enwedig ardal Dinas Emrys, cf. ll. 28n.
- 28 **Emrys** Sef Emrys Wledig, y brenin a gysylltir â Dinas Emrys ac â'r chwedl am Fyrddin a'r ddwy ddraig, gw. TYP³ 347–8. Y mae'n debygol fod adlais o'r cysylltiadau hynny yn y cyfeiriad at y ddraig yn ll. 27n, fel y nodwyd yn IGE² 392. Ar le *Emrys* yng nghystrawen y frawddeg, gw. llau. 25–8n.
- 29–30 **Deler o hyder hedeg / Ar nawdd Duw i'r neuadd deg** Gellir dehongli hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, 'deler ar/drwy nawdd

Duw ([gyda] hyder ehedog]) i'r neuadd deg'. Fodd bynnag, ceid gynt ymadrodd o *hyder* (ar) ac iddo'r ystyr 'at the instigation of, encouraged or inspired by; by reliance on', gw. GPC 1951 d.g. *hyder*. Gellid aralleirio 'deler drwy anogaeth/ ysbrydoliaeth ehedog drwy nawdd Duw i'r neuadd deg'. Digon bychan yw'r gwahaniaeth mewn ystyr, ond atalnodwyd yma yn ôl yr ail ddehongliad. Cymerwyd mai ystyr a. sydd i *hedeg* yn y ddau achos.

- 31 **yr uchel welir** Sef, y mae'n debyg, 'y gwelir yn uchel'.
- 32 **nef ar dir** Cf. y gymhariaeth fentrus sy'n cloi'r gerdd hon a'r modd y geilw Guto'r Glyn *cares y nef* ar neuadd Moeliwrch, GGI² 110 (XLI.44).
- 34 **llwythog win** Sef 'yn llwythog o win', gw. GPC 2249 d.g. *llwythog* lle nodir yr enghraifft hon. Gwyddys bod Gwilym yn ymwneud â'r fasnach win leol, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 12, 13.
- lleithig wawl** Ar y *lleithig*, sef 'mainc, glwth, gorsedd, sedd', gw. GPC 2150. Hi oedd sedd y noddwr a'r sedd bwysicaf yn y neuadd. Y mae dwy ystyr bosibl i *gwawl*, sef 'goleuni, llewyrch, disgleirdeb, ysblander', neu 'wal, mur, clawdd' (fel isod ll. 113n), gw. GPC 1605. Y mae'r ddwy ystyr yn addas yma.
- 36 **parth** Ar *parth*, gw. GPC 2694–5. Yr ystyron sy'n gweddu orau yw 'llawr (yn enw. mewn cegin), aelwyd'.
- pob porth yn rhydd** O ddeall *porth* i olygu 'cynhaliaeth, nawdd' (gw. GPC 2854–5 d.g. *porth*¹) gellid 'pob cynhaliaeth yn ddirwysr'. Ar y llaw arall, o'i ddeall i olygu 'mynedfa' (gw. GPC 2855 d.g. *porth*²) gellid 'pob mynedfa yn ddirwysr'.
- 37 **anrheg** Yma 'saig, cwrs o fwyd', gw. GPC 153.
- 40 **gwarae dawns** Ar yr ymadrodd hwn, sy'n golygu 'dawnsio' yn syml, gw. GPC 1577 (enghraifft o'r 17g.); gw. hefyd *chwarae dawns*, *ib.* 842 d.g. *chwarae*, lle y daw'r unig enghraifft gynnar o D (d.g. *chorea*), ac *ib.* d.g. *chwaraeaf: chwarae*, lle y ceir enghraifft o waith Hywel Cilan (*fl.* 1435–70), sef GHC 23 (XIII.57). Ceir enghraifft o *chwarae dawns* gan Iolo Goch, gw. GIG 6 (II.16).
- 41 Cf. Bl B XIV *Heb wledd, heb gyfanheddrwydd* (Gruffudd Gryg).
- 42 **pob cyfryw gost** Darlleniad IGE² 311 (ll. 14) yw *Pob gyfryw gost*, darlleniad sydd ac iddo'r fantais o barhau'r patrwm *Pob g-* a gafwyd yn y pedair ll. flaenorol. Fel rheol, ni ddisgwyliid treigladd meddal yn dilyn *pob*, er y gellid dadlau bod hynny'n estyniad ar y duedd i *cyfryw* (er yn eg.) dreiglo'n feddal ar ôl y fannod pan fo e. genidol yn dilyn, hyd yn oed eg. neu e.ll. (gall *cost* fod yn eg. neu'n eb., gw. GPC 569). Ar hynny, gw. Treigladau 88, a cf. GIG 198. Fodd bynnag, tystiolaeth y llsgrau. yw mai *pob cyfryw gost* yw'r darlleniad cywir.

44 **hwyl** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 1938 d.g. *hwyl^l*, ac fe'i dehonglir yn 'amr. ar *gŵyl^l*; ond cf. *hwyl^l*, a'r f. *hwyliaf*: *hwyllo* "darparu, paratoi". Yr ystyron a gynigir yw 'gŵyl, gwledd, darpariaeth, arlwy', ystyron cwbl addas i'r enghraifft hon. Ond byddai nifer o ystyron *hwyl^l* hefyd yn gweddu, e.e. 'tymer, anian, natur', gw. GPC 1937.

48 **cwprdd** Dyma enghraifft gynharaf GPC 646 o'r gair hwn, benthyciad o ryw ffurf ar y S.C. *cupborde*. Ceir sawl enghraifft o'i gynganeddu â *capel*, gair benthyc arall, gw., e.e., GGI² 261 (C.14); GHS 5.65; TA 241.

capel Ar swyddogaeth capel mewn tŷ preifat, gw. Enid Roberts, 'Tŷ pren glân mewn top bryn glas', TCHSDd, xxii (1973), 37–9.

49 **mygau sens** Darlleniad IGE² 311 (ll. 21) yw *Mygu sens*, ond y mae'r llsgrau. oll o blaid *mygau sens*. Ffurf l. brin ar *mwg* yw *mygau*, gw. GPC 2507. Gall *mwg* gyfeirio at arogldarth fel y dengys y ffaith y gall *mygu* olygu 'llosgi (arogldarth)', gw. GPC 2529 d.g. *mygaf^l*. Daw *sens* o'r S.C *cens*, gw. GPC 3223–4.

50 **cwyr** Cyfeiriad at y canhwyllau a losgai ar allor y capel.

54 **tryblwin** Cyfuniad o *trwbl* (gair benthyc y ceir yr enghraifft gynharaf ohono gan Ruffudd Gryg, gw. GPC 3624) a *gwin*. Y mae'n debygol fod yma gyfeiriad at y bwrdd yn cael ei gynhyrfu neu ei *drabludd* gan helaethrwydd y gwin.

55 **armes Taliesin** Ceir yr un ymadrodd gan Lywelyn ab y Moel yn IGE² 167 (ll. 25) ond sylwer mai *hanes Taliesin* yw'r darlleniad yn GSCyf 15.53. Ar Daliesin, gw. CLC² 694–5. Gellir sawl ystyr i *armes*, gw. GPC 208 ac yn arbennig y drafodaeth yn Arm P² xlvi–xlix. Cyfieithir llau. 55–8 yn *ib.* xlix fel a ganlyn: '*The history (?) of Taliesin / with a pencerdd's praise from his lips / mentions, without deceptive claim / fervently, the snow-white house*'.

58 **y tŷ eiriawl** Cyfeiriad at liw disglair y llys, cf. ll. 18n.

59 **rhod** Cyfeiriad at y neuadd yma, y mae'n debyg, cf. ll. 83 *cylch lys*.

60 **treth** Ai 'taliad neu rodd oddi wrth noddwr i fardd' yw'r ystyr yma, gw. GPC 3588?

Traeth Helig Cyfeiriad at ardal a oresgynnwyd gan y môr mewn cyfnod cynnar. Helyg ap Glannog oedd brenin y deyrnas a elwid Tyno Helyg. Y mae'r traddodiadau cynharaf yn cysylltu'r lle hwn ag ardal helaeth yng ngogledd Bae Ceredigion, gw. Thomas Jones, 'Triawd Lladin ar y Gorlifiadau', B xii (1946–8), 79–83. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, lleolwyd yr hanes oddi ar arfordir gogleddol Gwynedd, o'r Gogarth hyd Fangor, ardal sy'n cynnwys y môr ger y Penrhyn. Y mae Mab Clochyddyn a Gronw Gyriog yn cysylltu Llan-faes (ym

Môn) â Thyno Helig; gw. GGrG 1.31n ac *ib.* 6.24, 68. Gw. ymhellach F. J. North, *Sunken Cities* (Cardiff, 1957), *passim*. Y mae cysylltiad rhwng yr hanesyn hwn â Gwyddno Garanir, noddwr Taliesin, gw. TYP³ 391–2.

- 62 **ffôl** Gall fod yn a. neu'n e. 'ffwll, ynfyty, croesan', gw. GPC 1300 d.g. *ffôl*¹. Byddai hynny'n cyd-fynd â'r *rhodol* ll. 61 (cf. GMB 11.48n; GLIL1 4.48n).
- 64 **ni thwng anudon** Sef 'ni thynga lw celwyddog / ni ddwg gamdystiol-aeth', ymadrodd cyfreithiol a geir yn aml gan y Cywyddwyr. Cf. GSRh 8.36 *Ni thyng anudon na thwyll* (Rhisierdyn); GGL1 10.28 *Yn awdl ni thwng anudon; ib.* 10.63–4 *Ni'm rhoes Duw nef, dangnef dôn, / Yn oed i dyngu anudon* (Gruffudd Llwyd).
- 65 **o bell byd** Gw. GPC 2724 am enghreifftiau pellach o'r cyfuniad *o bell (byd)*. Cynigir yn betrus, ymhlith ystyron eraill, 'by far', a hynny fyddai'n gweddu orau yma.
- 66 **lliaws winfyd** Sef 'gwinfyd i nifer mawr o bobl'. Y mae dadl gref dros dderbyn darlleniad AC¹DEFI, sef *lliaws wynfyd*. Ond efallai fod yma chwarae ar eiriau rhwng y ffurf gyfarwydd *gwynfyd* a'r ffurf anarferol, ond addas i'r cyd-destun, *gwinfyd*.
- 69 **y tŵr celffaint** Cyfeiriad, o bosibl, at ymddangosiad garw y tŵr.
cyn teirawr Ai cyfeiriad at gyflymdra adeiladu'r castell? Neu at gyflymed y torrid ysbryd carcharorion ynddo?
- 70 **ochrog** Gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 130 'the towers are all polygonal in plan'. Gw. hefyd D.J. Bowen, 'Tŵr Adam', LICy xvii (1992–3), 143.
murdeu Cf. ll. 75. Yr oedd y muriau hyd at un droedfedd ar bymtheg o drwch, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 131.
- 71 **dan ei llyn** Y llynyn a oedd 'i fesur neu i sicrhau bod pethau'n wastad neu'n unionsyth', gw. GPC 2185 a GIG 305.
- 72 **gwarchae dyn** Cf. C.R. Peers, *art.cit.* 22 'the use of the castle as a prison, which in later times became its most important function, probably existed from the first'. Fel y dengys C.R. Peers, cedwid carcharorion pwysig yn y castell yn hanner cyntaf y 15g. Cyfeirir at bedwar o garcharorion Ffrengig yn cael eu hanfon yno o Lundain yn 1417, ac yn 1422 anfonwyd ugain arall yno. Yr oedd yn y castell un tŵr a elwid ar un cyfnod yn *le Prisontour*, gw. *ib.* 20.
- 73–4 **i ostwng ... / ... gwarrau** Ceir *gostwng gwar* yn GPC 1515 ac iddo'r ystyr 'to lurke, stoop' (enghraifft o 1630), ond amlwg mai 'peri i warau ostwng' yw'r ystyr yma.
- 75 **mawrdy** Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. BC¹IJL *mordwy*

‘llifeiriant’ (o win neu nawdd, efallai), gw. GPC 2487.

- 76 **mab Gruffudd** Ar Ruffudd ap Gwilym ap Gruffudd, tad Gwilym, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 4–7. Bu farw c. 1405 pan oedd gyda lluoedd Glyndŵr.
- 77 **llawenydd** Digon cyffredin yw peidio â threiglo ar ôl yr orffwysfa. Gall hefyd fod yma enghraifft o galediad *-r l- > -r ll-*.
- 80 **yr Yri** Ar y ffurf hon ar *Eryri*, gw. td. 1.
- 81 **myn delw** Llw a dyngid ar y Ddelw Fyw neu ddelw y Grog.
- 82 **gwir Dduw** Ar yr ebychiad hwn, gw. P.W. Thomas: GG 222–3.
gwawr ddydd Gw. GPC 606 d.g. *gwawrddydd*, *gwawr ddydd* ‘toriad dydd, codiad haul’, ac am y treigladau meddal i’r ail elfen, gw. Treigladau 97–8.
- 83 **calch lasar** Ceir enghreifftiau o *calch llasar* yn GPC 391 yn yr ystyr ‘*blue-azure*, *blue enamel*’. Os dyna’r ystyr yma, y mae’n debyg mai cyfeirio at lesni’r wybren a wneir. Ond *calch lasar* yw’r darlleniad anhawsaf yma (er gwaethaf llsgrau. AD–G), gan mai eg. yw *calch*. Y mae union darddiad *llasar* yn dywyll, gw. GPC 2276, felly cymerir mai ffurf gysefin yw *lasar* yma. Y tebyg yw mai lliw gwyn a olygir, yn hytrach na glas.
- 85 **lleuad un ffrw** ‘Ag wyneb (*ffriw*) fel y lleuad’; cf. 3.82n *Y ddraig lewychgraig luwchgroen*, ac am y gystrawen, cf. ll. 95 isod *Llundain un ddysg*.
- 88 **llwyth rad clod** Deallir hyn i olygu ‘anrheg llwyth [o] glod’. Gellid hefyd ddarllen *llwyth rhad clod* neu *llwythrad clod*, neu ddilyn llsgr. L a darllen *llwythraid clod*.
- 89 **Llwyddid annerch i’w pherchen** Gellid aralleirio’r ll. fel a ganlyn: ‘Boed i gyfarchiad fendithio’i pherchennog’.
- 91 **gwareddog** Sef ‘trugarog, addfwyn, tirion’, gw. GPC 1583. Yn llsgr. L yn unig y ceir y darlleniad hwn. Gellid hefyd ddilyn gweddill y llsgrau. a darllen *gwardog* ‘gwardol, achubol; iachusol, llesol’, er na cheir enghraifft gynharach na’r 16g. yn GPC 1582. Rhoddai *gwardog* gynghanedd gryfach, ond nid yw ateb y *d* yn angenrheidiol, gw. J. Morris-Jones: CD 166–7.
- 92 **gwawr** Naill ai ‘goleuni sy’n cynyddu’ neu ‘arglwydd’, gw. GPC 1605. Y cyntaf sydd isod ll. 96.
 Cynghanedd groes ddisgynedig neu sain deirodl ddisgynedig.
- 93 **araf** Yma ‘mwyn, tirion’, gw. GPC 175.
- 94 **boreddydd** Sylwer bod y llsgrau. gorau o blaid y ffurf *boreuddydd*. Cf. GDG³ 386 (146.171) lle y profir y ffurf *borau* gan y gynghanedd.

- 95 **llen dan ddwyn** Cymerir mai'r ergyd yw 'yn dwyn to'. Ar yr ardd. *dan* gyda be., gw. GMW 209–10. Ond gall hefyd mai *llên* 'dysgeidiaeth' sydd yma, gw. GPC 2152, yn enwedig o ystyried ail hanner y ll.
- Llundain un ddysg** Sef 'o'r un ddysgeidiaeth â Llundain'. Ceir yr un gystrawen yn ll. 85.
- Ceir un *n* yn ateb dwy yn y ll. hon.
- 96 **cenllysg** Cf. GGI² 110 (XLI.46) *Caer genllysg carw o Gynllaith*.
- 99 **ewyngrys** Deallir hwn yn a. 'â gwisg o / fel ewyn'. Ceir *ewyn* yn aml yn ffigurol i ddynodi gwynder, gw. GPC 1265. Os felly, cyfeirir eto at y calch ar y muriau, cf. llau. 9, 18. Neu gall fod yn gyfeiriad llythrennol, cf. llau. 79 a 87. Am enghreifftiau pellach o *crys* wrth ddisgrifio tŷ, gw. GGI² 110 (XLI.32, 44). Cf. Peniarth 76, 128 *dwyfron wengron dan wyngrys* (Syr Huw Llwyd); DN 91 *A bron wengron dan wyngrys*.
- 102 **Sioned** Sioned Stanley, gwraig Gwilym ap Gruffudd. Dengys nodyn yn llaw Robert Vaughan i dir ei gŵr cyntaf, Robert Paris (cyn-gwnstabl castell Caernarfon), ddod i ddwylo Gwilym ap Gruffudd, gw. T.E. Parry, 'Llythyrâu Robert Vaughan Hengwrt (1592–1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau' (M.A. Cymru [Bangor], 1960), 74. Penodwyd John Stanley, aelod arall o'i theulu, yn gwnstabl Caernarfon yn 1427, gw. K. Williams-Jones, 'Carnarvon', yn *Boroughs of Mediaeval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 103.
- 106 **tyfid** Cf. IGE² 104 (ll. 8) *Tyfid sant a'i etifedd* (anh.).
- 109 **llys Duw** Gall fod yma enghraifft o'r un calediad ag a drafodir yn ll. 110n, ond nid ystyrid *Duw* yn ep. bob tro, felly ni raid treiglo ar ôl *llys*, gw. Treigladau 106. Ceir yr un cyfuniad yn 3.75n.
- 110 **llys daearawl** Disgwyliid treiglad meddal i'r a. ar ôl yr eb. *llys*, ond dichon fod yma galediad *-s dd-* > *-s d-*, gw. Treigladau 60–1.
- 111 **canllaw** Yn ffigurol am Wilym, ond hefyd yn addas yng nghydestun y disgrifiad pensaernïol o'i llys, gw. GPC 412.
- 113 **coel geinllun** Cymerir mai ffurf amrywiol ar *cofl* 'arffed, mynwes, cofleidiad' yw *coel* yma, gw. GPC 577, er nad cwbl amhosibl *coel* 'llw, cred, argoel, arwydd', gw. GPC 532 a cf. 1.3n.
- cynllaith** 'Tyner, mwynaid', gw. GPC 793 d.g. *cynllaith*¹ lle y rhestrir hon yn enghraifft gynharaf; sylwer bod y gair ar lafar o hyd yn Llŷn ac Eifionydd, ardal enedigol Rhys Goch. Ond awgrymodd Bleddyn Owen Huws y gall fod yma gyfeiriad at gwmwd Cynllaith lle yr oedd Sycharth, llys Owain Glyndŵr, gw. 'Y bardd a'i noddwr yn yr Oesoedd Canol Diweddar: Guto'r Glyn a Hywel ab Ieuan o Foeliwrch', yn *Cof Cenedl*, xvi, gol. Geraint Jenkins (Llandysul, 2001), 16–17. Cf. 7.75n.

Bu farw Gwilym ap Gruffudd yn gynnar yn 1431 a'i gladdu yn Llan-faes ym Môn (ll. 76).¹ Yr oedd ei wraig, Sioned Stanley, yn dal yn fyw, a'i mab hi, Wiliam Fychan (gwrthrych cerdd 4), a etifeddodd y rhan helaethaf o stad Gwilym. Ni chafodd y mab o'r briodas gyntaf â Morfudd, sef Tudur Fychan, yr etifeddiaeth y buasid wedi disgwyl iddo'i chael.² Y mae yn y farwnad hon sawl awgrym o anafodlonrwydd, ac ymddengys fod y bardd yn dal i gofio am deulu Morfudd yn hytrach na chanolbwyntio ar Sioned a'i theulu (e.e. ll. 21). Dyma ddehongliad D.J. Bowen, sy'n dadlau'n gryf fod Rhys Goch yn anafodlon â'r modd yr oedd ei noddwr wedi gweithredu:³ y mae rhannau o'r gerdd, megis llinell 36 o bosibl, yn ymddangos fel petaent yn llugoer ynglŷn â'r gwrthrych. Cofiw'n, er hynny, fod adran debyg i'w chael ym marwnad Maredudd ap Cynwrig (gw. 1.37–42). Gellid dadlau ei fod yntau wedi chwarae'r ffon ddwybig yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, ac wedi manteisio arno fel y gwnaeth Gwilym ap Gruffudd.⁴ Ond y mae'n bosibl fod cyfeiriadau at anafodlonrwydd eraill yn dopos a ddefnyddiai Rhys Goch i gannol noddwr ymhellach trwy awgrym'r genfigen a achosai.

- 1 **rhad elfydd** 'Bendith(iwr) y byd', gan gyfeirio at Dduw. Neu gall fod yn frawddeg enwol: 'diwerth yw'r byd'.

rho Duw 'Rhof (rhyngof) a Duw', llw cyffredin gan y Cywyddwyr, gw. GDG³ 599; GIG 249; GSCyf 10.1n; GMW 246; GPC 3109.

talfainc Sef 'prif sedd, sedd anrhydedd, gorsedd', gw. GPC 3430. Y mae'r bardd yn cyfarch y fainc wag yn uniongyrchol.

- 2 **ffriw mangnel Ffrainc** Cymerir bod y bardd yn gweld tebygrwydd rhwng y fainc a mangnel Ffrengig. O'r Ffr. y daw'r gair *mangnel* ei hun, efallai trwy'r S.C. *magnel*, *mang(o)nel*, gw. GPC 2319. Peiriant i daflu cerrig er mwyn goresgyn cestyll ydoedd. Gall fod Rhys yn gyfarwydd â'r peiriant hwn gan i ddau o'i feibion fod yn ymladd yn Ffrainc neu o ganlyniad i'r ffaith ddarfod i luoedd Ffrengig ymuno â lluoedd Glyndŵr i ymosod ar gestyll Cymru gyda pheiriannau rhyfel.
- 3 **lleithig lwyth** Ar *lleithiglwyth*, *lleithig lwyth* '?gorsedd lwythol', gw. GPC 2151 lle y nodir yr enghraifft hon a 14.75. Amlwg mai sedd sy'n dynodi awdurdod arbennig ydyw.

¹ Ceir testun o'r gerdd yn IGE² 314–17 (cerdd CIV). Ar farwolaeth Gwilym, gw. A.D. Carr, 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', Cylch HC xv (1990–1), 17.

² Ar hyn, gw. *ib.* 11.

³ D.J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, viii (2002), 64–7. Gw. hefyd sylwadau A.D. Carr, *art.cit.* 17–18.

⁴ Ymelwodd Gwilym yn sylweddol ar stadau fforffed rhai o'r gwrthryfelwyr, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 19.

tylwyth dwng Mewn achos llys canoloesol, byddid yn sicrhau llwon gan gynifer o bobl ag a oedd yn bosibl er mwyn cefnogi dadl. Tebyg mai at hynny y cyfeirir yma. Ar *twng* ‘y weithred o dyngu llw’, gw. GPC 3656 d.g. *twng*¹ lle y nodir yr enghraifft hon.

- 4 **eustus Gwynedd** Yr ustus oedd y swyddog oedd â chyfrifoldeb am weinyddu'r gyfraith yn nhywysogaeth gogledd Cymru. Yr oedd hon yn swydd bwysig, ac fe'i delid yn aml gan aelodau o'r bendefigaeth Seisnig. Yr ustus pan fu farw Gwilym oedd Humphrey, Dug Caerloyw (1391–1447). Yr oedd ef yn frawd i Harri V ac yn ewythr i Harri VI ac fe'i penodwyd yn ustus Gogledd Cymru yn 1427, gw. WWR² 23. Bu'n amddiffynnydd y deyrnas cyn coronni ei nai (1422–9), a thra oedd ei frawd hŷn, John, Dug Bedford, yn Ffrainc yn y cyfnod 1430–2 ef a oedd yn gyfrifol am gadw'r deyrnas ar ran yr Harri VI ifanc. Felly pan awgryma Rhys Goch fod yr ustus yn gweithredu'r hyn a ddymunai Gwilym (llau. 13–14), cyfeirio a wna at y gŵr a oedd yn llywodraethu'r deyrnas bron yn ddi-dor er deng mlynedd. Y ffurf *eustus* a geir gan amlaf yn y llsgrau. gorau. Ar yr amrywiol ffurfiau ar *ustus*, gw. GPC 3720.

a ostwng Ymddengys fod yr ustus yn plygu o flaen mainc Gwilym mewn tristwch wedi ei golli. Posibilrwydd arall yw mai'r *rhwyysg uchel* (ll. 2) sy'n gostwng.

- 10 **Gruffudd** Sef tad Gwilym, gw. A.D. Carr, ‘Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate’, Cylchg HC xv (1990–1), 5–6.
- 13 **efô** Sef Gwilym.
- 14 Nid atebir yr *m* yn *amnaid*.
- 16 **cwyn** Naill ai ‘achwyniad, datganiad o anghyfiawnder neu o gam’ (GPC 653 d.g. *cwyn*¹, neu ‘gwledd’ (GPC 654 d.g. *cwyn*³).

cyn rhwym pridd ac arch A oes yma awgrym fod y farwnad wedi ei chanu cyn claddedigaeth Gwilym? Ond gall mai cyfeirio yn ôl at adeg yn union wedi marwolaeth Gwilym a wna Rhys yma; cf. ll. 28n.

- 18 **teirsir** Sef Meirionnydd, Caernarfon a Môn a ffurfiai dywysogaeth gogledd Cymru ac a weinyddid o Gaernarfon dan ofal yr ustus a'r siambrlen. Daliai Gwilym diroedd sylweddol ym Môn a sir Gaernarfon, a lledai ei ddylanwad swyddogol trwy Feirionnydd yn ogystal.
- 19 **gorfu gaerfwrdd** Nid yw ergyd y sangiad yn gwbl glir. Deallir *caerfwrdd* yn wrthrych; gall mai darn arall o ddodrefn diddefnydd llys Gwilym ydyw. Neu gallai gyfeirio at adeilad megis castell Caernarfon (drwy rangymeriad). Yr ystyron sy'n gweddu orau i *gorfod* (y ffurf 3 un.grff.myn. yw *gorfu*) yw ‘cael (drwy ymdrech, &c.), enmill’ neu ‘cael y gorau ar, meistrol’. Cyfeirir yma unwaith eto at awdurdod pellgyrhaeddol Gwilym.

- 20 **taid o gyfraith** Ni cheir enghraifft arall o'r ymadrodd *o gyfraith* mewn cyd-destun addas yn GPC 1694, ond ceir *brawd o gyfraith* yn GLL 14.21. Priododd Gwilym ddwywaith, ac er bod ei ail wraig, Sioned, aelod o deulu pwerus Stanley, yn fyw pan ganwyd y farwnad hon, go brin mai at ei theulu hi y cyfeirir yma. Y mae'n fwy tebygol mai cyfeiriad sydd yma at Oronwy ap Tudur, taid Morfudd, ei wraig gyntaf.
- 23–4 Cf. LlyB 120 (XXIV.23–4) *Er pan aeth y penaethiaid / i'r llawr oll, felly o'u rhaid* (Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan). Tebyg mai cyfeirio at y chwalfa a fu ymysg teulu Penmynydd o ganlyniad i'w hymrwymiad i achos Glyndŵr a wna Rhys yn y llinellau hyn. Ond nid amhosibl fod yma hefyd gyfeiriad at hen dywysogion Cymru; dyna ergyd llinellau Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan.
- 23 **aeth o'r** Defnyddid *o* i ddynodi 'goddrych' be., gw. GMW 161, ond nid oes galw amdano i ddynodi goddr. bf. Efallai y dylid darllen *y* yn hytrach nag *o'r*; gall mai ymgais i osgoi *r* wreiddgoll sydd i gyfrif am y darlleniad hwn. Gellid dilyn llsgrau. CNQ a darllen *penaethu'r*, ond ni cheir ystyr foddhaol o hynny, ac nid yw'r f. *penaethu* yn bodoli, hyd y gwyddys.
- 28 **pen** Y mae'r treigladd yn awgrymu bod *pen* yn a. yma, er mai graddau cymharu'r a. *pen* a nodir yn unig yn GPC 2727. Un llsgr. yn unig a rydd *pen gwawr*. Posibilrwydd arall fyddai atalnodi'r ll. fel a ganlyn: *A'i phen, wawr mawr, yn y mur, er mor drwsgl fyddai'r aceniad.*
yn y mur Cyfeiriad, o bosibl, at fan claddu Gwilym yn Llan-faes, Môn, ond cf. ll. 16n.
- 31 **pellaig ball** Ni cheir *pellaig* yn GPC 2724 ac ni roir ychwaith ystyr iddo ym mynegai IGE² 420. Fe'i deallir yn gyfuniad o *pell* (GPC 2723) ac *aig* 'mintai, torf' (GPC 69) a'r ymadrodd yn golygu 'diffyg' neu 'eisiau torf sy'n ymestyn dros bellter mawr'. Yr ergyd yw bod nifer mawr o bobl yn hiraethu ar ôl Gwilym.
- 33–4 **plethu ... / Gwawd** Gall fod yn gyfeiriad syml at 'lunio mawl'. Ond y mae'n bosibl fod ystyr benodol gerddorol i *plethu*, cf. GDG³ 81 (28.6), 375 (142.6).
- 33 **hir** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at daldra'r plant.
- 35 **hwrdd** Yr ystyr sy'n gweddu orau yw 'pwl (o salwch, tymer, chwerthin, wylo, &c.)', gw. GPC 1933 d.g. *hwrdd*¹.
- 36 **wrth fesur ei droed** Ymddengys yn ymadrodd o fyd y crydd am rywbeth wedi ei fesur yn ofalus i fod yn addas i'w bwrpas, heb fod yn rhy fawr nac yn rhy fach. Cf. y dywediad *llunio'r (g)wadn fel y bo'r troed*, gw. GPC 2225 a WVBD 169. Gall fod yn ganmoliaethus, gan mai'r cyfoethog oedd yr unig rai yr oedd eu hesgidiau yn cael eu

mesur yn ofalus, neu gall awgrymu nad yw'r bardd am ganmol Gwilym lle nad yw'n haeddu. Cf. 6.26n.

- 39 **rhyddoniaeth** Nis ceir yn GPC 3131. Fe'i deellir yn gyfuniad o'r gn. cryfhaol *rhy-* a'r eb. *doniaeth* 'cynysgaeddiad, rhodd, rhad, gras', gw. GPC 1076. O'r 16g. y daw'r enghraifft gynharaf o'r ffurf honno.
- 40 **Na gwaladr a wnâi** Ll. anodd. Ai'r ergyd yw na all neb wneud (neu gymryd lle) Gwilym? Cf. ll. 99n, ond sylwer bod y treiglo'n wahanol yno. Awgrym IGE² 392 yw dilyn awgrym rhai o'r llsgrau. a diwygio yn *Gwaladr angel fab Gwilym* neu *Na gwaladr hafal Gwilym*, er nad yw ystyr hynny yn gwbl glir. Dewis arall fyddai *Na gwaladr (a) wnâi fel Gwilym*.
- 42 **neur garai** Ni cheir y darlenniad hwn yn y llsgrau., ond y mae'r gn. cadarnhaol *neu(d)* (gw. GMW 169–70) yn aml yn cael ei gamddechongli gan y copiŵyr, ac y mae ei adfer yma yn rhoi cyfri am y darlenniadau amrywiol, sy'n pendilio rhwng ffurfiau cadarnhaol a neg. a ffurfiau gyda *neu* (canlyniad efallai i gymysgu *neu* a *ni*). Treiglir yn llaes wedi *neu*, ond yn feddal wedi *neur* (cf. ll. 98n), sef y ffurf arferol yn y cyfnod hwn.
- 43 **blodeuoed** Cyfuniad o *blodau* 'y pennaf, y rhagoraf, pigion, goreuon, dewision' ac *oed*. Ai dweud y mae'r bardd fod plaid neu gefnogwyr Gwilym ym mlodau eu dyddiau?
- 45 **tyngwn** Ar y treiglad meddal yma, gw. Treigladau 450: 'Pan roir berf fel *tebygaf* neu *credaf* ar ganol gosodiad i gyfleu barn neu mai argraff ar feddwl yw'r gosodiad, mewn cromfachau fel petai, rhoir ffurf dreigledig i'r ferf honno'. Er na ddigwydd yr enghraifft hon ar ddechrau brawddeg, y mae'n debyg mai tebyg yw'r rheswm dros y treiglo.
- 46 **na llan na llys** Cf. y dywediad *mewn llan a llys* 'pobman' a nodir yn GPC 2094.
- 47–8 **Mawr oedd ei ddinag ragor / Rhag neb** Dilynir IGE² 421 a deall *rhagor rhag* yn yr ystyr 'rhagoriaeth ar'. Aralleirier: 'Mawr oedd ei ragoriaeth ddiamau / hael ar unrhyw un ...'.
- 51 **wedy'r** Cyfuniad o *wedy* a'r gn. perffeithiol *rhy*, gw. GMW 168–9.
- 56 **arglwyddi mawr** Daethai ei briodas â Sioned Stanley ag ef i gysylltiad â rheng uchaf cymdeithas fonheddig swydd Gaer, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 11.
- 61 **cun tair aesawr** Sef 'arglwydd tair tarian'. O ddeall *cun* yn gyfeiriad at Dduw, gellid deall y *tair aesawr* o bosibl yn gyfeiriad at y Drindod. Fel arall, gall mai cyfeirio at Wilym a'i blant a wneir yma; dengys yr achau iddo gael tri phlentyn gyda'i ail wraig Sioned. Cyfeirir at ei blant yn y ll. nesaf. Nid amhosibl ychwaith mai cyfeirio at arfbais

Gwilym a wneir, er mai tair helm ac nid tair tarian a oedd ar honno, gw. DWH ii, 180–2.

- 62 **Gwrgant gawr** Am enghreifftiau eraill o'r e., gw. G 703. Nid yw arwyddocâd y cyfeiriad yn glir, ond cf. efallai WLI 4 (II.15) *Llin Gwrgan sy eirian sêl* (i Siôn Lewis o'r Llwyn, mab y Barwn Lewis Owen).
- 63–4 **cennad / Duw** Er mwyn y gynghanedd y mae'n rhaid cymryd bod cytsain olaf *gennad* yn caledu cytsain gyntaf *Duw*, peth anghyffredin rhwng llau. mewn cywydd. Ymddengys hefyd fod yma (rhwng ll. 63/4 a 64/5) fath o odl ewinog, gw. J. Morris-Jones: CD 252–3. Tebyg mai'r ystyr yw 'caniatâd, cydsyniad Duw', gw. GPC 464 d.g. *cennad*². Gall hefyd olygu 'negesydd Duw', gw. GPG 464 d.g. *cennad*¹ a cf. YCM² 18 (ll. 11) *Mahumet a uu genat Duw*.
- 71–2 **ceirw ... / ... gotarmur hen Iarddur** Disgrifir arfbais Iarddur ap Cynddelw yn DWH ii, 262–3, lle y dangosir ei bod yn cynnwys cwpl neu *chevron* rhwng tri phen hydd. Ond nid yw'n glir paham y byddai Gwilym yn arddel yr arfbais hon, sef arfbais teulu ei nain, Efa ferch Gruffudd ap Tudur. Arfbais teulu ei dad a ddefnyddiodd ar sêl ei ewyllys, sef llsg. Bangor (Penrhyn) 14, yn 1431, dyddiad canu'r gerdd hon (fe'i hatgynhyrchir yn DWH i, 211 (fig. 36), gw. hefyd DWH ii, 180–2). Efallai fod a wnelo'r cyfeiriad at Iarddur â'r ffaith i Wilym ap Gruffudd, brawd Efa, adael ystad sylweddol i'w nai Gruffudd, tad Gwilym, gwaddol gwerthfawr iawn a gynhwysai'r Penrhyn ei hun, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 3–4. Ai cyd-ddigwyddiad yn unig yw'r ffaith mai tri phen hydd oedd arfbais teulu Stanley, gwraig Gwilym, hefyd? Gw. DWH ii, 529.
- 74 **côr** Gwelir bod Gwilym wedi ei gladdu yng nghanell eglwys Llan-faes; cf. 1.28n.
- 75 **llys Duw** Ar y calediad, gw. 2.109n. Llan-faes yw *llys Duw*, cf. y modd y cyffelybwyd y Penrhyn i lys Duw yn 2.109.
- 76 **Llan-faes** Yr eglwys ym Môn lle y claddwyd Gwilym.
dwyfawl Er mwyn y gynghanedd, rhaid darllen *dwyfawl* ac *f* led-laf-a-rog, neu adfer y ffurf gynharach *dwywol*, gw. GPC 1108 a ChO 59.
- 77–82 Brawddeg gymhleth. Cymerir yn IGE² 393 fod Rhys Goch yn dweud y byddai'n well ganddo weld Gwilym hyd yn oed petai hwnnw wedi lladd tad y bardd ei hun, yn hytrach na gweld y Saeson. Ceir posibilrwydd arall o gymryd mai'r tad yw goddr. y frawddeg, ac mai ef sydd wedi lladd rhywun, a bod Rhys yn dweud y byddai'n well ganddo gael Gwilym yn trafod yr achos yn hytrach na'r Saeson. Nid yw'n gwbl amhosibl mai 'Duw' yw ystyr 'tad' yma, ond nid yw hynny'n debygol.
- 77 **pei lladdai** Fel y nodir yn IGE² 393, '*lladdasai* a ddywedid heddiw'.

- 79 **cryf a'm cred** Sangiad â'r ystyr 'y mae gŵr nerthol yn fy nghredu'.
- 80 Cynghanedd sain gytbwys ddiacen a geir yn y ll. hon, ond gellid cynghanedd draws gytbwys ddiacen ohoni hefyd.
- 81 **o flaen** Am ystyron y cyfuniad, gw. GPC 2610. Gall olygu 'yn gynt, yn hytrach na'; dyna ddehongliad IGE² 393. Posibilrwydd arall yw 'yn blaenori ar', cf. ll. 22. Dichon nad 'o flaen (ei well)' megis mewn llys barn yw'r ystyr yma, oni bai bod yma amwysedd bwriadol.
- 81–2 **plant ... / Y ddraig lewychgraig luwchgroen** Cyfeiriad arall at ddraig, creadur sy'n ymddangos droeon yng nghanu Rhys Goch. Deellir *llewychgraig* yn a. 'a chanddo graig ddisglair', cyfeiriad at gartref y ddraig yng nghreigiau Eryri. Ar *lluwchgroen* 'a'i groen yn wyn fel yr eira', gw. GPC 2232. Amlwg mai'r ddraig wen sy'n cynrychioli cenedl y Saeson yw hon. Ei 'phlant', felly, yw'r Saeson eu hunain. (Gw. llau. 77–82n.)
- 81 **erbynant boen** I'w ddeall, y mae'n debyg, yn yr amser dyfodol, 'byddant yn derbyn poen'.
- 83 **cwpl groes** Mae'r llsgrau. yn gryf o blaid *cwpl* yn hytrach na *cwbl*, er y gellid dilyn CIJKNOP a darllen *cwpl croes*. Y mae sawl ystyr yn bosibl i *cwpl*, yn eu plith 'cwpl, cwpled, *cruck* (mewn adeilad), *chevron* (mewn herodraeth, cf. llau. 71–2n), cyswllt, wedi ei gysylltu', gw. GPC 645–5. Ceid *chevron* yn arfbais Gwilym, gw. DWH ii, 181. Cynghanedd sain deirodl.
- 85 **hwylbren** Yma'n ffigurol am Wilym, gw. GPC 1938 am enghreifftiau pellach.
pellynt byllt Cf. GDG³ 239 (87. 43) *Troës y gwynt, bellynt bollt*; OBWV 95 *Caerdroea wynt, bellynt bill* (Gruffudd Gryg). Ffurf l. *bollt* 'saeth fer a phraff' (< S.C. *bolt*) yw *byllt*, gw. GPC 298. Ergyd y sangiad yw bod ei saethau'n hedfan yn bell (*pellynt* < *pell* + *hynt*) o'i fwa.
- 86 **enedl tir Esyllt** Merch Cynan Tindaethwy, brenin Gwynedd, oedd Esyllt, a nain neu fam Rhodri Mawr. Ohoni hi felly yr hanai tywysogion Gwynedd hyd ddiwedd cyfnod annibyniaeth y dalaith. *Tir Esyllt* felly yw Gwynedd, a *chenedl tir Esyllt* yw'r Gwyndyd neu drigolion Gwynedd; cf. 13.94 *nasiwn wyrion Esyllt*. Gw. ymhellach TYP³ 350–2 a WCD 473 d.g. *Merfyn Frych*.
- 87 **bainc dâl** Sef 'talfaine', cf. ll. 1n.
- 89 Sylwer ar y modd y rhoir pwyslais ar brofiad personol y bardd trwy odli'r rh.prs. *fi* ac *i* yn y gynghanedd sain (*fi* a *ni* yw darlleniad IGE² 316 [ll. 29], sydd hefyd yn bosibl).
- 90 **nawnerth Ector** Sef Ector Gadarn neu Hector o Gaer Droea, gw. TYP³ 337–8; G 435 a OCD³ 673. Yr oedd yn enwog am ei gryfder;

dywed y trioedd ei fod yn un o'r 'Tri Dyn a gafas Gadernid Addaf', gw. TYP³ 129.

91 **nen derwen da** Dengys y ffurf gysefin *da* ei fod yn goleddfu *nen*, gair sydd fel rheol yn eb., ond yma'n eg. mewn ystyr ffigurol 'arglwydd', gw. GPC 2569.

93 **trais dremynt** Gall *trais* fod yn eg. neu'n eb., gw. GPC 3552. Ystyr arferol *tremynt* yw 'golwg; trem, edrychiad', gw. GPC 3585 d.g. *tremynt*¹. Ond yma y mae'r ystyr 'gormodol, eithafol' yn fwy addas, gw. GPC 3586 d.g. *tremynt*².

94 **cyn no'u meirw** Mewn Cym.C. defnyddir *cyn no* yn hytrach na *cyn* yn unig o flaen rh., gw. GMW 44.

yr hen geirw gynt Cyfeiriad at gymeriadau o'r gorffennol. Nid yw'n glir a oes gan y bardd unrhyw un arbennig mewn golwg ynteu ai cyfeirio'n fwy cyffredinol at y dyddiau gynt a wna. Gall *carw* sefyll am unrhyw arwr, ond tybed a oes yma gyfeiriad at deulu Iarddur? Cf. llau. 71–2n.

95 **glendyd** Ffurf amrywiol ar *glendid*, gw. GPC 1407; gw. D.J. Bowen, 'Pynciau Cynghanedd', LICy xx (1997), 139–40.

96 **llawr** Ai defnydd trosiadol (= 'gwrhydri') o'r ystyr 'sylfaen' sydd yma?

Alecsander mawr Dylid o bosibl briflythrennu *mawr* yma.

97 **dyn o Gred** Sef unrhyw un yn y byd Cristnogol, ac nid crefyddwr yn benodol. Cf. GDG³ 313 (118.28) *Grudd y ddyn lanaf o Gred*.

99 **a wnâi Wilym** Ai'r gystrawen yma (llau. 97–104) yw 'nid oes dyn o Gred... a wnâi Wilym [h.y. yr hyn a wnâi Gwilym] ... o w'r yng Ngwynedd heddiw ...; oni bydd Duw yn ei wneud, ni fydd dyn yn ei wneud'? Deall *Wilym* yn oddr. y f. a wneir yn IGE² 392, ond nid yw'r dehongliad yn glir. Cf. 11.40n.

100 **Twrch Drwyd** Y baedd rheibus o chwedl 'Culhwch ac Olwen'. *Twrch Trwyth* yw ei enw yn y chwedl honno, ond ymddengys mai'r ffurf *Twrch Trwyd* yw'r gynharaf, gw. Patrick Sims-Williams, 'The evidence for vernacular Irish literary influence on early mediaeval Welsh literature', yn *Ireland in Early Mediaeval Europe*, ed. Dorothy Whitelock *et al.* (Cambridge, 1982), 239. Ar *Drwyd / Trwyd*, cf. *drem / trem, drum / trum &c.*

ffleimlwyd Cyfuniad o *fflaim* 'cylllell fain i ollwng gwaed' a *llwyd*. Daw *fflaim* o'r S.C. *fleime*, gw. GPC 1292 lle y daw'r enghraifft gynharaf o waith Dafydd Nanmor (ail hanner y 15g.).

4

Achau Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn a restrir yn y cywydd hwn.¹ Fe'u holrheindir fesul cenedlaeth gyda'r bwriad o gynnwys pob un o'r rhagor na saith deg o genedlaethau rhwng y gwrthrych ac Adda. Er cymaint diddordeb y beirdd mewn achau, saif y gerdd hon ar wahân i holl gerddi eraill y cyfnod gan mai'r bwriad yw cyflwyno'r ach yn ei chyfanrwydd. Sylwer, er enghraifft, nad yw cywydd Iolo Goch i achau Owain Glyndŵr ond yn cyfeirio'n ddethol at rai o gyndeidiau arglwydd Sycharth.²

Gellir rhannu'r ach yn bedair. Yn gyntaf, cawn restr o gyndeidiau Wiliam Fychan sy'n cyrraedd hyd at Farchudd, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd.³ Y mae modd gwirio'r ach yn eithaf sicr hyd yma gan ei chymharu ag achau eraill a dogfennau hanesyddol. Diddorol o ystyried pwysigrwydd tybiedig y beirdd yn y broses o gadw achau yw nodi bod rhai camgymeriadau i'w gweld yn y darn cyntaf hwn. Yn yr ail ran, eir yn ôl i darddiad cenedl y Brythoniaid wrth olrhain yr ach i Frutus o Gaer Droea. Ni ellir gwirio'r darn hwn yn hanesyddol fel y gwnaethpwyd yn achos y rhan gyntaf, ac nid yw'n glir ar brydiau ai enw personol ynteu enw cyffredin yw ambell ffurf. Gellir, er hynny, ei gymharu yn aml â phrif ffrwd y traddodiad achyddol. Dengys hyn ei fod mewn manau yn wahanol i'r achau hysbys ac ar brydiau yn rhedeg yn gwbl groes i syniadau traddodiadol, megis yn ei ymdriniaeth â tharddiad pendefigaeth Gwynedd yn yr Hen Ogledd.⁴ Brut y Brenhinedd Sieffre o Fynwy yw cefndir y drydedd ran, a daw'r ach i ben pan gysylltir cymeriadau'r Brut â chymeriadau o'r Hen Destament trwy gyfrwng nifer o dduwiau ac arwyr y byd Clasurool.

Y mae'n bosibl y dylid cysylltu cyfansoddi'r gerdd hynod hon ag ymgais Wiliam Fychan i gael ei dderbyn yn ddinesydd Seisnig ac felly'n rhydd oddi wrth y deddfau penyd a weithredai yn erbyn y Cymry.⁵ Fel mab i Saesnes, yr oedd rhywfaint o sail i'w ddadl ei fod o dras Seisnig, er nad ymddengys fod gwirionedd yn ei honiad fod gwaed Seisnig yn ei dad, ac nid yr holl wir o bell ffordd oedd ei ddatganiad y darfu i'w dad aros yn ffyddlon i'r Goron yn ystod gwrthryfel Glyndŵr. Ond nid yw ei honiadau mor annisgwyl wrth ystyried ymgais ei dad i ennill dinasyddiaeth Seisnig ar sail llawer llai cadarn.⁶ Yn wir, o'i gymharu ag ymdrechion teuluoedd Seisnig o'r bymthegfed ganrif megis y Pastons, nid yw'r honiad yn un mor gamarweiniol.⁷ Bu Wiliam Fychan yn llwyddiannus yn ei ymdrechion, ac fe'i cydnabu-

¹ Ceir testun o'r gerdd yn IGE² 307–9 (cerdd CII).

² GIG 36–42 (VIII).

³ Gw. P. C. Bartrum, 'Hen Lwythau Gwynedd a'r Mars', Cylch LIGC xii (1961–2), 230–2.

⁴ Gw. yn arbennig ll. 30n isod.

⁵ Gw. WWR² 15; G. Williams: RRR 11.

⁶ Gw. A.D. Carr, *art.cit.* 10–11.

⁷ Gw. Peter Coss, *The Knight in Medieval England* (Stroud, 1993), 2 lle y disgrifir ach y Pastons (sy'n olrhain y teulu yn ôl i'r goncwest Normanaidd) fel 'a tissue of lies'. Mewn gwirionedd nid âi

wyd yn ddinesydd Seisnig yn 1439 y flwyddyn yr etifeddodd diroedd ei dad.

Beth oedd natur y cysylltiad rhwng y cais am ddinasyddiaeth Seisnig a'r ach gwbl Gymreig a geir yn y gerdd hon? Barnai Ifor Williams mai ymgais Rhys Goch ydoedd i atgoffa'r 'gwrda lledryw hwn' o'i achau Cymreig ar du ei dad: 'Canwyd y cywydd bondigrybwyll hwn pan oedd ei wrthrych yn prysur geisio profi ei fod yn fwy na hanner Sais. Coegni neu gerydd ydyw, ond odid.'⁸ Eto i gyd, tybed nad yw'n annheg cyhuddo Wiliam Fychan o ymseisnigeiddio i'r fath raddau? Bu Wiliam, wedi'r cyfan, yn un o noddwyr mwyaf brwd y beirdd Cymraeg, ac ymhlith y beirdd a ganodd iddo ceir mawrion megis Guto'r Glyn, Hywel Dafu a Gutun Owain. Y mae'n fwy tebygol mai Wiliam Fychan ei hun a gomisynodd y gerdd er mwyn dangos nad oedd ei ddatganiadau i'r llywodraeth yn ddim mwy nag ymdrech i ennill ei hawliau cynhenid, ac nad oedd a wnelont mewn unrhyw ffordd â'i Gymreictod na'r safle cymdeithasol a ddeilliai o'i ach Gymreig. Serch hynny, y mae'n ddigon posibl na ddylid cysylltu'r gerdd hon yn uniongyrchol ag ymgais Wiliam i ennill dinasyddiaeth.

- 1 **dwyn** Am yr ystyr gyfreithiol o 'sichrau tadogaeth mab, tyngu tadogaeth plentyn; olrhain (ach(au))', gw. GPC 1129.

bonedd Am yr ystyr 'tras, ach, llinach', gw. GPC 299. Digwydd yn aml yn deitl ar gasgliadau o achau, e.e. 'Bonedd y Saint' a 'Bonedd yr Arwyr', gw. EWGT 51, 85.

Ceir yr un ll. yn GGI² 239 (XCI.58).

penwn Sef 'baner fach', benthyciad S.C *peno(u)n* neu o bosibl yn uniongyrchol o'r H.Ffr., gw. GPC 2764 ac EEW 118. Ceid arfbais arno weithiau, cf. GIG 7 (II.47–52), 189, ac efallai mai dyma pahan y cyfeirir ato mewn cysylltiad ag achau Wiliam Fychan. Cyfeirir yma, o bosibl, at achrestr a oedd â llun arfbais Wiliam Fychan ar ei brig. Am arfbais teulu'r Penrhyn, gw. DWH ii, 180–2. Cf. GDLI 56 (17.79) *Bonedd aeth dan ei benwn*; GHC 15 (IX.17–18) *Bonedd Ruffudd ap Bleddyn / Ab Einion oedd benwn ynn*.

- 7 **beirddlawr** Fe'i deallir yn gyfuniad o *beirdd* a *llawr*: 'trigfan beirdd'; ond gall hefyd mai'r gair hynafol *llawr* 'ceimiad, arwr' sydd yma, gw. GPC 2118 d.g. *llawr*² (ond ni cheir yno enghraifft ar ôl y 14g.).
- 8 **Gwilym** Arno gw. y nodiadau cefndir i gerddi 2 a 3. Ceir atgynhyrchiad o'i sêl yn DWH i, 211 (fig. 30), cf. ll. 1n.

didawl mawl mawr Brawddeg enwol i'w ddeall yn sangiadol: 'di-dor yw mawl mawr'.

ach ddilys y teulu fawr bellach yn ôl na dechrau'r 15g.

⁸ Gw. IGE² xlv.

9–10 Ni cheir y cwpled hwn ym mhob llsgr., gw. ll. 12n.

9 **Gruffudd** Ceir y cofnod cyntaf amdano yn 1365 yn dyst i weithred tir prid ym Mhrestatyn, gw. A.D. Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', *Cylchg HC xv* (1990), 5. Ni chadwyd unrhyw gerddi iddo, ond gwyddys iddo noddi cerfluniau ar gyfer eglwys Llaniestyn ac o bosibl eglwys Llanbabo, gw. C.A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales, Sepulchral Slabs and Effegies of the Thirteenth and Fourteenth Centuries* (Cardiff, 1968), 231–3. Bu farw, ynghyd â'i fab Bleddyn, yn 1405 ac yntau ar y pryd ymhlith cefnogwyr Owain Glyndŵr.

10 **gwaladr Gwyndyd** 'Arglwydd trigolion Gwynedd'. Y Nant yng nghwmwd Prestatyn, sir y Fflint, ac felly yng Ngwynedd Is Conwy, oedd cartref Gruffudd ap Gwilym, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 5.

Gwilym Credir mai Gwilym ap Gruffudd oedd gŵr (neu fab yn ôl tystiolaeth rhai achau) yr Efa a goffeir mewn cerflun yng nghadeirlan Bangor, gw. C.A. Gresham, *op.cit.* 235–7. Bu farw c. 1370. Ni cheir y ll. hon ym mhob llsgr., gw. ll. 12n.

11 **Gruffudd** Gruffudd ap Heilin, gw. ll. 12n.

tŵr cythrudd caith Cymerir mai ystyr ffigurol sydd i *tŵr* yma. Gellir aralleirio '[un megis] tŵr [rhag] terfysg bileiniaid', ond sylwer y gall *cythrudd* hefyd olygu 'cyffr[ô]wr, cythryblwr, cynhyrfwr', gw. G 270 a GPC 827.

12 **fab Gwilym deirgwaith** Dau Wilym yn unig a oedd yn ach Wiliam Fychan, nid tri, gw. A.D. Carr, *art.cit.* 2, felly y mae'r cyfeiriad hwn yn anghywir. Hepgorir llau. 9–10 mewn rhai llsgrau., ond ni wna hynny ond amddifadu'r ach o'r Gruffudd angenrheidiol.

13 **Heilin** Bu'n wystl yn llys Harri II rhwng 1246 a 1263. Derbyniodd rodd o diroedd yn Llŷn yn 1281 gan Lywelyn ap Gruffudd, gan gynnwys tir yn Nant Gwrtheyrn a Llithfaen a fuasai ym meddiant Ricart ap Cadwaladr, gw. AWR 612–13 ac isod 11.14n. Yr oedd yn dal yn fyw yn 1282 pan ymostyngodd i Edward I. Gw. D. Stephenson: GG 204, 220 a ByCy 167.

14 **Tudur** Bu'n swyddog yng ngwasanaeth Dafydd ap Llywelyn a'i nai, Llywelyn ap Gruffudd, yn y cyfnod rhwng 1241 a'i farwolaeth yn 1278, gw. D. Stephenson: GG 218–21. Ei wraig oedd Adles ferch Ricart ap Cadwaladr ap Gruffudd ap Cynan, a'i mam hithau oedd Annes ferch Gwyn Ddistain ab Ednywain, hynafiad Rhys Goch.

15–16 **Ednyfed ... / Fychan** Ceir ei ach ar ochr ei dad a'i fam yn EWGT 103. Ef oedd distain Llywelyn ab Iorwerth rhwng tua 1215 a'i farwolaeth yn 1246, gw. ByCy 167 a D. Stephenson: GG 207–9. Ymddengys mai ef a ddilynodd Gwyn ab Ednywain, hynafiad Rhys

Goch Eryri, i'r swydd. Ymysg ei ddisgynyddion yr oedd 'Tuduriaid' Penmynydd, teulu yr etifeddodd Gwilym ap Gruffudd eu tir wedi methiant gwrthryfel Glyndŵr. O'r cyff hwn hefyd yr hanai Generys, mam Gwilym ap Gruffudd, a Morfudd, ei wraig gyntaf.

- 15 **llwydded** Ar y cyfuniad hwn o *llwydd a ced*, gw. GPC 2242 lle y rhoddir yr ystyr 'hael ei roddion, haelionus', a GBF 172 'hael yn ei lwyddiant'.
- 16 **gwnaeth i Eingl feichiaw** Ystyr *beichio* yw 'ochneidio, llefain' megis yn yr ymadrodd 'beichio crio', gw. GPC 268 d.g. *beichiaf*. Sylwer bod traddodiad diweddar yn honni mai wedi iddo ladd tri Sais a thorri eu pennau y cafwyd tri phen toredig ar arfbais disgynyddion Ednyfed, gw. DWH i, 210. Mae *beichio* yn rhoi gwell ystyr na *meichio* 'bod neu fynd yn feichiau', gw. GPC 2406.
- 17 **Cynwrig** Cynhwysai'r tylwyth a adwaenir yn 'Wyrion Eden' (h.y. perthnasau niferus Ednyfed Fychan a ddaliai eu tir dan amodau ffafriol), ddisgynyddion ei dad Cynwrig yn ogystal, gw. D. Stephenson: GG 102–3.
- 18 **Iorwerth** Cytuna hyn â'r achau a geir yn EWGT 103 a 116 ac yn P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 3.
- 19 **Hwfa** Ni cheir yr enw hwn yn y fersiynau eraill o'r ach, a chadarnheir mai hwy sydd gywir yn HD 265 lle y sonnir am *progenies Ken' ap Ior' ap Goug*, gw. AWH 182. Tebyg mai ffrwyth camleoli Hwfa ap Cynwrig, taid Ednyfed Fychan o du ei fam, ydyw. Gw. ymhellach ach Angharad yn EWGT 103.
- 20 **hoywaeth** Rhoddai'r beirdd gryn bwys ar faeth yr uchelwyr, gw., e.e., Kenneth Jackson, *The Gododdin* (Edinburgh, 1969), 116–17 a GPC 1664 d.g. *gwinfaeth*.
- Gwgan** Gw. ll. 19n.
- 21 **Uchdryd** Digwydd hefyd yn y ffurf Edryd, gw. HD 248 (*Edred ap Inethlan*) ac EWGT 103. Sonnir yn HD 245, 258, 299 am wely Edryd ap Marchudd, sydd efallai yn bwrw amheuaeth ar y traddodiad mai trwy Garwed yr hanai Ednyfed Fychan a'i ddisgynyddion o Farchudd. Awgrymir y dyddiad 1000 iddo yn WCD 224, a gw. ll. 26n.
- 22 **Eneithian** Digwydd yr enw hwn yn gyson yn yr achau, ond amwys yw tystiolaeth HD am ei gysylltiad â Marchudd, gw. ll. 21n.
- 23 **rhod** Ai rhod ffawd yw hon? Cf. ll. 24n.
- 23–4 **Cadrod ... / Calchfynydd** Digwydd yr enw mewn nifer o achau, ond eu tystiolaeth gyson hwy yw mai mab ydoedd i Gynwyd Gynwydion a gŵr un o ferched Brychan Brycheiniog, gw. EWGT 16, 18, 43, 61, 70, 73, 82, 103, 116. Y mae'n amlwg iddo gael ei gamleoli yma; y dyddiad a awgrymir iddo yn WCD 79 yw c. 550. Digwydd yr enw

mewn cenedlaeth lawer cynharach yn ach Ednyfed Fychan a gadwyd yn EWGT 103. Cymherir Syr Gruffudd Llwyd, un arall o ddisgynyddion Ednyfed Fychan, ag ef o achos ei haelioni gan Wilym Ddu o Arfon, gw. GGDT 6.73n. Fe'i cymysgwyd, y mae'n debyg, â'r Carwed a enwir yn fab i Farchudd yn yr achau ac yn HD 245, 247.

- 24 **cylch ei faner** Cymerir mai brawddeg enwol yw hon ac iddi'r ystyr 'cylch yw ei faner', ond sylwer y gall *cylch* hefyd fod yn ardd. 'o gwmpas, o amgylch', GPC 747. Os felly, gellid cydio'r cymal hwn wrth y ll. flaenorol a deall 'y mae'r rhod yn rhydd o amgylch ei faner'.
- 25 **Lleuddad** Y mae'r achau yn gyson mai dau fab oedd i Farchudd, sef Owain a Charwed, gw. llau. 23–4n. O Garwed yr hanai Ednyfed Fychan, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 1 a EWGT 103. Y ffurf *Lleiddawd* a geir yn y llsgrau., ond fe'i diwygir yma gan ddilyn y ffurf arferol ar yr enw (IGE² 390); ond gw. y nodyn canlynol ar *bragad*.
bragad briwgaer Darlleniad IGE² 307 (ll. 25) yw *bragawd briwgaer*, ond derbynnir yma'r diwygiad a gynigir yn IGE² 390 ac yn GPC 306 d.g. *bragad* lle y rhoddir yr ystyr 'teulu, tylwyth, epil, hil, rhywogaeth'. Wrth ystyried *briwgaer*, sef 'caer ddrylliedig', cf. GDC 14.41 *briwdwr* (Meurig ab Iorwerth): 'tŵr wedi ei falurio' yw'r ystyr yn G 77 ond gw. GDC 14.41n.
- 26 **Marchudd** Pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd. Dywedir yn yr achau iddo gydoesi â Rhodri Mawr (m. 878), gw. WCD 454; ond efallai ei fod yn perthyn i gyfnod ychydig yn ddiweddarach na hynny: gw. y drafodaeth ar 'lwyth Marchudd' yn M. Miller, 'Historicity and the pedigrees of the Northcountrymen', B xxvi (1974–6), 278–9. Am ei feibion, gw. llau. 21n a 23–4n.
- 28 **Dyfnwal** Cynan oedd tad Marchudd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 1 a EWGT 103. Ni wyddys o b'le y cafwyd Dyfnwal. O hyn ymlaen hepgorir nifer mawr o'r enwau a geir yn ach Ednyfed Fychan rhwng Marchudd a Chenau fab Coel yn EWGT 103 er mwyn olrhain cysylltiad â Chunedda. Cf. llau. 29n a 30n.
- 29 **Ednyfed** Ni wyddys am unrhyw Ednyfed ymhlith meibion niferus Cunedda. Tebyg mai dolen gyswllt ydyw er mwyn galluogi cynnwys Cunedda yn ogystal â Choel yn yr ach. Gw. ll. 30n.
- 30 **Cunedda** Cunedda oedd sefydlydd llinach frenhinol gyntaf Gwynedd, gw. TYP³ 316–18. Daeth y llinach hon i ben wrth i'w ddisgynydd Esyllt briodi ag un o ddisgynyddion Coel Hen neu Goel Godebog a sefydlu llinach frenhinol newydd. Gwelir felly ei bod yn amhosibl fod Wiliam Fychan yn disgyn yn uniongyrchol ar yr ochr wrywaidd o Goel ac o Gunedda ill dau. Yn ôl EWGT 103, hanai Ednyfed Fychan o Goel, felly tebyg mai atodiad diweddarach yw cynnwys Cunedda yn yr ach hon. Esboniai hynny pahan na wyddys dim am Ednyfed fab

Cunedda, gw. ll. 29n. Nid oes yma ychwaith agos ddigon o genedlaethau rhwng Cunedda a Marchudd, cf. ll. 28n.

- 31 **Edyrn** Awgrymir y dyddiad 330 iddo yn WCD 223.
- 31–2 **Padarn ... / Peisrudd** Mab i Degid (gw. ll. 39n) oedd Padarn Beisrudd yn ôl tystiolaeth yr achau. Awgrymir y dyddiad O.C. 300 iddo yn WCD 524, a thynnir sylw yno at gyfeiriad yn EWGT 87 sy'n nodi'r ach *Edyrn ap Padarn ap Kenev*, a hynny'n gyson â'r gerdd hon. Digwydd hefyd mewn copi o ach Llywelyn ap Gruffudd, gw. David Ewan Thornton, 'A Neglected Genealogy of Llywelyn ap Gruffudd', CMCS xxiii (Summer 1991), 13–14. Gw. ymhellach TYP³ 472–3.
- 31 Gellir dehongli y ll. hon yn gynghanedd draws fantach, ond y mae cytseinedd gref trwyddi, a gall fod yma ymgais at gynghanedd sain gadwynog ac ynddi odl broest, cf. y gynghanedd sain ag odl broest yn GLIL 8.25, 10.64.
- 33 **Geirioel** Cymerir mai cyfeiriad yw hwn at Gregori Bab (590–604), yn groes i awgrym G 525 mai a. sydd yma; cf. GGDT 10.16n. Ceir yr un ffurf ar yr enw yn GGDT 4.63n a GSRh 7.37n.
- 34 **Cenau** Tad Padarn Beisrudd oedd Tegid, nid Cenau. Ailymunir â'r llinach yn ll. 39.
- Coel** Sef Coel Hen neu Goel Godebog, hynafiad pwysig i wŷr yr Hen Ogledd, gw. WCD 136. Gw. ll. 30n.
- 35 **Tegfan, frwydr Gamlan gynt** Ni wyddys am gysylltiad rhwng Tegfan a brwydr Camlan, ond fe'i gelwir yn Tegfan Gloff mewn rhai achau, gw. EWGT 36, a cheir gŵr o'r enw hwnnw yn llys Arthur yn CO³ 9 (ll. 255). Ceir y nodyn a ganlyn yn llsg. M yn llaw Lewis Morris: 'This pedigree is not to be depended on at all. Tegfan was several ages before ye Battle of Camlan.'
- 36 **Deheuwynt** Ar yr e. (< *deheu* + *-eint*), gw. G 309, ac am enghreifftiau pellach, gw. GLIF 14.41n. Daw'r ach draddodiadol i ben yma, gw. ymhellach ll. 39n.
- 37 **greddf** Gall mai'r e.prs. *Greddf* sydd yma.
- 38 **Mael** Tad Deheuwynt oedd Telpwyll ab Urban, gw. EWGT 10, 25, 38, 44, 96, neu, yn ôl un ach, Urban ei hun, gw. *ib.* 36. Ni wyddys am gysylltiad rhwng Mael a'r rhain. Ond gall mai'r e.c. 'tywysog' yw *mael* yma.
- Nudd** Sef Nudd Hael fab Senyllt, un o'r Tri Hael, gw. 1.41n.
- 39 **Brân** Ni wyddys lleoliad dilys Brân yn yr ach, ac ymddengys nad yw eto ond dolen gyswllt er mwyn ailgysylltu â'r ach draddodiadol sy'n ailddechrau gyda Tegid.
- Tegydd** Ailymunir yn awr ag ach hynafiaid Cunedda. Tegid oedd tad

Padarn Beisrudd, gw. llau. 31–2n.

- 40 **Iago** Tystiolaeth yr achau cynharaf yw mai Cain oedd tad Tegid, ond mewn fersiynau diweddarach gwelir yr ach fel a ganlyn: ‘Tegydd ap Iago ap Genedog ap Cain’ neu ‘Tegydd ap Iago ap Gwyddog ap Cain’, gw. WCD 603.
- 41 **fab câr, caredig** Gthg. IGE² 308 (ll. 13) lle y cymerwyd *Câr* yn e.prs. Gall *Caredig* hefyd fod yn e.prs., ac nid yw’n amhosibl ei fod yn gamgymeriad am Genedog, gw. ll. 40n.
- 42–5 Daw’r parau Cain a Gwrgain, Doli a Gwrddoli a Dwfn a Gorddwfn yn gyson gyda’i gilydd yn yr achau. Y maent yn debyg i barau o enwau a geir mewn rhestrau cynnar o frenhinoedd Pictaidd, gw. EWGT 125.
- 43 **dis** Cymerir mai’r ystyr ffigurol o ‘anwylyd’ a geir yma, gw. GPC 1040–1 d.g *dis*¹. Os felly, dyma enghraifft gynnar iawn o’r ystyr. Ni chrybwyllir yr ystyr ‘anwylyd’ wrth nodi’r enghraifft hon yn G 370.
- 44 Cynghanedd groes gydag *f* a *b* wreiddgoll.
- 46 **Awryd** Dengys yr achau mai tad Gorddwfn oedd naill ai Amloyd / Afloyd neu ei dad yntau Amwerydd. Gw. EWGT 9, 25, 26, 27, 106, 109 a 36, 44, 95. Gallai Awryd fod yn gamgymeriad am y naill neu’r llall.
- 47 **Afallach** Y mae’n amlwg i nifer o genedlaethau fynd ar goll rhwng Gorddwfn / Awryd ac Afallach. Dengys yr achau a grybwyllir yn ll. 46n mai Owain oedd mab Afallach.
- 48 **Afled** Gall mai ffurf ydyw ar *Amalech*; a ‘certain a doublet of Aballac’ oedd barn Bartrum ar yr e. hwnnw, gw. EWGT 125. Digwydd hefyd fel *Aflech*, gw., e.e., EWGT 36; ond sylwer tebyced ydyw i’r ffurf *Afloyd* ar enw tad Gorddwfn, gw. ll. 46n.
- 49 **llwm ei grwst** Dyfynnir y ll. hon yn GPC 616 fel yr enghraifft gynharaf o *crwst* (benthyciad o’r S.C. *crouste*, *crust*). Yr ystyr yw ‘crawen, cresten, rhan allanol neu orchudd’, &c. Ond tybed a oes yma gyfeiriad at y cymeriad Gwrwst neu Grwst Ledlwm, mab Cenau fab Coel? Gw. WCD 343 a cf. ll. 51n.
- llym ei graidd** Ymddengys mai gwrthgyferbynnu’r *craidd* ‘canolbwynt, perfedd, calon’ â’r *crwst*, yr haen allanol, a wneir, ond nid yw’n glir paham.
- 50 **Hyfaidd** Ymadewir unwaith eto yma â’r achau hysbys. Ni wyddys cysylltiad Hyfaidd â’r ach. Tad Afallach / Aflech oedd Beli Mawr, ond er ei enwogrwydd, nid enwir ef yn yr ach hon. Ai canlyniad yw’r ffurf *Hyfaidd* i gamddarllen yr enw *Enaid* mewn hen orgraff? Hawdd fyddai i hynny esgor ar ffurf megis *Eueid*, a cf. y ffurf honno â’r ffurf *Eueyd* a geir ar yr enw *Hefeydd* yn WCD 360. Gw. hefyd ar ‘Genaid

Hir' yn *ib.* 273. Yr oedd Enaid ap Cerwyd ap Crydon yn daid neu'n hendaidd i Feli Mawr, gw. EWGT 36, 95, 121.

- 51 **Grwst** Ffurf ar yr e.prs. *Gwrwst*, gw. ll. 49n. Ymddengys mai camleoliad sydd yma eto. Ceir sawl unigolyn â'r un enw, gan gynnwys un a oedd yn fab i'r Rhiwallon ap Rhagaw a enwir yn ll. 54n. Gw. EWGT 36, 95, 121 a WCD 343.

rhyd Cymerir mai ergyd y ll. hon yw bod gwaywffon Grwst megis rhyd waedlyd.

- 52 **Fab Cur aeth, fab Careithion** Ni wyddys pwy oedd Cur a Chareithion. Cynigir yn betrus mai camddehongliad o *Cerwyd* yw *Cur aeth* ac mai ffurf ar *Crydon* yw *Careithion*, gw. ll. 50n.

- 53 **Aedd Mawr** Ymddengys yn gyffredin yn yr achau fel tad Prydain, a defnyddia Rhys Goch yr ymadrodd 'hil Aedd Mawr' i gyfeirio at y Cymry neu'r Brythoniaid, gw. 13.78n. Dywed Bartrum iddo gael ei wneud yn fab i Antonius ap Seiriol (neu Seisyll) ap Grwst ap Rhiwallon er mwyn asio'r traddodiadau Cymreig wrth ffuglen Sieffre o Fynwy, gw. WCD 1.

- 54 **Antonus** Gan ystyried ll. 53n, gwelir i nifer o genedlaethau fynd ar goll ar ôl Antonus.

Cynghanedd groes wreiddgoll, cf. ll. 44n.

- 55 **Rhiwallawn** Ni wyddys am unrhyw Riwallon a oedd yn fab i Ragaw a'i gŵr Henwyn. Sylwer bod traddodiad diweddar mai disgynnydd i Gamber fab Brutus oedd yr Henwyn hwn: gw. WCD 364 a cf. ll. 58n.

- 56 **Rhagaw** Yma'n unig yr olrheinir yr ach trwy'r ochr fenywaidd; gw. BD 26 (llau. 13–15) *Ac ny bu ydav un mab, namyn teir merchet, sef oed env y uerchet, Goronilla, Ragav, Cordeilla.*

Llŷr Brenin Prydain yn ôl Sieffre o Fynwy. Dilynodd ei dad Bleiddud ond ni chafodd etifedd o fab i barhau ei linach, gw. WCD 400 a cf. uchod ar *Rhagaw*.

- 57 **Bleiddud** Tad Llŷr a brenin Prydain, gw. ll. 56n.

Sieb Y ffurf Gym. ar yr e. lle *Cheap(side)* yn Llundain lle yr oedd marchnad nodedig yno yn yr Oesoedd Canol y cyfeirir ati yn aml ac yn ganmoliaethus gan y beirdd.

- 58–60 **Brutus ... / ... / Ysgwyd Hir** Digwydd Brutus mewn rhai achau â'r cyfenw 'Ysgwyd Ir' sy'n cyfateb o ran ystyr i'w gyfenw mwy cyffredin 'Tarianlas'. Ymddengys mai camgymeriad am hwn yw *Ysgwyd Hir* yma, er bod y gynghanedd yn erbyn hepgor yr *h*.

- 61 **Brutus** Tad chwedlonol y Brythoniaid, gw. BD 3–19. Ymddengys fod yma gymysgu rhwng y ddau Brutus, sef Brutus ('Ysgwyd Ir' neu 'Darianlas') ab Efrog a Brutus ap Silfus, a hepgorir sawl cenedlaeth

rhyngddynt, gw. ll. 58n a EWGT 39, 49, 95. Yn ôl traddodiad Sieffre o Fynwy, tri mab a gafodd Brutus, sef Locrinus, Albanactus a Chamber. Rhannwyd Prydain rhwng y tri hyn a rhoddwyd eu henwau ar yr ardaloedd yn eu meddiant. Cyfeiria Rhys Goch at Gymru fel *gwlad Gamber* yn 10.20. Rhyfedd felly nad yw'n crybwyll y traddodiad hwn, ond ar Riwallon gw. ll. 54n.

Silfus Rhestrir hwn yn fab i Eneas yn unol â thystiolaeth Dionysius a Jerome yn groes i ddehongliad Livy, gw. HGK 46.

62–4 **Eneas ... / ... / Ysgwydwyn** Taid Brutus yma. Ni wyddys arwyddocâd ei lysenw, gw. TYP³ 348–9.

62 **yn nien** Ceir *dien* gan Rys Goch yn yr ystyr 'egllur, clir; teg, hardd' (8.20 a 9.45), gw. GPC 974 d.g. *dien*¹. Ymddengys, felly, fod yma enghraifft o dreiglo'n drwynol ar ôl *yn* traethiadol, gw. Treigladau 245. Ond mae ystyr arall i *dien*, sef 'dihenydd, marwolaeth, distyw; tynged', gw. GPC 974 d.g. *dien*². Gellid felly aralleirio 'mewn marwolaeth', ond ni rydd hynny gystal ystyr.

63 **ysgithr** Tebyg mai'r e.c. '*tusk*' yw hwn, gw. IGE² 362. Ond cf. GCBM ii, 6.37n lle yr awgrymir y gall mai ffurf 3 un.pres.myn ar f. o'r bôn *ysgithr* yw'r ffurf *ysgithyr*. Os felly, gellid deall *llwybrsaig* yn e. sy'n treiglo fel gwrth. y f.

llwybrsaig Cyfuniad o *llwybr a saig*. Nis ceir yn GPC 2239, ond cf. *llwybrged*, sef '?parod ei rodd, haelionus' yn ôl GPC 2239 neu '[sy'n gadael] rhoddion [ar ei] hynt' yn ôl aralleiriad GGDT 6.27 (Gwilym Ddu o Arfon). Gall hefyd fod yn e.c., gw. ar *ysgithr* uchod.

65 **Anceises** Am ei ach, gw. OCD³ 87.

66 **Capis** Am ei safle ef ac Asaracus yn yr ach, gw. EWGT 36, 39, 95.

67 **Asaracus** Gw. ll. 66n.

68 **Troes** Hynafiad brenhinoedd Caer Droea. Am ei ach gw. OCD³ 1488 d.g. *Teucer*.

myntumiwr Iesu Ni wyddys sail y cysylltiad rhwng Troes a'r Iesu.

Ymddengys mai cynghanedd draws wreiddgoll ac iddi *m* berfeddgoll yn ail hanner y ll. sydd yma. Dichon mai ymdrech i ganfod cynghanedd lusg rhwng ffurf ddeusill ar *Troes* ac *Iesu* sydd i gyfrif am y darlleniad *fentiwr Iesu*.

69 **Ericonus** Gw. ll. 68n ar *Troes*.

71 **Dardanus** Cymeriad o fytholeg Groegaidd, mab ydoedd i Sews ac Electra, gw. OCD³ 430. Am gyfeiriadau pellach ato, gw. G 297.

72 **Siwbiter** '*Jupiter*', prif dduw y Rhufeiniaid. Daethpwyd i'w uniaethu â Sews y Groegiaid, gw. ll. 71n.

73 **Satwrn** Duw Rhufeinig a thad Siwbiter.

- 74 **Solas** Ymddengys mai ffurf ar yr enw *Celius*, *Selius* yw hwn, gw. EWGT 36, 95. Gall mai'r tebygrwydd i'r e.c. *solas*, sef benthyciad o'r *S. solace* 'entertainment, recreation, amusement' (gw. GDG³ 442 a cf. yn enwedig GDG³ 22 [37–8] *A cherddau tafodau teg / A solas ym Masaleg*), a esgorodd ar y cyfeiriad at feirdd.
- Selyf** Ffurf ar yr enw Solomon. Ni wyddys ei gysylltiad â'r ach hon.
- 75 **Sebreinus** Ymddengys fod yr e. hwn yn cyfateb i'r ffurfiau *Septem*, *Septen* a geir mewn achau eraill, gw. HGK ccxviii.
- 76 **Sythan** Ymddengys mai ffurf ar yr enw Jafan, mab Siaffeth, yw hwn, gw. Gen x.2 a HGK ccxviii. Ni chafodd fab o'r enw Sebreinus, gw. Gen x.4.
- 77 **Siaffeth** Un o feibion Noa, gw. Gen v.32.
- 78 **Noe hen, deg lawen dad** Ffurf ar *Noa* yw *Noe*, gw. J. Vendryes, 'Gallois Noe, Neuwy, Nouguy', *Bulletin de la Société Linguistique de Paris*, xliii (1947), 32–7. Fe'i disgrifir yn dad llawen am mai ohono ef y disgynnai'r hil ddynol wedi'r Dilyw mawr, gw. Gen ix.18.
- 79 **Lameth** Sef Lamech tad Noa, gw. Gen v.25–31. Profir ffurf yr enw gan y gynghanedd, ond ymddengys ei bod yn ganlyniad camddarllen *t* am *c* mewn cynsail ysgrifenedig. Ni wyddys iddo fod yn bregethwr, oni seiliwyd yr honiad ar ei broffwydoliaeth ar enedigaeth Noa, gw. Gen v.29.
- 80 **Mathusalem** Arno, gw. Gen v.21–7.
- 81 **traidd** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *treiddio*. Am yr ystyron 'ymweld â, mynd a dwad, croesi', gw. CLIH 210–11; GPC 3579. Deellir *murmur* yn oddr. y f. a chymerir bod cywasgiad *a draidd* > *draidd*.
- 82 **Enog** Ni wneir ond ei enwi yn fab i Fathusalem yn yr Hen Destament, gw. ODCC³ 547 d.g. *Enoch*. Collwyd nifer o genedlaethau rhyngddo ef a Seth yn yr ach hon, sef Jered, Mahalalel, Cenan ac Enos fab Seth, gw. Gen v.6–18.
- mabanaidd** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 2294 lle yr awgrymir hefyd y gall mai *babanaidd* yw'r ffurf gysefin. Ar y ffurf honno, gw. *ib.* 245. Ni restrir enghraifft arall o'r naill ffurf na'r llall sy'n gynharach na'r 17g. Yr ystyr yma yw 'diniwed (fel plentyn)'.
- 83 **Seth** Trydydd mab Adda, gw. Gen iv.25. Ei fab ef ydoedd Enos, nid Enog, cf. ll. 82n.
- 84 **Duw Naf fy Nêr** Ni ellir diystyru yr amrywiad *fab Duw Naf fy Nêr* gan ei bod yn gyffredin i ach fel hon ddod i ben wrth gofnodi mai mab i Dduw oedd Adda, cf. ach Rhodri Mawr yn EWGT 36.

Cywydd i ofyn cylllell yw hwn, ac efallai mai'r ffaith fwyaf nodedig amdano yw mai i'r gof ei hun y'i cyflwynir yn hytrach nag i noddwr o uchelwr.¹ Dylid cofio bod gofaint y cyfnod hwn yn wŷr o gryn barch, ac yr oedd lle anrhydeddus iddynt ymysg swyddogion llys y brenin yn ôl Cyfraith Hywel a cheir sawl cyfeiriad canmoliaethus atynt gan y beirdd. Canmolwyd y gof yn frwdfrydig gan Dudur Aled wrth iddo farwnadu Ieuan ap Deicws Of a gofyn ar yr un pryd am fweled.² Y mae traddodiad hefyd i Lewys Môn dreulio cyfnod yn Llundain yn gweithio fel gof.³ Cofier hefyd am y bardd Hywel ap Dafydd ab y Gof a farwnadodd Ddafydd Llwyd o Fathafarn a'i blant ar ddiwedd y bymthegfed ganrif.⁴ Nid yw'n amhosibl fod y gof Dafydd ap Hywel yntau yn fardd, fel yr awgrymir gan y gair *pencerdd* a ddefnyddia Rhys Goch i'w ddisgrifio yn llinell 27.

Yn y teitlau a geir i'r cywydd hwn gelwir y gyllell y gofynnir amdani yn faslart, yn wtneiff, yn gyllell cynydd, yn gyllell hela ac yn gyllell fforestwr. Sut gyllell yn union a olygir felly? Erbyn heddiw tueddir i ddefnyddio'r term Saesneg *baselard* i olygu dagr cyffredin ac iddo garn ar ffurf y llythyren 'I'. Ond yn ystod yr Oesoedd Canol yr oedd ystyr ehangach i'r gair, ac ar brydiau, yn sicr, yr oedd yn gyfystyr ag wtgneiff, fel y gwelir o gofnod a geir mewn ewyllys Seisnig o 1450 sy'n cyfeirio at *baslardum vocatum woodeknyffe*.⁵ Anodd hefyd yw gwybod pa beth yn union a olygid wrth y term *woodknife*; ymddengys y gallai fod yn gyllell hela neu'n gleddyf o ryw fath.⁶ Un peth sy'n amlwg, fodd bynnag, yw y gallai ambell *wtgneiff* fod yn erfyn costus a gwerthfawr iawn. Enghraifft o hyn yw'r '*knife to be used in the woods*' a brynwyd i Richard II am #25 17s 4d.⁷

Nid milwyr a helwyr yn unig a fyddai'n cario cyllyll yn y cyfnod hwn; dilynai pob math o ddynion yr un arfer. Yn wir, aethai'n gymaint o ffasiwn i gario baslart nes i un bardd anhysbys o Sais yn ystod teyrnasiad Harri V, union gyfnod Rhys Goch, gyfansoddi'r pennill dychanol hwn:

There is no man worth a leke,
Be he sturdy, be he meke,
But he bear a baselard.⁸

¹ Ceir golygiad ohono yn IGE² 327–9 (cerdd CVIII) ac yn DGGD 25–7 (cerdd 1), a hefyd yn Bleddyn Owen Huws, 'Astudiaeth o'r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1650' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1995), 337–43.

² Gw. TA 449–451 (cerdd CXV).

³ Am fanylion pellach, gw. GLM xiv–xv.

⁴ Gw. GDL1 189–91 (cerdd 98).

⁵ Howard L. Blackmore, *Hunting Weapons* (London, 1971), 14.

⁶ *Ib.* 11–12, 53.

⁷ *Ib.* 52–3. Prin iawn yw'r cyllyll a gadwyd o Gymru y cyfnod hwn, ond gw. Donald Stewart, 'A Medieval Dagger and an Iron Missile Point in Swansea Museum', B xxxi (1984), 316.

⁸ Harold L. Peterson, *Daggers and Fighting Knives of the Western World* (London, 1968), 18–19; trafodir datblygiad y baslart, *ib.* 17–21.

Yn ei ddisgrifiad ef, daw'n amlwg mai cyllell amlbwrpas oedd gan Rys mewn golwg. Ar ddechrau'r cywydd, disgrifia ei angen am gyllell hela, ond erbyn diwedd y gerdd, daw'n amlwg fod y math hwn o gyllell hefyd yn gwbl addas ar gyfer ymladd. Mewn gwirionedd, nid oedd gwahaniaeth rhwng cylllyll hela a chyllyll ymladd cyn yr 16g.⁹ Gallai baslart, er enghraifft, fod o unrhyw faint rhwng dagr a chleddyf.¹⁰

Y mae'r gerdd hon, fel y dangoswyd gan Bleddyn Owen Huws, yn debyg i ddau gywydd arall o'r bedwared ganrif ar ddeg, sef cywydd Iolo Goch i ddiolch am gyllell a chywydd Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed i ofyn telyn.¹¹

- 1 **lle cyfing** Yn ôl GPC 2122, clywir y dywediad hwn ar lafar ac iddo'r ystyr ffigurol '*an awkward fix*'.
- 10 **bwa a milgi buan** Cf. sylwadau Barbara A. Hanawalt ar ddull y cyfnod hwn o hela yn 'Men's games, king's deer: poaching in medieval England', *Journal of Medieval and Renaissance Studies*, xviii (1988), 182: 'Hunting dogs either tracked down the deer or ran them down, the *coup de gras* came from the hunter's bow or spear.'
- 13 **deunawosgl** 'A chanddo ddeunaw cangen ar ei gyrn'. Er mai ystrydebol yw'r defnydd o'r rhifyn *naw* a chyfuniadau ohono i gyfleu helaethrwydd (gw. GHD 2.4n), gall carw yn ei lawn dwf fod â chymaint â deunaw osgl i'w gyrn. Ystyrid y gallu i drafod yn ddeallus faterion fel nifer yr osglau ar garw yn nod amgen uchelwyr yn yr Oesoedd Canol diweddar yn Lloegr, gw. Roger B. Manning, *Hunters and Poachers: a Cultural and Social History of Unlawful Hunting in England, 1485–1640* (Oxford, 1993), 12. Cf. GIG 8 (II.71–2) lle y ceir yr un cyfuniad a'r un odl gyda *trosgl* (gw. ll. 14). Cwbl amhosibl fyddai i geirw Cymru dyfu trigain osgl fel yr awgrymir yn IGE² 395.
- 14 **trosgl** Ffurf f. yr a. *trwsgl*. Yr ystyr yma yw 'garw', gw. GPC 3628 a thrafodaethau Ifor Williams, 'Nodiadau cymysg', B xi (1941–4), 141 ac I. Williams: EL1 18–9. Sylwer hefyd ar yr enwau lleoedd *Cwm Trwsgl* a *Bwlch Trwsgl* ym mlaenau Cwm Pennant, nid nepell o gartref Rhys yn Hafodgaregog. Eto, tebyg mai yn rhywle ym Mhowys y canwyd y gerdd hon, gw. ll. 30n.
- 15 **daliodd adolwyn** Ar wahanol ystyron *dal(y)*, gw. G 290–1 a GPC 881. 'Deisyfiad, dymuniad' yw ystyr *adolwyn* yma, gw. GPC 25. Dichon mai ergyd y sangiad yw 'daliodd' neu 'profodd dymuniad'.

⁹ Gw. Zdenek Faktor, *Knives and Daggers* (London, 1989), 43.

¹⁰ Gw. Harold L. Peterson, *op.cit.* 19.

¹¹ Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350–c. 1630* (Caerdydd, 1998), 86, 177; GIG 51 (XI.4); GSRh cerdd 11.

- 24 **fenswn** Benthyciad o'r S.C. *venisun, &c.*, sef 'cig hela (carw yn arbennig)'. Hon yw'r enghraifft gynharaf a nodir yn GPC 1268; tebyg mai i'r 15g. y perthyn yr enghraifft yn DGG² 161 (LXXXVI.31), gw. GLIG 10.
- 26 **y'i** Cymerir bod y y llsgrau. yn cynrychioli cywasgiad o'r gn. rhagferfol y a'r rh.m. 3 un.gwrth., gw. GMW 55, gan nad ymddengys fod gwrth. arall i'r ffurf f. *cair* fel yn ll. 22.
- 27 **pencerddfab** Rhaid mai cyfeiriad at y gof yn hytrach nag at y bardd a geir yma (llau. 25–8 *Dafydd ... pencerddfab ... Hywel*) —ni ellir darllen *pencerddfab* mewn perthynas enidol â *gwawd* ll. 26 a'i ddeall fel cyfeiriad at Rys ei hun gan mai swydd yr elfen *mab* yw cysylltu'r enwau Dafydd a Hywel. *Cerdd* yn yr ystyr gyffredinol o 'crefft' a geir yn y cyfuniad hwn, gw. GPC 465 a PKM 297, a sylwer yn arbennig ar CO³ 29 (llau. 775–6) '*Pa gerd yssyd genhyt ti?*' '*Yslipanwr cledyueu goreu yn y byt wyf ui.*' Cf. sylwadau Dafydd Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teilu', YB xiv (1988), 36, 'gellid disgwyl mai crefft (o unrhyw fath) a olygai'r elfen *cerdd* yn *pencerdd* i ddechrau, a bod gof y llys yn gymaint o bencerdd â'r bardd'. Er bod pob enghraifft o'r gair *pencerdd* yn GPC 2734 yn cyfeirio at fardd, cymerir mai disgrifio'r gof a wna yma. Ond gall fod Dafydd yn of ac yn fardd, gw. y nodyn cefndir. Gw. hefyd J.E. Caerwyn Williams, 'Cerdd a Phencerdd', LlCy xvi (1989–91), 205–11, yn enwedig 207.
- 30 **Pebylldda** Rhestrir *pebyllða* yn G 284 d.g. *da*, ond nis ceir yn GPC 2705. Teg felly gymryd mai e. lle ydyw. Tynnodd Bleddyn Owen Huws sylw at '*Bybyllfa* (Pebyllfa)' yng nghwmwd Cemais yng Nghyfeiliog (ceir cofnod amdano mewn dogfen o 1698 fel y nodir yn ArchifMR), gw. DGGD 111 lle yr esbonnir ei bod yn bosibl mai'r un lle yw Pebyllfa a Pebylldda oherwydd y duedd i *f* ac *dd* ymglyfnewid. O archwilio ArchifMR ceir hefyd enghreifftiau posibl o'r ffurf 'Pebyllfa ar Glywedog'.
- 32 **cynnil** Sef 'medrus, hyfedr', gw. G 257 a GPC 797.
gefail ac einiawn Dau o offer y gof; yma y maent yn ddibynnol ar *perchen*, sef 'perchennog', y ll. flaenorol. Cf. GHD 4.37–8.
- 33 **Edwin ffawd** Brenin ar Northumbria ar ddechrau'r 7g. oedd Edwin. Ymladdodd yn llwyddiannus iawn yn erbyn y Brythoniaid, ond ei ffawd oedd cael ei orchfygu a'i ladd gan Gadwallon o Wynedd yn 617. Er ei fod yn aml yn cael ei ystyried yn ymgnewdoliad o'r Saeson fel gelynyon, y mae'n amlwg iddo gael ei ystyried yn ymladdwr arbennig gan y beirdd, ac y mae'n debyg mai cyfeiriad canmoliaethus yw hwn. Am gyfeiriadau eraill ato, gw. G 442 a TYP³ 339–40. Ond nid yw'n amhosibl mai Edwin (m. 1073), arglwydd Tegeingl a sylfaenydd un o Bymtheg Llwyth Gwynedd sydd yma, gw. ByCy 1049.

- edwyn ei ffydd** Rhestrir yr enghraifft hon o *edwyn* yn G 442 a GPC 1169 fel a. ac iddo'r ystyr 'llym, ffyrnig, angerddol', &c. Dichon mai hyn sydd gywir, ond sylwer y ceir *edwyn* yn 3 un.pres.myn. y f. *adnabod* yn GSCyf 11.47 (Llywelyn ap Moel y Pantri).
- 37 **ias** Ar ymryfal ystyron y gair hwn, gw. GPC 2001. Y mae'n debyg mai 'berw, berwad, crychias, gradd o boethder neu wres', &c., a olygir yma, ond sylwer hefyd ar yr ystyron '?natur neu ansawdd metel wedi ei dymheru; asiad neu sodrad dau ddarn o fetel ynghyd'.
- 39 **ystlyswaith** Ai am mai ar yr ystlys y byddid yn gwisgo cylllell? Sylwer hefyd ar y darlleniadau *feistrolwaith* ac *ystlysiaith*, er na rydd y rhain cystal ystyr.
- 40 **Ynys Afallach** Lle y gwnaed Caledfwlch, cleddyf Arthur, gw. ll. 76n. Ceir yr un ll. yn GLGC 489 (226.8).
- 41 **seithbryd** Cyfuniad o *saith* a *bryd* neu *pryd*, gan fod y treigladd ar ôl *saith* yn amrywio, gw. Treigladau 134–5. Ai 'tâl am saith harddwch (gw. GPC 2915 d.g. *pryd*²)' yw ystyr *seithbryd sâl*?
- 42 **Tubal** Sef Tubal-Cain, y gof cyntaf (Gen. iv.22), mab i Lamech, a 'hyfforddwr pob crefftwr copr a haearn', gw. GeirB 1413–14 a cf. hefyd GHD 25.28n (cywydd i erchi bwced). Yr oedd ganddo hanner brodyr o'r enw Jabal a Jwal (Gen. iv.20–1), ond gelwir Jwal yn *Tubal* yn y testun *val yr ordeiniwyd cerð dant a ffwy ay cafoed hi gyntaf*: '*Tvbal yr hwn oed hynaif yr hai oed yn yn ymarfer o dyllynu ney organay ... A Jabel a Thubal yn gyntaf a ganoed mvsic gynt drwy rod yr ysbryd glan*', gw. T. Gwynn Jones, 'Cerdd dant', B i (1921–3), 155, ond cf. BY 8 (llau. 4–8). O ail hanner yr 16g. y daw'r testun hwnnw, ond erys posibilrwydd bychan fod y cyfeiriadau cerddorol yn berthnasol i'r hyn a drafodir yn y nodyn cefndir a ll. 27n.
- 47–8 Y mae cynganeddiad y cwpled hwn yn broblematic. Yn IGE² 328 (ll. 18) a DGGD 26 (1.48), ceir cynghanedd lusk yn ail l. y cwpled (odl lusk rhwng *flaenfain* ac *adeinedn / adainedn*). Ond ni ddisgwyliid cynghanedd lusk yn y safle hwn, gw. J. Morris-Jones: CD 180. Nid yw cynghanedd ll. 47 fel ag y mae yn y testun yn gywir oherwydd camacennu, ond ni cheir yn yr amrywiadau ddarlleniad sy'n argyhoeddi (y mae'r llsgrau. gorau o blaid darlleniad y testun, ac y mae'r darlleniadau cynganeddol gywir yn dibynnu ar aildrodd *awch*). Diau mai'r odl gadarnleddf sydd wedi achosi'r broblem yma. Cf. GSH 6.49.
- 49 Cf. GIG 51 (XI.18) *Ar hyd ei chefn, dodrefn da*, a gw. *ib.* 240. Y mae'n debyg fod llafn fach ar wain y gyllell, sef y *traensiwr*, gw. ll. 51 isod. Dengys gweiniau sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn ei bod yn bosibl cario mwy nag un gyllell mewn un wain, gw. sylwadau Margrethe de Neergaard, 'The use of knives, shears, scissors and scabbards', yn *Knives and Scabbards: Medieval finds from*

excavations in London, ed. Jane Cowgill *et al.* (second ed., London, 2000), 55. Yn aml byddai gweiniau llai ar y wain fwyaf a ddaliai lafnau a ddefnyddid wrth fwyta, gw. Howard L. Blackmore, *Hunting Weapons* (London, 1971), 52.

- 50 **cofiawdr ddur** Rhaid cymryd mai a. yw *cofiawdr*, gw. GPC 537, ac mai e. yw *dur*, gw. GPC 1099. Yr ystyr yw ‘arf dur cofiadwy’, h.y. un sy’n gadael ei farc.

torllwyth cyfa ‘Beichiogi’ yw *torllwyth*, gw. GIG 207. Cyfeirir at y llafnau eraill a geir ynghyd â’r brif gyllell. Cf. GGI² 211, (LXXX.42) a 212 (LXXX.64) *O daw durllif da dorllwyth*, a’r nodyn *ib.* 352.

- 51 **traensiwr** Benthyciad o’r S. *trencheour*, math o gyllell, gw. GIG 240 a GPC 3586 d.g. *trensiwr*¹.

bwytygn Benthyciad o’r S.C. *boytekyn*, sef ‘*bodkin*’, h.y. ‘dagr flaenfain; erfyn ... i dorri tyllau mewn brethyn’, &c. Hon yw’r enghraifft gynharaf yn GPC 359.

tirionswch Y *swch* yw blaen y wain, gw. GIG 240 a PKM 165.

- 55 **pefrfardd** Sef ‘bardd disglair’. Cf. y defnydd o’r gair yn GSCyf 15.45 *Yr awen befr oreuwaith*. Gw. ymhellach GPC 2714.

- 64 **ewinrhew** Ymddengys mai yng nghanol gaeaf yr oedd Rhys yn mynd i hela (oni bai bod y bardd yn dweud bod y gyllell yn golygu nad oes angen iddo fynd i hela yn yr oerfel, sy’n esboniad llai tebygol). Sylwer mai tymor hela hyddod yn Lloegr oedd 24 Mehefin hyd 14 Medi; a 14 Medi hyd 2 Chwefror ar gyfer yr ewig, gw. Roger B. Manning, *op.cit.* 23. Gan ei fod yn hela yr hydd osglog, na ddylid ond ei hela yn yr haf, tybed nad oedd yn mynd yn groes i gyfraith gwlad? Dylid nodi mor debyg yw’r disgrifiad o’r hela yma i’r disgrifiad o’r helfa anghyfreithlon a geir yn y testun Saesneg o’r 14g., *Parlement of the Thre Ages*, gw. Nicholas Orme, ‘Medieval Hunting: Fact and Fantasy’, yn *Chaucer’s England: Literature in Historical Context*, ed. Barbara Hanawalt (Minneapolis and London, 1992), 140.

- 69 **baslart** Benthyciad o’r S.C. *baselarde*, sef dagr neu gleddyf byr a wisgid wrth y gwregys, gw. y nodyn cefndir a hefyd GIG 240 a GPC 263. Diddorol nodi bod cofnod cyfoes i ryw John Spicer gael ei ddirwyo am dynnu baslart yn erbyn Henry le Spicer yng Nghaernarfon ym mis Medi 1397, gw. CCR 165.

gan Bowyslu Gwnâi’r cyfeiriad hwn i Ifor Williams ‘dybio mai Rhys ap Dafydd o *Bowys* biau’r cywydd. Nid oes bwynt i Rys Goch *Eryri* ddal y gelwid ei gyllell yn hardd gan wŷr Powys’, IGE² 396. Fodd bynnag, gellir cynnig mwy nag un rheswm dros y cyfeiriad hwn. Yn gyntaf, ymddengys mai gŵr o Bowys oedd y Dafydd ap Hywel y cyfeirir ato yn y gerdd hon, ll. 30n. Ymhellach, gall mai ergyd y ll. yw

bod y gyllell gystal â pheri bod ei henwogrwydd yn ymledaenu y tu draw i ffiniau Gwynedd nes i wŷr y dalaith nesaf fynd i sôn amdani. Gw. hefyd DGGD 111.

- 70 **peisledr** ‘Â phais ledr’, cyfeiriad at wain y gyllell. Ffurfa'r gair gymeriad cynganeddol llawn â *baslart* y ll. flaenorol, cf. GIG 51 (XI.15). Ar ffurf a diwyg gweiniau'r cyfnod hwn, gw. sylwadau Margrethe de Neergaard, *op.cit.* 51–61.

canol-llif Cyfuniad o *canol*, ‘rhigol sy'n rhedeg ar hyd llafn cleddyf’ (gw. GPC 414), a *llif* ‘llafn, hircul’, &c., gw. GPC 2177. Sylwer ar y disgrifiad canlynol o faslart canoloesol: ‘sometimes they bear two deep grooves in the centre that run from the hilt perhaps half or two-thirds the length of the blade’, gw. Harold L. Peterson, *Daggers and Fighting Knives of the Western World* (London, 1968), 20.

- 71 **nith** O gymharu llau. 73–4, 76 a 78 isod, anghytunir ag atalnodi IGE² 329 a chymerir bod *nith* yn ddibynnol ar *Rhawd y Clŷr* y ll. nesaf.

brwydr ddifreg a'i hegyr Am y syniad o ‘agor’ brwydr, cf. GLGC 124 (52.34) *agor rhyfel a gwayw eirias* a gw. GSRh 4.10n. Cymerir bod y rh.m. yn cyfeirio'n ôl at *brwydr*.

- 72 **Rhawd y Clŷr** Cleddyf Olifer, gw. YCM² 152 (ll. 13), benthyciad o'r H.Ffr. *Halteclere*. Y ffurf arferol yw *Hawd y Clŷr*, gw. GPC 1827 a G 146 d.g. *cleheryn*, ond dengys y gynghanedd mai *Rhawd* yw'r elfen gyntaf yma. Anodd esbonio'r ffurf hon, ond tybed nad camglywed ll. megis GDG³ 378 (143.44) *Rheitia' cledd, wŷr Hawt-y-Clyr* a wnaed? Fel arall, gall fod yn ymgais i wneud synnwyr o'r elfen ddiystyr *hawd*.

Cynghanedd groes o gyswllt ewinog sydd yma, ond ag *l* berfeddgoll yn hanner cyntaf y ll.

- 73 **hylltrem hwn** Rhestrir yr enghraifft hon o *hylltrem* yn GPC 1972 fel e. ‘llygadrythiad, hiredrychiad ...; edrychiad cas’, &c. Sylwer y ceir yr un ffurf fel a. yn GIG 51 (XI.8). Cymerir mai cyfeirio ymlaen at Gwrsews a wna *hwn* (eg. yw *cleddyf*).

- 74 **Cwrsews** Cleddyf Otfel, gw. YCM² 88 (ll. 29). Ceir y ffurf *Cyrseus* yn GIG 52 (XI.47) a *Cyrseus* yn GDG³ 377 (143.24).

carsiwn Benthyciad gyda chalediad y gytsain wreiddiol o'r S. *garrison*. Hon yw'r enghraifft gynharaf o'r gair yn GPC 1383 d.g. *garsiw*n, *carsiw*n.

- 76 **Caledfwlch** Cleddyf Arthur, gw. WM 459.32–3, a cf. uchod ll. 40n.

- 78 **undaer** Cyfuniad o *un* a'r e. hynafol *taer* ‘brwydr’, gw. CA 333 a GPC 3412.

Durendardd Cleddyf Rolant, gw. YCM² 26 (ll.29).

- 80 **Ysgot** Benthyciad o'r S. *Scot*; fel gelynion yr edrychid ar yr

Albanwyr yn y cyfnod hwn.

- 82 **isgell** Sef ‘cawl, potes, sew, greffi’, &c., gw. GPC 2037, yma’n drosiadol am waed neu wyar.

Ceir cynghanedd sain gadwynog a chynghanedd groes ddisgynedig yn y ll. hon.

- 83 **ysgipddwrn** Ystyr *ysgip* yma yw ‘cipio, cael gafael ar yn sydyn’, gw. GDG³ 540 a GPC 3836 d.g. *ysgipiaf*¹, a cf. ll. 87n. Y *dwrn* yw carn y gyllell.

angddwrn ‘Gafael, crafanc’ yn ôl GPC 49. Hon yw’r unig enghraifft.

ingddellt Cyfuniad o *ing* ‘gwasgfa brwydr’ a *dellt* ‘llafnau, (yn) ysgyrion’.

- 85 **ysgon** Gair anodd. Cadwyd y ffurf *esgon* mewn cywydd a briodolir i Fedo Aeddren, gw. CSTB 11 (IX.43–6): *Llyna dynged annedwydd, / Myn y saint, i minnau sydd: / Fy rhoi’n y byd, trymfryd draw, / A rhoi esgon i’m rhwysgaw*. Nid yw’r ystyr yn glir ac nis nodir yn GPC, ond y mae’n amlwg mai rhywbeth amhleserus ydyw. Fodd bynnag, nodir enghraifft Rhys Goch o *ysgon* yn GPC 3829 d.g. *ysgafn*¹. Gallai’r ymadrodd felly olygu ‘ysgafn [yn] y frwydr’. Ond ymddengys mai ffurf ddeheuol yw *ysgon* (< *ysgafn*), gw. WG 180. At hynny, y mae’r odl yn ateg i’r ffurf *ysgafn* yn ll. 89 isod.

- 86 **asau** Y mae’n debyg mai cyffelybu llafnau’r gyllell i ‘asennau’ a wneir yma, ond ceir delwedd gref iawn o’i ddeall yn llythrennol a’i gydio, efallai, wrth *ysgorn brwydr* y ll. flaenorol.

- 87 **ysgipiai** Ar *ysgipio* ‘torri ymaith’, gw. GPC 3836, lle y nodir yr enghraifft hon, a cf. ll. 83n.

Cynghanedd sain drychben, neu o bosibl dylid cymryd mai *f* ledlafarog sydd i *arf* yma.

- 88 **ysgydwydr** Cyfuniad o *ysgwd* ‘gwrth, hwp’ (gw. GPC 3253 d.g. *sgwd*) a *gwydr*.

- 89 **i’m llaw** Sef ‘yn fy llaw’, gw. GMW 199.

- 90 **esgud oll** Sef ‘cwbl gyflym’ neu ‘parod’. Ar y gystrawen a. + *oll*, gw. GMW 98.

ys Y gn. rhagferfol cadarnhaol, gw. GPC 3820 d.g. *ys*² a cf. ll. 92 a 16.7.

6

Yr oedd Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw yn un o’r ychydig feirdd y gwyddom iddo fyw trwy wrthryfel Glyndŵr.¹ I’r cyfnod cyn y

¹ Ceir golygiad o’r gerdd yn IGE² 157–9 (cerdd LIII). Ar Ruffudd, gw. GGL1 75–344.

gwrthryfel y perthyn y cerddi y gellir eu dyddio â sicrwydd; canodd i Owain ei hun yn wythdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac i uchelwyr eraill ym Meirionnydd a Phowys tua'r un cyfnod. Er nad erys cerddi y mae modd eu priodoli'n bendant i'r bymthegfed ganrif, gellir bod yn sicr iddo fyw trwy gyffro degawd cyntaf y ganrif honno. Efallai mai oddeutu 1420 y bu farw; os felly, dyna ddyddiad canu'r gerdd hon.²

Egyr y gerdd nid yn unig â mynegiant grymus o dristwch personol Rhys Goch ond hefyd â mynegiant o'i gred nad oes neb ym Mhowys yn cydnabod mawredd Gruffudd fel bardd yn gymaint ag a wna Rhys ei hun. Â Rhys yn ei flaen i ganmol barddoniaeth Gruffudd, a cheir llawer adlais o farwnadau beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn ei gyfeiriadaeth. Fel bardd serch y canmolir Gruffudd yn anad dim, a thrawiadol yw cyfeiriad Rhys (llau. 45–6) at y modd y byddai Eiddig yn ymfalchïo yn ei farwolaeth.

- 1 **Uchel ydd wyf yn ochain** Cf. GDG³ 344 (129.1) *Uchel y bûm yn ochi*.
- 2 **ariangloch** Am enghreifftiau pellach, gw. GPC 204. Arferid gynt ganu cloch wrth gludo'r corff i'r fynwent.
- 4 Digwydd y ll. hon hefyd fel pedwaredd l. ymateb Llywelyn ab y Moel, sef GSCyf 14.4.
- 7 **ytoedd** Ffurf amrywiol ar *ydoedd*, gw. GMW 138n2 a cf. 13.24n.
- 11 **neitio** Ar y ffurf *neitio* (sef 'neidio'), gw. GSC 17 a sylwer bod y gynghanedd yn ateg i'r ffurf yn GDG³ 155 (58.23) ac *ib.* 163 (61.37). Ar galedu o flaen *i*-gytsain, gw. GMW 13 a WG 183–4 ac yn arbennig ChO 53. Am ystyr y ffurf, gw. GPC 2564–5 d.g. *neidiaf*. Nid yw'r ergyd yn glir, ond gellir cynnig amryw bosibiliadau. Yn gyntaf, cofier bod neidio yn un o'r pedair camp ar hugain y canmolai'r beirdd eu noddwyr am eu meistroli, gw. y rhestr ar ddiwedd D a cf. 12.23. Gall *neidio* hefyd olygu 'ymosod, disgyn', felly gall mai cyfeiriad at Ruffudd fel rhyfelwr sydd yma, cf. ll. 63. Yn olaf, gall mai cyfeiriad at fywiogrwydd awen Gruffudd ydyw, cf. ll. 30n.
- Merddin** Ffurf gyffredin gan Gywyddwyr y 15g. ar enw'r bardd chwedlonol Myrddin. Gw. ymhellach TYP³ 458–62, yn enwedig 461, a CLC² 527.
- 13 **canllef** Tebyg mai cyfuniad ydyw o *can(t)* a *llef*, ond cf. GPC 413 *canlle*, *canllef* 'dolef, oernad', gydag enghreifftiau o'r 16–17g. ymlaen.
- 14 **gogyfoed** Am yr ystyr 'o'r un oedran, cyfoed', gw. GPC 1441 a hefyd GIG 212 lle yr awgrymir y gall fod iddo'r ystyr fwy cyffredinol o

² Dylid nodi, fodd bynnag, awgrym D.J. Bowen y gall fod y gerdd hon wedi ei chanu a Gruffudd eto'n fyw, gw. 'Siôn Cent a'r ysgwieriaid', LICy xxi (1998), 11. Tybed felly a yw ysgafnder llau. 45–6 yn cadarnhau hynny? Ond y mae difrifoldeb ymateb Llywelyn ab y Moel yn awgrymu mai marwnad ddilys ydyw. Trafodir y farwnad yn Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, i (Caerdydd, 1932), 95–6.

'tebyg i'w gilydd, cydymdeithion'. Ond y mae'r ffaith mai 'agos' gogyfoed ydoedd Rhys a'r modd yr ailadroddir yn y ll. nesaf o blaid derbyn yr ystyr lythrennol.

- 16 **Rhys** Sef Rhys Goch ei hun. Cyfeiriai'r beirdd yn aml atynt eu hunain yn y trydydd person.
- 17 **grawn** Cyfeirir yma at farddoniaeth Gruffudd fel grawnwin ar blanhigyn ieuanc (*himp*), a Rhys yn unig yn awr sydd i'w chynnal.
- 18 **goreuchwimp** Cyfuniad o *gorau* a *chwimp*, benthyciad o'r S. *whim*, gw. GPC 855–6 d.g. *chwim*², *chwimp*². Yr ystyr sy'n gweddu orau yw 'trawiad, cyffyrddiad'. Gw. hefyd 9.50n.
- 20 **gweadau** Yn drosiadol am farddoniaeth, cf. GDG³ 427 (III.21–2) *Rhof innau, gweadau gwawd, / Maddeuant am a ddywawd* (marwnad Dafydd ap Gwilym gan Ruffudd Gryg); GIG 90 (XXI.23–4) *Bwrier a wëer o wawd / A'i deuslaen ar y daflawd* (marwnad Dafydd ap Gwilym).
- 22 **eithr ei gost** Nid yw ergyd y cymal yn glir. Ai dweud y mae Rhys nad oedd neb cystal â Gruffudd, er bod ambell un yn hawlio'r un tâl (neu 'gost')? Cf. hefyd sylwadau Gruffudd ei hun yn ei gywydd i Hywel ap Meurig Fychan o Nannau a Meurig ei frawd, yn enwedig GGLl 14.1–4 *O Dduw, ai pechod i ddyn / Er mawl gymryd aur melyn? / Da ydyw'r swydd, daed â'r sâl, / Os Duw ni ddengys dial.*
- athro gystal** Er mai eg. yw *athro*, treigilir *cystal* mewn gosodiad neg., gw. Treigladau 66–7. Awgrymir yn IGE 351 y dylid diwygio i *Uthr y cost, athro cystal* am na ddisgwylir i'r ffurf gyfartal dreiglo yn y gystrawen hon. Ar y duedd hon i wrthsefyll treiglo, gw. Treigladau 261–2, 439–41, ond sylwer nad yw'n rheol bendant. Cf. yn arbennig GSC 10.17–18 lle y treigilir *cystal* ar ôl e.ll. mewn cwestiwn y disgwylir ateb neg. iddo.
- 25 **lluniaw draw wrth ei droed** Cf. 3.36n *A drig wrth fesur ei droed*. Y cyfoethog yn unig a allai fforddio esgid a wnaed yn arbennig ar eu cyfer.
- 26 **Llais organ bedw llys irgoed** Cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o'r llwyn celyn yn GDG³ 83 (29.17) *Cadeirgoed lle cad organ*. Adleisir y cyfeiriad at yr organ gan Lywelyn ab y Moel yn ei ateb yntau, gw. GSCyf 14.28n.
- 28 **trebl** Benthyciad o'r S. *treble*, gw. EEW 120 a GPC 3570–1 d.g. *trebl*¹, sef un o rannau lleisiol arddull gerddorol a elwir yn *Faburden*, gw. Bethan Miles a David Evans, 'Rhai termau cerddoriaeth eglwysig yng ngwaith y Cywyddwyr', *Traeth cxlii* (1987), 132–4.
- 29 **gwaith yn iaith nos** Sef cân yr eos, aderyn sy'n enwog am ganu wedi'r machlud.

- 30 **canauw berw** Ar ddefnydd *berw* yng nghyswllt bwrlwm barddoniaeth, cf. GDG³ 427 (III.17–18) *Pwy bynnag, ddinag ddinam, / Ferw cerdd, a fu ar y cam* (marwnad Dafydd ap Gwilym gan Ruffudd Gryg).
- 32 **mwyalch** Cyfeirir yn ganmoliaethus at fwyalchod yng nghywydd Gruffudd i ferch, GGLI 8.10 *Mwyalchod ym margod mur*.
- 33–4 Cf. GDG³ 167 (63.7–8) *Bardd coed mewn trefngoed y trig—/ A bronfraith ar ir brenfrig*.
- 35 **pynciau** Ar *pwnc* ‘pwynt’ yna ‘y pwynt sy’n arwyddo nodyn mewn cerddoriaeth’, gw. GDG³ 495 a GPC 2942. Yr ystyr yma yw ‘nodau cerddorol’.
- llyfr Ofydd** Cyfeiriad, y mae’n debyg, at ‘Ars Amatoria’ (‘Y Gelfyddyd o Garu’) gan Ofydd, cf. GSRh 11.55 *Salm o hen gof llyfr Ofydd* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed) a GDG³ 134 (50.1) *Salm yw ‘nghof o lyfr Ofydd*. Ond cyfeirid hefyd at y cyfieithiad Cym. o *Bestiaire d’Amour* Richard de Fournival fel Llyfr Ofydd, gw. *A Welsh Bestiary of Love*, ed. Graham C.G. Thomas (Dublin, 1988), 11: ‘*Llyma lyfr a elwir llyfr Ovydd*’.
- 36 **pan ddoeth ei ddydd** H.y., pan fu farw.
- 40 **gwŷdd** Ffurf ar *gwëydd*, *gwehydd* ‘un sy’n gwau, ... yn ffig. cyfansoddwr barddoniaeth, plethwr cerdd’, gw. GPC 1652 a cf. GDG³ 24 (9.5–6) *Mi a dyngaf â’m tafawd / Ffordd y try dydd, gwehydd gwawd*.
- 41 **Gwynfyd mawr gan ŵr gwenfun** Cf. GDG³ 110 (40.10) *Gwynfyd gwŷr oedd ganfod gwen*.
- 43 **gyrrwyd gawr** Er bod ‘gyrrwyd dolef’ yn ystyr bosibl, y mae’n fwy tebygol fod y sangiad hwn yn golygu ‘achoswyd dolef’, gw. GPC 1797 d.g. *gyrraf*.
- 45–6 **llawenach ... / ... fu gan Eiddig** Am y syniad mai Eiddig yn unig sy’n llawen wedi marw gwrthrych cerdd, cf. marwnad Gruffudd Gryg i Rys ap Tudur, Bl B XIV 88 (41.62) *Na diddan neb ond eiddig*.
- 46 **mwg neddair** Nid yw’r ergyd yn glir. Os cyfeiriad at Eiddig ydyw, gellid deall ‘llaw mwg’ fel ‘crintachlyd, cybyddlyd’.
- 49 **nyf** E.prs. yw *Nyff* yn IGE², ond gwell ei ddeall yn e.c. ‘eira’, gw. P. Sims-Williams, ‘Irish elements in late medieval Welsh literature: the problem of Cuhelyn and *Nyf’, yn *Celtic Linguistics*, ed. Martin J. Ball *et al.* (Amsterdam & Philadelphia, 1990), 282–6 (yn arbennig td. 285). Gw. hefyd GGMD iii, 5.102n.
- 50 **caniad mydr** Cf. GSRh 7.1 *Fy rhwy geir Conwy, gorau caniad—mydr* (Rhisierdyn); GDG³ 81 (28.15) *Pob caniad mad mydr angerdd*.

- no chennyf** I'w gymryd ynghyd â llau. 45–6: *llawenach ... / ... fu gan Eiddig*.
- 53 **llyrf** Ffurff l. *llorf* 'post (yn enwedig post unionsyth yn ffrâm y delyn)', gw. GPC 2209 d.g. *llorf*¹. Ergyd y ll. yw bod y telynau eu hunain yn galaru ar ôl Gruffudd, cf. BI B XIV 87 (41.9–12) (Gruffudd Gryg).
- 55 **parawdd bâr** Am ddiffyg treigladau ar ôl ffurf 3 un.grff.myn y f., gw. Treigladau 218–19.
- 56 **deigr** Y mae'r ll. yn rhy fyr oni ddarllenir *deigr* yn ddeusill, neu ddiwygio a darllen *deigr*yn. Sylwer mai unsill yw *deigr* yn ll. 51.
- 57 **graenfedd** Cyfuniad o *graen* 'dychrynllud', y mae'n debyg, a *bedd*, gw. GPC 1522 a cf. 2.21n.
- 60 **Nudd** Un o'r Tri Hael, gw. 1.41n.
- 63 **bwyall** Fe'i defnyddir 'am fedr a chelfyddyd farddonol berffeithiedig Llawdden ac eraill o'r beirdd', gw. GPC 358, lle yr awgrymir mai tarddiad y traddodiad, efallai, yw cywydd Guto'r Glyn i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drefnewydd, gw. GGI² 113 (XLII.45–8) *Swrðwal, waisg saer dilesgerdd, / Bu'n bwrw coed bôn a brig cerdd. / Llawdden â'i fwyell eiddaw / Ni âd gwýdd deunydd lle daw*. Ymddengys fod yr enghraifft hon gan Rys Goch yn gynharach gan mai beirdd o genhedlaeth iau a enwir gan y Guto. Ond sylwer ei bod yn bosibl fod y beirdd dan sylw, sef Guto'r Glyn, Llawdden, Hywel Swrðwal ac, y mae'n debyg, Gwilym ab Ieuan Hen, wedi cydoesi â Rhys am gyfnod. Adleisir y cyfeiriad hwn gan Lywelyn ab y Moel yn GSCyf 14.21 *Bwyall y gerdd a bioedd, / Brau lifiad ar doddaid oedd, a gw. ib.n.*
- 64 **Gwlyddien Saer** Y gŵr a adeiladodd Ehangwen, neuadd Arthur, gw. CO³ 10 (ll. 263), 39 (llau. 1124–5) (y ffurf *Ghwyddyn* a geir yno) a cf. 12.39n. Ar y cyd-chwarae rhwng delweddu o fyd y saer a rhai o fyd y beirdd, gw. Morgan T. Davies, 'Dafydd ap Gwilym and the Metaphorics of Carpentry', CMCS xxx (Winter 1995), 67–85.
- 66 **plethu** Cf. 3.33–4n.
marneisiaith Ni cheir enghraifft arall o'r ffurf *marnais* yn GPC 2362 sy'n gynharach na'r 16g., ond ceir ffurfiau mewn *b-* ac *f-* o'r 14g. ymlaen, gw. GPC 1267 d.g. *farnais*.
- 69 **treigladau** Nodir yr enghraifft hon yn GPC 3580 d.g. *treigladau*², *treigliadau*², lle y cynigir yr ystyron 'crwydryn, ?trafodwr'. Ni cheir enghraifft o'r ystyr 'troad, cylchroad, ... rhediad', &c., cyn canol yr 16g., gw. *ib. treigladau*¹, *treigliadau*¹.
- 71 **Taliesin** Gw. ar 2.55n.
- 72 **aer Einion Yrth** Un o feibion niferus Cunedda Wledig a sefydlodd linach Aberffraw yn y 5g. oedd Einion Yrth, gw. TYP³ 341 a WCD

232. Am gyfeiriadau pellach ato gan y beirdd, gw. G 459. Cymerodd Ifor Williams mai *aer* ‘etifedd’ (gw. GPC 37 d.g. *aer*²) a geir yma gan gasglu fod Gruffudd Llwyd yn disgyn o Einion Yrth, gw. IGE² xii (ond sylwer bod atalnodi y dyfyniad a geir yno yn wahanol i’r hyn a geir yn y testun ei hun, gw. *ib.* 159 [ll. 10]). Nid oes modd gwirio’r honiad hwn, ysywaeth, a gall mai defnydd ffigurol o’r gair a geir yma. Fodd bynnag, ystyr arferol *aer* yn y cyfnod hwn oedd ‘rhyfel, brwydr’ (gw. G 12–13; GPC 37 d.g. *aer*¹). Gellid cynnig, felly, aralleirio fel a ganlyn: ‘[Un o’r un] natur daer [â] brwydr Einion Yrth’. Ond yr esboniad mwyaf tebygol yw mai chwarae ar enw taid Gruffudd Llwyd a wneir yma, a dyna n dderbynnir yn GGLI 77. Sylwer ar y cysylltiad rhwng Einion Yrth a Chaereinion ym Mhowys, gw. Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, ed. I. M. Williams (Cardiff, 2002), 75 a GSC 26.36n.
- 73 **blodeuyn y blaid** Cf 3.43n *blodeuoed blaid*.
- 74 **fflŵr d’lis** Benthyciad o’r Ffr. *fleur-de-lis* trwy’r S. *flour-de-lyce*, gw. GPC 1298 d.g. *fflŵr-dy-lis*. Yr ystyr wreiddiol oedd y lili fel dyfais herodrol, ond daethpwyd i’w ddefnyddio fel term o fawl. Sylwer mai ffurf ddeusill a geir yma.
- 75–6 **Adar... / ... Paradwys** Yr adar y credid eu bod yn trigo yn y nefoedd, gw. IGE² 360 a GPC 12 d.g. *adar*. Cyfeirir atynt hefyd yn DGG² 15 (IX.22) a GDG³ 84 (29.29).
- 76 Cf. GGLI 9.58 *Prydydd a’i geilw ‘Paradwys!’* (o gywydd Gruffudd Llwyd i’r haul i Forgannwg; gall fod Rhys Goch yn adleisio’r ll. honno) a GDG³ 326 (123.48) *Brydydd serch o Baradwys*.
- 77 **bardd cyfraith** Cf. GDG³ 56 (20.14) *A llyfr cyfraith yr iaith iawn* (marwnad Gruffudd Gryg). Y mae’n bosibl fod cryn dipyn o wybodaeth gyfreithiol gan Ruffudd Llwyd, gw. GGLI 87: sylwer ar ei gywydd i’r cwest ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn yn *ib.* cerdd 10. Canodd hefyd gywydd marwnad i Rydderch ab Ieuan Llwyd, dos-barthwr ac un o’r gwŷr mwyaf hyddysg yn y gyfraith yng Ngheredigion, sy’n cynnwys nifer o gyfeiriadau cyfreithiol, gw. GGLI (cerdd 13). Dengys nifer o gyfeiriadau yng ngwaith beirdd y cyfnod ddiddordeb yn y gyfraith, gw., e.e., GLIG 8.43–6; GSCyf 1.23n (Sypyn Cyfeiliog). Ond gellid hefyd atalnodi fel a ganlyn: *Bardd, cyfraith talaith, teulu*, gan gymryd bod yma gyfeiriad at y bardd teulu.
- talaith teulu** Cyfeirir yma’n ffigurol at Ruffudd fel *talaith*, neu goron, teulu. Efallai fod yma adlais o hen swydd y bardd teulu.
- 78 **Merddin** Gw. ar l. 11n.
- 80 **moliant coed** Gw. isod ll. 87n.
- 84 **lluniawdr** Cf. yn arbennig GDG³ 56 (20.13–4) *Lluniawdr pob deall*

uniawn.

- 85 **Perllan reiwl y moliant** Cf. GDG³ 424 (II.12) *Perllan cerdd, pâr llinon coch* (marwnad Dafydd ap Gwilym gan Fadog Benfras).
- 86 **pwyl ddelw** Gall olygu '[Un sy'n] ddrych o bwyll'; ond gall mai cyfeiriad at *Pwyll* o gainc gyntaf y Mabinogi sydd yma. Ar y defnydd o *delw* 'cyffelybrwydd', gw. GPC 927 a cf. DGG² 58 (XXXIV.13) *Delw eglwyswr dail gleision* am geiliog du, h.y. 'un megis eglwyswr dail gleision'.
- Cynddelw** Sef Cynddelw Brydydd Mawr, y mwyaf cynhyrchiol o Feirdd y Tywysogion a barnu wrth y cerddi a gadwyd, gw. GCBM i, GCBM ii. Cf. hefyd GDG³ 428 (III.42) *Cynddelwaidd ei weddaidd wawd* (marwnad Dafydd ap Gwilym gan Ruffudd Gryg).
- 87 **ceidwad allt** Ac yntau'n ogleddwr, efallai mai ystyr *allt* i Rys oedd 'bryn, llethr, clogwyn, rhiw' yn hytrach na 'coed, llechwedd coediog', gw. GPC 78. Cf. GCBM ii, 5.106 *Gôr oet gadyr y gadw riw*, a aralleirir *ib.* 1103 'Rhyfelwr a oedd yn wych i warchod rhiw'. Byddai rhiw neu allt yn ffurfio amddiffynfa naturiol ar faes brwydr, ond gall hefyd mai mangre serch yw'r allt yma.
- 89 **fy eurgrair fydd** Cf. llau. Gruffudd Llwyd ei hun: *Hwn a lestairs, f'eurgrair fydd, / Brad yn erbyn Ei brydydd* (GGLl 14.25–6).
- 91 **llaw hoff Ddafydd Broffwyd** Cymerir bod *hoff* yn goleddfu *llaw* a bod *Dafydd* yn treiglo'n feddal fel e.p. ar ôl eb., gw. Treigladau 107–8. Cyplysis y beirdd â Dafydd Broffwyd yn aml iawn oherwydd ei allu fel proffwyd a'i hyfedredd â'r delyn. Fe'i hystyrid yn fardd i Dduw, gw. TYP³ 328 am enghreifftiau pellach.
- 94 **prydydd Mair** Ni chadwyd cerdd gan Ruffudd Llwyd i Fair, er y cyfeiria ati yn ei gerddi i Dduw ac i'r Drindod, gw. GGLl cerddi 18 a 19.
- 96 **Pardwn hardd heb burdan hir** Credid yn y cyfnod hwn mai'r seintiau yn unig a âi ar eu hunion i'r nefoedd; byddai angen i bawb arall dreulio cyfnod yn y purdan i'w glanhau o'u pechodau. Ond yn naturiol, gwell fyddai gan y beirdd i'w noddwyr fynd yn syth i'r nefoedd, cf. sylwadau Eurys I. Rowlands, 'Dydd Brawd a Thâl', LICY iv (1956–7), 83: 'fe ddylesid cofio mai dymuniad cyson marwnadwyr y bymthegfed ganrif oedd bod yr uchelwr marw yn mynd i Nef, ac na fyddid yn sôn am y Purdan'. Byddai pardwn, sef maddeueb neu indwlgens, yn un modd o sicrhau hynny. Sylwer mai hon yw'r enghraifft gynharaf o'r gair yn GPC 2688.
- 97 **engylion fro** Cyfeiriad at y nefoedd.
- 98 **yno** I'w ddeall gyda ll. 95 *buan ydd êl*.

Y cywydd hwn yw ymateb cyntaf Rhys Goch i gyhuddiadau Llywelyn ab y Moel ynglŷn â marwnad Gruffudd Llwyd.¹ Gwylltiwyd Llywelyn gan sylw Rhys Goch nad oedd neb ym Mhowys a allai werthfawrogi awen Gruffudd Llwyd fel Rhys Goch. Gall mai camddeall syniadau Rhys Goch a wnaeth Llywelyn wrth ddod i'r casgliad hwnnw, ond ymatebodd gan geisio achub cam ei dalaith am y [g]air *rhyddwys am Bowys bant*. Aeth yn ei flaen i ddatgan bod yr awen yn eiddo bellach i Rys ap Dafydd o hil Iorwerth, sef, y mae'n debyg, y bardd y cyfeiriodd Gruffudd Llwyd ato yn 'Cywydd y Cwest' yn hytrach na Rhys Goch Eryri ei hun.² Daw ei ymateb i ben drwy ofyn i Rys roi ei nod ar gerdd Llywelyn, hynny yw ymateb iddi a rhoi barn arni gan erfyn arno *pâr ym glod gan glêr*.³

Ymetyb Rhys trwy ganmol Llywelyn ar y naill llaw a chan ofyn iddo pwy a barodd iddo farnu cywydd marwnad Rhys Goch. Dywed y dylai'r sawl hwnnw ymdawelu, ond os camddealltwriaeth oedd wrth wraidd anfonlonrwydd Llywelyn, ni fyddai Rhys yn gweld bai arno. Ond os rhyfyg a chamfalchder a oedd yn gyfrifol, yna dywed Rhys y byddai'n warth arno pe na bai'n ateb. Dywed Rhys mai bach iawn yw achos y gynnen rhwng y ddau fardd, a'r cwbl a wnaeth Rhys i ennyn llid y gŵr o Bowys oedd canu marwnad i *Ferddin Powys fawrddoeth* (ll. 38). Mynega ei farn nad yw'n gyfiawn i Lywelyn ddibrisio ei glod oherwydd un gair hynod neu anarferol.

Â rhagddo wedyn i holi Llywelyn ynglŷn â'i wybodaeth am darddiad yr awen. Dalia ati i gwyno am y sen a'r drygfoes a ddangosodd Llywelyn tuag ato, gan ddatgan nad efe a ddechreuodd farnu beirdd eraill. Wrth i'r gerdd ddod i'w therfyn, â Rhys yn fwy ymosodol, gan ddatgan mai cenfigen sy'n achosi goganu gŵr crefftus fel ef.

- 1 **llew brwydr** Yr oedd Llywelyn ab y Moel yn enwog fel ymladdwr, a hynny, y mae'n debyg, o ganlyniad i'w gywyddau rhyfelgar a'i ymlyniad posibl wrth luoedd Glyndŵr, gw. ymhellach GSCyf 78–81.

Peredur Un o arwyr y chwedlau Arthuraid, gw. TYP³ 480 am gyfeiriadau'r beirdd ato. Sylwer y cyfeirir at Edlym, cyfaill Peredur, yn ail l. ateb Llywelyn i'r gerdd hon, sef GSCyf 15.2n.

- 2 **terwyn** Profir gan yr odl mai *terwyn* 'tanbaid' sydd yma yn hytrach na *terwyn* 'ffyrnig, angerddol', cf. GIG 228, 357 a gw. GPC 3487.
- 3 **maer cerdd** Ar y syniad o fardd fel 'maer' barddoniaeth, cf. GLIBH 4.5 *Lluniaf arawl mawl can wyf maer—ar wawd* (Dafydd ap Gwilym) a gw. *ib.n* am enghreifftiau pellach.

¹ Ceir golygiad o'r gerdd hon yn IGE² 163–5 (cerdd LV), ac o gerdd flaenorol Llywelyn yn GSCyf cerdd 14, a thrafodaeth ami yn *ib.* 165–7.

² Arno gw. GSCyf 14.58–60n ac isod Atodiad 2.

³ GSCyf 14.72.

- 5–6 **Moel ... / ... Pantri y medd** Sef Moel y Pantri, tad Llywelyn. Y mae'n debyg fod yma chwarae ar ystyr lythrennol y gair *pantri*. Dywedir yn GSCyf 75 fod y cyfeiriad hwn yn rhoi 'esboniad ar y cyfenw', gan awgrymu bod tad Llywelyn wedi derbyn y cyfenw neu'r llysenw y *Pantri* oherwydd ei haelioni wrth ddarparu medd. Fodd bynnag, y mae dogfen Ladin yng nghasgliad Sweeney Hall (Croesoswallt) sydd bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cyfeirio at ŵr arall a rannai'r un cyfenw. Cofnodi rhodd o dir yn nhrefgordd Brocton yn arglwyddiaeth Cawres (swydd Amwythig bellach) a wna'r ddogfen. Rhoddwyd y tir ar 20 Mawrth 1426 gan *dauid del pantrey de pola* i Richard ei fab a Janet ei ferch. Yr oedd *Pola* yn ffurf gyffredin ar 'Welshpool', ac ymddengys felly mai gŵr o'r Trallwng oedd David del Pantrey. Byddai hynny'n ei leoli yn yr un ardal a'r un cyfnod â Llywelyn ab y Moel (er ei bod yn annhebygol mai ef oedd tad Llywelyn). Ymddengys hefyd mai cyfenw oedd *del Pantrey*. Gan hynny, y mae'n debyg nad yw *Pantri y medd* yn esbonio'r enw. Y mae tystiolaeth yr achau yn awgrymu bod Llywelyn ab y Moel yn perthyn i gyff Brochwel Ysgithrog (GSCyf 75), ac os felly ymddengys fod ei gangen ef o'r teulu wedi mabwysiadu cyfenw Saesneg. Y posibilrwydd arall yw mai teulu o Saeson oedd y teulu *del Pantrey* yn y lle cyntaf, a'u bod wedi ymgymreigio fel y gwnaeth sawl teulu arall yn y cyfnod hwn. Y mae hynny'n bosibilrwydd gogleisiol o gofio am gyfeiriadau Llywelyn at ryfela ar ran Owain Glyndŵr. Ar y ddogfen sy'n cyfeirio at y teulu *del Pantrey*, gw. 'Schedule of Manuscripts and Documents deposited by Major B.E. Parker Leighton, M.P. Sweeney Hall, Oswestry' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, d.d. [cyn 1934]), 2 (A2, 34^r).
- 6 **pwyntiwr** Yn ôl GPC 2952, 'person sy'n pwyntio', ond gall hefyd ddod o'r f. *pwyntio* 'pennu, penodi, gosod, trefnu, ordeinio', cf. GLGC 12 (1.419) *Tri ac Un lle pwyntir gwawd*.
- 7 **prisiaw** Tebyg mai'r ystyr 'rhoi gwerth ar, asesu' sydd iddo yma; cf. defnydd Guto'r Glyn o'r un gair yn ei ymryson â Hywel Dafî, gw. GGI² 177 (LXVI.25). (Hoffwn ddiolch i Dr A Cynfael Lake am y cyfeiriad hwn.)
- 11 **profadwy** Cymerir bod yr a. hwn yn ddibynnol ar *gŵr*.
- 13 **Ffawg** Sef Ffwg fab Gwarin, arwr y chwedl boblogaidd 'Fouke Fitz Warin' a luniwyd yn swydd Amwythig yn y 13g., gw. *Fouke le Fitz Waryn*, ed. E.J. Hathaway *et al.* (Oxford, 1975).
Cynghanedd sain ddwbl.
- 21 **brydbwyll brad** Gellid deall hwn yn oddr. *ni chynnydd*, neu o ddeall *cynnydd* yn fg., gellid deall y cyfuniad yn sangiad sy'n disgrifio *twyll*. Y mae amwysedd ai *prydbwyll* ynteu *brydbwyll* yw'r ffurf gysefin.

- 22 **ni bernir** Ar y diffyg treigladd meddal i *b-* yn dilyn y negydd *ni*, gw. WG 423; Treigladau 355–6; GMW 61–2.
- 23 **aseth rwyf** Yr ystyr debycaf i *rwyf* yma yw ‘rhwysg, balchder’ (gw. GPC 3114), a’r ergyd yw bod Llywelyn yn cynnal rhwysg fel y mae *aseth* neu lath yn cynnal to.
- 27 **clod** Mewn Cym.C. yr oedd yn aml yn eb. (gw. GPC 503 a cf. isod 8.62).
- 28 **tir y dreigiau** Cyfeiriad at gartref Rhys Goch yn Eryri ac yn arbennig, efallai, at Ddinas Emrys, gw. 11.40n.
- 29 **ysgithrog** Cyfeiriad naill ai at y dreigiau neu at natur ddanheddog y creigiau yn Eryri.
coethrwyf Yr ystyr ‘castell, neuadd’, sy’n gweddu orau i *rhwyf* yma (gw. GPC 3116, a cf. 10.12). Ai cyfeiriad sydd yma at Ddinas Emrys, cf. 11.23–4n?
- 31–2 **ni bu fawr ... / ... ceinfam y cynfyl** Dyweddiad diarhebol, cf. *Bychan yu mam y kynnyf*, ac *ychydic yw mam y kynnyf*, gw. GIG 298. Yr ergyd yw mai bychan iawn mewn gwirionedd yw achos y ddadl rhwng Rhys a Llywelyn.
- 37 **cof** Ar ystyr arbennig *cof* yng nghyswllt barddoniaeth, gw. GPC 536; cf. 6.35.
- 41 **llydan ei wyrdd** Cyfeiriad, y mae’n debyg, at y dillad gwyrdd y byddai’r beirdd yn eu derbyn yn rhodd gan eu noddwyr. Cf. GLIG 8.47–8 *Gwisgaw o befrlaw pob un, / Gwrdd roddion, gwyrdd o’r eiddun*.
- 44 **llyfr canon** Yr ergyd yw bod Gruffudd yn awdurdod ar ei faes, cf. ll. 51n. Gall mai cyfeiriad penodol at ei allu cyfreithiol yw hwn, cf. 6.77n a gw. GGLI 87 a GIG 33 (VII.4) a 216.
- 51 **llwyr lendyd llên** Ymadrodd sy’n drymlwythog o arwyddocâd crefyddol. Ystyr *llên* yma yw ‘llynyddiaeth, dysg, dysgeidiaeth’, term a ddefnyddid yn aml i gyfeirio at ddysg ysgrifthurol, Ladin ei hiaith, gw. GPC 2152. Ceir arwyddocâd crefyddol i *glendyd* hefyd yn yr ystyr ‘duwioldeb, sancteiddrwydd’, gw. GPC 1407 a gw. hefyd 3.95n. Cyplysir felly yr awen â dysg a moesau Cristnogol.
- 56 **awen o saith** Nid yw’r union arwyddocâd yn glir. Awgrymir yn GSCyf 173n2 naill ai fod yma gyfeiriad at y saith gelfyddyd y byddid yn eu hastudio ym mhrifysgolion yr Oesoedd Canol (ar y rheini, gw. IGE² xxx–xxxv a ODCC³ 1489) neu fod yr ymadrodd *o saith* yn cyfleu’r ystyr ‘pur, perffaith’. Posibilrwydd arall yw saith dawn yr Yrsbyd Glân, gw. *ib*.
- 57 **fflaw cerdd** Yn ôl IGE² 362, enw coeglyd ar Lywelyn yw hwn, sef ‘splinter of song’.

- 65 **Eudaf** Brenin Prydain a oedd â'i lys yng Nghaernarfon yn y chwedl 'Breuddwyd Macsen Wledig' (am olygiad ohoni gw. BMW). Gw. ymhellach GDEp 12.20n.
- 66 **Gwenwynwyn** Y tywysog o Bowys a roes ei enw i Bowys Wenwynwyn, gw. J.E. Lloyd: HW³ 583–4. Y mae'r bardd naill ai yn cymharu Llywelyn â Gwenwynwyn neu'n cyfeirio at gartref Llywelyn ym Mhowys.
- 69 **breichlwyf brochlwyd** Ac yntau bellach yn hen, fe'i disgrifia Rhys ei hun fel gŵr *brochlwyd*, sef yn llwyd fel broch neu fochyn daear. Daw *breichlwyf* o *braich* + *llwyf*, sef un ai ell. 'coed llwyfen' neu a. 'wedi ei wneud o bren neu risgl y rhain', gw. GPC 2243. Yr ergyd yw bod breichiau Rhys Goch yn grin a chrych fel rhisgl llwyfen.
- 71–8 Deellir y llau. hyn yn un frawddeg gyda ll. 73 yn sangiad a saif ar ei ben ei hun. Y mae hyn yn mynd yn groes i ddehongliad IGE² 165 sy'n deall llau. 71–2 fel brawddeg annibynnol ac sy'n cyplysu ll. 73 wrth lau. 74–8. Gellid cynnig aralleirio llau. 71–8 fel a ganlyn: 'Nid callineb yw i unrhyw un yn ei lencyndod, er ei fod yn cael ei yrru o bell (gŵr haerllug fydd dyn beiddgar digywilydd), ddangos am yn hir foesau drwg wrth henwr sy'n disgyn (arglwydd gwych Cynllaith) o foneddigion Gwynedd a'u cynnyrch, ac o lwyth (tylwyth a dwng [gwirionedd hyn]) talaith Powys (bu'n deilwng)'. Posiblwydd arall fyddai deall llau. 75–8 yn frawddeg annibynnol, ac os felly ni fyddai'r cyfeiriadau at Gynllaith a Phowys yn ymwneud yn uniongyrchol â Rhys Goch—ai cyfeirio at Owain Glyndŵr a wneir (cf. ll. 75n isod)? Tybed a oes cymhariaeth yma rhwng y gwrthdaro rhwng Rhys Goch (Gwynedd) a Llywelyn ab y Moel (Powys) ar y naill law, a'r gwrthdaro a fu rhwng Llywelyn ab Iorwerth (Gwynedd) a Gwenwynwyn (Powys) yn hanner cyntaf y 13g., gw. ByCy 305?
- 71 **o'i febyd** 'Yn ei ieuencid', sef cyfeiriad pellach at ieuencid Llywelyn.
- 72 **er ei gymell** Ai cyfeiriad yw hwn at ran Rhys ap Dafydd yn annog Llywelyn i ymateb i gerdd Rhys Goch yn y lle cyntaf? Sylwer bod ystyr gryfach i *cymell* nag sy'n gyffredin heddiw, sef 'gyrru, ysbarduno, cyffroi; gorfodi, hawlio, mynnu (tâl &c.)', gw. GPC 763.
- 75 **ceinllyw Cynllaith** Ai cyfeirio at Rys Goch a wneir yma (ond gw. 71–8n)? Ond Owain Glyndŵr a gysylltir gan amlaf â Chynllaith, gan mai yn y cwmwd hwnnw y safai ei lys, Sycharth, gw. R.R. Davies: ROG 131. Sylwer hefyd y gall *cynllaith* fod yn a. 'tyner, mwynaid, tawel; cwrtais, hynaws, gwenieithus, meddal' neu'n e. 'brwydr, cyflafan, lladdfa, difrod, distryw', gw. GPC 793 a cf. 2.113n. Nid amhosibl ychwaith mo'r ffurf *cunllaith* 'difrod, distryw', gw. GPC 630: cf. GGDT 11.3 *Draig balchryw, ceinllyw, cunllaith—gelynyon* (Trahaearn Brydydd Mawr); GCBM i, 15.31 *Och nad byw keinllyw*

Kynlleith. Cf. 2.113n.

- 78 **talaith Bowys** Ni lwyddwyd i olrhain cysylltiad agos rhwng Rhys Goch a Phowys (ond cf. llau. 71–8n). Cofier bod Cynllaith (gw. ll. 75n) yn yr hen Bowys.
- 79 **byw ddiddos** Nid yw'r ergyd yn glir yma. Ystyr sylfaenol yr a. *diddos* yw 'heb ollwng dŵr neu leithder', &c., wedyn 'didwyll, cywir, ffyddlon', gw. GPC 969. Gall hefyd fod yn e. 'cysgod, lle diddos'. Tybed a ddylid ei ddeall gyda *byw* yn adf. 'yn fywiog a chywir'?
- 88 **ar gyrrau gro** Sef 'ar lan y bedd'. Defnyddid *gro* yn gyffredin iawn i olygu'r bedd, gw. GPC 1533. Cyfeirir at y bardd yn canu marwnad y gŵr marw.
- 89 **prid** Yr ystyr sylfaenol yw 'costus, drud, drudfawr, uchelbris', ond yma gyda'r ystyr bellach o 'yn golygu colled neu aberth, wedi ei brynu'n ddrud', gw. GPC 2882.
- 97 **o'r buost** Sef 'os wyt wedi bod', gydag *o'r* yn gywasgiad o'r cys. *o* a'r gn. perffeithiol *rhy*, gw. GMW 240.
- crair** Ar yr ystyr 'un annwyl', gw. GPC 579 a cf. GSCyf 15.17n, 16.39.
- 98 **gem Arthur** Ar *gem* yn yr ystyr ffigurol o 'anwylyd, trysor (am wŵr neu wraig)', gw. GPC 1391. Nid yw'n debygol fod yma gyfeiriad at len Arthur, un o 'Dri Thlws ar Ddeg Ynys Brydain', gw. TYP³ 263–4.
- 100 **diriaid** Parchus fu agwedd Rhys Goch at Lywelyn ab y Moel yn ystod y rhan fwyaf o'r gerdd hon, ond y mae'r diweddglo hwn yn bwerus iawn mewn cymhariaeth.
- dyred i iawn** Cf. y dywediad *dyfod (dod) i'r iawn*, sef 'to come to the right way (of thinking, acting), repent, recover (faith or moral rectitude)', gw. GPC 936 lle y daw'r enghreifftiau cynharaf o'r 16g.

8

Yn y gerdd hon, sef ail ateb Rhys Goch yn yr ymryson â Llywelyn ab y Moel, cawn fynegiant llawn gan Rys o'i syniadau ynglŷn â tharddiad yr awen a'i natur ddwyfol.¹ Wedi'r camddeall ynglŷn â marwnad Gruffudd Llwyd, cydnabu Llywelyn ei fod ar fai i raddau ond hefyd ymatebodd i gwestiynau Rhys ynglŷn â hanes yr awen. Egyr ateb Rhys gyda gwahoddiad i Lywelyn ddod i ymweld ag ef *Ar oer garreg yr Yri* (ll. 7) ac i brofi ei nawdd ef ei hun. Canmola Rhys ateb y bardd ieuanc gan ddweud na ddylid dibrisio cerdd ar gyfrif un gair yn unig ac â rhagddo i ddatgan ei farn ei hun

¹ Ceir golygiad o'r gerdd hon yn IGE² 169–72 (cerdd LVII), ac o gerdd flaenorol Llywelyn ab y Moel yn GSCyf cerdd 15, a thrafodaeth arni *ib.* 173–6.

ynglŷn â tharddiad yr awen. Edrydd sut y bu i Dduw ddangos yr awen i Adda am y tro cyntaf yng Nglyn Ebron. Ymhellach, ffurfia tair llythren y gair *ave* (y cyfarchiad a roes Duw yng ngenau Gabriel pan anfonodd ef at Fair) lythrennau cyntaf y gair *awen* gyda'r llythyren olaf, fe ymddengys, i'w chael ar flaen y gair *nef*. Nid oes amheuaeth, felly, am werth yr awen farddol.

- 2 **Dyred ... tua'r graig** Y mae Rhys yn gwahodd Llywelyn i Eryri, ac efallai i Hafodgaregog ei hun.
- 3–4 **pen brawd Custennin / Fendigaid** Ar Gustennin Fendigaid, gw. TYP³ 318–19; WCD 157–8. Yn ôl Sieffre o Fynwy, ef oedd tad Custennin Fychan, Emrys Wledig ac Uthr Pendragon, tad Arthur. Yr oedd yn frawd i Aldwr, brenin Llydaw, ond nid ato ef y cyfeirir yma; Emrys Wledig sydd i'w gysylltu â'r hanesyn hwn. Ymddengys fod yma gymysgu rhwng y chwedl am y dreigiau a gladdwyd yn Ninas Emrys a man claddu Emrys ei hun, gw. ymhellach TYP³ 347 a cf. 11.23–4n.
- 6 **Ffaraon** Sef Dinas Emrys, gw. WCD 263–4; CLIL1 xxxv–xxxvi a 5 (llau. 134–6) *Sef ffuruf y gelwit y lle hwnnw gwedy hynny Dinas Emreis, a chyn no hynny Dinas Ffaraon Dande*. Ceir sawl ffurf ar yr e. yn yr amrywiadau, a *Ffaraddon* yn bur gyffredin.
- 8 **myged fawl** Ar *myged* 'anrhydedd, urddas, parch, gogoniant', neu a. 'anrhydeddus, urddasol, parchedig, gogoneddus', gw. GPC 2530. Os y cyntaf, aralleirier 'canmoliaeth anrhydedd', os yr ail, 'anrhydeddus ganmoliaeth'.
- 11–12 **gair mawr, a medd, / A gwin ...** Diddorol yw'r modd y mae Rhys yn ymgymryd â dyletswyddau bardd a noddwr yma, ac yntau'n uchelwr ei hun. Sylwer mai'r tri pheth hyn, sef gair, medd a gwin, yw'r tri pheth y dywed Rhys ei bod yn ddyletswydd ar farchog eu darparu i'w fardd yntau, gw. 9.40–1.
- 16 **brys ... bris** Ceir yr un trawiad yn ll. 28.
- 17 **A'r gair yn gyfiawn, nid gau** Cf. y ddadl a fu rhwng Rhys Goch Eryri a Siôn Cent ynglŷn â natur gelwyddog honedig yr awen, gw. ymhellach cerdd 11 a cf. isod ll. 83n.
- 28 **gosod** Gellir sawl ystyr i *gosod*, gw. GPC 1511; tebyg mai 'ymosodiad' sydd fwyaf addas yma.
- 32 **y rhom** 'Rhyngom', gw. GMW 59.
- 34 **oblegyd** Nid 'oherwydd' yma ond 'ynghylch, ynglŷn â', gw. GPC 2612 (hon yw'r enghraifft gynharaf o'r ystyr honno).
- awen blygain** Sef dechreuad cyntaf barddoniaeth.
- 36 **maes** Sylwer yn arbennig ar yr ystyron 'man yr ymleddir brwydr, cadle; brwydr ymladdfa, ymdrech, ymryson' a '(man cyfarfod) llys (barn)', gw. GPC 2313.

- 37 **dywedasoeh** / ... **i Rys Goch** Cymerir mai'r cerddorion yw goddr. y f. yma. Ceir sawl enghraifft gynnar o'r ymadrodd ansafonol bellach *dweud* i yn GPC 1152.
- 39 **y mae'r** Dywedid heddiw 'mai'r'.
- 43–6 **deucan mlynedd ... / ... a phumil / ... / Cyn y Sul Gwyn** Credai Rhys mai 5,200 o flynyddoedd cyn y Sulgwyn y cyflwynodd Duw yr awen i ddyn. Fel y dengys yr Athro Gruffydd Aled Williams, amcangyfrif a wnaed ar sail cyfieithiad y 'Deg a Thrigain' sydd wrth wraidd y gred hon, sef bod y byd wedi ei greu 5,200 o flynyddoedd cyn Crist, gw. YEPWC 273. Ceir y syniad hwn mewn gweithiau cronolegol Cristnogol cynnar megis 'Chronicon' Eusebius. Ond erbyn y Dadeni defnyddid amcangyfrifon gwahanol a wnaed ar sail y Beibl Hebraeg. Fel y nota'r Athro Williams, '[i]t is vain to speculate how Rhys Goch became acquainted with such recondite lore', gw. 'The Literary Tradition to c. 1560', HM ii, 563n376.
- 45 **ystiwart** Cymhariaeth drawiadol, a'r enghraifft gynharaf o ddefnydd ffigurol o'r gair a nodir yn GPC 3334. Yr ystiwart oedd y swyddog â chyfrifoldeb am weinyddu stad ei arglwydd. Hi oedd y swydd bwysicaf yng ngweinyddiaeth arglwyddiaethau'r Mers, gw. R.R. Davies: LSMW 206–7.
- 48 **taranau** Ceir y daran yn y Beibl fel amlygiad pwysig o nerth Duw, am enghreifftiau gw. GeirB 1359–60.
- 50 **Alffa** Llythyren gyntaf yr wyddor Roeg ac enw ar Dduw, gw. GPC² 178.
- 51–2 **Glyn ... / Ebron** Hen ddinas ychydig dros ugain milltir tua'r de-orllewin o Gaersalem yw Hebron, a man traddodiadol creu a chladdu Adda, gw. G 434 a GEO 3.52n am enghreifftiau.
- 57 **llathrnaf llwyd** Nid yw'n hawdd rhoi cyfrif am y ffurf *lathrnaf lwyd* a geir mewn rhai llsgrau. ac yn IGE² 170 (ll. 29). Adferwyd felly y darlenniad sy'n cadw'r gysefin.
- 59 **o rym oesoedd** Sylwer mai a. yw *grym* gan Rys Goch gan amlaf, ond dichon mai e. yw yma.
- 61–4 Sylwer bod y llau. hyn yn eisiau mewn nifer o'r copïau, ac y ceir synnwyr purion trwy symud yn syth o l. 59 i l. 65.
- 63–4 **a ac u ... / ... ac e** Parodd y llythrennau hyn gryn drafferth i'r copïwyr, gw. yr amrywiadau; dilyniir Ifor Williams a darllen y tair llythyren *a, u ac e*. Ffurfia'r rhain y gair Lladin *ave* 'henffych well', sef cyfarchiad Gabriel i Fair, gw. IGE² 364: 'O droi *Ave* y tu chwith, ceir *Eva*; mam y byd, a'i helynt. Ond *Awe*-n yw mam y gerdd, a hebddi hi ni cheid camp ar ganu, ac ni anesid Crist heb y rhan gyntaf o'i henw'. Yngenir *u* i odli efo *cu*, cf. 9.56n.

- 66 **Gabriel** Yr archangel a ymddangosodd o flaen Mair a dweud wrthi y byddai'n esgor ar Grist.
- 68 **a'i dug** Neu *a'u dug*, cyfeiriad naill ai ar y tair llythyren neu at y gair *ae*.
- 70 **ar** Ar *ar* yn golygu 'at' o flaen e.prs., gw. GMW 187.
- 71 **eurddellt** Tebyg mai addurn o ryw fath ydyw yma, gw. GPC 929 d.g. *dellt*.
- 72 **Mab goleuni mell** Sef yr Iesu. Duw a reolai'r mellt a'r taranau, gw. GeirB 961–2 a cf. uchod ll. 48n.
- 75 Ceir yma ddwy *r* yn ateb un, er yr hepgorir y fannod mewn sawl llsgr. (gw. yr amrywiadau).
- 77 **gwen** Gall mai'r gair hynafol *gwên* 'gweddi' (GPC 1634) sydd yma.
- 78 **da pyrth Duw** Gellir deall hyn mewn dwy ffordd: i. 'da yw pyrth Duw', sef 'gatiâu'r nef' (gw. GPC 2855 d.g. *porth*²); ii. 'da y darpara Duw' (gw. *l.c.* d.g. *porthaf*).
- 79 **Menw** Sef y cymeriad dewinol Menw fab Teirgwaedd a ymddengys yn y Trioedd ac yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', gw. TYP³ 448–9 a CO³ 77. Cyfeirir ato hefyd gan Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG³ 231 (84.31) *Na hud Menw, na hoed mynych, ib.* 405 (152.53–6) *Da y gwn, mwynwiw gystlwn Menw, / Ditianu nad wyt unenw / Â Meigen-Rys meginrefr, / Magl bloneg, heb ofeg befr* (ymryson â Gruffudd Gryg). Awgryma Ifor Williams y gall fod yma chwarae ar yr enw *Teirgwaedd* ynglŷn â'r tair llythyren, gw. IGE² 364.
- manol** Y ffurf *maenol* (gw. GPC 2310) a geir yn rhai o'r llsgrau. ac yn IGE² 171 (ll. 17), ond *manol* 'hardd, gwych, teg' yw'r un anhawsaf, gw. GPC 2343.
- 83 **doedaist** Neu o bosibl *dwedaist*, ffurfiau amrywiol deusill ar *dywedaist*, gw. WG 54.
- diau wawdydd** Sef 'bardd diffuant', cf. y ddadl am wirionedd a chelwydd mewn barddoniaeth yn yr ymryson â Siôn Cent. Gw. ll. 17n.
- 85 *l* yn ateb *r*.
- 88 **Beibl** O bosibl yn gyfeiriad ffigurol at Lywelyn fel 'gŵr o wybodaeth, awdurdod ar bwnc', gw. GPC 268.
- 91 **taith ddifagl** Deellir y cyfuniad yn adferfol oherwydd y treigladd meddal i *taith* yn y testun: 'ar daith ddifagl'. Yn ôl GPC 976, 'difrych-eulyd, pur, heb staen neu ysmotyn, di-fai, diargyhoedd, dihalog' yw'r ystyron sy'n gweddu i'r enghreifftiau o *difagl* sy'n gynharach na'r 19g.; ond dichon fod yr ystyr 'di-rwystr' yn gweddu'n well yma.
- Efa** Ymddengys fod y bardd yn cyfeirio at ran Efa yn y Cwmp, ond

yn nodi mai'r awen, ac nid Efa, oedd mam barddoniaeth.

- 95 **eursiamp** Ar *siamp* 'maes, arwyneb', gw. GPC d.g. *siamp*¹. Ai'r llythyr sydd ag arwyneb euraid? Sylwer y gallai *llythyr* olygu 'llythyr-en' yn y cyfnod hwn, gw. GPC 2284.
- 97 **Taliesin** Yr oedd yn hysbys fel daroganwr a phroffwyd; gw. 2.55n.
- 100 **naddwr cerdd** Ceir yr un cyfuniad gan Lywelyn ab y Moel, gw. GSCyf 15.66n.

awenyddaer Cyfuniad o *awenydd* ac *aer*; y mae'r ddwy elfen yn gyfoethog o amwys. Gall *awenydd* olygu 'awen' neu 'bardd', gw. GPC 241. Gall *aer* olygu 'etifedd' neu 'brwydr', gw. 6.72n. Felly gall *awenyddaer* olygu: i. 'etifedd bardd', cofier bod tad Llywelyn yntau yn ôl pob tebyg yn fardd; ii. 'etifedd yr awen', efallai'n golygu mai Llywelyn sydd wedi etifeddu awen Gruffudd Llwyd'; iii. 'brwydr barddoniaeth', cyfeiriad at yr ymryson ei hun efallai; iv. 'brwydr bardd', agos iawn ei ystyr at iii.

- 103 **mab Maccsen** Owain fab Maccsen Wledig. Ceir traddodiad yn ei gysylltu â Dinas Emrys a godwyd gan Robert Williams o un o lsgrau. Edward Lhuyd a ddyddiwyd i 1693 a'i gyhoeddi yn y *Cambrian Journal* (1859), 209–10 ac yn TYP³ 466–7: *A rhwng y Dinas a'r llyn (i.e. Llyn Dinas) y mae Bedd Sr. Owen y Mhaxen, yr hwn a fy yn ymladd a'r cawr a phellenau dur. Mae pannylau yn y ddaear lle 'roedd pob un yn sefyll i'w gweled etto. Mae rhai eraill yn dywedyd mae ymladd a saethau yr oeddynt a'r pannylau a welir heddiw yno oedd lle darfu uddynt gloddio i amddiffin i hunain, ond ni escorodd yr un mo'r tro. Pan welwyd y marchog (i.e. Owein) nad oedd dim gobaiith iddo fyw fawr hwy, fe ofynnwyd iddo ple y mynnei gael i gladdu, fy archodd saethu saeth i'r awyr, a lle y descynnai hi y gwnaent ei fedd yno.*

- 104 **gŵr briglwyd hen** Sef Rhys Goch ei hun.

- 105 **A chriaw clod, ochrawg gledd** O arddel y ffurfiau hynafol *criaw* ac *ochrawg* yma ceir odl fewnol gudd a chynghanedd sain gadwynog yn ogystal â'r gynghanedd groes amlwg.

9

Yn hwn, y trydydd cywydd ymryson rhwng Rhys Goch Eryri a Llywelyn ab y Moel, y mae'r ddadl yn troi o gwmpas yr hawl i nawdd Syr Wiliam ap Tomas yn llys Rhaglan.¹ Anfona Rhys gywydd i ofyn gwregys aur gan Syr Wiliam gan chwarae ar y syniad o gael seren wib neu gomed yn llatai drosto. Yr oedd Syr Wiliam yn un o wŷr amlycaf ei ddydd yn ne-ddwyrain

¹ Ceir golygiad o'r gerdd yn IGE² 173–5 (cerdd LVIII) ac yn CH i, 13–18. Ceir ateb Llywelyn ab y Moel yn GSCyf cerdd 16.

Cymru, a bu iddo ran bwysig yng ngweinyddiaeth sawl arglwyddiaeth yn y Mers rhwng 1421 a'i farwolaeth yn 1445.² Priododd yn gyntaf ag Elisabeth, merch Syr John Bluet a gweddw Syr James Berkeley. Trwyddi hi y daeth ystad Rhaglan i'w feddiant, ac yn 1430 fe'i prynodd hi'n barhaol am fil morc oddi wrth ei lysfab, Thomas Berkeley II. Yr oedd Elisabeth yn fyw o hyd yn Hydref 1420,³ ond ymddengys iddi farw yn fuan wedi hynny. Ail wraig Syr Wiliam oedd Gwladus ferch Dafydd Gam, gweddw Rhosier Fychan o Dretŵr, gŵr a laddwyd ym mrwydr Agincourt yn 1415.⁴ Meibion o'i phriodas gyntaf oedd Watgyn, Tomas a Rhosier Fychan, tri phenteulu a fu'n amlwg iawn ym myd gwleidyddiaeth a llenyddiaeth Cymru yn y bymthegfed ganrif. Buont yn gynghreiriaid agos i blant yr ail briodas, sef y genhedlaeth gyntaf i fabwysiadu'r enw Herbert. Cawn, fe ymddengys, gyfeiriad cynnar at y mab Wiliam (m. 1469), yn ddiweddarach Iarll Penfro, mewn cofnod sy'n ei ddisgrifio fel *chapman* yn Llundain yn 1440.⁵ Os yr un Wiliam Herbert yw hwn, yna gellid awgrymu dyddio priodas Gwladus a Wiliam i flynyddoedd cyntaf dauddgau'r ganrif.

Urddwyd Wiliam ap Thomas ei hun yn farchog ar Sulgwyn 1426 pan oedd, yn ôl pob tebyg, eisoes yn briod â Gwladus. Cyfeirir ato sawl gwaith fel marchog neu 'Syr' yn y gerdd hon, felly gellir ei dyddio i 1426 neu'n ddiweddarach. Dadleuodd Ifor Williams, ar sail y ffaith mai Syr Wiliam oedd siryf Morgannwg yn 1440 ac nad oes cyfeiriad at hynny yn y gerdd, mai diogel yw ei dyddio rhwng 1426 a 1440.⁶ Fodd bynnag, gwyddom yn awr i Wiliam ddal y siryfiaeth mor gynnar â mis Tachwedd 1434.⁷ Ond gan nad yw Rhys Goch, er enghraifft, yn rhestru unrhyw un o swyddi Maredudd ap Cynwrig yn ei farwnad iddo yntau, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar dystiolaeth negyddol o'r fath. Y mae'n debygol fod Ifor Williams yn nes at ei le wrth awgrymu bod y ddraig a ddisgrifir yn y gerdd hon yn gyfeiriad at y comed a welwyd yn 1433.⁸ Dyna'r dyddiad mwyaf tebygol ar gyfer y gerdd.

Ceir ambell gyfeiriad at wregysau aur gan y Cywyddwyr, er enghraifft GGI² 205 (LXXVIII.8). Er eu bod yn adlewyrchu'r ffaith mai gwregys aur oedd arwyddlun marchog, ceir cyfeiriadau atynt o gyfnod cynnar yng Nghymru, ac yr oeddynt yn gyfarwydd i ysgrifenywyr Cyfraith Hywel.⁹ Gwregysau ac ynddynt edafedd aur yw gwregysau aur y llyfrau cyfraith, a thebyg iawn mai am rywbeth tebyg y gofynnai Rhys Goch. Diddorol nodi y

² Arno, gw. R.A. Griffiths: PW i, 147–8; CH ii, 4–5; DWH i, 195–7, ii, 226–7; GSCyf 182n4.

³ R.A. Griffiths: PW i, 132.

⁴ Arni, gw. ll. 56n.

⁵ WWR² 46.

⁶ IGE² xl.

⁷ R.A. Griffiths: PW i, 148.

⁸ Comed 1433 oedd y fwyaf trawiadol yn y cyfnod hwn, gw. Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', HM ii, 563n738.

⁹ Gw. GMWL 177 am enghreifftiau.

darlunnir Syr Wiliam ap Tomas ar ei feddfaen yn y Fenni yn gwisgo cadwyn SS y Lancastriaid;¹⁰ tybed a oes awgrym o hynny yn y cerddi hyn? Pa beth bynnag yw union arwyddocâd y gwregys, y mae'r ddyfais o'i uniaethu â'r ddraig goch (neu gomed) yn hynod effeithiol wrth i'r disgrifiad o'r naill ymddodi'n ddisgrifiad o'r llall.

- 1 **Y ddraig, bab arynaig bobl** Ystyr ffigurol 'pennaeth, arweinydd' sydd i *pab* yma, gw. GPC 2662. Gellid esbonio'r treigladau o *pab* fel enghraifft o e.c. mewn cyfosodiad â'r eb. *draig*, gw. Treigladau 125. Ond yma darllenir *bab arynaig bobl* yn sangiadol, 'pennaeth pobl ddychrynedig'. Cf. GGDT 6.80 *Maig un arynaig, prif ddraig priawd* (Gwilym Ddu o Arfon) a cf. GSCyf 16.57 *Â'r ddraig arynaig rawnir*.
 - 4 **cwrelbais** Sef arfwisg o liw coch, cf. yr hyn a ddywed yr OED² d.g. *coral* (cf. GIG 320): 'Historically, and in earlier literature and folklore, the name belongs to the beautiful red coral, an arborescent species, found in the Red Sea and Mediterranean, prized from times of antiquity for ornamental purposes, and often classed among precious stones.'
- [yr] **Alban** Ymddengys fod y bardd yn disgrifio comed a ddaeth o gyfeiriad y gogledd. Digon prin yw defnydd y Cywyddwyr cynnar o'r enw Alban.
- 5 **lleï caid cawdd** 'Lle y ceid digofaint'; mynegiant, y mae'n debyg, o anfodlonrwydd y bardd â sefyllfa'r Cymry, neu'r Brytaniaid.
 - 11–12 **cenedd ... / Gamber** Sylwer bod y darlenniad hwn yn torri ar draws aceniad arferol cynghanedd sain acennog yn ll. 11. Cyfeirir yma at y Cymry, cf. 4.61n. Yr oedd Camber yn un o dri mab Brutus. Yn ôl y Brut, rhannwyd Ynys Prydain rhyngddo ef a'i frodyr Locrinus ac Albanactus. Rhoddwyd y tir y tu draw i Afon Hafren i Gamber, ac enwyd y wlad honno yn Gymru ar ei ôl, gw. RB 60 a WCD 97.
 - 11 **gair a'm pair porth** Nid yw'r ergyd yn gwbl glir, ond ymddengys mai cyfeiriad sydd yma at y cymorth neu gynhorthwy y gobeithia Rhys ei dderbyn o ganlyniad i ganu'r gerdd hon. Cf. GIG 95 (XXII.77–8) *Gweddïo Pedr, gwedd eorth, / Y bûm, canaf gerdd am borth*.
 - 14 **y ddraig goch** Arwydd traddodiadol y Cymry; gw. CLC² 198–9.
 - 15 **elidr** Yn ôl GPC 1208, un ai ffurf ar *elydn* 'pres, efydd' neu fenthyciad o'r H.Ffr. *eleutre*, S. *electre* 'metel cymysg'. Dyma'r enghraifft gynharaf a gofnodir yno.
- cerdd fagl cof** Gall *flagl* yma gynrychioli un o ddwy ffurf gysefin: i. *bagl* (o'r Llad. *baculus*) 'ffon swyddogol abad, esgob, neu archesgob; ffon gnwpa', &c., gw. GPC 249; ii. *magl* (o'r Llad. *macula*) 'noose,

¹⁰ R.A. Griffiths: PW i, 148.

snare’, gw. GPC 2317. O gofio’r cyfeiriad at y *ddraig, bab* yn ll. gyntaf y gerdd, nid amhosibl mo ystyr i., er nad yw’r ergyd yn glir; gwell efallai yw ystyr ii. Cynigir yn betrus aralleirio ‘rhwyd [sy’n dal] cerdd [a chanddi] ddeunydd barddoniaeth’, cyfeiriad o bosibl at y sylw mawr y byddai seren wib yn ei ddenu.

- 16 **taradr** Cf. disgrifiad Llywelyn ab y Moel yn GSCyf 16.65: *A’r ddraig gadr daradr dyrys*.
- 17 **rhodol** Efallai mai’r ystyr ‘padl, rhwyf’ sy’n gweddu orau yma i’r darlun o gomed yn symud trwy’r awyr, gw. GPC 3085 d.g. *rhodl, rhodol*¹. Ond gall mai *rhodol*² ‘crwydrwr, bardd’ (fel yn 2.61) sydd yma.
- 19 **Cyfeiria fal cyfarwydd** Cf. GDG³ 301 (114.31) *Cyfeiria’r wybr cyfarwydd*. Rhestrir yr enghraifft hon o *cyfarwydd* yn GPC 685 o dan yr ystyr ‘arweinydd, tywysydd’, &c., ond o gofio mai dwyn neges i Raglan a wna’r ddraig y mae’r ystyr ‘chwedleuwr, ystorïwr’ hefyd yn addas.
- 21–2 **naw ... / deglofft ar urddediglys** Y *llofft* neu *lofft* (gall y naill neu’r llall fod yn ffurf gysefin, gw. EEW 178) oedd yr ystafelloedd a ffurfiai lawr uwchben lefel y neuadd, lle yr oedd ystafelloedd mwy cysurus na’r arfer wedi eu neilltuo ar gyfer yr uchelwr a’i deulu, gw. Enid Roberts, ‘Tŷ pren glân mewn top bryn glas’, TCHSDd xxii (1973), 29–31. Am y disgrifiad o leoliad y *llofft ar urddediglys*, cf. GIG 47 (X.42) *Llofft ar dalgrofft adeilgraff*. Gall *deglofft* yma gynrychioli cyfuniad o *teg* neu, yn fwy tebygol, *deg* + (*l*)*lofft*. Defnyddiai’r beirdd y rhif *naw* yn gyffredin i gyfleu helaethrwydd, a chofier hefyd y byddai’r cyfreithiau yn sôn am *naw tŷ* o fewn llys, gw. Iorwerth C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 113. Cf. y gor-ddweud yn y disgrifiadau canlynol gan Guto’r Glyn o gartref Syr Richard Herbert, mab Syr Wiliam ap Thomas, yng Ngholbrwg: GGI² 133 (XLIX.35–6) *Mae obry naw tŷ’n y tŵr, / Y mae fry ganty ac untwr*; a gw. Iorwerth C. Peate, *op.cit.* 132.
- 23 **lles Brynaich** Y mae’n amlwg mai ergyd ffafriol sydd i’r cyfuniad hwn er gwaethaf y ffaith mai gelynnion traddodiadol i’r Cymry oedd y Brynaich. Talaith Seisnig yn yr ardal sydd bellach yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a de’r Alban oedd Brynaich, a defnyddir y term yn gyffredin gan Iolo Goch i ddynodi Albanwyr, gw. GIG 182. ‘*Ysgottiaid*’ hefyd yw diffiniad D ohono. Ai cyfeirio at y llesâd a ddaw i ran y ddraig o’r Alban (ll. 4) yn Rhaglan a wna’r bardd? Sylwer mai canmoliaethus yw’r cyfeiriad at *dâr Brynaich* yn 2.12n.
- 24 **Gwent** Saif Rhaglan o fewn ffiniau hen deyrnas Gymreig Gwent.
- 25 **pwyl** Gw. 2.23n.

- da ddigawn** Ceid i'r cyfuniad hwn ystyr gryfach nag sy'n gyffredin heddiw, cf. 13.83n.
- 30 **rhuddlas** Cyfeiria'r a. hwn at y gwaed coch ar arfau glas yr ymladdwr, cf. ll. 47n.
- 31 **Tithau, glo canuau glân** Er gwaethaf y mynych gyfeiriadau yn y gerdd at dân a gwreichion, go brin mai at y tanwydd 'glo' y cyfeirir yma. Ceir sawl ystyr bosibl i *clo*, gan gynnwys 'amddifynnwr' a 'plethiad neu gyfatebiaeth mewn ll. o gynghanedd', gw. GPC 501 a cf. DGG² 56 (XXXV.5) *Clo mydr, clyw ei ymadrodd*. Cydwedda hyn yn eithaf â'r *canuau glân*, ond ymddengys o'r cyd-destun mai disgrifio'r ddraig a wna *clo* yma. Os felly, aralleirier 'uchafbwynt caneuon glân'.
- 32 **boltt** Cyfeirir yn IGE² 366 at gywydd brud a briodolir i Iolo Goch sy'n disgrifio'r ddraig goch yn ymladd â'r ddraig wen ac yn cael gafael arni: *Och i'r ddraig goch, orddrwg hir, / Os gollwng bollt asgellhir / Heb dorri, â pheri ffyrf, / Ei chynffon ...* (gw. Henry Lewis, 'Cywyddau brud', B i (1921–3), 302). Awgrymir y gall mai '*bag, belly*' yw'r ystyr, ond diau mai'r cynnig pellach mai benthyciad o'r S. *bolt* sydd yma sy'n gywir. Ceir enghreifftiau cynnar o *boltt* 'saeth' yn GPC 298, er nad oes enghraifft o'r ystyr fwy addas 'taranfoltt, maen cawod' cyn 1588. Ond yr oedd yr ystyr honno i'w chael yn S. o gyfnod cynnar, a diau mai dyna sydd yma.
- 33 **di aud** Ffurf dreigledig y rh.prs. *ti* yw *di*, gw. GPC 943 d.g. *di*⁵. Dywedir yno mai 'yn ddiweddarach digwydd yn amr. ar *ti* ar ddechrau brawddeg', gan ddyfynnu enghraifft o 1653. Ymddengys mai enghraifft gynnar o hynny sydd yma. Sylwer bod gorffwysfa'r gynghanedd yn disgyn ar y geiryn hwn. Posibilrwydd arall fyddai darllen *Diau*, er nad yw'r llawysgrifau o blaid hynny. Ceir hefyd y ffurfiau *dywed / dywaid* a *dianc / diainc* yn y llawysgrifau.
- 37 **cant** Gall mai'r rhifolyn neu'r e.c. 'torf, llu, mintai' sydd yma, gw. GPC 418 d.g. *cant*¹, *cant*³. Ond gan ystyried bod y ddraig yn hedeg trwy'r wybren a'r ffurfafen, addas iawn fyddai ystyr *cant*², sef 'cylch allanol, amgylchedd, cwmpasgylch, cantel; cameg olwyn; yn ddiw. cromen yr wybren, yr entrych'.
- 38 **gwregys ariant** Yn y cyfnod hwn urddid ysgwier â choler neu wregys arian, a marchog â choler aur, gw. IGE² 394 a cf. GHC 48 (XXVII.31–4) *Yn Llundain, llew mirain llwyd, / Uthr enwog, y'th ariannwyd; / A'th garu o drillu draw, / A'th yrru i Ffrainc i'th euraw* (priodolir y gerdd hon i Rys Goch Eryri yn IGE, gw. ymhellach uchod td. 40). Dadl Rhys yn y ll. hon ac yn ll. 42 yw gan mai marchog yw Syr Wiliam, nid yw ond yn addas iddo gyflwyno anrheg gyfwerth â'i statws, sef gwregys aur.
- 40 **medd i'r rhai a'i mawl** Delwedd hynafol a berthyn i fyd y canu

arwrol cynnar. Ar bwysigrwydd sylfaenol medd yn y farddoniaeth honno, gw. Marged Haycock, 'Medd a Mêl Farddoni', yn BaTh 39–59.

- 42 **goddaith** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 1425 d.g. *goddaith*¹ 'tân mawr, coelcerth...; teimlad neu nwyd angerddol, brwdfrydedd eirias'; ond gw. hefyd GPC 1426 d.g. *goddeg*², *gwaddeg* 'y geg neu'r agorfa y disgyn blawd a felir rhwng y meini drwyddi i'r cafn'. Y ffurf *goddaith* sydd i'r enghreifftiau cynharaf, cf. yn enwedig DGG² 63 (XXXIX.36) *Goddaith o'r awyr faith fawr*, (ond sylwer er hynny mai 'blaze' yw cyfieithiad Helen Fulton yn *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* [Llandysul, 1996], 120). Os felly, yr ergyd fyddai bod medd ac aur yn tywallt o law Syr Wiliam fel blawd o felin.
- 43 **Alecsander** Alecsander Fawr, brenin Macedonia 356–323 C.C. Cf. GHCLI 130 (LVIII.41) *Alecsander, faner faith* (Ieuan Dyfi) a gw. y n. *ib.* 159. Cf. ymhellach Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), 117 (25.110) *Ac Alecsander, y muner mawr*, *ib.* 504 (148.23) *Alecsander Funer Fawr*. Cf. 3.96n a 12.73n.
- 44 **cerddawr** Gall mai cyfeiriad yw hwn at Aristotlys, y gŵr a fu'n athro ar Alecsander ar ddechrau gyrfa'r ymerawdwr hwnnw. Er nad bardd i Alecsander ydoedd mewn gwirionedd, ceir cyfeiriad gan Wiliam Llŷn sy'n ategu'r dyb mai felly y syniai'r beirdd amdano, gw. Roy Stephens, *op.cit.* 151 (36.5–8): *Elistotlus weddus oedd, / Credadwy cyn cred ydoedd, / Bardd oll o buraid allu / Ar fawl Alecsander fu*. Ni wyddys am unrhyw rodd benodol a dderbyniodd Aristotlys gan ei ddisgybl, ond naturiol fyddai i fardd a oedd yn gyfarwydd iawn â'r traddodiad o roi a derbyn dillad a ffynnai o fewn y gyfundrefn farddol Gymreig ystyried rhodd o lurug yn dderbyniol gan arwr milwrol fel Alecsander. Gw. ymhellach ll. 45n ar *llurug*.
- 45 **llurug** Tebyg y dylid cysylltu'r cyferiad hwn â'r gerdd a elwid yn *Llvruc alexandyr*, sef y teitl a ychwanegodd ysgrifennwr anh. wrth gerdd yn Llyfr Taliesin. Y mae'r Athro Marged Haycock, ei golygydd diweddaraf, yn ei galw yn 'Erchi Nawdd y Drindod', gw. Bl BGCC 23–4. Nid yw'r gerdd yn crybwyll Alecsander, ond y mae wedi ei lleoli yn y llsgr. rhwng dwy gerdd amdano. Ceir hefyd weddi sydd wedi ei chadw mewn llsgr. o'r 15g. sy'n dwyn yr un teitl. Daw *llurug* o'r Llad *lorica*, a gweddïau 'neu swynion i'w hadrodd ar awr o gyfyngder neu berygl oedd y *loricae* Lladin a Gwyddeleg niferus a gyfansoddid yn yr Oesoedd Canol', gw. *ib.* 24, a hefyd Brynley F. Roberts, 'Rhai swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 197–213.
- plyg** Cyfeiriad at wneuthuriad y llurug, sef y ffaith fod iddi haen ddwbl o fetel, gw. yr enghreifftiau o *llurig (d)deublyg*, *llurig ddyblyg* yn GPC 2230. Yn achos GDG³ 371 (140.35) *A llurug ddiblyg*

ddybliad, ymddengys mai ergyd *diblyg* yw 'nad yw'n plygu o dan ymosodiad', ond sylwer hefyd mai *ddeublyg* yw darlleniad un o'r llsgrau.

plaid Am yr ystyr 'plât (metel)', gw. GPC 2815 a cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi o guras: GLGC 65 (23.46) *pleidiau fegis plu adar*.

47 **marchog rhudd** Fel 'y Marchog Glas o Went' yr adwaenid Syr Wiliam, gw. GSCyf 182, felly cymerir mai cyfeiriad sydd yma at y gwaed coch a fyddai arno mewn brwydr. Cf. ll. 30n.

49 **delltwr rhôn** Ystyr yr ymadrodd hwn yn ôl pob tebyg yw 'un sy'n chwalu gwaywffon yn ysgyrion'. Ond gall mai'r e.ll. *Rhôn*, sef Rouen yn Ffrainc, a welir yma. Cyfeirir at y dref hon yn fynych iawn gan y beirdd wrth sôn am ymladd yn Ffrainc, a gwyddom i Syr Wiliam dreulio rhan o 1440 yn Ffrainc yng nghwmni Dug Efrog, gw. WWR² 52, 75.

50 **deuchwimp** Cyfuniad o *dau* + *chwimp*, amrywiad ar *chwim* o'r S. *whim*. Yr ystyron sy'n gweddu orau yw 'symudiad, ysgogiad', gw. GPC 855–6 d.g. *chwim*², *chwimp*² a hefyd GDG³ 569 lle y cynigir yr ystyron 'delw, llun'.

51 **gwnai** Ffurf 2 un.pres.myn. *gwneuthur* (yn cyfateb i *gwnei* heddiw).

52 **llew** Cymerir mai dyma a gynrychiolir gan y ffurf dreigledig *lew*, ond gall hefyd mai *glew* 'arwr' a olygir.

54 **â rhôn d'euro, Rys** Cystrawen anodd, er bod y llsgrau. o blaid y darlleniad hwn. Gwnâi *i euro Rhys* well synnwyr o'i gymryd gyda *rod-di'r gwregys* ll. 52, ond byddai hynny'n difetha'r gynghanedd ac ni cheir y darlleniad hwnnw yn y llsgrau. Posibilrwydd arall fyddai darllen *arhôn' d'euro, Rys* (h.y., 'y maent yn aros dy euro, Rys'). Hoffwn ddiolch i Dr A. Cynfael Lake am yr awgrym hwn.

d'euro Cyfeiriad at urddo Wiliam yn farchog. Dylid ei gymryd, efallai, gyda *cnith*, ll. 52 (sef, o bosibl, y cyffyrddiad ysgafn â chleddyf a geid wrth urddo marchog).

Rhys Ai gwrth. anuniongyrchol *r(h)oddi* (ll. 53)? Disgwyliid yr ardd. *i* o'i flaen, er y gellid ei gywasgu yn llaf. olaf *d'euro*.

55 **gwawr** Yma 'arglwyddes', gw. GPC 1605.

56 **Gwladus** Sef Gwladus ferch Dafydd Gam, gwraig Syr Wiliam. Am ei hach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20. Syr Wiliam oedd ei hail wŷr; bu'n briod cyn hynny â Rhosier Fychan o Dretwŷr a laddwyd yn Agincourt ynghyd â Dafydd Gam yn 1415. Bu farw yn 1454. Ar ei chysylltiad â'r gyfundrefn farddol, gw. D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 60–93.

Fenus Y dduwies Rufeinig a gysylltid yn anad dim â chariad a phrydferthwch, gw. OCD³ 1587. Sylwer bod yr odl yma yn cadarnhau'r

terfyniad *-us* yn hytrach nag *-ws*.

- 57 **arglwyddes ferch** Ar y treigladd meddal yn y priod-ddull hwn, gw. Treigladau 125.
- 58 **Dafydd** Dafydd ap Llywelyn ap Hywel Fychan, neu Ddafydd neu Ddafi Gam, tad Gwladus. Gw. ymhellach l. 56n.
- 60 **cannwyll wlad Frycheiniawg** Ymddengys mai'r rheswm am y treigladd meddal i *gwlad* yw'r ffaith yr ystyrir y cyfuniad *gwlad Frycheiniawg* fel e.p. sy'n treiglo ar ôl yr eb. *cannwyll*, gw. Treigladau 111–12. Yr un rheswm sydd i gyfrif am y treigladd i *Brycheiniawg* yn dilyn yr eb. *gwlad*. Cf. GLIG 12.11 *Cain ei llun, kannwyll Wynedd* a gthg. GDG³ 294 (111.22) *Gorffwyll am kannwyll Gwynedd*. Gwelir treigladdau gwahanol yn yr amrywiadau.
- Brycheiniawg** Teyrnas annibynnol Gymreig ar un adeg; hanai Gwladus ferch Dafydd Gam o Fleddyn ap Maenyrch, un o'i thywysogion cynnar, gw. ll. 56n. Bu Dafydd Gam a'i gyndeidiau â lle amlwg fel swyddogion yn arglwyddiaeth Brycheiniog dros gyfnod maith, gw. R.R. Davies: ROG 225–7. Arglwydd Brycheiniog yn 1415 oedd Harri V, y brenin y bu farw Dafydd yn ymladd drosto yn Agincourt. Yn hen deyrnas Brycheiniog hefyd yr oedd Tretŵr, cartref Rhosier Fychan, gŵr cyntaf Gwladus.
- 66 **aur ddrych** Gall hwn gyfeirio at yr ffram o amgylch gwyr y drych neu at y drych ei hun, cf. diffiniad GPC 1091 'arwyneb caboledig (gynt o fetel)'.
- 67 **myn Pedr** Yr apostol Pedr, deiliad allweddau'r nef. Yr oedd tyngu llwon wrth ei enw yn gyffredin iawn, e.e. GDG³ 101 (36.19), 381 (144.38).
- 69 **cloch y glod** Cf. GLIG 12.20 *Llywelyn Goch, gloch dy glod*; Peniarth 67 135 (LXXXVII.35) *My vi vydd klochydd y klod* (Hywel Dafi). Yr oedd *clod* yn gyffredin yn eb. yn y cyfnod hwn, gw. GPC 503.
- 73 **ffloch gadwyn gold** Ffurf f. yr a. *fflwch* 'disglair' yw *ffloch*, yma yn goleddfu'r eb. *cadwyn*. Grym a. sydd i *gold* hefyd. Fel lliaws o eiriau benthycyd sydd â g- yn y gysefin, y mae *gold* yn gwrthsefyll y treigladd meddal, gw. Treigladau 443. Dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair yn GPC 1448.
- mold a'i medd** Ergyd y cymal hwn yw mai mold o ryw fath sy'n rheoli (*meddu*) ffurf y gadwyn aur.
- 75 **ystola gri** Benthyciad o'r S. *stole* neu'r Llad. *stola* 'a narrow band fringed at the ends and often embroidered, worn by the clergy while officiating in public services', gw. IGE² 366; GPC 3336 d.g. *stol*^β (hon yw'r enghraifft gynharaf); cf. GLGC 114 (47.49–50) *Ystola werdd ddestl a wisg / o arianwaith ar wenwisg*. Cf. 16.103n. Ystyr *cri* yma

yw 'heb ei bannu', gw. GPC 594, IGE² 366.

- 77 **estyn** Ceir ystyr benodol gyfreithiol i *estyn*, sef 'cyflwyniad tir, &c. i feddiant person, sefydliad person yn briodor, rhodd, anrheg', gw. GPC 1251. Yr ystyr olaf a geir yma, a chymerir mai cyfeirio at y seren a wneir.
- pwys** Pwys o arian bath y mae'n debyg, cf. y *pound of nobles* a ystyrir yn swm sylweddol yn 'Piers Plowman', gw. D. Chadwick, *Social Life in the Days of Piers Plowman* (Cambridge, 1922), 69. Yn yr un modd, ystyrid bod morc, cf. 13.40n, gyfwerth ag wyth owns. Ond gall hefyd mai *pwys* '(gŵr o) awdurdod' sydd yma.
- 78 **enfys** Yn ogystal â'r ystyr gyffredin 'bwa glaw', gall hefyd olygu 'cylchyn (metel), amgarn, ffurel; rhwymyn; modrwy; torch', gw. GPC 1215, ystyron a fyddai'n addas iawn yma.
- 81 **Aur melyn gloyw ermyn glos** Benthyciad o'r S. *ermin, ermine* 'ffwr gwyn y carlwm' yw *ermyn*, gw. GPC 1236. Fe'i defnyddid i addurno gwisgoedd swyddogol a seremonïol, yn aml, fel yma, ynghyd ag aur, cf. TA 28 (V.31–2) *Aur main sydd, ermin a sêr, / Amis dros och, Meistr Roser, ib. 142 (XXXII.5–6) I'w euro'r âi wr o rent, / Aur ag ermin yw'r garment*. Benthyciad hefyd yw *clos* 'trwsus, llofrau, britsh', o'r S. *close*, ffurf dafodieithol ar *clothes*, gw. GPC 508 d.g. *clos*². Hon yw'r enghraifft gynharaf.
- 82 **ystinos** Ar *urael*, sef y defnydd a wnaed o *ystinos*, gw. GDG³ 457, GPC 3717. Fe'i hystyrid yn ddefnydd gwerthfawr iawn, ac yr oedd ganddo'r gallu i wrthsefyll gwres mawr.
- 83 **Da gweddai, Duw a'i gwyddiad** Cf. GDG³ 67 (23.1) *Duw gwyddiad mai da y gweddai*. Ymhellach ar *Duw a'i gwyddiad*, gw. Treigladau 368–9.
- 87 **dwyn y glod, hynod hawl** Am enghreifftiau pellach o'r trawiad *clod ... hynod*, gw. GDC 4.24 *Croyw hoyw hynod fawrglod Fur* (Dafydd y Coed), *ib. 14.31 clau y clywir clod hynod hir* (Y Proll); GLIBH 1.3 *Cyfaillt hynod glod a gludir—fwyfwy* (Llywelyn Brydydd Hoddnant).
- 88 **ar gerdd** Darlleniad IGE² 175 (ll. 29) yw *A'r gerdd*, ond yma cydir *ar gerdd* wrth *clod*, gan ddeall *ar gerdd* yn briod-ddull megis *ar gân, ar lafar, &c.*

10

Er ei fod yn hŷn na Llywelyn ab y Moel, bu Rhys Goch Eryri fyw i farwnadu ei gyd-ymrysonwr.¹ Ar yr un pryd canodd y Guto'r Glyn ifanc

¹ Ceir golygiad o'r gerdd hon yn IGE² 324–6 (cerdd CVII).

yntau i gwyno marw Llywelyn: *Mae arch yn Ystrad Marchell*.² Y mae'r ddwy gerdd yn dra thebyg mewn mannau, a cheir yn y ddwy y ddyfais gyffredin ym marwnadau'r beirdd o gymharu'r ymadawedig â beirdd mawr y gorffennol.³

Ond un o brif nodweddion cywydd Rhys Goch yw'r cyfeiriadau manwl at yr arwyddion wybrennol pan fu farw Llywelyn. Yr oedd Ifor Williams yn berffaith sicr o'u harwyddocâd wrth ddyddio'r gerdd i 1440: 'nid oes modd camddeall hyn: y flwyddyn y bu Llywelyn farw, digwyddodd diffyg ar yr haul a'r lleuad'.⁴ Yn wir, y mae'n anodd osgoi'r casgliad bod y cyfeiriadau yn rhai penodol ac y dylid eu hystyried yn ddisgrifiadau dilys o'r ffenomenâu a welwyd yn yr awyr adeg marwolaeth Llywelyn. Fodd bynnag, dylid ystyried y posibilrwydd mai cyfeiriad ffigurol at dywyllwch a diffyg a geir yma. Ceir sawl enghraifft o'r topos hwn yng nghanu'r cyfnod: yn ei farwnad i feibion Tudur Fychan, meddai Iolo Goch: *Hwyl ddu fal haul Iddewon, / Hud mawr y sydd ar hyd Môn; / Cell oer, y mae'n colli lliw; / Odidog o fyd ydiw*.⁵ Ac o'r un gerdd: *Mae cwmwl fal mwg gwymon, / Y mae clipsis fis ar Fôn*.⁶ O gyfnod ychydig yn ddiweddarach, cawn farwnad Hywel Daf i Wladus Ddu ferch Dafydd Gam a fu farw yn 1454: *Gan ddued yr holl wledydd, / Lliw du a dywylla dydd*.⁷ Rhaid cyfaddef nad yw'r un o'r rhain mor ddiamwys â chynnwys cerdd Rhys Goch. Fodd bynnag, ystyriaeth arall yw'r ffaith na chyfeiriodd Guto'r Glyn at unrhyw ddiffygion ar yr haul na'r lleuad yn ei farwnad yntau i Lywelyn ab y Moel. O gofio am yr argraff y byddai diffygion felly yn ei chael ar drigolion yr Oesoedd Canol a hefyd hoffter Guto o lunio cywydd yn seiliedig ar un ddelwedd estynedig, y mae'n bosibl fod i'r ffaith hon gryn arwyddocâd. Ni ellir profi dim y naill ffordd na'r llall, ond efallai y dylid oedi cyn derbyn y dyddiad 1440 yn ddigwestiwn.

- 1 **awyr** O dderbyn mai sillaf leddf sydd i *awyr* (gw. J. Morris-Jones: CD 238), ceid cynghanedd sain gadwynog yn ogystal â chynghanedd draws acennog yn y ll. hon.
- 2 **doctor** Y mae'n annhebygol fod ystyr fwy penodol nag 'athro dysgedig, doethur' i'r gair hwn, gw. GPC 1069. Cf. hefyd GDC 12.47n *doctor cerdd fad* (Ieuan Llwyd ab y Gargam) a GDG³ 426 (Marwnad

² Ceir golygiad o'r cywydd hwn yn GGI² 14–16 (cerdd V); hefyd IGE² liv–lvi.

³ Gw. GGI² 15 (V.41–2).

⁴ IGE² xl–xli. Am fanylion am ddiffygion ar yr haul, gw. Sheridan Williams, *UK Solar Eclipses from Year 1* (Leighton Buzzard, 1996), 4.3, 4.6, 5.9, 5.10. Bu diffygion ar 15 Ebrill 1409, 26 Mehefin 1424, 17 Mehefin 1433, a 3 Chwefror 1440. Nid oedd unrhyw un o'r rhain yn ddiffygion cyflawn yng Nghymru, er bod un 1433 yn arbennig o faith ac i'w weld yn gyflawn yn yr Alban a gogledd-ddwyrain Lloegr.

⁵ GIG 28 (VI.21–4).

⁶ *Ib.* 29 (VI.51–2).

⁷ CH i, 29 (7.49–50).

II.88) *Doctor clod, dicter a'i clyw* (Madog Benfras).

- 3 **pam y gellid cytgam** Dywed Ifor Williams nad yw'r testun yn ystyrllon a chynigia'r ddarlleniad *pam ymcenid*, gw. IGE² 395. Fodd bynnag, nid oes rhaid diwygio. Deallir *cytgam* yma'n fe., gw. GPC 822, yn yr ystyr 'cellwair, chwarae'. Gofyn a wna'r bardd sut y gallai neb gellwair pan gollodd yr haul ei oleuni a bu farw Llywelyn ab y Moel.
- 4 **y nos arall** Sef 'y nos o'r blaen', gw. GPC 2597.
- 6 **ei goleuni** Eb. oedd *haul* mewn Cym.C.
- 10 **digrifddoeth grym** Gall y naill a'r llall o'r geiriau hyn fod yn a neu'n e. Ar *doeth* fel e. 'gŵr doeth', gw. GPC 1071, ac ar *grym* fel a. 'grymus, nerthol', gw. GPC 1540 a cf. GSCyf 15.17.
- 15 **gloywbab** Cyfuniad o *gloyw* a *pab* mewn ystyr ffigurol. Cf. GGI² 15 (V.48) (marwnad Llywelyn ab y Moel): *Pwy biau gwawd tafod hardd, / Pab Rhufain llyfr pob prifardd?*
- 20 **Camber** Gw. 9.12n.
- 24 **o Fynyw i Fôn** Sef 'o Dyddewi i ynys Môn', h.y., ledled Cymru.
- 26 **Merddin** Gw. 6.11n.
- 27 **Taliesin** Y cynfardd a gyplysir yn aml â Myrddin, gw. 2.55n.
- 28 **tir Cynfyn** Sef Powys. Un o gyndeidiau llinach frenhinol Powys oedd Cynfyn ap Gwerystan, gw. EWGT 95 *et passim*. Ychydig a wyddys amdano o'i gymharu â'i fab Bleddyn (m. 1075), ond y mae cyfeiriadau ato gan y Cywyddwyr yn ddigon cyffredin, e.e. GLM 305 (LXXXV.39); GDID 18 (7.47); GLGC 410 (187.22). Am enghreifftiau cynharach, gw. GSRh 6.14n.
- 32 **Gwynedd a Phowys** Dengys tystiolaeth ei gerddi mai ym Mhowys y canai Llywelyn ab y Moel yn bennaf, er y gall fod cerddi coll ganddo i noddwyr o Wynedd.
- 35–6 **Ystrad ... / Marchell** Yr abaty Sistersaidd ger y Trallwng a sefydlwyd c. 1170 gan Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, gw. CLC² 811–12.
- 48 **Gruffudd Llwyd** Sef Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw (gw. GGLI) y bardd o Bowys y bu'r farwnad iddo gan Rys Goch Eryri yn sbardun i'r ymryson rhwng Rhys a Llywelyn ab y Moel.
- 50 **merch** Anodd penderfynu rhwng y darlleniadau *merch* a *Mair* yma. Y cyntaf a dderbynnir, yn bennaf ar sail y ffaith mai fel bardd serch y cadwyd cof am Lywelyn, yn enwedig o ganlyniad i'w berthynas ag Euron. Ceir amryw o gyfeiriadau ato fel bardd serch ym marwnad Guto'r Glyn, ond sylwer ar GGI² 16 (V.66) *Ancr i Fair yn y côr fydd* (dylid cofio y cysegrid holl eglwysi'r Sistersiaid i Fair). Efallai mai'r cyfeiriad at Fair yn ll. 52 sy'n gyfrifol am y darlleniadau amrywiol.

- 53 **Dafydd ap Gwilym** Y bardd nodedig o Geredigion, gw. GDG³; CLC² 156–7.
- 54 **Madog Benfras** Yr uchelwr o fardd o Faelor a farwnadodd Ddafydd ap Gwilym, gw. CLC² 485.
- 55 **Gruffudd Gryg** Y bardd o Fôn y bu Dafydd ap Gwilym yn ymryson ag ef, gw. CLC² 291.
- 56 **Deilwng o waed y dalaith** Cf. LlyB 111 (XIII.18) *o deilwng waed y dalaith* (?Ieuan ap Gruffudd Leiaf).
- 57–8 **Rhys ... / fab Dafydd Llwyd** Bardd na wyddys llawer amdano, ond y mae'n debyg mai'r un ydyw â Rhys ap Dafydd ab Iorwerth, gw. GSCyf 14.58–60n, y nodyn cefndir i gerdd 7 uchod ac Atodiad 2.
- 61 **Iolo** Sef Iolo Goch, y golygir ei waith yn GIG.
- 62 **Ithael** Gall mai Ithel ap Robert yw hwn, noddwr a pherthynas Iolo Goch. Ceir nifer o gyfeiriadau at Iolo ac Ithel gan feirdd diweddarach, gw. GIG 264–5. Ond gan mai rhestr o feirdd sydd yma, efallai ei bod yn fwy tebygol mai cyfeiriad at Ithel Ddu ydyw, bardd o'r 14g. ac awdur 'Cywydd y Celffaint'. Gw. GGRG 143.
- 66 **Adar Paradwys** Gw. 6.75–6n.
- 68 **aethasant** Ffurf ansafonol ar 3 ll.grff.myn y f. *myned*.
- 70 **oddi ar** Cywasger er mwyn hyd y ll.
taid Ni wyddys pwy oedd taid Llywelyn ar ochr ei dad, ond tad ei fam oedd Deio ap Llywelyn o Ddolobran, gŵr â chysylltiadau â llinachoedd brenhinol Dyfed a Phowys, gw. GOLIM x. Ond y mae'n debygol mai 'hynafiad' yw ystyr *taid* yma, gw. WG 219 a cf. GDID 70 (II.18).
- 71–2 Cf. GLIG 12.85–6: *A'r hiraeth, cywyddiaeth cawdd, / I minnau a gymynnawdd.*
- 72 **draig Wynedd** Cyfeiriad at Lywelyn, gan iddo ganu i fonheddwyr Gwynedd, yn hytrach nag at Rys ei hun?

11

Cywydd yw hwn i ateb y cywydd enwog a ganodd Siôn Cent i gwyno am feirdd y byd, sef 'Dychan Siôn Cent i'r Awen Gelwyddog'.¹ Er gwaethaf y cysylltiad amlwg rhwng y ddwy gerdd, nid ydynt ar y cyfan i'w cael yn yr un llawysgrifau, ac felly ymddengys na chawsant eu trosglwyddo gyda'i gilydd, fel a ddigwyddodd yn achos ymryson Llywelyn ab y Moel a Rhys Goch. Nid enwir Rhys yng nghywydd Siôn, ac efallai na chanwyd y cerddi

¹ IGE² 181–3 (cerdd LX). Golygydd cerdd Rhys yn *ib.* 184–6 (cerdd LXI). Ceir cyfieithiad S. yn Tony Conran, *Welsh Verse* (Bridgend, 1986), 197.

wyneb yn wyneb mewn neuadd noddwr, ac nad rhoi cychwyn ar ymryson oedd bwriad Siôn.² Ond yn sicr, cafwyd ateb gan Rys sy'n amddiffyn y beirdd rhag honiad Siôn fod eu hawen yn un gelwyddog a âi yn groes i ddaliadau Cristnogol.³

Y mae'n debyg i'r gerdd hon gael ei chyfansoddi ar ôl ymryson Rhys Goch a Llywelyn ab y Moel. Awgryma'r Athro D.J. Bowen ar sail y cyfeiriad at ymladd yn Ffrainc yng nghywydd Siôn Cent iddi gael ei chyfansoddi yn ystod goruchafiaeth y Saeson yn Ffrainc yn ystod dauddegau'r bymthegfed ganrif.⁴ Ond erys peth o gefndir y gerdd hon, megis pryd y cyhuddwyd Rhys gan Siôn o gadw geifr (ll. 4), yn dywyll.

- 1 **torraist orn** Sef 'ynganaist gabledd', cf. yr ymadrodd *torri gair*.
- 2 **trist nedd frig** '[Gŵr] trist a chanddo wallt [llawn] nedd'; ar *brig* 'gwallt', cf. 8.104 *gŵr briglwyd hen*.

cnoëdig gnaf Darlleniad IGE² 184 (ll. 2) yw *cnoëdig cnaf*. Os a. yw *cnoëdig* yna dylai beri treigladd i *cnaf* (onid yw'n goleddfu *brig*, darlleniad llai boddhaol o ran ystyr ac aceniad y ll.), er y byddai'r -g derfynol yn caledu'r g- yn *gnaf*. Gall fod rhywfaint o amwysedd ynghlwm wrth y gair *cnoëdig* yma; gall olygu 'wedi ei gnoi' (gan y nedd yn ei wallt), neu 'yn cnoi neu'n brathu', cyfeiriad cyfrwys at ymosodiad Siôn ar Rys Goch, gw. GPC 521; hon yw'r enghraifft gynharaf o'r ffurf.

- 3 **bresech adlam** Y ffurf adnabyddus *bresych* a geir yn IGE² 184 (ll. 3) ond y mae tystiolaeth y llsgrau. o blaid *bresech* neu *bresach* (cymerir mai'r ail yw ffurf lafar Gwynedd ar y gyntaf). Ceir enghreifftiau o'r ffurf *bresech* ym Meibl 1588, gw. GPC 320, er na chadwyd hwy mewn argraffiadau diweddarach. Ceir sawl cyfeiriad sarhaus at fresych yng nghanu dychan y 14g., gw. GIG 161 (XXXVI.18), 157 (XXXV.15); GPB 6.73 (Hywel Ystorm); GPB 7.18 (dienw). Nid yw'n gwbl glir beth yw ergyd 'cartref bresych', ond dylid efallai gymharu'r enghreifftiau hyn o ddywediadau tebyg: GBF 33.20 *Vn vygef gerdet a gard vressych* (Madog ap Gwallter); sonia Ieuan ap Rhydderch am *breswyl bresych* yn GIRh 4.75n. Awgrym Ifor Williams yn IGE cxliii yw: 'Pwynt Rhys yw bod awen Siôn *fel* gardd fresych gan ei fod yn canu byth a hefyd bethau "buddiol ac adeiladol" heb flodau, heb

² Awgrymodd yr Athro D.J. Bowen y gall mai yn llys Syr Wiliam ap Tomas yn Rhaglan y digwyddodd yr ymryson, gw. 'B'le bu'r ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri?', YB xxiii (1997), 100. Ni cheir y gerdd hon yn llsgrau. y copiyydd gweithgar o Forgannwg, Llywelyn Siôn, ac efallai fod hynny yn erbyn tarddiad deheuol i'r gerdd. Ond ni cheir yr ail ymryson â Llywelyn ab y Moel yn llsgrau. Llywelyn Siôn chwaith, er bod Rhaglan yn ganolog i'r cerddi hynny.

³ Am drafodaeth helaethach ar yr agweddau hyn, gw. tt. 25–6.

⁴ Gw. D.J. Bowen, 'Siôn Cent a'r ysgwieriaid', LICy xxi (1998), 11–12.

ddifyrrwch a bod ei ymosodiad ar ei gydfeirdd mor anfoesgar nes ei ddarostwng i lefel “gwas ystabl”.

Y mae'r ll. yn brin o sillaf, oni chymerir bod *chwedl* yn ddeusill (ond esgorai hynny yn ei dro ar y bai crych a llyfn). Ymddengys mai ymdrechion i gywiro'r hyd yw darlleniadau B a CHMO.

- 4 **cadw geifr fy mam** Ymddengys i Siôn Cent, mewn cywydd a gollwyd neu mewn cyfrwng arall, ddannod i Rys ei fod yn cadw geifr ei fam. Gall fod rhyw wirionedd yn hyn; byddai'r tir garw o amgylch Hafodgaregog yn ddelfrydol ar gyfer geifr. Ond gwaith iselradd oedd cadw geifr, fel y gwelir o gywydd Ieuan ap Huw Cae Llwyd ar y pwnc, gw. HCLl 119–20 (cerdd LII ‘Y Geifr’). Ond cydio'r cyhuddiad hwn wrth hanes Peredur fab Efrog a wna Rhys Goch yn y llau. nesaf, cf. G.W. Goetinck: Peredur 7 (llau. 21–2) *A diwarnawd ef a welei kadw geifr oedd y uam a dwy ewic yn agos y'r geifyr...* Â Peredur rhagddo i fugeilio'r ddwy ewig chwim gan feddwl mai geifr ydynt a synnu trigolion y llys gan ei allu annisgwyl.
- 5 **pe rhôn ym** Ar *pe(i) rhôn* + be. (yma bod isod ll. 6), gw. GMW 243 a GPC 2784–5 d.g. *perhôn*, *peirhon*, *pe(i) rhôn*. Yr ystyr yw ‘pe digwyddai imi’.
- 7 **pôr durwaith** Sef ‘pennaeth a chanddo arfau neu arfbais o ddu’. Cyfeirir ymlaen at Bersifal, ll. 8, neu'n llai tebygol, at Rys Goch ei hun. Tybid gynt mai cyfuniad o *pâr* a *dur* oedd yr enw *Peredur*, gw. TYP³ 478, ac efallai mai hynny sy'n esbonio'r cyfeiriad at *bôr durwaith*.
- pa ryw dorfoedd** Sef ‘pa fath o bobl’, gw. GMW 90. Deellir y cymal hwn yn oddr. i *a gedwis* ll. 9.
- 8 **pâr sofl aer** Ymddengys fod yma gyfeiriad at ymdrech Peredur i lunio arfau o wiail a phreniach, gw. G.W. Goetinck: Peredur 9 (llau. 16–17) *Ac o wydyn y daroed idaw danwaret y kywirdebeu a welsei o bob peth*. Yr oedd Peredur yn etifedd i'w dad gan i'w frodyr hŷn oll gael eu lladd yn ymladd twrnamantau.
- Persifal oedd** Y ffurf Ffr. a S. ar yr e.p. *Peredur* yw *Persifal*, ac ymddengys fod yma dystiolaeth fod Rhys Goch yn gyfarwydd â thraddodiadau Seisnig am yr arwr hwn, gw. TYP³ 480; GPB 7.26n, ac yn arbennig W. Gerallt Harries, ‘Peredur, “Nai Arthur”’, B xxvi (1974–6), 313–14. O ran cystrawen, cysyllter *oedd* â *pôr durwaith* ll. 7.
- 10 **Gadair lasgron rhwng bron brig** Cf. IGE² 184 (ll. 10). Gellir deall *cadair* i olygu ‘craig neu fryn ar ffurf cadair’, gw. GPC 375, ond anodd gweld beth a olygir wrth *rhwng bron brig*. Y mae darlleniad llsgrau. ABEFHJK²L–OQR, sef *rhwng bron a brig*, yn rhoi gwell ystyr, ond y mae'n cynnwys sillaf yn ormod. Rhydd llsgrau. CHMO ddarlleniad posibl sy'n datrys y broblem hon, sef *cadr* ‘hardd’ yn

hytrach na *cadair*, ond y mae tystiolaeth gweddill y llsgrau. yn gryf yn erbyn hynny. Fodd bynnag, gall *rhwng* olygu ‘ymhlith, ymysg’, ac fel a welir yn GPC 3109 y mae *rhwng* yn yr ystyr honno yn rhagflaenu e.ll. neu e. torfol. Dengys *ib.* 324 y gall *brig* fod yn e. torfol, ac ymhlith yr ystyron posibl y mae ‘mân ganghennau neu wiail, ysbrigau, impiau, ysgewyll’. Gellid felly ddeall *bron brig* i olygu ‘llethr bryn [ac arno] wiail’. Yn ffurfiol nid yw’r ymadrodd *bron brig* yn ymadrodd torfol, ond yma deallir *rhwng bron brig* i olygu ‘ymysg llethrau [ac arnynt] wiail’. Cf. yn yr un modd yr ymadrodd *rhwng llen dew* a geir yn GDG³ 101 (36.4), lle nad yw *llen dew* yn ymadrodd torfol.

- 13–18 Y mae’r gystrawen dros y llau. hyn yn gymhleth. Merddin yw goddr. y frawddeg a rhoddir ei enw fel a ganlyn: ‘Merddin... / ... (frawd Gwenddydd) / Fardd...Fab Morfryn Frych, wych ei wawd.’ Dyma rediad y brif frawddeg: ‘Merddin ... / A fu’n cadw o fewn coedydd / Rhawd o westfiledd yn rhydd.’ Ceir is-frawddeg arall yn llau. 16–17: ‘Frodiau gwynndull .../ ... a wnaif ar gerdd dafawd.’
- 13 **dewin** Am gyfeiriad arall at Ferddin fel dewin, gw. GDGor 5.12n.
- 16 **Gwenddyd** Chwaer Merddin.
- 20 **gwyllt a dof** Yr oedd gwybod ‘gwerth gwyllt a dof’, sef gwerth y gwahanol anifeiliaid, yn un o ddyletswyddau ynad yn ôl Cyfraith Hywel Dda, gw. LII 1 (ll. 20) a Barry J. Lewis, ‘Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd’, LICy xxix (2001), 50.
- 21 **Merddin arall** Sef Myrddin Emrys, cf. 2.28n a WCD 494.
- 22 **wyr frenin Dyfed** Yr oedd Myrddin Emrys yn fab i ferch brenin Dyfed, gw. WCD 494. Ar y treigladd ansafonol ar ôl *wyr*, gw. Treigladdau 108–9.
- 23–4 **Dinas / Emrys** Y gaer yn Eryri, nid nepell o gartref Rhys Goch, lle y cafodd Myrddin ei weledigaeth o’r ddwy ddraig yn ymladd, gw. TYP³ 101.
- 23 **o fewn enw** Ar *mewn enw* ‘in name or by name, nominally, by title, allegedly’, gw. GPC 1221.
- 25 **ei fab mewn pres** Ai cyfeiriad at y marchog elydn yw hwn, cf. 13.89n? Ar amryfal ystyron *pres*, gw. GPC 2876; gall mai ‘cyfyngder’ ydyw yma.
- 26 **pyrth** Gw. 1.8n. Gallai fod yn e. neu’n f. yma.
- ysnodyn** Ar *ysnoden*, *snoden*, gw. GPC 3858 lle y nodir yr ystyron ‘rhwymyn (pen), rhuban, tâp, carrai’. Ond nodir yno mai ansicr yw perthynas y ffurf *ysnodyn*, y ceir yr unig enghraifft ohoni yma. Ai cyfeiriad at ymddangosiad Myrddin sydd yma?

28 **Taliesin** Gw. 2.55n.

cadair Ferddin Nid yw'n glir beth yn union yw arwyddocâd hon. Cyfeirir yn IGE² 398 at nodyn o ddiwedd yr 16g. sy'n ei hesbonio fel 'talaith ne goron, ac weithiau crib ceiliog'. Defnyddid *cadair* i gyfeirio at ganeuon arbennig yn ogystal, a cheir enghraifft gynnar o ffurfiau megis *Kadeir taliessin*, e.e., gw. *ib.* Ceir cyfeiriad pellach mewn cywydd gan Lewys Glyn Cothi i Ieuan ap Meredudd o Fuellt, GLGC 316 (140.45) *Ieuan a gâr yn y gwin / roi i'w fardd gadair Ferddin*. Dywed y golygydd mai 'fel cadair go iawn y syniai Lewys amdani', gw. *ib.* 592. Cyfeirir ati eto yn 13.75–6n.

29 **a'r trydydd** Darlleniad IGE² 185 (ll. 1) yw *yw'r trydydd*, ond y mae'r llsgrau. yn gyson o blaid darlleniad y testun. Gellid esbonio'r gystrawen yma mewn sawl ffordd; un posibilrwydd fyddai 'Taliesin [yw] cadair Ferddin cerdd a'r trydydd...'.
Arderydd dir Darlleniad IGE² yw *ar derydd dir*, ac y mae'r llaw-sgrifau'n cytuno mai tri gair sydd yma. Ond mewn trafodaeth ddiweddarach ar *terydd* cyfeiria Ifor Williams at y ll. hon gan nodi 'ar *derydd* dir, cf. *Arfderydd*' (CLIH 161). *Arderydd* yw ffurf arferol y beirdd ar *Arfderydd*, lleoliad brwydr yn yr Hen Ogledd. Yr oedd gan Daliesin, Myrddin a Gwyddno Garanir (ll. 30n) gysylltiadau â'r Hen Ogledd, a chredid i Fyrddin ymladd yn Arfderydd cyn ffoi a byw yn wyllt yng Nghoed Celyddon. Gall felly mai cyfeirio'n gyffredinol at yr Hen Ogledd a wna *Arderydd dir*. Gw. ymhellach TYP³ 219–21.

30 **Gwyddno gryno Garanir** Brenin a gydoesai â Maelgwn Gwynedd oedd Gwyddno Garanir yn ôl *Chwedl Taliesin*. Er bod lle cryf i gredu mai un o 'Wŷr y Gogledd' ydoedd yn wreiddiol, ymddengys i'w chwedl gael ei hail-leoli yng Nghymru. Yn ôl traddodiad, goresgynnwyd teyrnas Gwyddno gan y môr. Lleolid y deyrnas honno naill ai ym mae Ceredigion neu oddi ar arfordir y gogledd, ac y mae'n amlwg mai'r un ydyw'r hanes yn ei hanfod â hanes boddi llys Helyg ap Glannog, gw. GGrG 1.32n. Daw'r cysylltiad rhwng Taliesin a Gwyddno Garanir o'r ffaith mai ar ran Elffin mab Gwyddno yr ymgymerodd Taliesin â'r ymryson â beirdd llys Maelgwn Gwynedd. Yma y mae Rhys yn ymuniaethu â Thaliesin yr ymrysonwr llwyddianus. Gw. ymhellach WCD 346–8.

32 **Gyson a ymddangoses** Darlleniad IGE² 185 (ll. 4) yw *Yn gyson a 'mddangoses*; ond y mae'r llsgrau. o blaid darlleniad y testun. Deeller *gyson* felly mewn ystyr adferfol.

35 **emyn** Cymerir mai 'cân' yn hytrach na 'cân i Dduw' yw ei ystyr yma, gw. GPC 1211; GIG 123 (XXVIII.57).

36 **cabl** Deellir hwn yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cablu* a bod y gn. disgwyliedig y wedi ei hepgor.

- clap atborion clêr** Daw *clap* o'r S.C. *clappe*, *cleppe* 'clec, clap' neu 'teclyn mewn melin flawd sy'n taro'r hopran ac yn peri iddi ysgwyd yn ôl a blaen', gw. GPC 489, EEW 70. Gellid deall yr ystyron 'clec, clap' yn gyfeiriad sarhaus at sŵn barddoniaeth ddi-lun Siôn, ond gwell ei gydio wrth *atborion* 'gwehilion, gweddillion, sborion', gw. GPC 225 a cf. 16.80. Digon cyffredin yw cyfeiriadau at feirdd yn 'malu' gwawd, felly deallir hyn i olygu bod Siôn megis clap yn bwrw allan sborion beirdd eraill. Ceir syniad tebyg gan Lywelyn ab y Moel wrth iddo alw ei dafod yn *clap breuan gwawd*, gw. GSCyf 12.70n.
- 37 **gwas ystabl** Y mae Rhys yn ei dro yma'n cyhuddo Siôn o ymhél ag anifeiliaid. Tebyg bod statws is i weision ystabl nag oedd i fugeiliaid, sy'n cael lle anrhydeddus ddigon yn y Beibl ac yn rhai o'r chwedlau Cymraeg.
- 39 **emyn rhugl** Fe'i deallir yn oddr. i *lly sawdd* ll. 42n.
- 40 **lle bu'r dreigiau** Sef Eryri ac ardal Dinas Emrys yn enwedig, gw. TYP³ 99–100. Y mae cyfeiriadau at ddreigiau yn britho gwaith Rhys Goch.
- 42 **Taliesin** Cymerir bod hwn mewn perthynas enidol â *dysg* a *nawdd* ll. 41, ac nid yn oddr. *a'th lysawdd*.
a'th lysawdd Cymerir *emyn rhugl* ll. 39n yn oddr., er nad amhosibl deall *dysg* a *nawdd* yn oddrychau hefyd. Gall *llysu* olygu'n syml 'gwrthod', ond gwell efallai ei ddeall yn derm cyfreithiol 'gwrthwynebu neu herio tyst neu reithior ar sail rhyw lestair cyfreithiol, gwrthod (dadl, barn, &c.)', gw. GPC 2276–7.
- 43 **nis blinai blaid** Cymerir bod y rh.m. -s yn broleptig ac yn cyfeirio ymlaen at *plaid*, gwrth. y f.
- 45 **main mawrwrthiog** Gw. 1.25n.
- 46 **Yr awron yn yr Yri** Awgrym o bosibl mai rhywle yn Eryri y canwyd y cywydd hwn.
- 47 **rhuchion ei ryw** Ni wyddys dim am deulu Siôn Cent, ond nid oeddynt fwy nag eisin yn llygaid Rhys, a hanai o waed uchelwrol.
- 49 **bwch** Tebyg mai bwch gafr a olygir; cyfeiria Ifor Williams at y gair Llad. *hirococus* 'o *hircus* "bwch gafr", am un sy'n arogleuo fel y cyfryw', gw. IGE² 368.
 Cynghanedd sain acennog a fwriedir yn y ll. hon, ond gellid edrych arni hefyd fel ll. o gynghanedd groes o gyswllt.
- 53 Cynghanedd anghyflawn. Gellid diwygio *cerydd* i *cynnydd*, ond ni cheir ystyr foddhaol o hynny, ac nid yw'r llsgrau. o blaid y diwygio. Y mae'r ll. yn hir fel y mae. Gellid darllen *rôl*, y ffurf amrywiol ar *rhwol*, *rheol* (GPC 3056) er mwyn colli sillaf.

- 54 **cymredig** Anodd gwybod ei union ystyr, gw. GPC 760 d.g. *cymredig* ‘wedi ei dderbyn, a brofwyd yn dda neu’n gymwys, profedig, a deimlir yn ddwys (am dristwch &c.); cymeradwy, derbyniedig, penodedig’.
- 55 **nid aethant** Deellir y ddau Ferddin a Thaliesin yn oddrychau.
- 56 **drud** Dilynir GPC 1086 a deall *drud* yma’n eg. ‘arwr, gwron’.
- 57 **Ffigur loyw o’r ’Sgrythur Lân** Nid oes cynghanedd yn y ll. hon fel y saif yn IGE² 185 (ll. 29). Darllener felly *ffigur* i odli ag *Ysgrythur*, a gywesgir yn ‘*Sgrythur* ar gyfer hyd y ll. Ceir felly gynghanedd sain gadwynog. Cymerir mai’r *ffigur loyw* yw’r gorchymyn y cyfeirir ato yn ll. 56.
- 58 **o’r ffydd allan** Cymerir hyn ynghyd â *Nid aethant yn adwythig* ll. 55. Yr ergyd yw nad aeth y beirdd a grybwyllodd Rhys erioed yn groes i’r ffydd Gristnogol mewn dull ffiائد fel yr awgrymodd Siôn.
- 60 **ffyrf barabl** Gellid deall hwn ynghyd ag *yr offeren* neu, yn fwy tebygol, â *llên* ll. 59. Yr ystyr yw ‘lleferydd cadarn’.
- O ran cynghanedd, rhaid fod yr *f* yn *ffyrf* yn lled-lafarog neu fod yma gynghanedd drychben, cf. 15.1n.
- 61–2 **Edwart ... / Caernarfon** Sef Edward II. Fe’i ganed yng Nghaernarfon yn 1284, a daeth enw’r dref yn llysenw iddo, gw. Hilda Johnstone, *Edward of Carnarvon 1284–1307* (Manchester, 1946). Pan oedd yn dywysog Cymru yn 1301–7 yr oedd nifer o Gymry yn ei lys, gw. W.H. Waters, *The Edwardian Settlement of North Wales in its Administrative and Legal Aspects* (Cardiff, 1935), 33.
- 63 **label** Awgryma GPC 2049 yr ystyr ‘darn hirgul o frethyn, ysnoden, rhuban; ?stola neu ffunen arddwrn offeiriad’, a gw. hefyd IGE² 368–9 sy’n cynnig esboniadau tebyg. Ar natur y stola, gw. NCE d.g. *stole*. Defnyddiai’r offeiriad y stola wrth gynnal defodau’r eglwys, ac ymddengys y gall mai cyfeiriad at ryw seremoni eglwysig yn ymwneud ag Edward a geir yma. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i esboniad mwy manwl, fodd bynnag. (Hoffwn ddiolch i Mr M.P. Bryant-Quinn am drafod y pwynt hwn â mi.)
- 65 **dohrefn** Y ffurf gynharach *dyodrefn* a geir yn IGE² 186 (ll. 3) (ar *dyodrefn* > *doodrefn* > *dodrefn*, gw. GPC 1070 a HGK 84 [19.22n]). O dderbyn y ffurf deirsill, ceir yr hyd cywir i’r ll. Fodd bynnag, ni cheir y darlleniad hwnnw mewn unrhyw lsg., ac y mae’r holl enghreifftiau o’r ffurf deirsill yn GPC *l.c.* yn gynharach na dyddiau Rhys Goch. Gellid dilyn llsgrau. CMO ac ychwanegu y o flaen *llys* er mwyn cywiro hyd y ll., ond gwell yw cadw darlleniad y rhan fwyaf o’r llawysgrifau a derbyn bod y ll. yn fyr neu fod *llathr* yn cael ei ystyried yn ddeusill.
- 66 **irgroen** Deellir *croen* yma i olygu ‘wyneb tir, haenen uchaf y pridd’, gw. GPC 603, ac felly *irgroen* yn a. ‘a’i dir yn wyrddlas’ yn goleddfu

yr haf.

eurgrys Cymerir mai hwn yw'r crys a wisgai Edward.

68 **dysg** Byddai angen y be. *dysgu* yma i ddeall y ll. hon yn rhan o'r prif gymal yn gyfochrog â *dangos*, felly deellir y ll. hon yn sangiadol.

69 **eu bod** Cymerir bod y rh.ll. yn cyfeirio at yr offeiriad (*llên*, ll. 59) ac at Edward, y naill yn cynrychioli cyfraith Duw a'r llall yn cynrychioli cyfraith y byd.

72 **pylwaith** Y mae'r bardd yma yn cymharu cyfraith y byd yn anffafriol â chyfraith Duw. Ond sylwer mai ergyd gwahanol iawn a geir yn narlleniadau llsgrau. BCHJMNO *bwyllwaith* a K¹ *bwylliaith*.

73 **cymraw** Sef 'dychryn, braw, arswyd'. Ymddengys fod y gair yn bur hynafol erbyn dyddiau Rhys Goch, gw. GPC 769.

74 **ystŭrn** Gair anodd ei esbonio ac nid ymddengys fod enghraifft arall ohono ar glawr (nis ceir yn GPC), er bod y llsgrau. yn bur gryf o'i blaid. Y mae'n bosibl ei fod yn fenthyciad o'r S., ond ni lwyddwyd i ganfod gair cyfatebol addas. Fe'i nodir yng ngeirfa IGE² 426, ond ni chynigir ystyr. A ddylid ei gydio wrth *ystarn*, *ystern* 'cyfryw (pwn) ..., gêr ceffyl', gw. GPC 3861 d.g. *ystarn*²? Os felly a yw'r 'praw' yn faich ar gefn Rhys?

arnam 'Arnorn'; y mae'n amlwg fod Rhys yn llefaru ar ran y beirdd eraill y bu Siôn yn eu cablu.

79 **cywair** Ar y defnydd amywiol o'r e. hwn, gw. GPC 828.

83 **gwych** Sef 'ysblennydd (weithiau'n goeglyd)', gw. GPC 1747–8. Amlwg mai'r ystyr goeglyd sy'n addas yma.

84 **Ieuan** Ffurf Gym. ar yr enw Siôn (< S. *John*). Yr oedd ymwybyddiaeth yn yr Oesoedd Canol mai ffurfiau ar yr un enw oedd *Ieuan* a *John/Siôn*, gw. WSur 135, ill dau yn deillio yn y pen draw o'r ffurf Lad. *Johannes*.

gwag elydn Efallai y dylid deall *elydn* 'pres' yn yr un modd â *copr* ll. 97n, sef math arall o fetel rhad. Ond gall hefyd mai offeryn cerddorol gwag o bres a olygir yma'n drosiadol am Siôn. Ceir y gair eto gan Rys Goch mewn cyd-destun dychanol yn ei awdl i'r llwynog. Gw. hefyd 9.15n ar *elidr*.

Diddorol yw cymharu'r darlleniad yma â darlleniad mwy anllad llsgrau. BCGHJK¹MNO.

85 Gellir aralleirio'r ll. 'cynhaliaeth mydr [ar] destun disylw'.

93–4 **llyna fwrw ... / llyfr gwag** Digwydd yr ymadrodd *bwrw llyfrau* 'to consult one's books' yng ngramadeg Gruffydd Robert (1567), gw. GPC 356. Yr ergyd yma yw mai ofer yw ymgynghori â'r llyfrau y mae Siôn wedi eu henwi.

94 **llyfwr** Ffurf ddeusill ar yr a. *llwfr*, gw. GPC 2234.

95 **mur** Ai cyfeiriad at ystyfnigrwydd Siôn?

turtul Amrywiad ar *turtur*, gw. GPC 3654–5, lle y nodir yr enghraifft hon. Ai undonedd ei chàn yw ergyd y cyfeiriad?

96 **Tomas** Cyfeiriad sy'n adleisio cywydd Siôn, gw. IGE² 182 (ll. 30) *Meistr Tomas Lwmbard, gward gwir*, sydd, y mae'n debyg, yn cyfeirio at y diwinyddion Tomas o Acwin (1225–74) a Phedr Lombard (1095–1160), gw. M.P. Bryant-Quinn, 'Golwg ar ganu Siôn Cent', LICy xxvii (2004), 76. Yn llsgr. H ceir nesaf i'r enw Tomas y nodyn *q. Thomas Aquinas whose works Dr Sion Kent had read*. Yn llsgr. G hithau ceir y nodyn 'Aquinas?' nesaf at yr enw Tomas, yn ôl pob tebyg yn llaw D. Silvan Evans a fu'n berchen ar y llsgr. ar un adeg. Ni welodd Ifor Williams y naill lawysgrif na'r llall wrth baratoi IGE², ac nid yw ef yn cynnig mai at Tomas o Acwin y mae Siôn a Rhys ill dau yn cyfeirio. Arno, gw. Anthony Kenny, *Aquinas* (Oxford, 1980).

lambas Gair anodd, nas ceir yn GPC. Gellid ei ddeall yn gyfuniad o *llam + pas* (ond heb lawer o synnwyr), neu'n amrywiad ar *lambast* (o'r S. *lambast*, ond ni nodir unrhyw ffurfiau cynnar ar y benthyciad hwnnw yn GPC 2051). Posibilrwydd arall yw ei gysylltu â'r S. *lampas*, sef math o glefyd sy'n effeithio ar geg ceffyl, cf. geiriadur William Salesbury d.g. *Mintag*, ond nid oes enghraifft gynharach na'r 16g. yn OED². Y mae ystyr arall ar gael o'r 14g., sef math o ddefnydd. Ond mwy addas fyddai cyfeirio at afiechyd mewn ceg bardd arall mewn ymryson. Yn seinegol, yr esboniad gorau fyddai ei fod yn fenthyciad o S.C. *lambes* 'wyn' (cf. EEW 100 am y sillaf olaf), er na cheir cofnod arall o'r ffurf honno. Os felly, ai galw Tomas a Pedr Lombard yn wyn ffôl y mae Rhys? Byddai hynny'n adlais digon effeithiol o'r geifr yr agorwyd y gerdd â hwy.

Lwmbart Cyfeiriad arall at ddiwedd cywydd Siôn, tebyg mai'r diwinydd Pedr Lombard (1095–1160), awdur *Libri quatuor sententiarum*, yw hwn; arno, gw. Marcia L. Colish, *Peter Lombard* (Leiden, 1994).

97 **copr** Copr oedd defnydd yr arian bath rhataf, felly fe'i defnyddir yn ffigurol am beth o ychydig werth, gw. GPC 554.

98 **neur aethost** Cyfuniad o'r gn. rhagferfol cadarnhaol *neu* a'r gn. rhagferfol perffeithiol *rhy* (gw. GMW 170) wedi ei gplysu â ffurf 3 un.grff.myn. y f. *mynd*. Ystyr yr ymadrodd yw 'yr wyt wedi mynd'. Diau fod y fath gystrawen yn bur hynafol erbyn dyddiau Rhys Goch, a gwelir iddi beri cryn anhawster i nifer o gopiwyr.

Cerdd i Robert ap Maredudd, un o hynafiaid Syr John Wynn (1553–1627) o Wedir, yw hon yn ôl nifer o'r llawysgrifau.¹ Ond ymddengys fod y priodoliadau hynny oll yn deillio o lawysgrifau sy'n perthyn i gylch Syr John, gŵr a ddefnyddiodd y gerdd yn dystiolaeth ar gyfer hanes cynnar ei deulu wrth ysgrifennu'r testun enwog *History of the Gwydir Family*.² Yr oedd Syr John yn disgyn o Robert ap Maredudd ac o Ruffudd ap Cynan, ac yr oedd yn awyddus iawn i gyflwyno tystiolaeth am hanes cynnar y teulu. Ond mewn gwirionedd, fe ymddengys nad oes llawer o sail i'r priodoliad hwn. Yng ngeiriau J. Gwynfor Jones:

Because of his inability to discover sufficient evidence to establish Robert ap Maredudd's seniority and status Wynn proceeded to associate a *cywydd*, composed by Rhys Goch Eryri (c. 1436), a poet from Beddgelert, to an unnamed person, with this Robert adding that the poet 'durst not name him therein for yt as yt seemeth he was an outlawe at that tyme the songe was made'. Very little internal evidence in the *cywydd*—part of which is included by Wynn in his chronicle—points conclusively to Robert as the subject of eulogy.³

Fel y dywed Jones, y mae'n anodd cael tystiolaeth o'r gerdd ei hun i gefnogi honiad Syr John Wynn. Yn wir, fel arall y mae, a thystiolaeth y gerdd yn awgrymu'n gryf nad Robert ap Maredudd yw'r gwrthrych, fel y gwelir o'r nodiadau isod. At hynny, ni cheir priodoliadau yn y llawysgrifau y gellir bod yn sicr nad ydynt yn seiliedig ar farn Syr John.

Y mae'r gerdd ar ffurf sgwrs rhwng dau siaradwr dienw, ac y mae'n agor wrth i'r siaradwr cyntaf gyhoeddi bod Gruffudd ap Cynan (m. 1137) wedi treulio cyfnod hir yn gorwedd 'ar groesgeirch' tra oedd ei deyrnas yn gwywo. Y mae'n debyg fod hyn yn cyfeirio at y cyfnod o un mlynedd ar bymtheg a dreuliodd Gruffudd yng ngharchar Iarll Huw o Gaer ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg.⁴ Ymddengys mai'r siaradwr arall sydd piau gweddill y gerdd, a dywed fod etifedd teilwng gan Ruffudd. Ceir disgrifiad o'r gŵr hwn sy'n ei bortreadu fel noddwr hael a dyn ifanc bywiog hoff o gampau corfforol ac o chwaraeon o bob math. Er hynny, nid yw'r disgrifiad yn un sy'n rhoi sylw arbennig i allu milwrol y gŵr, ffaith annisgwyl braidd

¹ Trafodir y priodoliad yn IGE² xlii–xliii, a cheir testun *ib.* 301–3 (cerdd CI). Ar Robert, un o hynafiaid teulu Wynn o Wedir, gw. *History of the Gwydir Family and Memoirs*, ed. J. Gwynfor Jones (Aberystwyth, 1990), xxii–xxiii. Fel y gwelir o'r priodoliadau, y mae peth drysu rhyngddo ef a Robert ap Maredudd, Abad Enlli. Arno ef, gw. *ib.* 116–17.

² Ar y defnydd o'r gerdd hon, gw. *ib.* 23–4 a 119–20. Sylwer hefyd ar y ffaith fod y copi yn llsgr. I, sef LIGC 3049D [= Mos 146], yn digwydd ar ddalen o femrwn a dynnwyd o lawysgrif arall cyn ei rhoi o flaen cerddi eraill i deulu Wynn o Wedir, gw. uchod tt. 42–3.

³ Gw. J. Gwynfor Jones, *The Wynn family of Gwydir: Origins, Growth and Development c. 1490–1674* (Aberystwyth, 1995).

⁴ Gw. uchod td. 4 am ran un o hynafiaid Rhys Goch yn y cyfnod hwn yn oes Gruffudd.

o gofio mai fel etifedd i Ruffudd ap Cynan y cyflwynir ef. Y mae'r bardd yn gwrthod enwi gwrthrych y gerdd, gan adleisio rhan o gywydd Iolo Goch i Owain Glyndŵr (llau. 85–90). Ond a oedd gan y bardd unrhyw ŵr penodol mewn golwg? Os felly, ac o gofio am noddwyr Rhys Goch, yna'r enw mwyaf tebygol fyddai Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn (gwrthrych cerdd 4). Y mae'r sylw a roir i'r neuadd (ll. 37 ymlaen) ac efallai y cyfeiriad at Alecsander (ll. 73) yn adleisio rhai o gerddi Rhys Goch i deulu'r Penrhyn. Y mae ieuencid y gŵr a ddisgrifir yn gyson â Wiliam Fychan, ac os yw ll. 38 yn cynnwys cyfeiriad at Landygái yna y mae'n bur debyg mai Wiliam Fychan yw'r gŵr dan sylw. Eto, y mae'r ffaith nad enwir neb yn y gerdd yn arwyddocaol. Er bod Iolo yn dweud *Tawwn, gorau yw tewi, / Am hwn ni ynganwn ni* yn ei gywydd i Owain, y mae'n enwi ei noddwr yn gwbl glir ar ddechrau'r gerdd.⁵ Felly paham na wneir hynny yma? Os Wiliam Fychan yw'r gwrthrych yna y mae'n anodd gweld rheswm. Fodd bynnag, petai'r gerdd wedi ei chanu i'w hanner brawd, Tudur Fychan (gw. nodyn cefndir cerdd 3), gellir deall paham na fyddai'r bardd am ei enwi. Ond nid yw hynny'n fwy na dyfalu. Y mae'r gerdd hon yn gyfuniad o ganu mawl a chanu ac iddo nodweddion canu brud, ac mewn cerddi brud y mae peidio ag enwi gwrthrych y mawl yn ddigon cyffredin.

1 **hir** Fe'i defnyddir yn adf. yma, cf. GIG 305.

1–2 **Gruffudd ... / ... fab Cynan** Brenin Gwynedd a fu farw yn 1137. Lluniwyd buchedd Ladin iddo, a'i chyfieithu i'r Gymraeg, gw. *Vita Griffini Filii Conanii: the Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan*, ed. Paul Russell (Cardiff, 2005) a HGK. Gall fod un o gywyddau Lewys Môn yn cyfeirio at ei fuchedd, gw. GLM 492. Ond y mae'n debyg fod defnydd Rhys o'r testun yn unigryw.

3 **croesgeirch** Nid yw arwyddocâd yr elfen *croes* yn gwbl glir; gall mai cyfeirio at natur anghyfforddus ceirch fel gwely a wna. Tebyg mai sôn am amgylchiadau carchariad Gruffudd a wneir yma, gw. y nodyn cefndir uchod. Bwyd ceffyl oedd ceirch yn bennaf yn y cyfnod hwn, ac efallai fod yma awgrym i Ruffudd fod mewn carchar a oedd yn fwy addas fel ystabl nag anheddle brenin, cf. GCBM i, 25.15–16 *Yn y kyrchem karcharueirch, / Karcharoryon keidron keirch*.

ysgwyd Sef 'tarian'; ai'n ffigurol am Ruffudd yma?

4 **llew ... llwyd** Gw. 15.52n.

7 **arfall** Naill ai be. neu eg. Yr ystyron 'addewid, cytundeb, cyfamod, cynghrair, llw' a geir i'r eg. yn GPC 195, ond gellid hefyd ddilyn G 39 'derbyn (clwyf, arfall)'.

9 **cainc** Ceir yma barhad o'r ddelweddaeth sy'n seiliedig ar y syniad o

⁵ GIG 38 (VIII.85–6).

goeden, cf. ll. 6 *celffeinio*, ll. 8 *crino*. Ystyr ffigurol ‘disgynnydd, etifedd’ sydd i *cainc* yma. Cf. isod ll. 71.

llathrfainc Cyfeirir yma’n ffigurol at Ruffudd yma fel ‘mainc ddisglair’, sef ffynhonnell awdurdod gwych yn ei wlad.

- 11 **yn dwyn ystod** Dilynir IGE² 387: ‘cymer gyda *gŵr bonheddig*, ll. 12, “yn dwyn cwrs gyda *gŵr bonheddig*”’.

bragod frig Diod gadarn a wneid o gwrw a mêl oedd bragod, cf. GIG 47 (X.74) *Gwirodau bragodau brig*; ac *ib.* 148 (XXXIII.62) *Wirod o’i aur fragod frig*. Esboniad GIG 356 ar *bragod frig* yw ‘bragod ewyn-nog’, ond yn llythrennol, efallai mai ‘ewyn bragod’ sydd orau yma.

- 12 **garw** Y mae’n debygol fod yma chwarae ar *garw* (ffurf dreigledig *carw*) a *hydd*.

- 15 **campau** Ceir rhestrau tebyg (gyda rhai gwahaniaethau) o’r pedair camp ar hugain gan Lewys Glyn Cothi (GLGC 119 [50.19–38]) ac ar ddiwedd D.

- 16 **Brytyniol** Ni cheir *Brytyniol* yn GPC, ond cymerir ei fod yn ffurf a. ar yr e. *Brutwn, Brytwn* ‘Brython’, gw. GPC 341.

- 18 **ymswyn** Ceir yr amrywiad *ymswrn* (‘ymryson, gwrthdaro’, gw. GPC 3805 a 4.73n) mewn rhai llsgrau., ond dilynir IGE² 301 (ll. 18) a darllen *ymswyn* (gw. GPC *l.c.*), gan dderbyn esboniad Ifor Williams, IGE² 388: ‘Gan fod *ymswyn* yn golygu ymgroesi, gwneud arwydd y groes, pryd y symudid y llaw yn gyflym i fyny ac i lawr ac yn groes i’w ddwyfron, a bod y llaw yn symud yn gyffelyb wrth *chwarae ffon ddwybig* (*quarter staff*), credaf mai at y gamp honno y cyfeirir yma. Gafaelid ynghanol y pastwn ag un llaw, ac yn nes i’r pen â’r llall, a’i chwidr-droi er ymamddiffyn, gan lithro’r llaw ôl a blaen, fel y medrid rhoi bonclust effeithiol â’r naill “big” neu’r llall yn ôl y cyfle.’

- 20 **cyd term** Ceir enghreifftiau o *term* ‘cyfnod, adeg, tymor’ (o’r S. *term*) cyn gynhared â’r 14g., gw. GPC 3485. Gan hynny, y mae’n debyg mai ffurf ar *cyhyd* yw *cyd* yma, gw. GPC 744–5. Ond erys union ergyd yr ymadrodd yn dywyll.

cotarmur O’r S. *coat-armour*, gw. GPC 571. Yr ystyr yma yw ‘arfwisg’; yn 3.72n yr ystyr ‘*coat of arms*’ sy’n gweddu orau.

- 21 **Gwarae ... argae coed** Ceir yr ymadrodd hwn yn GPC 1577 lle y rhoddir iddo’r ystyr ‘*jousting, playing at tilts and tournaments*’. Dyma’r enghraifft gynharaf yno a’r unig un nad yw’n tarddu o eiriadur. Ymddengys mai hi oedd ffynhonnell D (d.g. *hippomachia*) a’r geiriadurwyr diweddarach. Ceir enghraifft o’r amrywiad *chwarae argae coed* yn GPC 842 wedi ei godi o J 10, 108, geiriadur arall a gyfansoddwyd cyn 1592. Ceir *argae coed* ‘*lists; park, conyger*’ yn GPC 196 (a nodir *twrnamment* nesaf i’r ll. hon mewn llaw ddiweddar-

ach yn llsgr. J), ond eto o'r gerdd hon y daw'r unig enghraifft sy'n gynharach na geiriadur Thomas Wiliems (1604–7), sef Pen 228 (d.g. *leporarium*, *ligneum*). Ymddengys, felly, mai'r gerdd hon yw ffynhonnell pob un o'r enghreifftiau uchod ac, o ganlyniad, er gwaethaf eu hamlder, ni ellir dibynnu ar eu dehongliad hwy. Mwy naturiol yw cymryd *cadwr frwydr argae coed* gyda'i gilydd yn sangiad, gan gymryd bod *gwarae* ... *â phelydr* yn un ymadrodd. Cynganedd sain gadwynog a geir yn y ll. hon, ac y mae gorffwysfa ll. o'r fath yn disgyn ar yr odl gyntaf, ac felly'n cyd-fynd â'r dehongliad hwn. Erbyn yr 16g. a'r 17g. prin oedd y defnydd o'r gynganedd sain gadwynog ym mysgr y beirdd, ac efallai i hynny beri i'r geiriadurwyr gamddechongli'r ll. Ceir sawl enghraifft o gamddechongli o'r fath yn y llawysgrifau.

25 **sies** Benthyciad o'r S. '*chess*', gw. GPC 3273 (hon yw'r enghraifft gynharaf).

chwarae â siswrn Anodd gwybod beth yn union oedd natur y chwarae hwn. Gallai fod yn ymladd ag arfau, neu'n ymaflyd codwm. Ond y mae ei leoliad yn y rhestr yn awgrymu mai gêm fwrdd ydoedd.

26 **tabler gris** Benthyciad o'r S. *tabler* '*a backgammon board, hence the game*', gw. OED² d.g.; cf. GPC 843 d.g. *chwarae tabler* '*to play at tables*'. Ceir cywyddau i ofyn tabler yn GST 438 (cerdd 112) a CC 61 (Thomas Prys). Cyfeiriad yw *gris*, y mae'n debyg, at y patrwm ar y bwrdd y chwaraeid y gêm arno.

dau ddis dwrn Cf. GLM 205 (LVIII.71–2) *Chwarae rhyngoch a Harri, / y dis dwrn, ni 'dwedaist di; a'r nodyn ib. 469–70*, lle yr awgrymir darllen *dau ddis dwrn* yma. Dichon mai ffrwyth ymgais i 'gywiro' cynganedd sydd i gyfrif am y darlleniad *dau ddis ddwrn*.

27 **pwynt** Gall mai cyfeirio a wneir at un o'r smotiau ar ddis, ond yr ystyr a gynigir yn GPC 2951 yw 'un o'r rhaniadau ar dabler (tawl-bwrdd), bwrdd gwyddbwyll, neu fwrdd drafftiau'. Yr ystyr honno sy'n gweddu orau o ystyried ll. 28.

28 **tabl** Y bwrdd chwarae (o'r S. *table*, gw. EEW 85) ac yna'r chwarae ei hun.

gwyddbwyll Math o chwarae lle yr ymgeisiai un chwaraewr roi gwarchae ar frenin y llall, ei nod yntau oedd dianc; gw. BRh 50–1.

30 **ffair** Un ai o'r S.C. '*fare, fayre, fair*' 'ffair', gan gyfeirio at rialtchwch y canu sy'n ymdebygu i ffair neu wyl; neu o'r S.C. '*feir*' 'teg, prydferth, gwych, rhagorol'; gw. GPC 1275. Yr ystyr gyntaf sydd fwyaf addas.

31 **dilin** Darlleniad IGE² 302 (ll. 5) a llsgrau. CEJKLN yw 'da lon', ond derbynnir *dilin* yma, y darlleniad anhawsaf. Amrywiad yw ar *dilyfn* 'coeth' ac fe'i defnyddir yn arferol i gyfeirio at aur (gw. GPC 1014 a cf. isod ll. 63 *aur dilin*), ond gellid yn hawdd ei ddefnyddio am lais

coeth hefyd.

- 33 **Darllen teiriaith a gwaith gwawd** Sef, y mae'n debyg, Cymraeg, Saesneg a Lladin. Yn ôl Syr John Wynn o Wedir, anfonwyd ei hen daid Maredudd ab Ieuan i Gaernarfon i ddysgu Saesneg a Lladin, gw. *History of the Gwydir Family and Memoirs*, ed. J. Gwynfor Jones (Llandysul, 1990), 49. Yr oedd pwysigrwydd Ffrangeg yn lleihau yn y cyfnod hwn, er y gwyddom i Ieuan ap Rhydderch ei dysgu hithau yn Rhydychen tua'r adeg hwn (gw. GIRh 3.25n). Posibilrwydd arall yw mai at dair iaith y gyfraith y cyfeirir, sef y gyfraith ganon, cyfraith y byd a chyfraith arfau, gw. GSCyf 1.23n. Y mae'r cyfeiriad hwn at *[d]darllen ... gwaith gwawd* yn dystiolaeth o'r duedd gynyddol i gofnodi barddoniaeth ar femrwn neu ar bapur. Ar hyn, gw. GSRh 2.60n. Ceir y cyfuniad *gwaith gwawd* yn 6.66 hefyd.
- 35 **hel** Efallai y dylid adfer yr hen ffurf unsillafog *hely* yma ac yn ll. 36 (gw. GPC 1844), sef y ffurf a oedd yn gyffredin yng nghywyddau'r cyfnod hwn.
- 38 **llysygai** Nid yw ergyd hwn yn glir (gw. yr amrywiadu am ffurfiau eraill posibl). Y tebygrwydd yw mai enw lle ydyw. Un posibilrwydd yw bod y ffurf yn cynnwys yr enw Tygái, er nad yw'r llsgrau. o blaid hynny. Ond os *llys Dygái* yw'r darlleniad cywir, byddai angen diwygio rhan gyntaf y ll. oherwydd y gynghanedd (e.e. trwy newid *Llys agwrdd* i *Llysty gwrdd*). Rhoes Tygái ei enw i Landygái, y plwyf sy'n cynnwys y Penrhyn, cartref Gwilym ap Gruffudd. Gallai *llys Dygái* gyfeirio at neuadd y Penrhyn ei hun. Ond yn erbyn hynny y mae'r ffaith fod angen odl ddiacen yma. (Hoffwn ddiolch i Dr A. Cynfael Lake am yr awgrym hwn.)
- 39 **beirdd ymsang** Sef 'torf o feirdd', ac efallai fod awgrym o ymrysona, cf. yn arbennig GDG³ 401 (151.23–4) *Ai ymsang, wr eang wg, / Am radd, ai ymladd amlwg* (Gruffudd Gryg).
- yn 'Hangwen** Ehangwen yw Llys Arthur yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', gw. 6.64n; am gyfeiriadau pellach gan y beirdd, gw. G 451. Y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid y darlleniad hwn, er bod I o blaid darlleniad IGE² 302 (ll. 13) sef *Ehangwen*. Ceir y ffurf *Hangwen* gan Ieuan ap Gruffudd Leiaf mewn cerdd i'r Penrhyn, gw. D.J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, viii (2002), 75.
- 43 **ofer glerwr** Nid ymddengys fod y cyfeiriad hwn at y glêr yn un dilornus. Ar *oferfeirdd*, gw. TYP³ 22–4.
- 45 **Bedwyr wryd** Darlleniad IGE² 302 (ll. 19) a llsgrau. A¹A²EFJMNO yw *bedwar wryd*. Yn ôl G 709, enghraifft o'r ystyr 'mesur o chwe troedfedd' yw *gwryd* yn y llinell hon, dehongliad sy'n awgrymu mai fel rhifolyn y dylid deall *pedwar*. Ond ni cheir treigladd meddal ar ôl y

rhifolyn *pedwar*, a byddai'n rhaid felly mai grym e. sydd iddo yma. O ystyried yr ystyron a geir yn GPC 1740 d.g. *gwryd*¹, *gwrhyd*, gellid aralleirio'r ll. yn 'Bydded wir air [o] ddewrder pedwar gŵr'. Ond y mae'r darlleniad *Bedwyr wryd* '[â] dewrder Bedwyr' (a geir yn llsgrau. BCIK) yn rhagori yma. Yr oedd *Bedwyr* yn un o filwyr Arthur ac yr oedd yn enwog am ei allu ar faes y gad, gw. TYP³ 286–7; GIG 180 (I.2n); GDEp 11.18n.

47–54 Ceir cyfieithiad o'r llau. hyn yn DGIA 35.

- 49 **trwmpIs** Sef 'trwmped', ffurf un., er gwaethaf yr -s derfynol; gthg. y ffurf l. *trwmplysau*, gw. GDG³ 461. Y mae'n fenthyciad o ryw ffurf debyg i'r H.Ffr. '*trompel*', gw. hefyd DGG² 215 a GPC 3627.
- 51 **hudol** Cf. GP 136 *Tri over gerddor: klerwr, a bardd y blawd, a hudol*. Y mae'n amlwg mai rhyw fath o ddiddanwr (consuriwr, efallai) ydoedd; GPC 1907 'swynwr, dewin, cyfareddwr', &c. Sylwer ar y cyfeiriad at ŵr o'r enw 'Jankyn Hudol' yn y 14g. yn William Rees, *South Wales and the March, 1284–1415* (Oxford, 1924), 156n.
- 54 **swtr** Awgrymir yn betrus yn IGE² 423 mai benthyciad yw hwn o'r Ffr. *joueur* '*tilter, wrestler, adversary*', a dilynir ef gan Huw M. Edwards yn DGIA 35. Ond nid ymddengys fod ffurfiau tebyg i'w cael yn S.C., fel y disgwylid pe benthycasid y gair i'r Gymraeg. Gwell ei ddeall yn fenthyciad o'r S. *souter* neu *sowter* 'crydd'. Gan ei fod yn gweithio â lledr, y mae'n debyg mai'r crydd a fyddai'n gyfrifol am gynhyrchu offerynnau taro megis y tabwrdd. Yr oedd y gair *souter* yn adnabyddus yn nhrefi Seisnig Cymru yn yr Oesoedd Canol diweddar. Ceid stryd o'r enw Sowter Lane yn Ninbych ac un o'r enw Souter Street yn Aberteifi, gw. R.M. Owen, 'The street names of Denbigh, Part III', TCHSDd xxx (1981), 96–7. Derbyniwyd yr ystyr hon yn betrus yn GPC 3370.
- 56 **na** Ystyr gadarnhaol 'neu, a(c)' sydd iddo yma, gw. GPC 2545–6 d.g. *na*⁴, *nac*².
- 60 **dolfort** Awgrym petrus GPC 1074 d.g. *dolford* yw 'bord neu fwrdd lle y rhennid elusennau', sef benthyciad o'r S. *dole-board*. Derbynnir hynny, gan gymryd mai'r 'pennaf bwyd' (ll. 59) sy'n dod i'r 'talfwrdd', a bod y 'dolfort' yn enw arall ar y bwrdd hwnnw.
- 67 **o'm gofyn** 'Os gofyn imi'; gyda'r rh.m. '*m* yn cyfleu'r gwrth. anuniongyrchol. Goddr. y f. yw *Dyn annosbarthus ei dâl* (ll. 68).
- ymwal** Nis ceir yn GPC. Gellid diwygio i *ynial* 'rhyfeddol' (fel yn ll. 27 uchod), ond y mae'r gynghanedd o blaid cadw'r -*m*-.
- 68 **annosbarthus ei dâl** Y mae'n debyg mai ystyr yr ymadrodd hwn yw 'wynebgaled, digywilydd', gan gymryd mai 'talcen' neu 'wyneb' yw ystyr *tâl*. Ond gall *tâl* hefyd olygu 'taliad' neu 'gwerth'. Yr oedd

hefyd gred gynt fod dynion wedi eu nodi ar eu talcennau i ddynodi eu tynged ar Ddydd y Farn, gw. Eurys I. Rowlands, 'Dydd Brawd a thâl', LICY iv (1956–7), 80–9.

- 70 **gwerydd** Naill ai 'dyn dibriod' neu 'pur, dihalog, ffres', gw. GPC 1649 d.g. *gwerydd*¹. O gofio am ieuenctid gwrthyrch y gerdd, cymerir mai'r cyntaf sydd yma.
- 73 **Alecsander** Gelwir Gwilym ap Gruffudd a Syr Wiliam ap Tomas yn *Alecsander*, gw. 3.96n a 9.43n. Y mae'n bosibl y dylid deall *mawr* ll. 74 ynghyd ag *Alecsander* (gan roi *Alecsander ... / ... Mawr*).
- 75 **Trystan** Ar yr arwr chwedlonol Trystan, gw. TYP³ 331–4, 549; R. Bromwich, 'The *Tristan* of the Welsh', yn R. Bromwich, A.O.H. Jarman ac *The Arthur of the Welsh*, ed. B.F. Roberts (Cardiff, 1991), 209–28; GGLI At.ii.10n. Defnyddia llsgr. E y ffurf Almaeneg a S. *Trystram*.
- 78 **y cwsg ein hen farwn** Gall fod *cysgu* yma'n golygu 'marw' ac os felly nid amhosibl mai sôn am dad gwrthyrch y gerdd wneir yma—ai Gwilym ap Gruffudd (gw. y nodyn cefndir)? Ond y mae posibilrwydd arall. Tuedd beirdd y 14g. yw defnyddio'r term *barwn* ar gyfer unigolion, fel Owain Glyndŵr a rhai o ddisgynyddion Ednyfed Fychan, a oedd yn farwniaid Cymreig, gw., e.e., GIG 36 (VIII.1), 43 (IX.11, 14) a GGLI 11.50 ac yn arbennig *ib.* 12.72n. Nid yw'r defnydd o'r gair mor benodol yn y 15g., ond tybed a yw'r cyfeiriad hwn i'w gysylltu ag Owain Glyndŵr a'r gred ei fod yn cysgu yn hytrach nag wedi marw? Ar Owain yn cysgu, gw. Elissa R. Henken, *National Redeemer: Owain Glyndŵr in Welsh Tradition* (Ithaca, NY, 1996), 84. Adleisir cywydd Iolo Goch i Owain yn llau. 85–90 isod.
- 79–80 **rhwng Hafren ... / ... a Lli ac Arthan** Dull adnabyddus o ddiffinio ardaloedd yng Nghymru, e.e. *Rhwng Nedd ac Afan a Rhwng Gwy a Hafren*. Tebyg mai gogledd Cymru a olygir, er y gallai hefyd gyfeirio at Gymru gyfan. Ar *Lli ac Arthan*, gw. ll. 80n.
- 80 **llu gwrth** Diffinnir *gwrth* fel ardd. neu ragddodiad yn unig yn G 712–14 a GPC 1714, ond y mae'n amlwg mai a. ydyw yma. (Camddiweddariad o *gwrt* [sef *gwrdd*] yw'r *gwrth* a geir yn R 1041.8, gw. EWSP 566.) Er mai fel camgymeriad am *gwythlu* yn unig y ceir *gwrthlu*, gw. G 753, nodir y ffurf *gwrthluydd* yn D d.g. *rebellio*. Digon rhesymol felly fyddai *gwrthlu* 'llu rhyfelgar'. Pe gellid ffurfiau megis *gwythlu* a *llu gŵyth* am 'llu byddinog', efallai mai'r hyn a wnaed oedd ffurfio *llu gwrth* o *gwrthlu* ar yr un patrwm. Posiblirwydd arall fyddai darllen *gyrth* 'garw, caled; aruthr, ffyrnig', gw. GPC 1798.
- Lli ac Arthan** Dwy afon y credid eu bod gynt yn gwahanu Cymru ac Iwerddon, gw. PKM 39 (llau. 8–12) *Bendigeiduran, a'r yniuer a dywedysam ni, a hwylyssant parth ac Iwerdon, ac nyt oedd uawr y*

weilgi, yna y ueis yd aeth ef. Nyt oed namyn dwy afon, Lli ac Archan y gelwit. A guedy hynny yd amlawys y weilgi, pan oreskynwys y weilgi y tyrnassoed. Yn ôl Ifor Williams, darllenodd Rhys Arthan yn ei gopi ef o'r Mabinogi (enghraifft o gymysgu'r llythrennau tebyg *c* a *t* megis yn achos yr enw *Archanad* / *Arthanad*, gw. TYP³ 280); ond ceir y ffurf *Lli ac Arthan* gan Lewys Glyn Cothi yntau, gw. GLGC 565. Gwyddom iddo ef gopiö dwy awdl o'i waith i Lyfr Coch Hergest, llawysgrif sy'n cynnwys copi o'r Mabinogi (GLGC xxx). Fodd bynnag, y mae defnydd y ddau fardd o'r enwau yn awgrymu y byddai eu cynulleidfaoedd yn gwybod amdanynt. Nodir yn llsgr. J: *Afonydd Enllif*.

85–90 Ymddengys fod y llau. hyn wedi eu seilio ar ran o gerdd Iolo Goch i achau Owain Glyndŵr, sef GIG 38 (VIII.81–4): *Be magwn, byw ymogor, / Genau i neb, egin iôr, / Hael eurddrem, hwyl awyrddraig, / I hwn y magwn, ail Maig. / Tawwn, gorau yw tewi, / Am hwn ni ynganwn ni.*

86 **neb Cynan iaith** Sef 'unrhyw un sy'n siarad Cymraeg' neu 'unrhyw un sydd o genedl Cynan'. Cynan oedd tad Gruffudd ap Cynan, neu fel arall yr arwr y credid y byddai ei ddychweliad yn arwain at fuddugoliaeth derfynol i'r Cymry, gw. TYP³ 320–1.

13

Cywydd brud yw hwn wedi ei lunio ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a'r *ddeufab* Myrddin a Thaliesin.¹ Defnyddiodd Rhys gonfensiwn yr ymddiddan yng ngherddi 12 a 15, ond ceir sawl cerdd ymddiddan yn ymwneud â naill ai Myrddin neu Daliesin neu'r ddau o gyfnod llawer cynharach na dyddiau Rhys Goch.² Diau mai gan y rhain yr ysbrydolwyd Rhys Goch.

Bwriodd Ifor Williams amheuaeth ar awduraeth y gerdd hon, yn bennaf ar sail ei gred mai at ddiennyddiad Syr Gruffudd Fychan (m. 1447) gan Henry Grey, Arglwydd Powys, y cyfeiria llinellau 53–4.³ Trafodir y mater yn llawnach yn y nodiadau isod, ond y mae'n rhaid gwrthod y dyb mai math o farwnad i Ruffudd Fychan sydd yma. Gellir ychwanegu i'r dienyddiad ddigwydd yn 1447, saith mlynedd ar ôl y dyddiad hwyrach y gellir ei gynnig i gerdd olaf Rhys Goch. Ceir gwell synnwyr o ddeall y gerdd yng nghydestun y siomiant a ddaeth i ran nifer o Gymry yn union wedi methiant gwrthryfel Owain Glyndŵr. Er nad enwir Owain yn y gerdd, ceir elfennau yn y disgrifiad sy'n cyd-fynd yn burion â'r portread ohono ef, neu'n hytrach â'r portead o'r gŵr y bu darogan amdano yn enw Owain. Yn hyn o beth, y mae'r gerdd yn ymdebygu i rannau o gerdd 12. Y mae elfennau storïol yn

¹ Ceir golygiad o'r gerdd yn IGE² 335–8 (CXI).

² Am olygiad a thrafodaeth o'r enghraifft fwyaf perthnasol, gw. YMTh.

³ IGE² xlix–l. Ar Syr Gruffudd Fychan, gw. Glanmor Williams, 'Sir Gruffydd Fychan (?-1447)', *Mont Coll* lxxxvi (1998), 17–28.

frith yng nghanu Rhys Goch, ac y mae'r gerdd hon yn enghraifft nodedig, gyda sawl awgrym fod Rhys yn gyfarwydd â'r daroganau. Er y ceir rhai arwyddion brudiol cyfarwydd yn y gerdd, nid oes llawer o'r dull Sibylaidd, symbolaidd o gyfeirio at gymeriadau arbennig nac unrhyw sôn am ryfel yn Lloegr sy'n nodweddiadol o ganu brud ail hanner y ganrif. Y mae'r gerdd, felly, yn enghraifft gymharol brin o gywydd brud sydd i'w ddyddio i'r cyfnod wedi methiant gwrthryfel Glyndŵr a chyn dechrau'r ymrafael am y Goron Seisnig a elwir yn Rhyfel y Rhosynnau. Yn wir, digon teg fyddai derbyn tystiolaeth y llawysgrifau sy'n ei galw'n farwnad i Owain ei hun.

- 1 **y ddeufab** Sef Myrddin a Thaliesin, fel y gwelir o'r disgrifiadau a geir ohonynt isod.
 - 1-2 **nid addefwn / ... eu henw** Elfyn gyffredin yn y canu brud yw'r amharoddrwydd hwn i enwi'r gwrthrych. Cf. 12.84 a GDL1 25 (1.11–12) *Anfoddus wyf, ni feiddiaf / Henwi neb, hynny ni wnaif*. Cf. hefyd 12.85–90.
 - 5 **adeiniog** Am enghreifftiau pellach o'r a. hwn yn yr ystyr 'buan, chwim', cf. GGMD i, 1.17 *A chyrdd adeiniog a cherdd dannau*; GLGC 406 (185.1) *Adeiniog o fardd a adwaeny'n*—*wyf*. Ond gall mai'r ystyr lythrennol sydd yma gan fod chwedlau am y ddau fardd yn awgrymu iddynt dreulio cyfnodau ar ffurf adar neu greaduriaid a chanddynt y gallu i hedfan; gw. ll. 8n.
 - 6 **Duw a'u rhoes ar lun dyn** Yn ôl y chwedlau amdanynt, bu'r ddau fardd ar ffurf anifeiliaid o ryw fath ar ryw adeg. Bu Taliesin ar ffurf sawl rhywogaeth o anifail, adar a physgod cyn cael ei aileni ar ffurf baban, gw. TYP³ 501, a bu Myrddin yntau yn byw mewn coedwig yn wyllt ac yn flewog fel anifail, *ib.* 458.
 - 8 **perchen adanedd** Ceir *perchen adain* ym Meibl 1588 am '*winged creature, bird*', gw. GPC 2768 a cf. GGL1 6.16 *Edn dewr, berchen adain deg*. Tebyg mai'r un yw'r ystyr yma, a chydwed dai hynny'n burion â dehongliad llythrennol *adeiniog* ll. 5.
 - 11 **einioes addef** Am ystyron posibl *addef*, 'trigfan, annedd' neu 'cyffes, cyfaddefiad', gw. GPC 31, 32.
 - 14 **a'i sud** Awgrymwyd y gall fod yma gyfeiriad at 'a train of attendants or splendid livery and insignia' a oedd gan Daliesin yng Nghadair Sidi a bod *sud*, o bosibl, yn adlewyrchu'r *kyweir* a geir yn un o gerddi Taliesin sy'n cyfeirio at Siddi, gw. Patrick Sims-Williams 'Some Celtic Otherworld Terms' yn *Celtic Language, Celtic culture: A Festschrift for Eric P. Hamp*, ed. A.T.E. Matonis and Daniel F. Melia (Van Nuys, 1990), 71. Gw. ymhellach ar *Cadair Sidi* isod.
- Cadair Sidi** Cyfeiriad sydd yma at gaer yn Annwn sy'n ymddangos

mewn dwy gerdd yn Llyfr Taliesin, gw. Patrick Sims-Williams, *op.cit.* 69–75; ac *id.*, ‘The evidence for vernacular Irish literary influence on early mediaeval Welsh literature’, yn *Ireland in Early Mediaeval Europe*, ed. Dorothy Whitelock *et al.* (Cambridge, 1982), 243–8. Daw’r naill gyfeiriad o ‘Preiddeu Annwn’, ond y cyfeiriad arall sydd agosaf at gyfeiriad Rhys: T 34 *Ys kyweir vvg kadeir ygkaer sisi* (‘*Well-equipped is my [bardic] chair in the fortress of Sid(d)i*’, Sims-Williams, *op.cit.* 70). Ymddengys mai benthyciad yw *sidi* o’r Hen Wyddeleg *side*, ffurf enidol un. (a ll. enwol a genidol) *síd*, sy’n gyffredin mewn dywediadau megis *aés side* ‘pobl y *síd*, tylwyth teg’. Ar wahanol ystyron *cadair*, gw. GPC 375, awgryma Sims-Williams y gall mai dweud bod ei awen farddonol yn tarddu o Annwn y mae Taliesin. Cred Sims-Williams fod cyfeiriad Rhys at *Cadair Sidi* yn tarddu o’r gerdd yn Llyfr Taliesin, ‘it is probably a deliberate reminiscence of the Book of Taliesin line’ (td. 71). Cadarnheir hyn gan y ffaith mai *Siddi* ac nid *Sidi* fyddai’r ffurf gywir, ac i Rys neu ei ffynhonnell gamddehongli hen orgraff lle y ceid *d* am ‘dd’ ar ganol gair, un ai yn Llyfr Taliesin neu mewn ffynhonnell debyg.

- 15 **goreulwfr** Cyfuniad o *gorau* a *llwfr*, ond nid yw’r ystyr yn glir. Gellid deall *llwfr* yn ffurf amrywiol ar *llwrw*, *llwry* ‘cyfeiriad, rhawd, gyrfa’, gw. GPC 2236–7. Nis cofnodir fel amrywiad, ond ceir enghreifftiau o *llwrf* o’r 14g. Gallai *llwfr* ‘annewr’ roi *llwrf*, gw. GPC 2234, felly tybed a droes *llwrf* ‘rhawd’ yn *llwfr*? Nodir yn GPC 2234 d.g. *llwfr* enghreifftiau o’r ystyron ‘llaith, damp (am wair, ŷd, &c.); ?meddal’, ac y mae hynny’n bosibilrwydd arall.
- 17–18 **maen ... / glain** Ar y cyfuniad hwn, gw. GPC 2307, lle y rhoddir y cyfieithiad ‘*adder-bead, adder-stone, also fig.*’. Dywedir yno ei fod yn gyfystyr â *maen magl*, *maen neidr* a *glain neidr*. Disgrifir y cyntaf yn GPC 2308 fel a ganlyn: ‘*popularly believed to be a substance blown by snakes and worn as a cure for cataract (lit. cataract-stone)*’ a gw. ymhellach T.J. Morgan, ‘Maen magl—Glain y Nadroedd’, B ix (1937–9), 124–5. Digwydd yr enghraifft gynharaf o *maen glain* a geir yn GPC 2307 yn GLGC 443 (203.17) *Maen glain o’r dwyrain diredd—ytiw Rhys*. Efallai mai aralleirio ‘carreg rinweddol, arbennig’ fyddai fwyaf diogel.
- 19 **myn Dwynwen** Llw digon cyffredin. Dwynwen oedd nawddsant cariadon, felly addas yw cyfeirio ati yma wrth sôn am gariad Myrddin. Ceir sawl enghraifft o’r llw yng nghwyddau brud Dafydd Llwyd o Fathafarn, gan gynnwys un lle nad yw’r cyd-destun yn cyfeirio at ferched neu serch, gw. GDLI 29 (3.59). Ymddengys fod i Ddwynwen arwyddocâd y tu hwnt i fyd serch a chariadon.
- 20 **Y’i gyrrodd Duw i’r garreg** Ceid traddodiad cyfandirol yn awgrymu

- bod Merddin wedi ei garcharu mewn maen dan y dŵr, gw. IGE² 397 a TYP³ 462.
- 22 **cwrt rhif** Esboniad IGE² 397 yw 'llys enwog'. Ond gwell deall *rhif* yn yr ystyr 'nifer, llu', cf., e.e., GGI² 169 (LXII.32) *Mewn y rhif mae'n ŵr rhyfel*, a gw. GIG 309.
- 25 **maneg** Ceir y ffurfiau *manag* a *mynag* 'mynegiant' yn GPC 2534, a thebyg mai ffurf arall ar hynny yw *maneg* yma. Gall fod yn ôl-ffurfiad o *manegi*, gw. GPC 2535 d.g. *mynegaf*.
- 27 **angel melyn** Cf. GDG³ 51 (18.49) *Deurudd liw angel melyn*.
- 28 **callestr iâ** Trosiad am y *maen glain*. Ymddengys ei fod yn garreg galed fel callestr ond tryloyw fel rhew, nid annhebyg i risial, y mae'n debyg.
- 31 **gofyn ... ar gyfair** Gw. diffiniad GPC 675 o *gofyn ar ei gyfer*, sef 'ask directly, straight ahead'; cf. GDG³ 252 (92.9) *Gofyn a wnaeth ar gyfair*. Fe'i ceir ar lafar yn gyffredin yn y gogledd hyd heddiw yn yr ystyr 'gofyn heb feddwl, heb ystyried'.
- 32 **uddun** Ffurf Gym.C. gyfystyr ag *iddynt*, gw. GMW 60. I'w gymryd gyda *gofyn*, ll. 31.
- 33 **Baham, wedy'r bhwman** Cf. GDG³ 34 (13.13–14) ... *baham*, / *Bhwman deigr neud glud*. Ymddengys mai'r duedd i feddalu cytsain gyntaf geiriau diacen sydd i gyfrif am y treigladd a welir yn *baham*, gw. Treigladau 451–3. Gall *wedy'r gynrychioli wedy + y fan.*, neu *wedy + y gn.* rhagferfol *rhy*. Gall hwn ddigwydd gyda'r be. i roi ystyr berffaith i'r cymal. Felly cyfieithir naill ai 'why, after the wandering' neu 'why, after they (h.y. ciwdod lân, gw. ll. 34n) have wandered'.
- 35–6 **y gŵr a gysgodd heb gig / ... ar bais yr ewig** Cyfeirir yma at hanes Brutus o Gaer Droea, gw. BD 14 (llau. 5–9) *A gwedy dyweut hynny ohonaw naw weith, troi y gylch yr allawr a oruc pedeir gweith, a dineu y gwin oed yn y law y mywn y gynneu, a thannu croen yr ewic wen rac bron yr allawr, a gorwed ar hwnnw*, gw. hefyd RB 52. Wedi hyn, ymddengys y dduwies Diana o'i flaen a datgelu mai ynys yn y môr (sef Prydain) sydd i fod yn gartref iddo ac yn ail Gaer Droea, gw. hefyd IGE² 381. Dichon fod *heb gig* yn cyfeirio at y ffaith mai aberthu ewig wen i Diana, duwies hela, a wnaeth Brutus, yn hytrach na'i bwyta ei hun.
- 40 **more** Swm o arian cyfwerth â deuparth punt. Yr oedd yn derm a ddefnyddid mewn cyfrifon yn hytrach nag wrth sôn am arian mewn cylchrediad.
- cysgu'r Marcus** Credai Ifor Williams mai cyfeiriad at Brutus oedd hwn, ond nid yw ei resymau am hynny yn glir iawn, gw. IGE² 397: 'dengys y cysylltiadau mai Brutus yw'. Cafwyd tad a mab o'r enw Marcus Junius Brutus yn Rhufain yn y ganrif gyntaf C.C., gw. OCD³

788, ond prin mai hwy a olygir. Digwydd yr enw *Marcus* hefyd mewn cywydd gan Lewys Môn i Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, ac fe'i hesbonnir gan Eurys Rowlands yn gyfeiriad at Farc yr Efenglydd gan mai ei arwyddlun ef oedd y llew (ar sail Dat iv.6–10.) Yn ôl Rowlands, dylid dehongli'r ll. hon yn yr un modd. Y mae'r defnydd o'r fan. o flaen yr e. o blaid y dehongliad, er y gellid hepgor y fan. a chymryd bod *r* wreiddgoll ar ddechrau'r ll. Cf. 1.53–4n.

- 41 **sathrodd y drin** Cymerir mai ergyd hyn yw 'sathrodd [ei elynion dan draed] yn y frwydr'.
- 44 **pyst glaw glas** Am enghreifftiau eraill o ddefnyddio *post* am ffrwd o law, gw. GPC 2861. Yr oedd glaw glas yn un o'r arwyddion brudiol yr oedd y beirdd yn hoff ohonynt, gw. R. Wallis Evans, 'Rhai o briod-dulliau'r cywyddau brud', LICY xv (1984–8), 346.
- 47 **gwaith** Dilynir IGE² 397 a deall *gwaith* yn oddr. y cymal, felly 'bydded gwaith Arglwydd nefol yn ddiwestiwn'.
- 48 **lle** Gair hynafol sy'n ffurfio bôn yr a.eith. *lleiaf*. Yr ystyr yma yw 'prudd, trwm, trist', gw. GPC 2122 d.g. *lle*².

y byd lleiaf Yn ôl dysgeidiaeth yr Oesoedd Canol, yr oedd cyfansoddiad *y byd lleiaf*, sef y *microcosm* neu'r corff dynol, yn ddrych o gyfansoddiad y ddaear, gw. DB 68–71, yn enwedig 71 (llau. 1–2): *O henne y gelwir den y byt lleihaf, urth ymgyffelybu o'e ansaud y neuau organ*. Y mae'n bosibl y gwelir yma, felly, wrthgyferbynnu'r ddaear, sef *gwaith nefawol Naf* â dyn, sef *y byd lleiaf*.

- 51 **amwyll** 'Gwallgofrwydd, cynddaredd, ynfyrdrwydd'. Fe'i ceir ddwywaith i ddisgrifio lladd Llywelyn ap Gruffudd, ond y cyd-drawiad ag *ym Muellt* sydd i gyfrif am hynny, gw. GIBH 4.6 *Amwyll drud, ym Muellt draw*; GDL1 65 (23.38) *Amwyll drud ym Muellt draw*.
- 53–4 **aeth i dref dan nef nen / Y sarff** Amheuoedd Ifor Williams ddilysrwydd y gerdd hon ar sail ei ddehongliad o'r cymal hwn. Cymerodd ef fod *y sarff* mewn perthynas enidol â *tref*, gw. IGE² xlix: 'Amlwg yw bod yr arwr hwn wedi mynd i ryw le a elwir yn "dref y sarff", lle daliwyd ac y lladdwyd ef.' Cydiodd hyn wrth hanes Syr Gruffudd Fychan a ddiennyddiwyd gan Henry Grey, arglwydd Powys, yn 1447 yn groes i'r gwarant o ddiogelwch yr oedd Grey wedi ei addo iddo. Ond nid yw'r esboniad hwn yn cyd-fynd â gweddill y gerdd. Yn gyntaf, ac er gwaethaf sarff Gardd Eden, defnyddiai'r beirdd y gair *sarff* i gyfeirio at arwr yn llawer amlach nag at elyn. Yn wir, erbyn ail hanner y 15g. yr oedd yn un o'r arwyddion brudiol a ddefnyddid i gyfeirio at waredwr hir-ddisgwylidig y Cymry. Felly, y mae'n debygol mai'r arwr yw'r gŵr y cyfeirir ato fel *y sarff* yma. Deellir *aeth i dref* i olygu 'aeth adref' neu 'aeth i'w loches', a chymerir bod yma gyfeiriad at y gred fod yr arwr yn cysgu mewn rhyw loches

guddiedig yn disgwyl am awr ei ailymddangosiad. Y mae hyn yn cydfynd yn burion â'r cyfeiriad at *gysgu'r Marcus* yn ll. 40. Ceir cadarnhad pellach yn y ffaith mai *dan nef nen* y mae'r arwr. Hynny yw, ni bu farw ac felly mae eto o dan y nef, ac nid ynddi. Y mae hyn yn 'ynfydrwydd' (*amwyll*, ll. 51n) am fod y bardd yn gweld angen yr arwr ar unwaith, ac ni ddylai fod wedi mynd i ymguddio.

nid oes orffen Cymerir bod hyn yn cyfeirio un ai at y ffaith na all yr arwr orffen ei waith ac yntau'n ymguddio, neu at y ffaith na fydd ef yn 'gorffen', neu'n marw.

- 57–8 **Celum et terra ... / autem transibunt** Daw'r geiriau hyn o Math xxiv.35. Dyma'r adnod yn llawn o'r Beibl Fwlgat: *Coelum et terra transibunt verba autem mea non praeteribunt*, sef 'Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim.'
- 59 **y gŵr hen hir** Ai at yr Iesu y cyfeirir yma? Ynteu at un o arwyr y Cymry?
- 63 **Gwendyd** Yn ôl IGE² 398, *Gwynedd* yw ystyr *Gwendyd*, a rhestrir rhai enghreifftiau yn G 740 d.g. *Gwyndyt*. Deellir yr enghreifftiau a geir yn GMB 9.121 (Gwalchmai ap Meilyr) a GCBM i, 21.189 yn amrywiadau orgraffyddol am 'Gwyndyd', ond awgrymir yn GBF 1.32n (Y Prydydd Bychan) y gall fod yma un o nodweddion tafodiaith Ceredigion. Ni ddisgwylid hynny yng ngwaith Rhys, ond cedwir y darlleniad fel *lectio difficilior*. Posiblwydd arall yw darllen *gwendud* 'gwlad fendigaidd, paradwys; pobl ddedwydd', gw. GPC 1635.
- ergyd arwgoel** Er yn aml yn eg., eb. yw *ergyd* yma. Cyfuniad yw *garwgoel* o *garw* a *coel*, a chymerir mai ystyr y sangiad yw 'ergyd anodd a blin i'w gredu'.
- 64 **cur** Sylwer mai *pur* yw darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. Ond ceir gwell ystyr o ddarllen *cur* 'poen'.
- macwy mur moel** Ai cymeriad o'r daroganau, megis y Macwy Dau Hanner (gw. GPC 2298 d.g. *macwy*)? Tebyg mai 'heb farf' yw ystyr *moel*, gw. GPC 2474 d.g. *moel*¹. Anodd gwybod beth yw ergyd *mur* yma.
- 65–6 **Gŵyl ... / Phylip** Sef y dydd cyntaf o Fai. Ymddengys fod arwyddocâd arbennig i'r adeg hwn o'r flwyddyn, cf. GDL1 33 (6.7) *Ewch i'r môr yn nechrau Mai*. Mis Mai yw'r cyntaf o dri mis yr haf, ac yr oedd yr haf, yn enwedig yr haf hirfelyn, yn symbol pwysig i'r brudwyr a chyfeiriant ato'n rheolaidd. Cf. hefyd, o bosibl, GDGor 1.27n.
- 67 **caeth** Fe'i deellir yn a., er y gallai fod yn eg. 'caethwas'. Y Cymry sy'n gaeth o dan orthrwm y Saeson, ond hepiant dros dro y maent.
- 68 **ennyd** Sef 'ysbaid o amser', gall fod yn gyfnod hir neu fyr, gw. GPC 1218. Cymerir mai adf. yw yma, 'am ennyd'. Aralleirir y frawddeg a

red o lau. 67–70 fel a ganlyn: ‘Am hyn, bydd byrgwsg o dan orthrwm yn rhyndod am gyfnod (taer yw natur clod peth gwerthfawr) am i’r ceirw fwrw ymaith eu cynn yn sydyn ac yn llwyr.’

- 72 **Piler Mynydd y Paladr** Ceir hanes sefydlu Caer Fynydd Paladr (sef Caer Septon neu Shaftesbury, gw. G 95) yn RB 64 (llau. 1–7): *A gbedy mar6 lleon y deuth Run palatyruras y vab ynteu yn vrenhin. Ac un vl6ydyd eisseu o vgeint y bu yn g6ledychu. A h6nn6 a duc y bobl oc eu terusyc ar duundeb. ac a adeil6ys kaer geint. a chaer wynt. a chaer vynydd paladur yr hon a elbir kaer septon. Y lle y bu yr eryr yn dy6edut daroganeu tra adeil6yt y gaer.* Am destun Llyfr Coch Hergest o’r broffwydoliaeth, gw. Henry Lewis, ‘Proffwydoliaeth yr Eryr’, B ix (1937–9), 112–14. Tebyg mai’r *piler* yw Rhun, a’i dir yw Prydain.
- 74 **mae’dd** Cywasgiad o’r gn. rhagferfol *ydd*, gw. GMW 171, yn dilyn *mae* yn yr ystyr ‘ym mha le y mae?’, gw. GMW 143.
- 75–6 **Cadair... / ...Ferddin** Gw. 11.28n.
- 78 **hil Aedd Mawr** Aedd Mawr oedd tad Prydain yn ôl y traddodiad cyffredin, felly ei hil yw’r Brythoniaid neu’r Cymry, gw. TYP³ 271–2.
- 79–82 Gw. cyfieithiad Brynley F. Roberts yn ByB 60: ‘*Is there any hope of our nation long remembered in song, ever arising? Ay! Ay! We lament the uncouthness of slaves, may there be complete redress, our hope is alive.*’
- 79 **i’n iaith ni** Digon cyffredin gynt oedd peidio ychwanegu *h-* ar ôl y rh. mewn enghreifftiau fel hyn, gw. Treigladau 153–5, yn enwedig o flaen *i* gytsain, gw. *ib.* 155. O ran y gynghanedd, gwell ei hepgor yn yr achos hwn.
- 80 **Faith gof awdl, fyth gyfodi** Cf. GDG³ 125 (46.49) *O gof awdl a gyfodes.*
- 81 **anfoes** Yr oedd ergyd cryfach i’r gair hwn nag sydd heddiw, cf. R 1033.22 *g6aethaf anaf y6 anuoës* a gw. GPC 118.
- 85 **Alelia** Profir y ffurf gan y gynghanedd lusg. Cyfeirir yma at Garmon Sant (c. 378–448) y dywed ei fuchedd iddo arwain y Brythoniaid i fuddugoliaeth dros y Saeson paganaidd trwy eu cymell i weiddi ‘Haleliwia’, gw. CLC² 267.
- 88 **gnawd pwy?** Y mae union ergyd yr ymadrodd hwn yn anodd, ond cymerir ei fod yn gwestiwn sangiadol yma. Y mae’n bosibl fod yma adlais o’r ‘Gnodiau’, sef y cyfres o benillion yn Llyfr Coch Hergest sy’n dechrau â *Gnawd* ... Gw. R 1031.
- o’r mordwy mawrdeg** Thema gyffredin yn y canu brud yw bod achubiaeth i’r Cymry yn mynd i ddod o dros y môr.
- 89 **hydrddrych** Ymddengys mai’r ergyd yw fod Cadwallon (gw. llau. 89–90n) yn peri ofn i’w elynion (*cas*).

- 89–90 **gloywfab... / ... y marchog elydn** Cyfeirir at y *marchog elydn* ym mhroffwydoliaeth Myrddin, BD 104 (llau. 27–9) *A wna y pethau hyn a wisc gvr eudyawl, a thrvy laweryon amseroedd ar uarch euydawl a geidv porth Llundein*, hefyd RB 145. Dengys cyfeiriadau pellach mai Cadwallon yw'r *gvr euydawl* hwn, gw. *ib.* 245–6 a GLD 122. Ei fab felly yw Cadwaladr Fendigaid, gŵr y cyplysid ei enw ag eiddo Cynan fel gwaredwr y Cymry, a hynny o leiaf er y 10g. Gw. ymhellach TYP³ 298–9. Ceir delwau o wŷr elydn hefyd yn llys Hu Gadarn yn YCM² 189 (llau. 18–22).
- 94 **nasiwn wyrion Esyllt** Gw. 3.86n. Y Cymry neu drigolion yw *nasiwn wyrion Esyllt* yma. Daw'r gair benthyc *nasiwn* yn fwyfwy cyffredin ymysg beirdd y 15g.
- 95 **o gwmpas** Daw'r enghraifft gynharaf o'r cyfuniad hwn ac iddo'r ystyr '*around, round about*' yn GPC 642 o 1672, ond ymddengys mai ystyr debyg sydd iddo yma.
- 96 **brysgyll** Ffurf amrywiol ar *byrllysg* 'gwialen, teyrnwialen, bagl, ffon', gw. GPC 366. Yr ystyr 'teyrnwialen' yn ddiau sy'n gweddu orau yma.
- 99 **gwythrym** Cyfuniad o *gŵyth* 'llid, dig; digofaint; brwydr, ymladd', gw. GPC 1790 d.g. *gŵyth*¹, a *grym*, gw. GPC 1539–40. Ergyd y cymal yw na wnaeth Myrddin na Thaliesin unrhyw niwed i'r bardd.
- 101 **deunydd dail** Deallir *deunydd* yma yn yr ystyr 'ffurf neu safle (dyfodol)', gw. GPC 914 d.g. *defnydd*, ffurf y mae *deunydd* yn amrywiad arni. Cymerir mai ystyr y cyfuniad yw 'yr hyn a fydd yn ddail', sef blagur, yma'n arwydd o ddyfodol gwell, cf. llau. 65–6n. Gall fod ysbrydoliaeth feiblaidd i'r cyfeiriad hwn, cf. yn benodol Math xxiv.32–3, sydd, fel y dyfyniad o'r Fwlgat a gafwyd uchod llau. 57–8n, yn cyfeirio at 'Wers y Ffigysbren': *Dysgwch wers oddi wrth y ffigysbren. Pan fydd ei gangen yn ir ac yn dechrau deilio, gwyddoch fod yr haf yn agos. Felly chwithau, pan welwch yr holl bethau hyn, byddwch yn gwybod ei fod yn agos, wrth y drws*. Cyfeiriad sydd yma at ddyfodiad Mab y Dyn, ffigur a ddaeth yn un o symbolau brud ail hanner y 15g.
- 102 **dan ddu'r efail** Ar *du'r efail*, sef '*smithy-black, lamp-black; fig. mourning*', gw. GPC 1097. Hon yw'r enghraifft gynharaf; ceir un arall gan Fedo Aedden.

'I Feuno Sant' yw'r teitl a roes Ifor Williams i'r gerdd hon, ond nid buchedd y sant hwnnw yw unig gynnwys y gerdd.¹ Yn hytrach, ffurf ar bregeth yw'r

¹ Ceir golygiad ohoni yn IGE² 320–3 (cerdd CVI). Ceir cyfieithiad S. yn Joseph P. Clancy,

gerdd sy'n tynnu sylw at y gwahaniaeth sylfaenol rhwng y wledd ysblennydd, ond daearol a darfodedig, a gynhaliodd yr ymerawdr Hu o Gaergustennin (fel y'i disgrifir yn un o chwedlau Siarlymaen, 'Ystoria de Carolo Magno'), a'r wledd nefol a diderfyn y mae Beuno bellach yn ei mwynhau yn y nefoedd. Cyfetyb y disgrifiad o Feuno a'i ddyrchafael i'r nefoedd i hanes y sant fel y'i ceir yn 'Historia o Fuchedd Beuno', un o destunau Llyfr yr Ancr, cyfrol a ysgrifennwyd yn 1346 gan feudwy o Landdewibrefi.² Seilir y gerdd ar y ffaith fod Duw yn gwahodd Beuno i wledd dragwyddol: *Ac yr ydys yth baha'bd ygyrmt y'bled nyderuyd ygyt ath vrodyr*.³ Er mai yng Ngheredigion y copiwyd yr hanes, nid oedd Clynnog Fawr, yr amlycaf o'r eglwysi y cysylltid enw Beuno â hwy, ond ychydig filltiroedd o gynefin Rhys Goch. Gall, felly, mai ar gyfer cynulleidfa yn yr ardal honno o orllewin Arfon y bwriadwyd y gerdd.

- 1 **blinlwy'r blaidd** Deallir yn gyfeiriad at y *doctoriaid*, ll. 2. Yr oedd eu geiriau, er yn wir, yn peri blinder i rai.
- 2 **doctoriaid** Sef 'dynion dysgedig, athrawon', gw. 10.2n.
- 7 **yr Iesu Dad** Tebyg mai cyfeiriad at dad yr Iesu, sef Duw ei hun, yn hytrach na disgrifiad o'r Iesu fel 'tad' yw hwn.
- 8 **siampl** Benthyciad o'r S. *sample* neu *example*, gw. GPC 3260–1. Hon yw'r enghraifft gynharaf a restrir yn yr ystyr 'patrwm neu fodel o ymddygiad, &c., teilwng i'w efelychu, esiampl'. Yr oedd defnyddio 'esiemplau' yn arfer cyffredin wrth bregethu; daw'r gair yn y pen draw o'r Llad. *exempla*. Sylwer ar yr hyn a ddywed copiyydd Llist 117, 153: *Bellach ni asgrifenwn yr hyn sy o storiæ saint yny llyvyr du ai buchedde hwynt i ddangos siampyl ir bobyl i wella i buchedde ynhwythe*; gw. WCCR² 488n2.
- ceimiad** Ar *ceimiad* 'gwron, arwr', gw. GPC 452 d.g. *ceimiad*¹, ond gall fod yma gyfeiriad at y ffaith y byddid yn galw Beuno yn 'Beuno Geimiad', gw. LBS ii, 436 a cf. ll. 103.
- 10 **Hu Gadarn** Ymerawdwr Caergustennin a baratoes wledd ysblennydd i Siarlymaen pan ymwelodd hwnnw â'i lys, gw. YCM² 187; WCD 367–8 ac A.C. Rejhon, 'Hu Gadarn: Folklore and Fabrication' yn Patrick K. Ford, *Celtic Folklore and Christianity* (Santa Barbara, 1983), 201–12. Am gyfeiriadau pellach ato gw. GIG 123 (XXVIII.63); GGI² 177 (LXVI.51); TA 22 (IV.66).

Medieval Welsh Lyrics (London, 1965), 198–202.

² Ceir golygiad o'r fuchedd yn VSB 16–22 ac yn Ina Lloyd-Evans, 'Testun beirniadol gydag astudiaeth o *Fuchedd Beuno*' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1966) a chyda chyfieithiad S. yn Maredudd ap Huw, 'A critical examination of Welsh poetry relating to the native saints of North Wales (c. 1350–1670)' (D.Phil. Oxford, 2001), 42–54, 277–81.

³ LIA 126 (23–4).

- 11 **wrth** Yr ystyr 'mewn ymateb i' sy'n gweddu orau yma, gw. GPC 3737.
- 12 **Siarls** Yr ymerawdwr Siarl Fawr neu Siarlymaen, o'r S. neu'r Ffr. *Charles*.
- 13–14 **dyn ... / Bydol** Sef '*a mortal or earthly man*', gw. GPC 1140 am enghreifftiau eraill. Efallai y gwahaniaethir yma rhyngddo a *bonedd*, ll. 16.
- 15 **nerth bobl** Y mae *nerth* yma'n a. (GPC 2571), felly yr ystyr yw 'pobl rymus'.
Constinobl Sef Caergustennin, prifddinas ymerodraeth Hu. Y ffurf *Corstinabyl* a geir yn YCM² 122 (ll. 26), ond *Constinobl* a geir gan Iolo Goch yn GIG 123 (XXVIII.66).
- 17 **Bost fawr y sydd yr awron** Tystiolaeth sy'n dangos pa mor boblogaidd oedd y chwedl ac, o bosibl, sy'n awgrymu mai oddi ar lafar gwlad y dysgodd Rhys amdani.
- 18 **ymffust** Rhoir yr ystyr 'ymladd, cystadlu' iddo yn IGE² 425, ond nid yw'r ystyr yn gweddu yma nac yn GIG 16 (IV.7–8) *Pa dwrw yw hwn, gwn gannoch, / Pa ymffust i'm clust fal cloch?* Ystyron tebyg a geir yn GPC 3777. Y mae'n debygol mai 'sŵn, sôn' yw'r ystyr yma.
- 19 **brenhinedd** Tebyg mai boneddigion llys Hu yw'r brenhinoedd hyn, gw. YCM² 186 (llau. 20–3) *Yno yd oedynt kyfrwng rif teir mil o vonhedigyon yn gyn hardet o wisgoed mawrweirthiawc, val kyt bei brenhin vei bob un onadunt, neu teyrn deleedawc*. Aethent i'r wledd yng nghwmni Siarlymaen a'i ddilynwyr.
- 21 **aeth i'r llawr** Ar y priod-ddull hwn ac iddo'r ystyr 'tregi, marw', cf. 3.23–4n. Cymerir mai'r eb. *pobl* neu'r eb. *gwledd* sy'n oddr. yma.
- 25–7 Deellir llif y frawddeg fel a ganlyn: 'annhebyg ... i wledd Hu Amaeth [yw]'r wledd angylol ... a defod yr holl lwyddiant'.
- 25 **rhyw fenthyg faeth** Cyfeiriad at y ffaith mai ar fenthyg y mae holl olud y ddaear; yn y nef yn unig y ceir maeth tragwyddol.
- 26 **Hu Amaeth** Enw arall ar Hu Gadarn. Pan fu iddo ef a Siarlymaen gwrdd am y tro cyntaf yr oedd Hu'n aredig y tir. Ceir yr hanes ym 'Mhererindod Siarlymaen', gw. YCM² 187 (llau. 6–27).
- 29 **a roes Duw** Darlenniad IGE² 321 (ll. 3) yw *o ras Duw*, ond ceir gwell rhediad i'r frawddeg o ddeall ffurf f.
- 31–2 **y seithfed dydd ... / Cyn y Pasg gwyn** Ar y *Pasg Gwyn*, gw. GPC 2698, lle y dywedir ei fod yn gyfystyr â'r Pasg Bychan, sef y Sul cyntaf ar ôl y Pasg, a lle y rhoir hon yn unig enghraifft. Yn ei nodyn ar *Pasg Gwyn* yn IGE² 395 dywed Ifor Williams 'dethlid y Pasg gynt am wyth niwrnod, a gelwid y Sul dilynol yn Basg bychan yn Gymraeg,

Low Sunday yn Saesneg'. Ond nid yw'n dweud bod y Pasg Gwyn a'r Pasg Bychan yn gyfystyron. Nid yw hynny'n debygol mewn gwirionedd, gan mai'r seithfed dydd cyn y Pasg Bychan yw'r Pasg ei hun; ni ddisgwylid i neb gyfeirio at y Pasg fel y seithfed dydd cyn y Pasg Bychan. Gwell deall *Pasg gwyn* i olygu'r Pasg ei hun a deall yr a. *gwyn* i olygu 'bendigaid, sanctaidd', gw. GPC 1770 d.g. *gwyn*¹. Ond yn ôl 'Hystoria o Uched Beuno', LIA 126 (13–15), *yseithuet dyd gbedy ypasc ef abelei ynef yn agoret ac engylyonn yn gogbstong ac yn dyrchael yvynydracheuen*.

- 33 **marmor fedd** Cyfeiriad at fedd yr Iesu, efallai, gan fod y bardd yn sôn am y Pasg. Cf. 15.37n. Fel arall, y mae'n rhaid ei ddeall yn gyfeiriad at fedd Beuno ei hun yng Nghlynnog. Ymddengys fod y bedd i'w weld hyd at y 18g. o leiaf, gw. RCAHM (Caernarvonshire), ii, 41.
- 34 **bonedd** Dywedir am dad Beuno mai *gôr bonnhedic* ydoedd, gw. LIA 119 (ll. 1).
- 35 **croes dŷ** Ar *croes* 'adail neu gofadail ar ffurf croes neu a chroes ar ei phen', gw. GPC 604 a hefyd GPC 608 d.g. *croesty*. Ai cyfeiriad at eglwys Clynnog sydd yma? Gw. RCAHM (Caernarvonshire), ii, 37.
- 37 **crys mael** Sef '*coat of mail, haulberk*' yn ôl GPC 625, gan cyfeirio at yr enghraifft hon. Gan mai anodd gweld paham y byddai Beuno am wisgo arfwisg ar ei wely angau, gall mai gwisg ysgafnach a olygir yma.
- 38 **dofraff** Rhan o wisg Beuno, er nad yw'n glir beth yn union ydoedd. Neu gellid dilyn Maredudd ap Huw, *op.cit.* 43, 52–3, a darllen *deufrath* 'doubly resistant to thrusts'. Dewis arall fyddai darllen *dofreth* 'llety, gwestfa orfodol, dyletswydd ar daeogion maenol i letya a bwydo teulu'r brenin', GPC 1072. Os felly, byddai'n rhaid cymryd mai rhywbeth fel 'offer (milwr)' yw'r ystyr yma.
- 40 **croes fer** Croes lai a wisgid am y gwddf, o bosibl, efallai wedi ei chysylltu â'r *dofraff*.
gras fwy Fel arfer, eg. yw *gras*, ond treiglr *mwy* yma am ei fod mewn cwestiwn sy'n disgwyl ateb neg., gw. Treigladau 66–7.
- 41 **bagl** Ffon swyddogol yr esgol neu abad oedd *bagl*, gw. GPC 249. Ymddengys yma fod lamp o ryw fath wedi ei gosod ar ei ben, oni bai mai defnydd ffigurol o *bagl* am ffon y ceid llusern ar ei ben sydd yma. Ond nid amhosibl chwaith y darlleniad *ffagl* 'tors'.
- 44 **delw Duw** Credid y lluniwyd dyn ar ddelw Duw. Yn ôl esboniad yr 'Elucidarium', crewyd dyn o gadernid corfforol a chadernid ysbrydol. Am yr ysbrydol dywedir, LIA 9 (llau. 27–8): *Ysubstans ysbrydaðl agredir yvot or tan ysbryaðl. ynyr hōnn ydangossir delw ac eilun duð.*
- 50 **[y] Drindod rym** Cf. LIA 126 (llau. 15–16) *Mi abelaf heb ytrindaðt ytat ar mab aryspnyt glan*.

- 54 **merthyri** Sef ‘merthyron’: dywedodd Beuno iddo weld *arebestyl armerthyri yn ymdangos ym*, gw. LIA 126 (ll. 17–18).
- 55–6 **pedwor ... / archangel** Ffurf amrywiol ar *pedwar* yw *pedwor*, gw. GPC 2710. Er mai at y tri archangel Mihangel, Gabriel a Raffael y cyfeirir yn aml, gw. er enghraifft YE 27 (llau. 15–16), ceir sawl enghraifft o gyfeirio at bedwar, sef y tri uchod ynghyd ag Uriel, gw. GMBr 5.103n a GLGC 197 (85.55–60). Nid oes sôn am archangylion yn yr ‘Historia’, ond dywed Beuno iddo weld *seithangel ynseuyll ger bronn kadeir ygoruchel dad*, gw. LIA 126 (llau. 18–19) a cf. Dat i.20.
- 55 **cerddor** Cyfeiriad at Feuno ei hun; gellid synied amdano fel cerddor am y bu iddo ganu’r offeren a chymryd rhan mewn gwasanaethau eraill.
- 61 **y deuddeg gwiwlamp** Yma’n ffigurol am y deuddeg apostol, gw. GPC 1674.
- 62 **plas** Gall olygu ‘lle agored’ neu ‘palas’, gw. GPC 2819 a cf. LIA 28 (llau. 21–2) *Ponyt ymplas ynef ygōnnaeth du6 yntev* (‘Historia Lucidar’).
- cwmpas Duw** Cf. LIA 9 (ll. 17) *ybenn yngrwnn ar lun kwmpas ynef* (‘Historia Lucidar’).
- 65 **ar ael mynwes Mai** Gall fod yma gyfeiriad at y ffaith mai ychydig cyn (*ar ael*) mis Mai y digwydd y Pasg, neu fod y nefoedd fel mis Mai, yn hoff gan y beirdd. Ceir hefyd e. hynafol *mai* ‘tiroedd gwastad’, gw. GPC 2321 d.g. *mai*², ond go brin mai hwnnw sydd yma. Gellid hefyd ddilyn Maredudd ap Huw, *op.cit.* 45, 53, a darllen *ar ail ‘in turn’*.
- 66 **Dafydd a Deinioel** Dafydd yw Dewi Sant, yr un tarddiad sydd i’r ddwy ffurf. Cf. yr awdl i Ddewi yn GDL1 46 (13.9–10) *A Duw a’th ddonies y dydd—y’th aned / Pan y’th enwyd Dafydd*. Deinioel neu Ddeiniol yw nawddsant Bangor yn Arfon. Dywed Beuno yn LIA 126 (llau. 16–17) iddo weld *dauid 6irjon. a deyinoel*.
- 70–2 **a chlybu ... / ... / Wiw Dduw yn ei wahodd ef** Gw. llau. 109–11n.
- 73 **galw** Yma’n ddeusill er mwyn hyd y ll., fe ymddengys.
- 75 **lleithig lwyth** Gw. 3.3n.
- 81 **tybied** Yr ystyr yma yw ‘cymharu’, gw. GPC 3669 d.g. *tybiaf*, lle y nodir yr enghraifft hon.
- 85–6 **Pedr yn bab ... / A Phawl** Cf. LIA 126 (ll. 16) lle y dywed Beuno iddo weld *apheder apha6l*. Pedr oedd y pab cyntaf.
- 88 **manna** Credid mai’r nefoedd oedd tarddle manna. Geilw y Beibl ef yn ‘ÿd y nefoedd’ a ‘bara parod o’r nefoedd’, gw. GeirB 934, disgrifiadau addas yng nghyd-destun y gerdd hon.
- 95 **pedair afon** Credid bod pedair afon yn llifo trwy’r nef; yn yr un modd yr oedd yr afon a ddyfrhâi Eden yn ymrannu’n bedair, sef Pison,

Gihon, Hidecel ac Ewffrates, gw. Gen ii.10–14.

- 101 **y dwfr** Nid yfai rhai o'r saint ddim ond dŵr, a gelwid Dewi yn 'ddyfrwr' o'r herwydd, gw. GPC 1127 a hefyd IGE² 245 (ll. 2), DN 54 (XIX.22).
- 102 **heiddbal** Cyfuniad o *haidd* a bôn y f. *palu*, gw. GPC 1838. Daw'r enghraifft arall o GGMD ii, 4.33–4 *O'r pumtorth, hawddborth heiddbal, / A'r ddeubysg, Iôr oedd ddibwl*; cyfeirir yno at borthi'r pum mil. Rhydd GPC yr ystyr '?a wnaed o haidd a dyfwyd ar dir wedi ei balu'. Dilynir hynny yma, gan ddeall ei fod yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng yr haidd, cnwd eilradd, a dyfodd Beuno wedi palu'r tir ei hun, a'r gwenith a dyfodd Hu wedi iddo aredig y tir gydag anifeiliaid gwedd.
- 103 **Beuno Geimiad** Gw. ll. 8n.
- 109–11 **Duw a erchis ... / ... i Feuno ŵyl / Adu'r cnawd** Cf. LIA 126 (llau. 21–3) *Mi aglybaf heb ef lef cornn ygoruchel tat ymgŵahaŵd. ac yn dybedut vrthyf. vymab i bŵrŵ di oreilyt dy gnaŵt yvrthyt. llyma yr amsser yndyuoŵt.*
- 119 **y gadair** Cf. ll. 49n.
- 120 **Mair** Ni chrybwyllir Mair yn 'Buchedd Beuno', ond daethai'n ffigur amlycach yn y cyfnod rhwng cyfansoddi'r fuchedd a chyfansoddi'r gerdd hon, gw. WCCR² 481–7.
- 121 **penwn y trŵn** Y mae'n debygol fod y bardd yn meddwl am orsedd (*trŵn*) a chanddi faner (*penwn*) wedi ei gosod ar ei phen.
- 124 **Amen, a phand yno y mae?** Diweddglo tebyg a geir i Fuchedd Beuno, LIA 127 (llau. 3–6) *Archŵn nynheu trugared duŵ holl gyuoethaŵc drŵy gannhorthŵy beuno sant. val ygallom nynheu gaffel ygyt ac euo buched tragŵyd ynnyr oes oessoed amen.*

15

Canodd sawl bardd gerddi i gwyno am effaith barf arw ar eu hymddangosiad ac ar eu bywyd carwriaethol¹ gan gynnwys Iolo Goch, Llywelyn Goch ap Meurig Hen a Llywelyn ab y Moel.² Ymdebyga'r gerdd hon fwyaf i gerdd Iolo Goch, er bod ganddi lawer yn gyffredin â'r lleill hefyd. Yn wir, y mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn priodoli'r gerdd hon i Iolo Goch, ond gan fod cerdd ganddo eisoes ar y thema hon, gellir bod yn bur sicr mai Rhys Goch a

¹ Golygwyd y gerdd hon yn *Y Flodeugerdd Newydd*, gol. W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1909), 55–7. Ceir golygiad hefyd yn IGE² 332–4 (cerdd CX).

² GIG 105–6 (cerdd XXV); GLIG cerdd 3; GSCyf cerdd 13. Canodd Lewys Glyn Cothi yntau ar thema debyg, gw. GLGC 206–7 (cerdd 90). Trafodir y cerddi hyn yn Dylan Foster Evans, 'Y bardd a'i farf: y traddodiad barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

ganodd y gerdd hon.³ Ei nodwedd amlycaf yw'r modd y mae'r bardd a'r farf yn cynnal sgwrs â'i gilydd. Y farf sy'n cael y gorau ar y ddadl trwy ei defnydd cyfrwys o amryfal ystyron y gair *llwyd*.

- 1 O ran cynghanedd, rhaid fod yr *f* olaf yn *farf* yn lled-lafarog neu fod yma gynghanedd drychben, cf. 11.60n.
- 3 **eildydd** Ni pharai'r trefnolyn *ail* dreigladd meddal mewn Cym.C., gw. Treigladau 40–2.
- 4 **ag wyth ellyn** Y mae'r llsgrau. gorau o blaid y darlleniad hwn. Gall mai pwysleisio anghyfleustra eillio yw'r bwriad, neu wydned y farf. Ond efallai y dylid derbyn y darlleniad *â gwaith ellyn* neu *â gŵyith ellyn* (ar *gŵyith* 'llid, dig, digofaint', gw. GPC 1790).
- 7 **morfrwyn sofl** Byddid gynt yn torri morfrwyn i'w ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu matiau a phethau tebyg; gadawai hyn sofl arw. Hon ac eiddo Llywelyn ab y Moel yn ei gywydd yntau i'r farf yw'r enghreifftiau cynharaf o *morfrwyn*, gw. GPC 2490 a GSCy 13.52n. Cf. *moresg*, ll. 1
- 8 **cob i hen esgob** Ar *cob* 'hugan neu ŵn hirllaes dilewys a wisgir gan glerigwyr', gw. GPC 523 a cf. yn arbennig DE 27 (XV.7–8) *kaf esgob nid kob kybydd / Jor kred yw ysgar ar krydd*. Er y rhydd y darlleniad hwn synnwyr da, gellid dilyn IGE² 332 (ll. 8) a darllen *isob* (< S.C. (*h*)*ysope*) 'planhigyn bychan sawrus ac iddo rinweddau meddyginiaethol', gw. GPC 2039 a GeirB 844.
- 10 **ewyngnu** Dywedir bod y farf yn gnu o'r un lliw ag ewyn. Sylwer bod ewyn o gylch y geg yn arwydd cyffredin o wylltineb neu salwch, gw. yr enghreifftiau yn GPC 1265 d.g. *ewyn*.
- 12 **ei dremig** Cyfeirir at y sawl sy'n eillio, sef goddr. *ty*n, y ll. flaenorol.
- 14 Y mae'n debyg mai cynghanedd sain gadwynog sydd yma, gyda'r acen ar yr *i*.
- 15 **gloes angau** Ar *gloes(ion) angau* 'death pangs', gw. GPC 1409.
- 17 **arwydd** Yr ystyron 'ystondardd, lluman, baner' sy'n gweddu orau yma, gw. ymhellach GPC 216.
ar y ddwyen Tybed a oes yma chwarae ar y dywediad *ar fy ngên* 'on my life', gw. GPC 216?
- 18 **heiddgnu** Ystyrid haidd yn gnwd eilradd, cf. *heiddbal*, 14.102n.
- 19 **dioer** Talfyriad, unsillafog gan amlaf (ond gw. ll. 22n) o *Duw a wŷr*, gw. GPC 1024 d.g. *dioer*¹. Rhaid mai unsill ydyw yma er mwyn odli'n acennog ag *anlladoer* (ffurf sydd â'i haceniad wedi ei phrofi gan y gynghanedd) yn ail fraich y cwpled.

³ Dyma yw barn golygydd diweddaraf gwaith Iolo Goch, gw. GIG 328.

- 21 **cuddio wyneb** Cf. y dywediad *cuddio wyneb* ‘to hide one’s face, take no heed, withhold favour’ a geir yn LIA 25, gw. GPC 628.
- 22 **dioer** Os yw’r gair hwn yn unsillafog, megis yn ll. 19, y mae’r ll. yn rhy fyr, felly gall fod yn ddeusill yma. Gellid darllen y ffurf ddeusill *dioer* (< *di-* + *oer*) ‘twym, brwd, cynnes, siriol’, gw. GPC 1024 d.g. *dioer*², ond ni roddai hynny ystyr foddhaol.
- 28 **Sioseb** Ffurf ar *Joseff*. Dywed W.J. Gruffydd am y cyfeiriad hwn: ‘A reference to the old Mystery Plays, where probably Joseph appeared in flowing beard’, gw. *Y Flodeugerdd Newydd*, gol. W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1909), 220. Ond y mae’n debygol fod y cyfeiriad a geir isod ll. 53n yn fwy perthnasol.
- 29 **iyrchflew** Cf. GLGC 386 (175.51) *fal iwrc’h yn ei flew* (am geffyl).
- 30 **coed anhygyrch** Disgrifiad o’r farf, ond hefyd yn fwysair sy’n cyfeirio at anheddle’r iyrc’h yn ll. 29.
- 34 **symud liw** ‘Newid liw’, gw. PKM 254; GPC 3388 a cf. YCM² 61 (ll. 1) *A’r Sarassin a symydwys lliw*.
neu ddos Darlleniad IGE² 333 (ll. 6) yw *neu dos*, ond y mae’r llsgrau. yn gryf o blaid *neu ddos*. Er nad yw treiglo cytsain gyntaf bf. ar ôl *neu* yn safonol mewn Cym.Diw., ceir digon o enghreifftiau cynnar, gw. Treigladau 365.
- 35 **Na wna hyder o’th weryd** Cf. DN 84 *Blin yw hyder o weryd*. Gall mai ystyr *hyder* yma yw ‘person neu beth yr hyderir ynndo, cyflwr ffyddiog’ yma, gw. GPC 1951; ond ymddengys mai ergyd yr ymadrodd *gwneud hyder* yw ‘bod yn hyderus, ymddwyn mewn modd hyderus’, cf. GDG³ 103 (37.13–14) *Hyder a wna dringhedydd, / Hydr y dring fal gwerling gwÿdd*. Cyfeiriad ffigurol at wyneb y bardd yw *gweryd* ‘daear, tir’, &c., a chynigir aralleirio’r ll. fel a ganlyn: ‘Paid â bod yn hyderus o’th dir’, h.y., ‘Paid â hyderu y bydd lle iti aros arno yn hir.’
- 37 **myn bedd Duw** Cyfeiriad at fedd Crist yn Eglwys y Beddrod Sanctaidd, Jerwsalem, ‘y cysegredicaf oll o gyrc’hannau’r pererinion’, gw. Gruffydd Aled Williams, ‘siaffr (*GGGI* lxxxvi.8)’, B xxviii (1978–80), 613; GGDT 9.4n.
m wreiddgoll.
- 38 **carth** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 433 dan yr ystyr ‘cywarch, brethyn garw; breisgion, gwehilion cywarch neu lin’; ond nid amhosibl yr ystyr ‘ysgubion, gwehilion’, sef ffurf un. *carthion*.
- 39 **garwlwyth gŵr** Gall *garwlwyth* fod yn e. ‘llwyth garw’, neu’n a. ‘garw ei lwyth’; a gall *gwr* y llsgrau. gynrychioli *gŵr* neu *gwr*, ffurf dreigledig *cwr* ‘ael, min, terfyn’; cf. GIG 105 (XXV.17) *Garw erioed oedd gwr y rudd*. Y cyntaf a fabwysiadwyd yn y golygiad.

- 40 **trawswch** Ar *trawswch* ‘moustache’, gw. GPC 3569 a D d.g., lle y priodolir y cwpled hwn i Lewys Glyn Cothi.
- 41 **lliw goreuserch** Cymerir bod hwn yn cyfeirio ymlaen ac yn disgrifio *min merch* y ll. nesaf.
- 45 **gwenithgerdd** Gw. GPC 1638 am yr ystyr ‘cerdd goeth, ragorol’; hon yw’r unig enghraifft. Am y defnydd o *gwenith* yn ffigurol am farddoniaeth, cf. yr epithet *Gwenith Gwawd* a roed ar y bardd Cian yn ‘Historia Brittonum’ (9g.), gw. CLC² 105. Cf. hefyd GDG³ 42 (15.13) *Neu chân fy nhafawd wawd wenithaidd*; GOLIM 49 (25.27) *awen, aeth yn wenithaidd*. Ond sylwer hefyd fod cymysgu rhwng ffurfiau seiliedig ar *gwenith* a *gweniaith* i’w gael mor gynnar â’r 16g., gw. GPC d.g. *gwenieithiol, gwenieithol, gwenithol*.
- 49 **llwydion** Yma yn yr ystyr ‘sanctaidd’, gw. GPC 2440 a cf. ll. 50.
ceraint gu Er mwyn esbonio’r treigladd meddal i’r a. *cu*, awgrymir yn W.J. Gruffydd, *op.cit.* 220, fod *ceraint* yma’n eb. torfol (ar lun ffurf fel *pobl*, fe ymddengys), ond ni chrybwyllir hynny yn GPC 422. Cymerir mai e. yw *cu* yma, yn dibynnu ar *ceraint*; neu gellid diwygio a darllen *ceraint cu*.
- 51 **Rholant** Nai Siarlymaen, yr oedd bri mawr arno fel rhyfelwr yn yr Oesoedd Canol. Am gyfeiriadau pellach gw. y nodyn canlynol.
llid Ceir sawl cyfeiriad at lid Rholant, gw. yn arbennig *Cân Rolant: The Medieval Welsh Version of the Song of Roland*, ed. Annalee C. Rejhon (Berkeley, 1984), 120 (XV.5–6) “*Ry hawd yw gennyt ti lidio, Rolant, vyg kedymdeith,*” *eb yr Oliuer*; YCM² 52 (llau. 5–6) *Ac ar y geir hwnnw y deuth Rolant yn gyflawn o lit*; *ib.* 60 (llau. 10–11) *Ac yna, sef a wnaeth Rolant, llidiaw yn diuessur y veint*.
Nid yw *-d rh-* yma’n caledu, gw. J. Morris-Jones: CD 206–4
- 52 **Llwyd fydd ... llew** Yr oedd ystyr eang i *llwyd* gynt, a gallai ddisgrifio lliw naturiol melynffrown y llew (gan gymryd bod Rhys yn gyfarwydd â lliw llewod). Ond sylwer ar y dywedriad hwn o D (a ddyfynnir yn GPC 2168) *Glew a fydd llew hyd yn llwyd* lle y mae’n amlwg mai at oedran y llew y cyfeirir.
- 53 **glas** Fel *llwyd*, gallai *glas* gyfeirio at liw ac at sancteiddrwydd, gw. GPC 1401–2.
Siohasym Gŵr Santes Anna a thad y Forwyn Fair; S. *Joachim*. Yn ôl ODCC³ 877, ‘in later medieval times he became a frequent subject for the religious artist’. Diau y byddai lluniau ohono wedi ei bortreadu’n ŵr barfog—yn ôl Giles Constable, ‘in late medieval religious art, indeed, a beard was almost a distinguishing mark of a Jew, and a typical Christian was shown without a beard’, gw. R.B.C. Huygens, *Apologiae Dvae* (Turnholti, MCMLXXXV), 102. Y mae’n bosibl

iawn mai darlun ar fur eglwys a roes fod i'r gymhariaeth hon. Cf. hefyd ll. 28n.

- 56 **lleuad fain** Sef '*crescent moon*', gw. GPC 2167.
- 57 **argumhennwyd** Y mae'r llsgrau. yn eithaf cryf o blaid y ffurf hon, er bod yr enghreifftiau yn GPC 201 d.g. *argumennaf* 'dadlau, ymresymu' yn ddiweddarach na chyfnod Rhys Goch. Fodd bynnag, ceir yr e. *argumen* yn y 14g. (GPC 2000), felly byddai'n ddigon posibl i Rys fod wedi defnyddio'r ffurf f. Posibilrwydd arall fyddai derbyn darlenniad sy'n cynnwys *cymhennwyd*. Prif ystyr *cymhennu* yw 'tacluso' ond ceir enghreifftiau o gyfnod Thomas Wiliems ac wedi hynny o'r ystyron 'difriō, tafodi, dwrديو', gw. GPC 764.
- 60 **gwaith** Yr ystyr fwyaf addas yma yw 'llun, ffurf, delw', gw. GPC 1563.
- 62 **llwydrew** Fe'i defnyddir yn ansoddol yma, gw. GPC 2241; GGI² 195 (LXXIII.41).
- 66 **mwyl no** Yr ystyr yma yw 'rhagor na, yn hytrach na', gw. GPC 2515.

16

Bu'r llwynog yn destun poblogaidd gan feirdd o ddyddiau Dafydd ap Gwilym hyd y cyfnod modern cynnar.¹ Y mae'r gerdd hon yn llawn ymadroddion enwol cyfansawdd a rhan bwysig o'i strwythur yw'r modd y cyfosodir gwahanol ddisgrifiadau o'r llwynog â'i gilydd. Nid yw'n glir bob tro beth yw llyf yr ystyr, ac yn wir eilaidd iawn yw uned y frawddeg fel y cyfryw yn aml. Pentyrro epithetau ymosodol a wna'r bardd, ac y mae'n anodd gwybod bellach sut yn union y byddai'r perfformiwr a'i gynulleidfa wedi dehongli rhannau o'r awdl. Fel y dengys yr olnodau i'r gerdd hon, yr oedd cryn gamp ar ei chofio a'i pherfformio'n llafar.

Y mae'r awdl yn gyfuniad o englynion unodl union, englynion proest, rhai yn estynedig (er na cheir amrywio llawn yn y proest yn llau. 5–8 a 13–18), a thoddeidiau (ar yr odl -a). Cysylltir yr adrannau â'i gilydd â chyrchgymeriad geiriol. Ceir cymeriad llythrennol yn ddi-dor hyd at linell 80, ac wedyn o linell 91 hyd at y diwedd (gyda mân amrywiad yn ll. 110). Y mae llinell olaf y gerdd yn cyrchu'r dechrau.

- 1 **Madyn** Deellir hwn yn e.p. Gall mai ffurf fachigol ar *Madog* oedd yn wreiddiol, ond fel *Cadno*, aethpwyd i'w ddefnyddio'n e. am y llwynog, gw. J. Morris-Jones: CD 42; WSur 157. Ond y mae'n bosibl

¹ Ceir testun o'r gerdd yn *Gwyneddion* 3, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1931), 167–71, ac yn Rhys Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru: neu Flodau Godidogrwydd Awen*, gol. diweddaedig gan Gynddelw (Caernarfon, 1864), 27–31.

- mai e.c. ydoedd yn wreiddiol, gw. GPC 2303. Gw. hefyd 11.41n.
- 2 **marwydos** Cyfeirir at liw coch y llwynog.
- 5 **budreddleidr nos** Cf. ll. gyntaf awdl ddychan Deio ab Ieuan Du i'r lleidr a ddygodd ei wartheg, GDID 42 (17.1) *Budreddleidr fal neidr y nos*.
- 6 **brynhigranc** Cyfuniad o *brynnig* 'drewllyd, aflan' a *cranc*. O ran yr odl broest, byddai ffurf yn diweddu ag *-inc* (fel a geir yn nifer o'r llsgrau.) yn well yma. Ond nid oes tystiolaeth gynnar dros *crinc* mewn ystyr ddiifrïol. Dewis arall (ac un a esboniai'r diffyg calediad i'r g) fyddai *rhinc* 'sŵn gwichlyd' (GPC 3075), er na cheir cystal ystyr o hynny.
- 7 **ys** Y gn. rhagferfol cadarnhaol, cf. 5.90n.
- 12 **pardengl** Dyfynnir y ll. hon yn D d.g. *tengl* (ni chynigir ystyr) wedi ei phriodoli i Ddeio ab Ieuan Du. Diau mai'r un ffurf sydd yma ag a geir yn GGrG Atodiad ii.37 *Llymdir sengl, llethr bardenglwyd*. Deellir yno y ffurf *bardenglwyd* yn e. ac yn gyfuniad o *bar* 'rhwystr' + *deg* + *chwyd*, er y cyfaddefir *ib. n.* mai anodd yw esbonio'r treigladau ar ôl yr elfen *deg*. Ond o ddeall *llethr* yn eb. (gw. GPC 2165), gellir yr a. *pardenglwyd* o'r enghraifft, cyfuniad o'r ffurf anh. *pardengl* + *llwyd*. Ond erys ystyr *pardengl* yn dywyll.
- 13 **callestr** Yn ffigurol am rywbeth caled a garw, gw. GPC 395: *chwys gallestr* 'peth caled [llawn] chwys'.
- 16 **ydiam** A. 'yn llamu o ŷd': ai cyfeiriad at arfer rhai mathau o chwilod i neidio ar grwyn eu prae oddi ar wair hir? Gellid hefyd ddarllen *adlam*.
- 18 **chwaith** Ffurf amrywiol ar *chwaeth* 'archwaeth', gw. GPC 389.
- 20 **mepgyrn** Ffurf l. *mapgorn* 'rhan fewnol corn anifail, corn mewnol tyner', gw. GPC 2351. Digwydd y ffurf un. yn awdl ddychan Dafydd ap Gwilym i Rys Meigen; nid 'dillad baban' yw'r ystyr fel y'i hesbonnir yn GDG³ 464.
- 21 **a gasgl lledr** Ni threiglid y gwrth. yn rheolaidd mewn Cym.C., gw. Treigladau 207–8. Ond gall mai'r orffwysfa sy'n rhwystro'r treiglo yma.
- 22 **llodrdraig** Gall yr elfen gyntaf *llodr* gynrychioli un ai *llodr* '(person, anifail, &c.) yn gorwedd yn swp neu ar ei hyd', gw. GPC 2197 d.g. *llodr*² neu *llawdr* 'trowser, towsus', gair a geir yn aml yn y canu dychan, cf. ll. 2 a gw. GPC 2106.
- 26 **trosol egroes** Cyfeiriad at liw rhuddgoch cynffon y llwynog.
- 27 **carddagl** Deellir hwn yn ffurf amrywiol ar *carfagl* 'godre neu ymyl dillad', gw. GPC 426 (hon yw'r enghraifft gynharaf) lle yr awgrymir y

gall fod dylanwad y S. *dag* ‘edge of garment, daggie, draggle’ ar y gair. Cf. hefyd y gair *cagl* am rywbeth nid annhebyg.

cerddawdd gwterau Yn ôl GPC 651 dyma’r enghraifft gynharaf o’r gair *cwter* (< S. *gutter*). Os felly y mae’n rhaid ei fod yn treiglo fel gwrth. *cerddawdd*, ac er mai’r rheol gyffredin oedd cadw’r gysefin, gw. Treigladau 218–19, ond y mae’n fwy tebygol fod *gwterau* yn ffurf gysefin, fel yn GLIBH 19.123 (Llywelyn Ddu ab y Pastard).

29 **pisier** Sef ‘siwg fawr’; dychanol yw ei ergyd hefyd yn englynion dychan Trahaearn Brydydd Mawr i Gasnodyn, gw. GGTD 13.96.

30 **[a]r hyd clais clawdd** Nodir *clais clawdd* ‘ditch alongside a hedge, road-side ditch’ yn GPC 489; dywedir ei fod ar lafar o hyd yn y deau. Gellid deall *rhyd* yn e. ‘ford’ yn hytrach na’r gywasgiad o *ar hyd*; yr ail a geir yn ddiamau yn ll. 69n.

34 **cam** Y mae’r ddwy ystyr ‘step’ a ‘trosedd’ yn bosibl yma, gw. GPC 396 d.g. *cam*¹, *cam*².

amhybyr Rhestrir yr ystyron ‘gwan, eiddil, musgrell, sigledig’ yn GPC 93, ond ni chofnodir enghraifft yno sy’n gynharach na gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn. Ond ar sail yr ystyr ‘gwyach’ a geir i *pybyr* yn GPC 2958 d.g. *pybyr*² gellir cynnig yr ystyr ‘anhwyfryd’. Dewis arall fyddai cymryd bod *amhybyr* ‘gwan, eiddil’ yn goleddfu *cam*.

35 **cal asgwrn** Gall mai cymharu cala’r llwynog ag asgwrn a wneir yma, neu gyfeirio at y ffaith fod gan llwynog, fel y rhan fwyaf o anifeiliaid, asgwrn yn ei gala.

36 **elydn** Gw. 11.84n.

38 **meudag** Yn GPC 2448 rhoddir yr ystyr ‘afal freuant, pen uchaf y llwnc, gan nodi enghraifft arall o’r canu dychan, sef. R 1365.21–2 *Madawc yw hwnnw meudac llwy haearn* (Ustus Llwyd).

cod gyffraith Gan fod cyfeiriad arall yn ll. 100, efallai mai math arbennig o god i ddal cyffraith (‘trwyth neu gymysgwch o gyffuriau meddygol’, GLC 727) yw hwn.

40 **rhydlyd** Gellid deall hwn yn a. ‘o liw rhwd, rhytgoch’, ond sylwer y gallai *rhydlyd* yn y cyfnod hwn olygu ‘pwrdr, aflan, budr’ yn ogystal, gw. GPC 3126–7.

41 **torogwyllt** Ar *torigen*, gw. Ifor Williams, ‘torigen, Trogog’, B xi (1940–4), 140 lle y rhoir iddo’r ystyr ‘tick’, trychfilyn sy’n sugno gwaed dyn neu anifail; gw. hefyd GGDT 13.4n. Gall *torogwyllt* (*torig(en)* + *gwyllt*) olygu naill ai ‘yn ferw gwyllt o dorogiaid’ neu ‘yn wyllt [o achos pla] o dorogiaid’. Y mae’r treigladd meddal yma yn cadarnhau mai ep. yw *Mady*n yn y gerdd hon, gw. ll. 1n.

44 **trwp** Rhoddir iddo’r ystyr *sinum* ‘powlen’ gan Dr John Davies, gan

nodi 'habet DID'. (Gwelwyd eisoes, ll. 12n, ei fod yn priodoli'r awdl hon i Ddeio ab Ieuan Du.) Ar y ffurf, gw. GPC 3627–8 d.g. *trwp*¹, *trwpa* lle y rhoddir yr ystyr 'llestr, dysgl, bowlen, ... hefyd yn *ffig*. ac yn ddifr.'; cf. GPB 8.28 *Gwersyll tripa, trwp a chyllell* (lle y'i cyfosodir eto â *tripa*).

swllt Rhaid mai ergyd goeglyd sydd iddo yma, gan mai 'trysor' yw'r ystyr arferol, gw. GPC 3364–5.

48 **amau** Fel a. 'amheus', efallai, gw. GPC 81.

51 **maib** Ffurf l. *mab*. Yr ystyr 'epil, llwdn anifail' sy'n gweddu orau, gw. GPC 2293.

rhwd Cf. *rhydlyd*, ll. 40n.

54 **marwargrud** Ai am fod lliw'r llwynog fel lliw crud llawn marwor?

55 **crwth** Yn ffigurol am '[r]ywbeth crothog neu foliog ei ffurf', gw. GPC 616.

crothlost Cyfeirir at lawnder cynffon y llwynog.

coelffrost Sef natur ymffrostgar honedig y llwynog.

cwthr enfys Gan ddeall *enfys* fel 'bwa, camedd' (gw. GPC 1215), deellir hwn yn gyfeiriad arall at gynffon y llwynog sy'n cyfateb yn burion i *tyfodd o'i din ... / ... trosol egroes*, llau. 25–6.

60 **llodrdraig** Gw. ll. 22n.

61 **ias gaethfedd** Gall *ias* fod yn eg. neu'n eb., gw. GPC 2001 (yr ystyr 'teimlad arswydus' sy'n gweddu orau). Deellir *caethfedd* yn gyfuniad o *caeth* a *meddu* yn yr ystyr 'yn meddu'n dynn', er y gallai fod yn f. ac *ias* yn wrth. iddi.

62 **amod** Anodd gwybod beth yw ergyd *amod* 'cytundeb, cyfamod, cynghrair' neu 'teler, ymrwymiad, addewid', gw. GPC 97.

63 **hirfa** Nis rhestrir yn GPC 1872, er bod y llsgrau. yn gryf o'i blaid. Ai rhywbeth hinfain ydyw a fyddai'n cyfateb i *llif coludd*?

64 **cig y ddera** Sef 'cig y Diafol' neu 'cig yr ellyll'. Ar *dera* 'Satan, y Diafol, y fall; diawl, cythraul, ysbryd drwg, diawles, ellyll', gw. GPC 931.

65 **llyma—dy gerdded** A fyddai'r bardd neu'r datgeiniad yma wedi dynwared cerddediad y llwynog?

67 **hypiaid** Deellir hwn yn ffurf l. ar *hypiad* 'ergyd', ond ni cheir y ffurf honno yn GPC 1979; fodd bynnag, cf. y f. *hypiaf*, amrywiad ar *hwpiaf* 'gwthio (i fyny), hyrddio, ergydio, taro, gyrru', *ib.* 1932.

69 **[a]r hyd** Gw. ll. 30n.

70 **Lledros marwydos y meryda** Ni restrir *lledros* na *meryda* (neu *ymeryda*) yn GPC 2137, 2438, 3775–6. Yn betrus cynigir bod *lledros*

yn gyfuniad o *lledr* ac *-os* ac iddo'r ystyr 'darnau bach o ledr'. Dewis arall fyddai gair cyfansawdd o *lled* + *rhos*. Ond erys *meryda* / *ymeryda* yn dywyll. Tybed a ddylid ei gysylltu â rhan gyntaf yr enw *Maredudd*? Gall yr enw hwnnw olygu 'arglwydd (*udd*) difrod' yn ôl L. Fleuriot, *Dictionnaire des gloses en vieux Breton* (Paris, 1964), 255. (Hoffwn ddiolch i'r Athro Emeritws Geraint Gruffydd am yr awgrym hwn.)

72 **orddwyn** Sef 'gordd' (deallir *orddwyn* yn ffurf gysefin, ond gall fod yn ffurf dreigledig *gorddwyn*, gw. GPC 1472); cf. y defnydd o *trosol* ll. 26 a *caib* ll. 107.

75 **llewaist, nis pliciaist** Yr ergyd, y mae'n debyg, yw bod y llwynog yn bwyta fel llew yn hytrach na phluo neu bigo'i fwyd yn ofalus. Hon yw'r enghraifft gynharaf o'r f. *plicio* yn GPC 2826–7.

77 **buria** Sef 'burgyn neu gelain anifail', yn ôl GPC 349, gan ychwanegu fod y ffurf yn cael ei defnyddio'n enwedig am anifail (yn enwedig dafad) sydd 'wedi ei ladd allan o amser'.

83 **arfer oerfa** Deallir *oerfa* ('lle oeraidd', &c., GPC 2625) yn ddisgrifiad o ffau'r llwynog.

esgyrnach Dymuniad y bardd yw bod y llwynog yn bwyta *esgyrnach* ('mân esgyrn di-werth' GPC 1247) yn hytrach na lladd ei baun, ll. 85.

85 **na chael paun afael** H.y. 'na chael gafael [ar] baun'.

86 **yn rhaid Adda** Sef 'ar ffurf Adda'; cyfeirio at Efa a wneir, y mae'n debyg.

87 **ysbysach** Ffurf gmhr. *ysbys*, sy'n amrywiad ar *hysbys*, GPC 1983. Y mae i'w gydio wrth *no difetha—paun*, ll. 91. Dywed y bardd fod gwaith y llwynog yn casglu chwilod a chacwn yn fwy hysbys neu adnabyddus na'i waith yn 'difetha paun'.

egroesgrud Y mae *crud* yn y gair cyfansawdd hwn yn drosiadol, y mae'n debyg, yn yr ystyr 'magwrfa', gw. *ib.* GPC 613.

89 **chwilenna** Bf. o'r eb. *chwilen*, gw. *ib.* 854, lle yr esbonnir 'yn rheolaidd yr ystyr fyddai "hel chwilod", ond mwy cymwys fyddai "hel neu chwilio megis chwilen"'. Gan fod llwynogod yn aml yn hela ac yn bwyta trychfilod o bob math, cf. *casglu cacwn*, ll. 90, gellir derbyn yr ystyr lythrennol yma.

bawcwn Sef ffurf l. *bawci* 'ci budr, dihiryn' (gw. GPC 265); am enghreifftiau eraill gw. GIG 171 (XXXIX.1, 9).

91 **dy fothon** Ni lwyddyd i gael ystyr foddhaol yma. Y mae'r llsgrau. yn gryf o blaid y ffurf hon neu'r ffurfiau tebyg *dy/du fython* / *fothon*. Tybed a ddylid cysylltu *fothon* â *both* 'bogal'?

92 Ni cheir cynghanedd yn y ll. hon fel ag y mae.

96 **Rhefrau ... a'th esmwytha** Yr ergyd yw fod bwyta rhefrau yn

bodloni'r llwynog.

99 **carddagl** Gw. ll. 27n.

cat Ceir sawl ystyr i'r ffurf, ond cymerir mai 'cath' yw'r ystyr yma (o'r S. *cat*, gw. GPC 439), cf. GMD 14.51 *Duryn cat yn lledrata*. Cf. *gwystngat* ll. 115n a *catgi*, ll. 104n.

99–100 **cerdda ... / Ymaith** Deellir *cerdda* yn ffurf 2 un.grch. a'i gymryd ynghyd ag *ymaith*.

100 **cod gyffaith** Gw. ll. 38n.

102 **crau moch wâl** Ceir cryn amrywio yn narlleniadau'r llsgrau. ar gyfer y ll. hon, ond anodd gwneud synnwyr o'r rhan fwyaf ohonynt. Nodir sawl enghraifft o'r cyfuniad *crau moch* 'twlc moch' yn GPC 582 d.g. *crau*². Ystyr yr ymadrodd cyfan yw 'gwâl [fel] twlc mochyn'.

103 **dylam, ystola enfys** Ni cheir *dylam* yn GPC 1135 ond ceir yno'r f. *dylamaf*: *dylamu* 'llamu, llemain'; deellir *dylam* felly yn e. 'llam, naid'. Ceir *llam dylam* yn D d.g. *subsultim* 'yn llanneidio'. Deellir y cymal i olygu bod y llwynog yn cyflawni llamau ar ffurf enfys. (Posibilrwydd arall fyddai darllen *dy lam*, ond rhoddai hynny'r bai crych a llyfn.) Ar *ystola*, gw. 9.75n.

104 **catgi** Sef 'ci brwydr', gw. GPC 440, ond gall hefyd fod yn gyfuniad o *cat* 'cath' + *ci*. Ar *cat*, gw. ll. 99n.

teithflys Fe'i deellir yn gyfuniad o *taith* a *blys*. Ceid gwell cynghanedd o ddarllen *teithfys* (ffurf a geir mewn rhai llsgrau.), ond ni rydd hynny gystal ystyr, er y gellid efallai gymryd bod *bys* yn cyfeirio at bawen y llwynog.

106 **cimwch** Gall fod yn gyfeiriad at liw coch y cimwch, ond ar ôl ei goginio yn unig y mae'r cimwch yn goch. Gwell dilyn GPC 482 'yn ffig. a difriol am berson crablyd a sarrug neu drwsgl o gorff', a gw. Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn HM ii, 562n369.

perfedd porfa Deellir *porfa* yma'n ffig. i gyfeirio at arfer y llwynog o fwyta neu bori ar berfeddion anifeiliaid eraill.

107 **caib** Yn drosiadol am y llwynog, cf. y defnydd o *trosol* ac *orddwyn* (llau. 26 a 107).

rhus Yma 'cyffro, ofn, dychryn', y mae'n debyg (gw. GPC 3105 d.g. *rhus*¹), ond nid amhosibl fyddai darllen *Rhys*, enw'r bardd.

panel Yr ystyr arferol yw 'darn o frethyn' (gw. GPC 2679), a dyna yw'r ystyr a roddir i IGE² 331 (ll. 13) *blew banel*, lle y mae'r gair yn cyfeirio'n ffigurol at groen blewog y llwynog. Ond nodir yn GPC mai'r ystyr yn yr achos hwn yw 'rheithgor'; os felly, gellid aralleirio *rhestra—dy banel* yn 'gwna restr o'th reithgor', sy'n ddehongliad

derbyniol.

- 109 **rhonca** Nodir dau air gwahanol yn GPC 3094–5 d.g. *rhonc*¹, *rhonca*¹ a *rhonca*². Ceir enghreifftiau o c. 1400 ymlaen d.g. *rhonca*² lle y nodir yr ystyron ‘llac, rhydd, simsan ...; mawr, helaeth, eang ...; dwfn yn y pen (am lygaid), cau, ceuol; llidus (am lygaid)’. Er nad yn amhosibl, nid yw’r ystyron hyn yn addas iawn. Ond nodir yn GPC y gall mai i *rhonc*¹, *rhonca*¹ y perthyn rhai o’r enghreifftiau, ac ymhlith yr ystyron a nodir yno ceir ‘drycsawrus, mws, hendrwm, drewllyd; brwnt’. Daw’r enghraifft gynharaf o’r ystyr hon o eiriadur Thomas Wiliems d.g. *Squalidus*, ac felly o 1604–7. Erbyn hynny yr oedd Thomas Wiliems wedi copïo’r gerdd hon i Pen 77, felly mae’n bosibl iawn mai *squalidus* oedd ei ddehongliad ef o’r enghraifft benodol hon. Derbynnir, felly, yr ystyron ‘drycsawrus, mwll’.
- 115 **gwystngat** Nodir hon yn unig enghraifft yn GPC 1790 d.g. *gwystngat* ‘cath grebachlyd’. Ar *cat*, gw. ll. 99n.
- 118 **Dy fyd mynd â defaid mân** Cf. GRhB 8 (4.12) *lleidr difwyn cig wŷn a gâr*.
- 122 **dydd a fedr** Sef ‘unrhyw ddydd y gall’, gw. Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 562.

Atodiad i

Dyma’r unig dystiolaeth i Rys Goch gael unrhyw ymwneud ag Ieuan ap Rhydderch.¹ Fodd bynnag, y mae’n amlwg fod rhannau o’r gerdd yn cylchredeg heb y rhyddiaith sy’n sôn am y ddau fardd yn ateb ei gilydd. Gan hynny, y mae’n bur debygol fod y priodoliadau yn rhai diweddarach. Nid oes llawer o ystyr i’r gerdd. Fel y dywed y rhyddiaith sydd ynghlwm wrthi, gorchest ydyw ar ffurf englyn estynedig sy’n proestio.

- 2 **diasb** ‘Gwaedd, twrw’; y mae’r ffurf yn ‘ffrwyth camrannu *diasbad* yn *diasb-* ac *-ad*’, gw. GPC 952.
- 3 **Nanhwynen** Ardal fynyddig ger Beddgelert sy’n cynnwys copa’r Wyddfa, gw. GCBM ii, 4.83n. Y ffurf ddiweddar ar yr enw yw Nantgwynant. Y mae’n amlwg mai at y nant ei hun y cyfeirir yma.
- 4 **Llyn Tegid** Sef y llyn ger y Bala.
- 7 **Belin** Ai gwas y bardd oedd hwn?

¹ Golygwyd gwaith Ieuan yn GIRh; ceir testun y gerdd hon yn *ib.* Atodiad 1.

Atodiad ii

Dyma'r unig gerdd a briodolwyd i Rys ap Dafydd ab Iorwerth.¹ Gall mai ef oedd athro Rhys Goch, ond prin iawn yw'r wybodaeth amdano.² Gall mai dryll o gerdd ydyw hon, er ei bod yn ffurfio uned ddigon taclus ynddi'i hun. Hiraethu am ryw arwr a wneir yma. A yw'r cyfeiriad at wae Lloegr (ll. 6) yn awgrymu mai Owain Glyndŵr sydd dan sylw?

- 6 **Clegyr** Sef Clegyrnant, afon yng Nghyfeiliog, gw. GHS 5.46n. Y mae angen y ffurf ddeusill er mwyn hyd y ll.

¹ Cyhoeddwyd y testun yn IGE² 361.

² Arno, gw. GSCyf 14.48–60n.

Geirfa

- a** 8.63n
a ... / a... a ... yn ogystal â ...
8.79–80
adanedd adenydd 13.8n
Adar Paradwys 6.75–6n, 10.66n
adeiniog 13.5n
adlam cartref, trigfan 11.3n
adnabod 2 *un.dyf.myn.* **adnebydd**
15.61; 1 *un.amhff.myn.*
adwaenwn 6.12; 3
un.amhff.myn. **adwaeniad** 6.9
adolwyn dymuniad, erfyniad
5.15n, 6.93
adwaeniad gw. **adnabod**
adwyth niwedd, dinistr, angau
1.61, 14.6
adwythaer dinistriol mewn rhyfel
7.92
adwythig drwg, niweidiol 11.55
addef 13.11n
addef 1 *un.amhff.myn.* **addefwn**
13.1n
ael nos gyda'r nos 16.4 (a gw. **ar**
ael)
aer¹ etifedd 2.26, 6.72n, 9.48,
10.58
aer² brwydr 11.8
aerwy amddiffyn 9.84
aerfa byddin 3.59
aesawr 3.61n
aflawen anhapus 6.8
afon 14.95n
afrifed difesur 14.81
affaith ansawdd 5.6
agor 3 *un.pres.myn.* **egyr** 5.71n
agwrdd cadarn, dewr 3.41, 12.17,
38
angau 15.15n
angddwrn 5.83n
angel 13.27n; *ll.* **engylion** 6.97n
anghraff anodd ei dal 9.17
angor 1.1n
alaf gwartheg 11.25
alarch 2.18n
Alelia 13.85n
allan 11.58n
allt 6.87n
amau 16.48n
Amen 14.124n
amer chwerw, diflas 11.35
amgarn cylch, cwmpas 2.9
amhybyr 16.34n
amnaid gw. **ar amnaid**
amod 16.62n (a gw. **dan amod**)
amwyll ynfydrwydd 13.51n
anardd heb fod yn hardd, hyll
15.6
anferth hyll, erchyll 15.25
anfod ansefydlog, digartref 2.61
anfoddol anweddaidd, anfuddiol
12.51
anfoes 13.81n
anhygyrch 15.30n
anianawl cynhenid, naturiol 8.23
anlladoer trythyll a didostur 15.20
annawn anfuddiol 16.89
annerch cyfarchiad 2.89
annod edliwiad, cywilydd 15.47
annosbarthus gwael 12.68
annwyd natur, cynneddf 7.65; *ll.*
anwydau 12.15
anrheg 2.37n
anudon 2.64n
ar 8.70n; 3 *un.b.* **arnai** 14.80; 1 *ll.*
arnam 11.74n; 3 *ll.* **arnun'** 13.76
(a gw. **ar ael**, **ar gam**, **ar redeg**)

- arab** hyfryd, llawen 9.29, 14.85
ar ael ar drothwy 14.65n
araf mwyn, tirion, pwyllog 2.93, 13.32
arall 10.4n, 11.21n
ar amnaid ar amrantiad, ar yr arwydd cyntaf 3.14
araul hyfryd, disglair 5.87, 10.39, 13.3
arch arch, llong 1.13n, 3.16n
archangel 14.56n
ardwy amddiffyn 9.27
aren digywilydd, haerllug, taer 7.73, 16.69
arfer 16.83n
arfod ergyd, trawiad, gofal, gwarchodaeth 9.9
arfol 12.7n
argae lle caeedig 13.77
ar gam anghyfiawn 7.98
arglwydd *ll.* **arglwyddi** 3.56n
arglwyddes 9.57n
ar gyfair 13.31n
ar hynt ar unwaith, yn syth 9.63
argae coed 12.21n
argymhennu *amhrs.grff.myn.*
argymhennwyd 15.57n
arial dewr 3.87, 5.7
ariangloch 6.2n
ariant 9.38n
arlwy darpariaeth, lluniaeth 14.39
armes 2.55n
ar naid ar unwaith 3.24, 8.69, 10.8, 14.111
ar nawdd 2.30n
ar redeg yn gyflym **ar ei redeg** 14.114
a'r sydd 1.34n
arwain cludo, tywys 1.17, 5.9, 6.17
arwydd arwydd, argoel, lluman, baner 10.5, 15.17n
arynaig ofn, arswyd 9.1n, 65, 16.60
asau asennau 5.86n
aseth llath 7.23n
asgwrn 16.35n
at 3 ll. **atun'** 13.24
atbor gweddillion, sbarion *ll.*
atborion 11.36n, 16.80
athro 6.22n
athrodi 3 *un.pres.dib.* **athroto** 8.102
aur 9.66n, 81n
aur dilin aur coeth 12.63
autem 13.58n
awchrudd gwaedlyd ei fin 4.26
awchwydn gwydn ei fin *b.*
awchwedn 5.47
awdl 13.80n
awen 7.56n
awen blygain 8.34n
awen gelwyddog 11.79–80
awenydd bardd 6.4, 15.31
awenyddaer 8.100n
awr nawn anterth y dydd, prynhawn 4.53
awyr 10.1n
baeddwes gwas wedi ei faeddu 16.43
bagl ffon swyddogol abad 14.41n
bainc 3.87n
balsameus balsam, balm 2.53
baner 2.1n, 4.24n
bangaw parablus 6.31
bâr 6.55n
bardd 6.77n; *ll.* **beirdd** 12.39n
barddlyw pennaeth beirdd 4.7
barddwaith barddoniaeth 10.19
barn y gallu i farnu neu feirniadu 5.38
barnu *amhrs.pres.myn.* **bernir** 7.22n
barwn 12.78n
basbeth peth salw 16.8
baslart 5.69n
batel byddin wedi ymdrefnu

- 16.108
bawai dyhiryn brwnt, cnaf 16.81
bawci *ll.* **bawcwn** 16.89n
bawdreiddlwn llwn y mae baw yn ei dreiddio 16.6
bedw 6.26n
bedd 14.33n, 15.37n
Beibl 8.88n
beichiaw 4.16n
beichlwyth llwyth beichus 15.26
beiddio meiddio *3 un.pres.myn.*
baidd 16.7
beirddlawr 4.7n
benthyg 14.25n
berw cyffro neu ysbrydoliaeth farddol; yn berwi neu'n byrlymu 6.30, 7.5(2), 13
blinlwyr 14.1n
blodeuoed 3.43n
blodeuyn 6.73n
blwng llidiog, trist *b.* **blong** 1.12
bod *3 un.amhff.myn.* **oedd** 1.48n
ytoedd 6.7n, 13.24; *3 un.grch.*
bid 7.91, 12.7, 45, 13.47, 48
bollt 9.32n; *ll.* **byllt** 3.85n
bonedd 4.1n, 14.34n
boneddigdoeth bonheddig a doeth 7.4
boreddydd 2.94n
bost 14.17n
brad 7.21n
bradwaith bradychiad, twyll 16.37
braen llygredig, pwdr 16.6, 112
bragad 4.25n
bragod frif 12.11n
braisg trwchus 12.64
brawd¹ 8.3n
brawd² barn, dedfryd *ll.* **brodiau** 7.84, 11.16
brawdwr barnwr 7.83
breichlwyf 7.69n
brenin 11.22n; *ll.* **brenhinedd** 14.19n
bresech 11.3n
breufof bol pwdr 16.95
breugern ochr pen frau 16.71
brig gwallt 11.2n, 10n (a gw.
bragod frig)
briglwyd 8.104n
briglwydaw mynd yn llwyd ei wallt At iii.5
briwgaer 4.25n
bro 2.27n, 6.97n
brochlwyd 7.69n
brodiau gw. **brawd**
bron 11.10n
bronfrig copa bryn, canghennau ar fryn 6.34
browys disglair, gwyh 9.77
browysgarw carw pybyr, arwr disglair 13.96
brwydr 5.71n, 7.1n
brwydr Gamlan 4.35n
bryd anwylyd 4.39
brydbwyll 7.21n
brynhigranc creadur bychan aflan 16.6n
brys 8.16n, 9.21
brysgyll 13.96n
Brytyniol Brytanaidd 12.16n
bual corn yfed 2.44
buan chwim 5.10
budrbais budr ei bais 16.68
budredd cnaf, dihiryn 11.38, 48
budreiddleidr lleidr aflan 16.5n
buria 16.77n
bwa 5.10n
bwbach bwgan 13.14
bwch 11.49n
bwhwman 13.33n
bwrw ... llyfr 11.93–4n
bwyall 6.63n
bwytgyn 5.51n, 55
byd byd, bywyd, buchedd 2.65n, 16.116
byd lleiaf, y 13.48n

- bydol** 14.14n
bylchgraig 2.10n
byr *b. ber* 14.40n
byrddwir cywir ei fwrdd 10.19
byriawdr taflwr 7.83
byw 7.79n
cablu 3 *un.pres.myn.* **cabl** 11.36n;
 2 *un.amhff.myn.* **cablud** 11.37
cadair 11.10n, 14.119n
cadair Ferddin 11.28n, 13.75–6n
Cadair Sidi 13.14n
cadlys beili, cwrt 1.35
cadr hardd, gwyh, cadarn 9.27,
 12.21, 13.23, 71
cadw 11.4n; 3 *un.grff.myn.* **cedwis**
 11.9, 19
cadwyn 9.73n
cae tlws, talaith, garlant 7.60, 13.62
cael 16.85n; 2 *un.pres.myn.* **cai**
 8.103, 16.100; *amhrs.pres.myn.*
cair 5.22, 26, 8.27, 13.26, 14.47;
 2 *un.amhff.myn.* **caud** 8.11n;
 3 *un.grff.myn.* **cafas** 1.61, 11.81,
 At.ii.7
caer 2.23n
caerfwrdd ?bwrdd uchel 3.19n
caeriwrch iwrch *ll. ceiryrch*
 12.35n
caeth caeth; caethwas, taeg
 13.67n; *ll. caith* 4.11n, 13.81n
caethfedd 16.61n
caib 16.107n
cail praidd *ll. ceiliau* 11.11
cain gwyh, hardd 1.3, 18,
 4.30, 5.25, 6.30, 7.94, 8.33, 9.35,
 14.55, At.ii.7
cainc 12.9n, 71
cal 16.35n
calch lasar 2.83n
caledwaith brwydr galed 13.87
callestr 5.59, 13.28n, 16.13n
cam 16.34n
camp gorchest *ll. campau* 2.20n,
 12.15n
cân *ll. canuau* 6.30n, 9.31n
caniad 6.50n
canllaw 2.111n
canllef 6.13n
cannoch cant o ocheneidiau
 16.102
cannwyll 9.60n
cannwyr plaen saer 6.82
canol-llif 5.70n
canolrudd a rhigol goch ynddo
 3.10
canon 7.44n
cant¹ 9.37n
cant² gw. **canu**
canu 3 *un.grff.myn.* **cant** 11.59
capel 2.48n
câr perthynas, cyfaill 4.41n, 12.2;
ll. ceraint 15.49n
carddagl 16.27n, 99
caedig 4.41n
carreg 13.20n
carsiwn 5.74n
carth 15.38n
caru 2 *ll.amhff.myn.* **cerym** 3.9
carw arwr *ll. ceirw* 3.71n, 94n
carwr cyfaill 5.26
cas gelyn(ion) 13.89
casglu 3 *un.pres.myn.* **casgl**
 16.21n
caswydn un cas agwydn 16.36
cat 16.99n
catgi 16.104n
catholig cywir 8.69
caul cywair llaeth *ll. ceuliau*
 16.35
cawdd 9.5n
cawr 3.62n
ced anrheg, rhodd, bendith 1.35,
 4.48, 10.89, 11.21, 14.47,
ceden blewiach 15.30
ceidwad 6.87n
ceillwm llwm ei geilliau 16.79
ceimiad gwron, arwr 14.8n, 103
ceindarf gwyh ei gynnwrf 5.17

- ceinfam** 7.32n
ceinfawl moliant gwyh 10.28
ceinioca cardota ceiniogau 12.55
ceinllun 2.113n
ceinllyw 7.75n
ceintiach cweryl, grwnnach
 11.98n
ceiryrrch gw. **caeriwrch**
ceiswer yn chwilio am wêr 16.36,
 37
celffaint 2.69n
celffeiniaw crino, gwywo 12.6
celum 13.57n
cenau disgynnydd 12.86
cenedl 3.86n, 9.11n
cenfigendwyll â thwyll
 cenfigennus 12.82
cennad 3.63n
cerdd 7.3n, 57n, 8.100n, 9.15n
 (gw. **cerdd dafawd**, **cerdd**
delyn)
cerdd dafawd 11.17
cerdd delyn 12.48n
cerddawr gw. **cerddor**
cerdded cerdded; cerddediad
 16.65n; 3 *un.grff.myn.*
cerddawdd 16.27n; 2 *un.grch.*
cerdda 16.99n
cerddor bardd 14.55n **cerddawr**
 8.11, 9.44n
cethern ciwed, criw o rai drwg
 16.72
ceudawd meddwl, calon 8.22
ci ll. cŵn 16.108n
cica casglu cig 16.90
cig 13.35n, 16.64n
cigfrath yn brathu cig 16.51
cimwch person sarrug neu drwsgl
 16.106n, 112, 113
cinnyn cerpyn 16.105
cipiog gwancus 16.73
ciwdod cenedl 13.34
claer disglair 2.88, 4.26, 12.35
claergoel disglair ei
 ymddiriedaeth 10.16
claerlamp â lamp hardd 14.40
clais clawdd 16.30n
clap 11.36n
clas pobl o'r un wlad 13.64
clau eglur, clir, buan 1.37, 7.27,
 85, 8.47, 12.29, 13.69
clawdd gw. **clais clawdd**
cledd cleddyf 1.51n, 8.105n
cleiriach henwr musgrell 16.87
clêr beirdd 2.51, 11.36n
clerwr 12.43n
clo 9.31n
cloch 9.69n
clochdy 1.14n
clod clod, bri, moliant; clodforus
 2.88n, 7.27, 8.106n, 9.69n, 87n,
 12.29
cloria pen-ôl, rhefr 16.87
clos¹ lle wedi ei amgáu, llys 2.116,
 13.63
clos² trwsus, llodrau 9.81n
clywed 3 *un.pres.myn.* **clyw** 2.51;
 3 *un.grff.myn.* **clybu** 14.70
cnaf 11.2n
cnawd 14.111n
cnith trawiad ysgafn 9.52
cnoëdig 11.2n
cob 15.8n
cod 16.38n, 100n
coed 6.80n, 15.30n
coegfrwd diffaith a llidiog 16.51
coel 1.3n, 2.113n
coelfain rhodd 11.11
coelffrost 16.55n
coethrwyll 7.29n
coethrym gwyh a grymus 7.40
cof 7.37n, 9.15n, 13.80n
cofiawdr 5.50n
cog cogydd 16.32, 56
coludd perfedd 16.31
colli 3 *un.grff.myn.* **colles** 10.5
compod cwmpas 13.4
copr 11.97n

côr cangell 1.28n, 3.74n, 10.35,
14.60

corniog twredog, tyrog 2.70

cost cost, traul 2.42n, 6.22

costog ci ffyrnig 16.73

cotarmur 3.72n, 12.20n

crach cramen *ll.* **creichion** 11.97n

craidd 4.49n

craig 8.2n

crair gwrthrych crefyddol
amddiffynnol, un annwyl 4.72,
7.97n

crau moch 16.102n

cred 2.21n

credusair gair yn peri cred, gair
yn credu 4.71

cregleiswaedd a'i waedd yn gryg
ei lais 16.49

creichion gw. **crach**

creigradd yn camu ar greigiau
16.14

crepach crebachlyd, gwywedig
16.84

creulyd gwaedlyd 4.51

cri 9.75n

criaw 8.106n

croes 14.35n, 40n

croesgeirch 12.3n

cropa stumog, ceudod 16.84

crothlost 16.55n

croywdeg clir a pherffaith 13.60n

croywffawd ffyniant eglur 12.34

crwn cydnerth 1.6

crwst 4.49n

crwth 16.55n

crwynthwant (un) chwantus am
grwyn 16.101

crygio gwneud yn gryg 3
un.grff.myn. **crygawdd** 16.28

crygrym cryg a grymus 16.14

cryno gwych, buddiol 3.98, 11.30n

crys 14.37n

cu hoff, gwerthfawr; un hoff 5.23,

70, 15.49n

cuddio 15.21n; 3 *un.pres.myn.*

cudd 1.28n

culffriw cul ei ben 16.55

cun arglwydd; aruchel, gwych
1.36, 3.55, 61n, 8.64, 12.57,
13.23, 75

cur 13.64n

cwmpas cwmpas, cylchdaith
13.43, 14.62n (a gw. **o gwmpas**)

cwncwerwr 2.6n

cwnsel cyngor 8.46

cwpl pennill, cwpled 6.84

cwpwrdd 2.48n

cwr *ll.* **cyrrau** 7.88n

cwrelbais arfwisg o liw coch 9.4n

cwrt 13.22n

cwthr pen ôl, tin 16.36, 55n

cwyn 3.16n

cwyr 2.50n

cyd ?cyhyd 12.20n

cyfa cyfan, llawn 5.50

cyfanheddrwydd diddanwch,
difyrrwch 2.41

cyfarwydd 9.19n

cyfarwyddgall celfydd a chall
3.32

cyfeirio 2 *un.grch.* **cyfeiria** 9.19n

cyfiawn 8.17n

cyfing 5.1n

cyflwyd llwydaidd 15.7

cyfodi 13.80n

cyfraith 6.77n

cyfrwysffagl ffagl gyfrwys 16.99

cyfrysedd ymryson, anghydfod 7.99

cyfryw 2.42n

cyffaith 16.38n, 100n

cyngain gwych, prydferth 14.56

cyhoeddiad y weithred o
gyhoeddi 3.49

cylch 4.24n

cymell 7.72n

cymraw 11.73n

- cymredig** 11.54n
cymrodedd cyflafaredd, cymod 8.106
cymwyll crybwyll, canmol 2.57
cynfyl 7.32n
cynffonfflam a'i gynffon fel fflam 16.81
cynhwynol wrth natur, greddfoll 16.46
cynllaith 2.113n
cynllyfan tennyn ci *ll.*
cynllyfanau 5.58
cynnal cynhaliaeth 11.85
cynnil medrus, hyfedr 5.32
cyn no 3.94n
cyntun hun fer, byrgwsg 13.67
cyseingras siarp ei gytgord 12.32
cysgu 13.40n; 3 *un.pres.myn.*
cwsg 12.78n; 3 *un.grff.myn.*
cysgodd 13.35n
cyson 11.32n
cysongroyw cyson a chroyw 12.32
cystal 6.22n
cytgam cellwair, chwarae; cellweirus, chwareus 10.3, 16.103
cythrudd 4.11n
cywair 11.79n
cyweithas hynaws 10.62
cywionflys chwantus am gywion 16.104
cywreingoeth cywrain a choeth 6.81
cywirschwaen cywir ei gamp 5.61
cywyddiaeth barddoniaeth 10.71
chwaith chwaeth 13.87, 16.18n
chwarae â siswrn 12.25n
chweg melys 13.87
chwerwdop top, copa neu flaen mwng chwerw 16.12
chwilcenna chwilota, chwilenna 16.102
chwilenna 16.89n
chwilestlwr heliwr chwilod 16.15
chwith anffodus 16.17
chwyl hynt, cwrs 16.16, 89
chwys 11.49n, 16.13n
da 3.91n, 8.78n, 9.25n, 83n
daearawl 2.110
daeargyrch yn cyrchu'r ddaear 16.113
daearu *amhrs.grff.myn.*
daearwyd 6.3
dafad ll. defaid 16.118n
dail 13.101n
dal 3 *un.grff.myn.* **daliodd** 5.15n
dan 2.95n, 13.102n
dan amod ar amod 11.92
dangos
dâr 2.12n
darllain darllen 12.33n
darogan cerdd frud *ll.* **daroganau** 2.63
dau 1.1n, 12.26n (gw. hefyd **pob ddau**)
dawnged anrheg, rhodd; graslon 4.29
dawngoeth gwych ei rodd 11.67
dawns 2.40n
degddysg deg dysg 7.4
deglofft 9.22n
deigr dagrau 2.14, 3.103, 6.51, 56n
deisyf 1.5n
delffu 1.63n
delw 2.81n, 6.86n, 14.44n
delltwr 9.49n
deongl dehongli 7.64
dera, y ddera 16.64n
derw 1.2n
derwen 3.91n
deucan mlynedd 8.43–6n
deuchwimp 9.50n
deuddeg 14.61n
deufab 13.1n, 97
deulwyr yn gyflawn ddwywaith drosodd 6.39
deunawosgl 5.13n

- deunydd** 13.101n
deurudd gruddiau, wyneb 8.5
deuryw dau fath 6.21
dewin 11.13n
dewis *ll.* **dewisoedd** 1.5n
dewrddrud dewr a gwrol 5.43, 8.1
dewrgyrch dewr ei gyrch, gwrol ei ymosod 4.12
diadwyth heb niwed 14.76
diagr hyfryd 10.12
diarhebawl hynod, enwog 5.21
diasb At.i.2n
diau 8.83n
diblyg diwyo 10.55
didawl di-dor, dibrin, cyson, hael 4.8, 9.39
didol neilltuol 14.43
diddos 7.79n
dieithr anarferol 8.24
dien eglur, teg, hardd 4.62n, 8.20, 9.45
difagl dirwystr 8.91n, 10.43
difalch heb fod yn drahaus 11.22; *ll.* **difeilch** 12.61
difenwi dilorni *amhrs.prs.myn.*
difenwir 12.69
diferf heb fod yn ferfaidd neu ddiflas 13.25
difiogfant ffyrnig ei safn 16.18
difreg 5.71n
diffaeloed cyfarfod sicr 6.79, 12.22
digarchar dilyffethair 1.43
digasedd casineb, gelyniaeth 11.38
digawn 9.25n
digloes poen chwerw 3.27
digonawl gwych, gwrol, iach 13.83
digrifddoeth 10.10n
digymysg trefnus 7.43
dilin 12.31n (a gw. **aur dilin**)
dilis cywir 4.44
dillyn peth tlws 9.10
dinag diamau, hael 3.47
diochr union, diwyo 7.58
dioer diau, yn sicr 15.19n, 22n
diofnog di-ofn 4.28
dioganair heb ddrygair iddo 10.51
diorwag diofer, sylweddol 8.12
dirfawr difesur 14.20n
diriaid drwg, anfad 7.100
diryfedd naturiol 6.57
diryfyg heb ryfyg neu draha 13.102
dis 4.43n, 12.26n
disalwgoeth gwych a choeth 3.53
disiomgar digyffro, tawel 10.29
distal disylw, di-nod 11.85
disyml 8.39
diwg siriol 10.49
diwladaidd bonheddig 13.24
diwydrwydd ffyddlondeb, ymlyniad, ymroddiad 7.95
diŵyr diwyo 6.82
dliif gwead 5.70
doctor 10.2n; *ll.* **doctoriaid** 14.2n
dodrefn 11.65n
doethran doeth ei ran 12.75
dof 11.20n
dofraff 14.38n
dolef gwaedd 3.17, 6.39
dolfort 12.60n
draig draig, pennaeth 2.27n, 3.82n, 9.1n, 10.72n, 14.85, 118; *ll.* **dreigiau** 7.28n, 11.40n
draig goch 9.14n, 69, 84
draw 6.25n
dropach mân ddropiau 16.84
drud rhyfygus, ffôl, dewr 5.3, 85, 7.24, 8.32, 11.38, 56n, 13.65, 14.85
drudlafn dewr ei lafn 13.73
drum esgair, llethr 4.81
drych 9.66n
drygfoes anghwrteisi 7.74
du'r efail 13.102n
dur 5.50n
durfing llym 3.59

- durwaith** 11.7n
durwayw gwaywffon o ddur
 10.22
dweud 2 *un.grff.myn.* **doedaist**
 8.83n; 3 *un.grff.myn.* **dywawd**
 13.56n; 2 *ll.grff.myn.*
dywedasoeh 8.37n
dwfr 14.101n
dwrn 12.26n
dwyaies mynwes, calon 16.68
dwyen 15.17n
dwyfawl 3.76n
dwyffrith dwy ffridd (sef tir
 mynyddig) 5.4
dwilyw 1.23n
dwyn dwyn, cludo, olrhain
 (achau) 2.95n, 4.1n, 9.87n,
 12.11n; 2 *un.grff.myn.* **dugost**
 7.99; 3 *un.grff.myn.* **dug** 1.69n,
 8.68
dwys trwm a chyson 13.16
dyall dehongli, ?peri i ddeall
 13.100
dydd 6.36n, 14.31n, 16.122n
dyfod 3 *un.grff.myn.* **doeth** 6.36n,
 8.50, 91, 10.18; *amhrs.pres.dib.*
deler 2.29n; 2 *un.amhff.dib.*
delud 8.9; 2 *un.grch.* **dyred**
 7.100n, 8.2n;
dyfyn gwŷs, galwad 3.57
dygnwriaeth ing, gloes, gofid
 10.11
dylam 16.103n
dyn 13.6n, 14.13n
dyn o Gred 3.97
dyrras di-ras, anrasol, drwg 16.43
dyrys cymhleth, gwyllt 7.27,
 16.11
dysg 2.95n, 11.68n
dywawd gw. **dywedyd**
dywedyd 3 *un.grff.myn.* **dywawd**
 13.56
e 8.64n
ebwch ochenaid, tuchan 11.49
edryd ach, tras 4.21
edwyn 5.33n
efail gw. **du'r efail**
efô 3.13n
efyddwallt a'i wallt o liw efydd
 16.43
eglurgamp eglur ei orchest 10.16
eglurlwyth eglur ei lwyth 14.41
egr awchus, chwantus 16.29
egroes S. 'rosehips' 16.26
egroesffagl ffagl o liw egroes neu
 ogfaen 16.27
egroesgrud 16.87n
egyr gw. **agor**
engylion gw. **angel**
Eingl 4.16n
eildydd eilddydd 15.3n
eilliedydd un sy'n eillio 15.2
eillio 1 *un.pres.dib.* **eilliwyf** 15.13
einiawn 5.32n
einioes 13.11n
einym eiddom 10.38
eirias post, piler 8.38
eiriasgrach tanllyd a chramennog
 16.111
eiriastan tanllwyth eirias,
 coelcerth 9.32
eirionyn ymyl (darn o frethyn)
 9.71
eithr ar wahân 6.22
elfydd byd 3.1
elydn pres, efydd 11.84n, 16.36 (a
 gw. **marchog elydn**)
elidr 9.15n
ellyn offeryn i eillio, rasel 15.4n
emyn 11.35n, 39n
enaid enaid, cyfaill, anwylyd 6.90,
 7.68, 8.10, 87, 10.46, 64, 69,
 14.108, 112
enfys 9.78n, 16.103n
ennyd 13.68n
enw 11.23n, 13.2n **henw** 8.61, 79,
 9.61, 12.69, 88
er 1 *ll.* **erof** 8.21, 9.16

- erbyn** derbyn 3 *ll.pres.myn.*
erbyniant 3.81n
erchi 3 *un.grff.myn.* **erchis**
 14.109n
erchwyn ymyl gwely 13.23
erddrym gwych 5.43, 10.9, 14.18,
 49
eres rhyfedd, rhyfeddol 10.5,
 14.89
erfai gwych 1.53, 6.7
ergyd 13.63n
eiriawl fel eira, llawn eira 2.58,
 13.18
erlyn efelychu 3.103
ertra trai eithaf 2.79
eryl helpa, ymlid 11.93
eryr 2.1n
esgob 15.8n
esgor bwrw allan 16.35
esgud 5.90n
esgyrnach 16.83n
esgyrnfriw yn torri esgyrn 5.91
esmwythau 3 *un.pres.myn.*
esmwytha 16.96n
estyn 9.77n
et 13.57n
etgyllaeth galar, tristwch, hiraeth
 Atii.1
ethrod athrod, enllib 7.15
eurddellt 8.71n
eurddrud euraid a drud 14.49
eurgof gwych ei gof 7.33
eurgrair 6.89n
eurgrys 11.66n
eurlen euraid ei len 14.39
eurnaid ffawd ddisglair 7.18
eurner arglwydd gwych 9.53
euro anrhydeddu, cyfoethogi ag
 aur 9.54n; 3 *un.amhff.myn.* **eurai**
 1.21; 1 *un.amhff.dib.* **eurwn**
 5.11; *amhrs.amhff.dib.* **eurid**
 8.21, 12.85
eursiamp 8.95n
euryn tlws, rhywbeth gwerthfawr
 13.69
eustus 3.4n, 12, 88
ewig 13.36n
ewinrhew 5.64n
ewyngant cylch o ewyn 2.87
ewyngnu 15.10n
ewyngrys 2.99n
fenswn 5.24n
fry 2.27n
ffaig wyneb, gwedd 13.46
ffair¹ 12.30n
ffair² cynnwrf, heldrin, ysgarmes
 13.26n
ffawd 5.33n
fferf gw. **ffyrf**
ffelaig arglwydd 1.32, 6.79, 13.66,
 14.86
ffest gwledd 14.18
ffigur 11.57n
fflangledd fflamllyd ei glyddeyf
 12.4
fflamlafn â llafn yn fflamio 3.100
fflaw 7.57n
ffleimlwyd 3.100n
ffloc praidd 12.55
ffloyw disglair 9.74
fflwch disglair, hael, bywiog 9.52;
b. **ffloch** 9.73n
fflwr d'lis 6.74n
ffol 2.62n
ffraeth parod 1.39
ffrawdgrych angerdd chwyrn
 13.45
ffriw wyneb, gwedd,
 ymddangosiad 1.16n, 2.85n,
 3.2n, 14.42
ffriwdeg hardd 6.90
ffrwyth ffyniant, nerth 14.42
ffrydgraig ffrwd o graig, ffynnon
 13.45
ffumer simnai, corn mwg 2.52
ffunen rhwymyn 9.72
ffydd 5.33n, 11.58n

- ffynhonnwys** [bwrlwm] ffynnon
13.16
- ffyrf** cadarn, nerthol 8.84, 11.60n;
b. fferf 13.26
- gadu** gadael 14.111n, 15.10;
3 un.pres.myn. gad 7.30
- gafael** 16.85n
- gafr** *ll. geifr* 11.4n
- gair** 8.11n, 17n, 9.11n
- galarlas** gwelw o alar 6.53
- galarwisg** gwisg galar 10.13
- galw** 14.73n
- gallu** *amhrs.pres.dib.* **galler**
13.29; *amhrs.amhff.dib.* **gellid**
10.3n
- gar** ger 7.36
- garw** 12.12n
- garwgro** brathiad garw 16.52
- garwgoel** 13.63n
- garwgur** garw ei loes 4.42
- garwlwyth** 15.39n
- gau** celwyddog, anghywir;
celwydd 8.17n, 11.69, 13.92
- gawr** 6.43n
- geirdeg** teg ei air 9.27
- gem** 7.98n
- genau** ceg 13.91
- geuog** celwyddog 11.80
- glai** 2.2n; *ll. gleifiâu* 9.52
- glain** 13.18n
- glân** 9.31n
- glas** 15.53n (a gw. **glaw glas**)
- glasgron** 11.10n
- glaw glas** 13.44n
- gleifiawdr** milwr yn ymladd â
glai neu waywffon 5.86
- gleifrudd** gwaedlyd ei waywffon
2.76
- glendyd** 3.95n, 7.51n
- glewlwyth** dewr ei linach 2.26
- gloes** 15.15n
- gloyw** 9.81n
- gloywbab** arglwydd disglair
10.15n
- gloywbwynt** pwynt disglair,
iechyd gloyw 2.108
- gloywddart** â (blaen) gwaywffon
loyw 11.61
- gloywfab** mab disglair 13.89n
- gloywgamp** disglair ei orchest
9.55
- gloywglod** â chlod disglair 10.57
- gloywlas** o liw glas disglair 1.51n
- gloywsalm** cân wych 1.37
- gloywserch** disglair ei serch 4.56
- glud** gw. **yn lud**
- glwys** hyfryd 8.53
- glwyswallt** hardd ei frig deiliog
6.87
- gnawd** 13.88
- gobr** gwobr, tâl 8.66
- gobraff** cryf, cadarn 8.67
- gobrwy** gwobr 13.37
- godlawd** truenus 16.40
- goddaith** tân mawr, coelcerth
9.43, 12.5, 16.99
- goddeithliw** o liw coelcerth 9.78
- goddeithryw** fflamlyd ei natur
12.75
- gofal** baich meddwl, gofid 6.15
- gofrwyg** ffôl 11.48
- gofwy** ymweliad 10.59
- gofyn** 13.31n; *3 un.pres.myn.*
gofyn 12.67n
- gogainc** cangen, etifedd 3.41
- gogandaith** taith ddychanol 12.82
- goganu** dychanu *2 un.pres.dib.*
goganud 11.51; *3 un.pres.dib.*
gogano 7.87
- gogyfoed** 6.14n
- gohir** gohriad 6.95
- golau** hygryw 9.2
- gold** 9.73n
- golesg** llesg, araf 11.84
- goleubwynt** moment neu gyflwr
gwyh 14.70
- goleuni** 8.72n, 10.6n
- gorchymyn** 11.56n

- goreuchwimp** 6.18n
goreufail llestr orau 9.3
goreulwfr 13.15n
goreuraid gwyech iawn, wedi ei wisgo ag aur 2.80, 3.44
goreuro addurno, rhagori ar 1.50
goreuserch 15.41n
gorfod 3 *un.grff.myn.* **gorfu** 3.19n
gorffen diwedd 13.54
gorlludd rhwystr 4.37
goroff hoff iawn, campus, gwyech 3.9, 12.74
goror terfyn 11.32
gorseddog 2.4
goruwchwawd aruchel ei awen 6.18
gorwagrwydd oferedd 8.31
gorwydd ceffyl, march 3.44
gosgedd ymddangosiad 12.14
gosod 8.28n
gosteg tawelwch, cerdd 3.88, 12.29
gostwng 2.73n 3 *un.pres.myn.*
gostwng 3.4n
gra ffwr llwyd, ffwr 12.64, 15.54
grae defnydd neu ffwr llwyd 12.3
graen aruthr, rhyfedd, erchyll 1.24, 2.21n
graenfedd 6.57n
gras bendith, ffafr noddwr neu bendefig 9.44n, 14.40n
grawn 6.17n
greddf 4.37n
gresyn gresynus, alaethus 15.41
gris step 12.26n
grisant o risial, grisialaidd 2.112
gro 7.88n
grolawr â llawr o ro 6.44
grym grym, cadernid; grymus 8.59n, 10.10n, 15.54n
gwaed gwaed, bonedd 10.56n
gwag 11.84n
gwahodd 14.71n
gwaisg gwyech, disglair 10.41, 12.64, 14.42
gwaith gwaith, darpariaeth, cynnyrch, llun, ffurf, delw 2.38, 6.29, 7.76, 12.33n, 13.47n, 15.60n
gwâl 16.102n
gwaladr arglwydd, arweinydd 2.104, 3.40n, 66, 4.10n, 9.28, 14.36
gwalch arwr 8.19
gwar *ll.* **gwarrau** 2.74n
gwarae 12.21n
gwarae dawns 2.40n
gwarchae caethiwo, carcharu; rhwystr 2.72n, 14.123
gwareddog 2.91n
gwargrwth crwm ei war 16.54
gwart gwarchodaeth, amddiffynnwr 8.46
gwas 11.37n
gward cerdd foliant, barddoniaeth fawl 2.39, 3.34, 5.26, 6.20, 31, 66, 7.40, 62, 8.22, 64, 9.42, 11.18, 87, 12.33n, 81, 89, 15.45
gwardydd 8.83n
grawl wal, mur; goleuni, disgleirdeb 2.35n, 113n
gwawr gwawr, arglwydd (ac am Dduw), arglwyddes 1.30, 2.92n, 96, 3.28, 7.31, 9.55n, 10.14, 14.35, 71, At.ii.7
gwawr ddydd 2.82n
gwaywdan tanllyd ei waywffon 12.2
gwaywlym â gwaywffon lem 2.103, 3.80, 4.2
gwaywrudd gwaedlyd ei waywffon 4.9
gwead *ll.* **gwedaui** 6.20n
gweddu 3 *un.amhff.myn.* **gweddai** 9.83n
gwedy 2.11n, 3.51
gweled 3 *un.pres.myn.* **gwyl** 7.31, 10.53, 11.94; *amhrs.pres.myn.*

- gwelir** 2.31n; *1 un.grff.myn.*
gwelais 1.4n; *3 un.grff.myn.*
gweles 14.45, 51, 53, 55, 61, 65, 69, 87, 89, 93; *2 un.pres.dib.*
gwelych 9.21
gwenedigion 1.69n
gwenfalch disglair ac urddasol 2.66
gwenfun 6.41n
gwengaer cael ddisglair 2.87
gwengron cron a disglair 2.99
gwenithgerdd 15.45n
gwêr braster, saim 16.22, 97
gwerdawdd braster toddedig 16.29
gweryd pridd, tir 15.35
gwerydd pur, dihalog; morwyn 12.70n; *ll. gweryddon* 14.90
gwestfiledd (amrywiad ar *gwystfiledd*) bwystfiloedd, anifeiliaid gwyllt 11.12n, 15, 33
gwin 1.69n, 2.11n, 34n, 8.12n
gwinau 1.66n, 3.84
gwinfyd 2.66n
